CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

# COFNODION

o weithrediadau'r
Pwyllgorau a'r Cyngor
am y tymor

22 Mai 2007 - 31 Gorffennaf 2007

**Y gyfrol cofnodion**

Cofnodion y Pwyllgor a'r Is-bwyllgor canlynol :-


| | | | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc | 26 Ebrill 2007 | …….. | 14 - 22 |
| Cabinet | 22 Mai 2007 | …….. | 23 - 29 |
| Panel Penodiadau Arbennig | 22 Mai 2007 | …….. | 30 - 31 |
| Panel Penodiadau Arbennig | 23 Mai 2007 | …….. | 32 |
| Pwyllgor Cynllunio | 23 Mai 2007 | …….. | 33 - 37 |
| Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes | 24 Mai 2007 | …….. | 38 - 43 |
| Is - Bwyllgor Trwyddedu | 25 Mai 2007 | …….. | 44 - 48 |
| Pwyllgor Trwyddedu | 30 Mai 2007 | …….. | 49 - 52 |
| Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol | 31 Mai 2007 | …….. | 53 - 57 |
| Pwyllgor Archwilio Adnoddau | 6 Mehefin 2007 | …..... | 58 - 64 |
| Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol | 12 Mehefin 2007 | …….. | 65 - 69 |
| Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai | 14 Mehefin 2007 | …….. | 70 - 74 |
| Pwyllgor Cynllunio | 20 Mehefin 2007 | …….. | 75 - 80 |
| Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes | 21 Mehefin 2007 | …….. | 81 - 86 |
| Cabinet | 26 Mehefin 2007 | …….. | 87 - 97 |
| * Cyngor Sir | 27 Mehefin 2007 | …….. | 98 - 107 |
| Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol | 28 Mehefin 2007 | …….. | 108 - 113 |
| Pwyllgor Safonau | 29 Mehefin 2007 | …….. | 114 - 117 |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol | 3 Gorffennaf 2007 | …….. | 118 - 123 |
| Cyd Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | 3 Gorffennaf 2007 | …….. | 124 - 126 |
| Pwyllgor Archwilio Adnoddau | 5 Gorffennaf 2007 | …….. | 127 - 130 |
| Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol | 10 Gorffennaf 2007 | …….. | 131 - 135 |
| Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai | 12 Gorffennaf 2007 | …….. | 136 - 139 |
| Cyd Bwyllgor Ymgynghorol Lleol (arbennig ) | 16 Gorffennaf 2007 | …….. | 140 - 143 |
| Cabinet | 17 Gorffennaf 2007 | …….. | 144 - 150 |
| Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes | 18 Gorffennaf 2007 | …….. | 151 - 156 |
| Pwyllgor Corfforaethol Iechyd, Diogelwch a Lles | 19 Gorffennaf 2007 | …….. | 157 - 161 |
| Cyngor Sir | 31 Gorffennaf 2007 | …….. | 162 - 170 |


*cofnodion Cyngor Sir (27/06/07) a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 31 Gorffennaf 2007.

**Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc**

**Cofnodion**
**Dydd Iau 26 Ebrill 2007, 9.00 am – 2.30 pm**
**Canolfan Henllan**

**YN BRESENNOL**

| | |
|---|---|
| Cerian Ellis | Menter Iaith Sir Ddinbych |
| Carys Gwyn | Cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol , MYM |
| Mike German | Aelod Cabinet, Cyngor Sir Ddinbych |
| Merion Hughes | Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych |
| Gwion Jones | Tîm Cefnogaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc |
| Ann Owens | Ymddiriedolaeth CIG Conwy a Dinbych |
| Dewi Owens | Aelod Cabinet, Cyngor Sir Ddinbych |
| Sarah Horrocks | Bwrdd Gwarchod Plant Lleol Ymddiriedolaeth CIG Conwy a Dinbych |
| Roger Ellerton | Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Sir Ddinbych |
| Beth Taylor | Cyngor Cymru, Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuenctid |
| Julia Hughes | Coleg Llandrillo, Dinbych |
| Dave Chow | Heddlu Gogledd Cymru |
| Jean Williams | Cynrychiolydd Gyrfa Cymru |
| Nicola Francis | Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant, Cyngor Sir Ddinbych |
| Paul Quirk | Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ddinbych |
| Melanie Davies | Tîm Cefnogaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc |
| Neil Taylor | Cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol, Theatr Fach Y Rhyl |
| Eirwen Godden | Cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol, CGGSDd |
| Rick Abbas | Cynrychiolydd Rhwydwaith Gwrthdlodi, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ddinbych |
| Neil Ayling | Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ddinbych |
| Gloria Burgess | Tîm Cefnogaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc |
| John Reaney | Cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol, Weston Spirit |
| Falmai Evans | Cynrychiolydd Darparwyr Gofal Plant, Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor Sir Ddinbych |
| Jonathan White | Diogelwch Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych |
| Sally Ellis | Cyngor Sir Ddinbych, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cadeirydd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych |
| Huw Griffiths | Cyngor Sir Ddinbych, Dysgu Gydol Oes, Cadeirydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc |
| Martin Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Alyn Edwards | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Suzanne Bradley | Cynrychiolydd Cefnogaeth y Sector Gwirfoddol CGGSDd |
| Will Morecombe | Cynrychiolydd Chwarae, Hamdden a Chyfoethogiad, Cymdeithas Maes Chwarae Antur Y Rhyl |
| Diane Hesketh | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| John Gambles | Cynrychiolydd y Rhwydwaith 14 – 19<br>Adran Addysg, Cyngor Sir Ddinbych |
| Reena Cartmel | Ymddiriedolaeth CIG Conwy a Dinbych |
| Emma Rathbone | Tîm Troseddu Ieuenctid |
| Melanie Baugh | Tîm Cefnogaeth, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc |

**YMDDIHEURIADAU**

| | |
|---|---|
| Celia Jones | Coleg Llandrillo |
| Michael Duke | Adran Addysg, Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Thompson | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd<br>Ysgol Sirol Gynradd Eglwys Crist |

## Partneriaeth Pobl Ifanc

**24 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Huw Griffiths a chyflwynodd yr ymddiheuriadau. Atgoffodd yr aelodau y bydd Estyn yn dychwelyd yn Rhagfyr 2007 a bod gwaith i'w gwblhau cyn yr ymweliad hwnnw.

**25 COFNODION BLAENOROL A MATERION YN CODI O GYFARFOD 15.01.07**

Derbyniwyd cofnodion 15 Ionawr 2007 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**26 Y STRATEGAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL**

Cafwyd cyflwyniad am y Strategaeth Ieuenctid Cenedlaethol [copïau ar gael os gwneir cais] gan Roger Ellerton, a chynigiodd y dylai'r camau nesaf ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn Sir Ddinbych fod fel a ganlyn:

- Sefydlu gweithgor o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Mapio'r sefyllfa gyfredol
- Creu cynllun gweithredu a monitro ei weithrediad

Gofynnodd a fyddai modd i Weithgor Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, sef y Gweithgor Ymestyn Hawliant dderbyn cyfrifoldeb am gydlynu'r ymarferiad mapio ac adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Pryder ynghylch y ffaith na fyddai gweithwyr ieuenctid yn y sector gwirfoddol sydd â phrofiad yn cael eu hystyried am swyddi yn y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Pryder ynghylch y ffaith y gallai'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid arwain at ostyngiad yn y cyllid ar gyfer y sector gwirfoddol. Gellir rhoi sylw i hyn fel rhan o'r ymarferiad mapio
- Mae gostyngiad yn nifer y bobl ifanc ac fe all partneriaid fod yn cystadlu am fynediad i'r un bobl ifanc.
- Pryder oherwydd na fydd yr hyn a awgrymir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Strategaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn gweddu i'r sectorau annibynnol a gwirfoddol
- Nid oes unrhyw sôn am gynnwys pobl ifanc gydag anableddau yn y Gwasanaeth Ieuenctid
- Mae cynhwysedd yn cael ei ymchwilio a bydd hynny'n cael ei danlinellu fel rhan o ymateb Sir Ddinbych i'r ymgynghoriad
- Gellir meintioli a mapio hyn trwy gyfrwng y Gofrestr Anableddau er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysol ac er mwyn sicrhau bod yr holl bobl ifanc sydd ag anableddau yn cael mynediad i Wasanaeth Ieuenctid sydd yn cwrdd â'u anghenion.
- Mae'r Gwasanaeth Tân wedi bod yn cyflogi gweithwyr ieuenctid amser llawn y gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid wneud defnydd ohonynt a thrwy hynny leihau nifer y gweithwyr ieuenctid y bydd raid iddo eu cyflogi.
- Mynegwyd rhwystredigaeth am nad yw partneriaid yn gweithio'n fwy clos gyda'i gilydd i lenwi bylchau a darparu gwasanaeth diwnïad; fodd bynnag, rhaid cydnabod bod rhai trafodaethau wedi cychwyn

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau i wneud y Gweithgor Ymestyn Hawliant yn gyfrifol am gydlynu'r ymarferiad mapio ac adrodd yn ôl am y canlyniadau i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc.**

27 **Y DDRAIG FFYNCI – ARENWI CYNRYCHIOLWYR**

Dywedodd Mel Davies wrth yr aelodau y dylai Draig Ffynci, y Fforwm Ieuenctid Cenedlaethol, fod â chynrychiolydd o bob un o'r siroedd fel y gallant fod yn rhan o gyrsiau preswyl a chynrychioli'r sir ar lefel genedlaethol yn y Fforwm Ieuenctid. Bu raid i gynrychiolwyr Sir Ddinbych ymddiswyddo ac mae'n bwysig sicrhau bod tri o bobl ifanc eraill yn cael cyfle i ymuno â Draig Ffynci. Rhaid i un lle gael ei lenwi gan gynrychiolydd y Cynghorau Ysgolion, a hyd yma ni chafwyd cytundeb ar sut y dylid llenwi'r ddwy swydd arall.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau canlynol:

- Arenwi cynrychiolydd o'r Fforwm Lleisiau Ieuenctid Cyfreithlon, Pwerus
- Defnyddio'r ddau brentis sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Ieuenctid
- Arenwi un cynrychiolydd o'r tri grŵp oedran, sef 11-15/15-19/19-25
- Arenwi cynrychiolydd o blith y 'mentoriaid myfyrwyr', sef myfyrwyr 'blwyddyn allan' 16-18
- Mae angen sicrhau bod y sector Cymraeg, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol, yn cael ei gynrychioli
- Bydd angen 'briff swydd' fel bod pobl ifanc yn gwybod beth yw natur eu swyddogaeth
- Gofyn i'r holl fudiadau, yn wirfoddol ac yn statudol, arenwi cynrychiolwyr o blith y mudiadau hynny.

Cytunwyd na fyddai modd gwneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn ac y dylid gofyn i Mel Davies baratoi papur yn egluro'r opsiynau sydd ar gael ynghyd â Chylch Gorchwyl a manylebau swyddi ar gyfer y cynrychiolwyr, gan roi ystyriaeth i gyfle cyfartal.

**GWEITHREDU**

**Mel Davies i baratoi a chyflwyno papur byr i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc, yn cynnig opsiynau ac argymhellion ar sut y gellir arewni'r cynrychiolwyr sydd eu hangen.**

28 **GWEITHIWR IEUENCTID CYMORTH PERSONOL**

Amlinellodd John Gambles y cefndir i Lwybrau Dysgu Cymru a dynesiad Sir Ddinbych i'r chwe Elfen Allweddol:

- Llwybrau Dysgu Unigol
- Dewis Ehangach
- Y Craidd Dysgu
- Cefnogaeth Dysgwyr
- Cefnogaeth Bersonol
- Cyfarwyddyd Gyrfa

Disgrifiodd sut roedd Cynllun Datblygu Blynyddol y Rhwydwaith wedi cael ei strwythuro i sicrhau danfoniad y 6 Elfen Allweddol. Bydd oddeutu £458,043 yn gyllid ychwanegol yn ystod 2007-2008, a darperir £80,269 ychwanegol ar gyfer costau cyfalaf. Yn ogystal, mae'r rhwydwaith wedi bidio'n gystadleuol am gyllid cyfalaf ac am refeniw ychwanegol ar gyfer datblygiad galwedigaethol dwyieithog, ac, fel mater sy'n berthnasol i'r cyfarfod hwn, wedi ychwanegu at gefnogaeth bersonol. Bydd Sir Ddinbych yn derbyn grant o £222,450 eleni i gyllido'r Tîm Cefnogaeth Bersonol gyda Chydlynydd [wedi'i leoli yn Y Rhyl] ynghyd â Gweithwyr Cefnogaeth Bersonol ddynodedig ym mhob un o'r clystyrau ardal sef Gogledd Sir Ddinbych, Gogledd Dyffryn Clwyd, De Dyffryn Clwyd a Dyffryn y Ddyfrdwy. Bydd y tîm yn defnyddio canolfannau cymunedol sy'n bodoli eisoes [nid ysgolion na cholegau] er mwyn ymwneud gyda phobl ifanc i mewn ac allan o addysg a hyfforddiant. Yn ogystal â chynnig gwasanaeth o'r math siop un stop i ddarparu a hyrwyddo cefnogaeth, byddant hefyd yn gweithio'n glos iawn gyda'r Timau Cefnogaeth Dysgu a Chyfarwyddyd Gyrfa er mwyn dod ag undod i'r gefnogaeth, a byddant yn gallu cyfeirio pobl ifanc i'r gweithgareddau gwirfoddol a chyfranogol sydd ar gael ymhob ardal fel rhan o'r cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer pobl ifanc. Bydd cyllido'r prosiect o 2008 ymlaen yn ddibynnol ar gyllid craidd Sir Ddinbych ar gyfer cefnogaeth bersonol..

**29 DIWEDDARIAD ESTYN**

**<u>29.1 Y Cynllun Gweithredu</u>**

Ailadroddodd Huw Griffiths yr angen i weithio tuag at weithrediad Cynllun Gweithredu Estyn a phwysigrwydd sicrhau bod y Gweithgor Ymestyn Hawliant yn gweithredu'n effeithiol. Awgrymodd Gweithgor Gweithredu Cynllun Gweithredu Estyn y dylai'r Gweithgor Ymestyn Hawliant fod yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun Gweithredu. Gofynnodd Huw Griffiths i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc gymeradwyo'r awgrym hwn.

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud y Gweithgor Ymestyn Haliant yn gyfrifol am weithrediad Cynllun Gweithredu Estyn ac y dylai adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc.**

**<u>29.2 Gweithrediad 19 o Gynllun Gweithredu Estyn</u>**

*Sicrhau bod y bartneriaeth yn defnyddio ei dylanwad i gynyddu'r cyllid sydd ar gael yn y Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn gwella'r adeiladau a'r ystafelloedd yn y canolfannau ieuenctid.*

Dywedodd Gwion Jones wrth y cyfarfod bod y gweithrediad penodol hwn wedi cael ei danlinellu gan fod y cyfrifoldeb amdano, yn flaenorol, wedi cael ei roi i Bennaeth Addysg; fodd bynnag, fe'i harenwyd bellach fel rhywbeth y bydd angen rhoi cefnogaeth y Bartneriaeth iddo.

**CYTUNWYD**

**Bod yr aelodau yn cytuno i ofyn i'r Gweithgor Ymestyn Hawliant edrych mewn manylder ar ofynion y Gweithrediad hwn.**

**30 CYNNIG GRANT ARLOESIAD POBL IFANC**

Rhoddodd Mel Davies wybod i'r aelodau bod cynnig wedi cael ei lunio a'i anfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chais am lif arian ar gyfer trydedd flwyddyn. Mae angen i'r cynnig gael ei gymeradwyo gan y Bartneriaeth Pobl Ifanc a gwneir cais am hynny heddiw.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr aelodau yn gwerthfawrogi mai parhad ar gyllido oedd hwn, ond roeddent yn awyddus i wybod sut y mae'r swydd yn cyflawni ei hamcanion
- Mynegwyd pryder ynghylch y gefnogaeth a roddwyd i'r strategaeth CAMHS gan y grŵp CAMHS
- Roedd angen rhagor o gefnogaeth i'r Diwrnod Rhanddalwr
- Anfonir adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gellir dod â'r rhain i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel cyfrwng adrodd yn ôl
- Mae tîm CAMHS yn gwneud cynnydd da ond nid yw gwybodaeth yn cyrraedd yr aelodau
- Mae Sally Ellis wedi trafod y pryderon gyda Sally Baxter o'r Bwrdd Iechyd Lleol a threfnwyd i gynnal cyfarfod gyda Chyngor Sir Conwy

**31 ARLOESIAD Y RHYL**

Cafwyd diweddariad am yr arolesiad yn y Rhyl, sef *Operation Respect,* gan Huw Griffiths. Mae'r prosiect yn symud yn ei flaen a chynhelir cyfarfod grŵp er mwyn sicrhau cynnydd pellach. Fodd bynnag, nid yw'r sector gwirfoddol yn cael ei gynrychioli'n dda iawn a rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un oedd â diddordeb mewn bod yn rhan ohono gysylltu gyda Huw.

**32 SWYDDOGAETH Y GRŴP YMESTYN HAWLIANT**

Diweddarwyd gwybodaeth y cyfarfod gan ddweud bod y Gweithgor Ymestyn Hawliant yn un y mae'n hanfodol iddo fod yn gweithio'n effeithiol, ond oherwydd newidiadau mewn personél, na fu'n bosibl arenwi cadeirydd iddo. Fe awgrymwyd yn flaenorol y Byddai Pennaeth Addysg yn gweithredu fel Cadeirydd i'r grŵp, ond bellach mae'r swydd honno i gael ei rhannu'n ddau h.y. Pennaeth Gwelliant Ysgolion a Phennaeth Cynhwysiad a Phartneriaethau. Erbyn hyn fe awgrymir, unwaith y bydd Pennaeth Cynhwysiad a Phartneriaethau yn ei swydd, y byddant ef/hi yn llenwi swydd y Cadeirydd, gan ddilyn y broses etholiadol gytunedig.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod Emma Rathbone a Richard  yn cael eu henwi fel yr aelodau ar gyfer y Tîm Troseddu Ieuenctid
- Bod John Reaney i gymryd lle Shane Owen fel Cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol
- Bod angen cynrychiolydd o fudiad Cymraeg ei iaith
- Bod angen cadarnhad o enw'r sawl a fydd yn cynrychioli'r cyrff Addysg Bellach
- Bod angen i'r grŵp ystyried a yw'r gynrychiolaeth yn ddigonol ar gyfer y cyfan o agenda'r Gweithgor Ymestyn Hawliant.

**33 UNRHYW FATER ARALL**

**<u>33.1 Cronfa'r Loteri Fawr</u>**

Cafodd sylw'r aelodau ei ddwyn i fater y Loteri Fawr gan John Reaney ; o'r 21 o grantiau a roddwyd i Gymru, rhoddwyd 18 i Dde Cymru a dim ond tri i Ogledd Cymru [gan gynnwys Powys]. Cytunodd yr aelodau bod angen ymchwilio i'r mater hwn, y dylid gofyn am eglurhad ac adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc.

**<u>33.2 Eitemau i'r Agenda</u>**

Nododd Huw Griffiths bod y rhan fwyaf o'r agenda wedi ei bennu gan Gyngor Sir Ddinbych y tro hwn; fodd bynnag, byddai mewnbwn gan aelodau eraill yn cael ei groesawu. Os oes gan aelodau eitemau i'r agenda, gofynnir iddynt gysylltu â'r Tîm Cefnogaeth Partneriaeth, gan nodi'r amserlen sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen Bolisi Rheolaeth Cyfarfodydd.

Gofynnodd Jean Williams am i eitem ynghylch Data Cyrchfan gael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal yng Ngorffennaf.

Diolchodd Huw Griffiths i bawb am eu presenoldeb a'u mewnbwn a daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am.

## Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc

**34 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Diolchodd Sally Ellis i bawb am aros i fynychu'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Teimlai rhai bod y cyfarfod ar yr un pryd yn mynd â gormod o amser ond teimlai eraill bod hynny'n amgenach ffordd o ddelio gyda'r agendau ac yn caniatáu iddynt osgoi gorfod mynychu dau gyfarfod.
- Cafwyd cytundeb ar y fformat ar ôl cyfnod estynedig o ymgynghori ynghylch ail strwythuro'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

- Yn ogystal, mynegwyd y farn bod cael agenda'r Bartneriaeth Pobl Ifanc yn gyntaf yn ymddangos yn fwy effeithiol.

**35 Y COFNODION BLAENOROL A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15.01.07**

**35.1 Cytundeb Partneriaeth (Tudalen 2)**

Atgoffwyd yr aelodau i ddychwelyd y Cytundeb Partneriaeth wedi ei arwyddo gan eu sefydliad.

**35.2 Aelodaeth (Tudalen 3)**

Gofynnodd Beth Taylor am i'w haelodaeth o'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc gael ei gadarnhau. Cadarnhawyd ei bod hi'n aelod o'r Bartneriaeth Pobl Ifanc ond nid o Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, gofynnwyd iddi hi aros am weddill y cyfarfod hwn.

Cytunwyd ar y cofnodion oedd yn ddyddiedig 15 Ionawr 2007 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**36 PENODIAD IS-GADEIRYDDION**

Gan na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd erbyn y diwrnod cau, dywedodd Sally Ellis ei bod hi wedi bod mewn cysylltiad â Jane Trowman, y Bwrdd Iechyd Lleol a gyda Mike German, yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc . Roedd y ddau wedi derbyn ac yn awr roedd angen cadarnhad yr aelodau.

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau i dderbyn Jane Trowman a Mike German fel Is-gadeiryddion y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.**

**37 DATBLYGIADAU POLISI – TREFNIADAU LLYWODRAETHOL**

Cyflwynodd Sally Ellis y ddogfen Lywodraethol gan ddweud bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi argymell bod y rhain yn cael eu mabwysiadu gan bob Partneriaeth.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Paragraff 4.3, mae dryswch yn parhau ynghylch safle'r Bartneriaeth Pobl Ifanc. Ni dderbyniwyd eglurhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Paragraff 12.2, gall rhai problemau posibl godi pan roddir hyn ar waith a bydd angen i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda'r sefydliad arweiniol yn hytrach na'r bartneriaeth gyfan.
- Paragraff 15.1, nid yw'n eglur p'un a yw cyfarfodydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gyhoeddus neu beidio. Bydd gan hyn oblygiadau adnoddau i'r Bartneriaeth. Gwneir cais am eglurhad gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol.
- Paragraff 16.2, gofynnwyd a oedd y pwynt hwn yn ymarferol ac yn un y gellid ei weithredu er bod penderfyniadau ar y cyd a'r hawl i ryddid barn yn elfennau y mae gofyn eu cynnwys mewn paragraff. Cytunwyd i ddileu'r paragraff hwn a chynnwys un yn ei le a fyddai'n ymwneud â phenderfyniadau ar y cyd a rhyddid i fynegi barn.

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau i ofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a yw cyfarfodydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i'w cynnal fel cyfarfodydd cyhoeddus.**

**Penderfynodd yr aelodau y dylid dileu paragraff 16.2 a chynnwys un arall, yn ymwneud â phenderfyniadau ar y cyd a rhyddid i fynegi barn yn ei le.**

**Yn amodol ar y gwelliannau uchod, cafodd y ddogfen Trefn Lywodraethol ei chymeradwyo gan yr aelodau.**

38 **PLANT SENGL A'R CYNLLUN POBL IFANC**

**38.1 Adroddiad ar Weithgarwch y Grŵp Tasg a Chwblhau**

Cyflwynodd Sally Ellis y papur oedd yn cynnwys manylion am y Grŵp Tasg a Chwblhau a gafodd ei sefydlu i drafod sut i fynd ymlaen gyda'r Cynllun Plant Sengl a Phobl Ifanc. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwneir cais am i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc gytuno i ddirprwyo cyfrifoldeb am yr ymateb i'r Grŵp Tasg a Chwblhau.

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau i ddirprwyo cyfrifoldeb am yr ymateb i'r ymgynghoriad i'r Grŵp Tasg a Chwblhau.**

**38.2 Sylwadau ar Gynlluniau Enghreifftiol**

Eglurodd Sally Ellis bod y cynlluniau enghreifftiol wedi eu dosbarthu er mwyn i'r aelodau fedru ystyried fformat Cynllun Plant Sengl a Phobl Ifanc Sir Ddinbych.

Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr aelodau yn ffafrio gosodiad Cynllun Swydd Suffolk, gyda lluniau a bocsys
- Byddai'n dda o beth sicrhau bod yr iaith yn eglur trwy'r cyfan o'r dogfennau
- Dylid rhoi ystyriaeth i liwiau a ffontiau sydd yn addas i'r sawl sydd â nam ar eu golwg
- Er bod llawer o fersiynau gwahanol i'w hystyried mae'n bwysig bod y prif gynnyrch yn denu cynifer â phosibl o ddarllenwyr
- Bydd angen i'r cynnyrch terfynol fod yn hygyrch ac mae angen meddwl am strategaeth i'w ddatblygu

39 **YMGYNGHORIADAU**

**39.1 Ymatebion i Ymgynghoriadau**

Rhoddodd Sally Ellis wybod i'r aelodau bod angen ymateb i lawer o ystyriaethau a bod angen i'r Bartneriaeth fod yn eglur ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei weithredu. Awgrymir bod angen i'r Gweithgorau perthnasol dderbyn cyfrifoldeb am ymateb iddynt ar ran y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, yn benodol fel a ganlyn:

- Y Ddeddf Gofal Plant – ymateb gan y Gweithgor Hawliant Cynnar
- Y Strategaeth Awtistiaeth – ymateb gan Weithgor y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
- Craidd Cyffredinol Sgiliau a Gwybodaeth i'r Gweithlu Plant yng Nghymru – ymateb gan y Grŵp Hyfforddiant a Datblygiad y Gweithlu

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau i ymatebion yr ymgynghoriadau gael eu cyflwyno gan y Gweithgorau perthnasol**

**39.2 Y Gronfa Cymunedau Diogelach**

Cyflwynodd Jonathan White fanylion am y Gronfa Cymunedau Diogelach, sef yr unig un sy'n cael ei dyrannu gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Roedd y cynllun a roddwyd i'r aelodau yn dangos 6 o brosiectau. Fodd bynnag, roedd yr olaf ohonynt wedi ei ddileu ac mae 5 wedi eu harenwi i ddiben dyrannu cyllid. Mae 4 o'r rhain yn brosiectau sy'n mynd rhagddynt ac yn rhai a gafodd eu cymeradwyo

eisoes gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Mae'r un olaf yn brosiect aml-asiantaeth sy'n ymwneud â cham-ddefnyddio sylweddau.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Pryder ynghylch y cyswllt agos rhwng y prosiectau hyn a'r Prosiect Cynhwysiad yr Ifanc a'r Tîm Troseddu Ieuenctid.
- Yr angen i gyplysu'r Gronfa Cymunedau Diogelach a Chronfa Cymorth er mwyn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu
- Yr angen i gysylltu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gydag *Operation Respect*

**GWEITHREDU**

**Cyfarfodydd i gael eu cynnal rhwng Jonathan White, Nicola Francis, Emma Rathbone a Roger Ellerton, er mwyn sefydlu cysylltiadau**

**40 ADRODDIADAU CYMORTH**

Rhoddodd Gwion Jones fanylion am yr adroddiad gan ofyn am i'r ddau argymhelliad a gynhwysir ynddo gael eu derbyn gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, sef:

- Bod cais yn cael ei wneud am adroddiad gan y rhai a gyflwynodd y bidiau gwreiddiol am y prosiectau Cydlynwr Cefnogaeth Deuluol a Rhywioldeb Iach er mwyn iddynt egluro pam y bu oedi cyn cychwyn arnynt
- Bod cais yn cael ei wneud am adroddiad gan yr holl Brosiectau oedd a swm o danwariant rhagor na £5,000 nad oeddent wedi datgan y swm hwnnw cyn Chwefror 2007.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc roi awdurdod i unrhyw danwariant a arenwir yn awr gael ei roi i gyllido prosiectau, nad ydynt yn wasanaethau craidd, oedd wedi gwario a gweithredu gwasanaethau cyn diwedd Mawrth 2007.

**CYTUNWYD**

**Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud cais am y ddau adroddiad uchod ac y dylid defnyddio'r tanwariannau yn unol â'r cynigion uchod.**

**41 CYLLID CHWARAE I BLANT ANABL**

**Roedd hon yn eitem gyfrinachol gan fod ynddi oblygiadau ariannol i sefydliadau penodol. Oherwydd hynny ni chafodd y drafodaeth ei chofnodi.**

Mae'r argymhellion ar gyfer y dyraniadau y cytunwyd arnynt gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel a ganlyn:

- ***Cyfle Barnardo's Cymru*** – Datblygu rhandir **£17,248**
- ***Clybiau Plant Cymru*** - Gweithwyr Cynnal Un-i-Un, Y Cynllun Lleoliadau Noddedig **£3,135**
- ***C-SAW*** - Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau i Blant gydag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig **£2,000**
- ***Cymdeithas Cyn-ysgol Cymru*** – Cynllun Cyfeirio Anghenion Arbennig **£3,330**
- ***Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM)*** – Gofal 'coflaid' un-i-un **£4,231**

**42 MATERION YN DEILLIO O WEITHGORAU**

**<u>42.1 Chwarae, Hamdden a Chyfoethogiad – Cynigion Chwarae – Cronfa'r Loteri Fawr</u>**

Cyflwynodd Tony Hughes yr eitem, gan roi gwybod i'r aelodau bod £13 miliwn ar gael i'w dosbarthu ar hyd a lled Cymru trwy Gronfa'r Loteri Fawr. Mae'r cylch cyntaf ar gyfer bidiau isadeiledd a'r dyddiad cau yw 4 Mai 2007, gan olygu fod yr amserlen yn dynn. Bydd yr ail gylch ar gyfer prosiectau, a'r dyddiad cau

fydd Mawrth 2009. Bu llawer o drafod yn y Grŵp Chwarae, Hamdden a Chyfoethogiad ynghylch y bidiau arfaethedig, a daeth y cynnig terfynol o Fforwn Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r Grŵp Chwarae. Hamdden a Chyfoethogiad wedi cadarnhau hyn a cheisir cymeradwyaeth y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn y cyfarfod hwn.

Byddai'r bid am gyllid yn sicrhau cydweithrediad rhwng cynrychiolwyr Fforwm Chwarae Wrecsam, Fforwn Chwarae Sir Fflint a Grŵp Chwarae, Hamdden a Chyfoethogiad Sir Ddinbych. Fel canlyniad byddai rhagor o weithwyr chwarae, sef 1 gweithiwr chware llawn amser ac un rhan amser, ar gael i ddatblygu fforymau chwarae lleol.

**CYTUNWYD**

**Rhoddodd aelodau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl sêl eu bendith i'r cynigion gan Fforwm Gogledd Ddwyrain Cymru.**

**42.2 Y Grŵp Datblygiad Hyfforddiant a'r Gweithlu - Strategaeth**

Cyflwynodd Gwion Jones y Strategaeth Drafft gan ofyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc neu am iddynt roi arweiniad ynghylch ei gyfeiriad. Unwaith y bydd hwn wedi cael ei gymeradwyo, bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu.

**CYTUNWYD**

**Cymeradwyodd yr aelodau y Strategaeth Drafft gan y Grŵp Datblygiad Hyfforddiant a'r Gweithlu.**

**43 UNRHYW FATER ARALL**

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**44 MATERION A GWEITHREDIADAU**

Cafodd y cytundebau a'r gweithrediadau eu cymeradwyo mewn egwyddor gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

Bydd Melanie Baugh yn dosbarthu'r cofnodion gyda hyn.

Diolchodd Sally Ellis i bawb am eu cyfraniad a'u presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 2.20pm.

**********

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Mawrth Mai 22 2007 yn Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir, Ruthun.

## PRESENNOL

Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol dros Bolisi, Cyfathrebu a Gwelliant,; P A Dobb, Aelod Arweiniol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; E C Edwards, Aelod Arweiniol dros Ofal y Cwsmer ac Ymrwymiad Dinasyddion; M A German, Aelod Arweiniol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, R W Hughes, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ffyniant Economaidd & Rhaglenni Ewropeaidd; D Owens, Aelod Arweiniol dros Ysgolion ac Addysg Gydol Oes; G O Rowlands, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Chaffael; S Roberts, Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych; J Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Eiddo a Datblygiad Cynaliadwy ac E W Williams, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd.

Arsyllwyr: Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, M Ll Davies, G C Evans, H H Evans, M M Jones a P J Marfleet.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr; Chief Executive; Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau; Clerc y Sir a'r Rheolwr Cyllid.

## DATGANIAD

Croesawodd y Cynghorydd R W Hughes Ewan McWilliams, Cydlynydd Prosiect Cynaladwyedd i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at erthygl yn y Daily Post ar 21.05.2007 ar gasglu ysbwriel, oedd â phennawd nad oedd yn fanwl gywir. Fodd bynnag, er bod y pennawd yn gamarweiniol, teimlai fod yr adroddiad yn un positif.

### 45 MATERION BRYS

Nid oedd yna unrhyw Faterion Brys.

### 46 COFNODION Y CABINET

Cyflwynwyd Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Ebrill 24 2007.

Eitem 4 Ailddatblygiad Canol Tref Y Rhyl: Cyfeiriodd y Cynghorydd R W Hughes at drafodaeth gydag aelod o'r cyhoedd yn y sesiwn 1:1 gynhaliwyd ar 24.04.2007 lle dywedodd aelod o'r cyhoedd ei bod yn bwysig diogelu cymaint ag sy'n bosib o ffasâd yr adeilad.

Eitem 7 Adroddiadau Arferol ar Bersonél: Gofynnodd y Cynghorydd S A Davies am i'r ail baragraff gael ei ddiwygio i "roedd maint y gweithlu yn 'addas i'r pwrpas'".

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 24 fel cofnod cywir ac fe'i harwyddwyd gan yr Arweinydd.*

### 47 CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD DRAFFT CYNGOR SIR DDINBYCH 2007

Cyflwynodd y Cynghorydd G O Rowlands yr adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau o Gynllun Effeithlonrwydd drafft Cyngor Sir Ddinbych 2007-2010 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a bod yr Aelodau, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a danlinellwyd gan y Cabinet, yn cymeradwyo'r Strategaeth Effeithlonrwydd drafft i'r Cyngor i'w chymeradwyo ar Fehefin 27 2007.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at y cynnig i ganoli Cyllid a mynegodd ei bryder ynglŷn â'r fath gynnig. Ni fyddai'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau yn newid lleoliad. Cytunodd y Cynghorydd P A Dobb a mynegodd hithau ei phryder ynglŷn â phrinder targedau mesuradwy yn yr adroddiad. Gallai hyn achosi blinder i'r staff a theimlai'r Cynghorydd Dobb ei bod yn bwysig fod y staff yn deall beth yr oed yr Awdurdod yn ceisio'i gyflawni. Cytunodd Pennaeth Polisi Strategol nad oedd targedau ariannol mesuradwy yn y Strategaeth a bod angen i Wasanaethau ddiweddaru eu datganiad effeithlonrwydd oedd yn atodiad i'r adroddiad i'r Cyngor. Byddai achos busnes e-weithio yn dynodi'r arbedion ariannol ellid eu gwneud ond byddai hyn yn dibynnu ar faint y byddai'r Cyngor yn gweithredu'r e-weithio.

Cytunodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau: Resources fod gweithio symudol yn debygol o gynyddu costau i ddechrau ond y gwir fantais fyddai os gellid cau adeilad, er enghraifft.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E C Edwards ar Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid oedd hefyd yn gwneud yr Awdurdod yn fwy effeithlon. Pwysleisiodd yr angen sicrhau nad oedd targedau'n tanseilio darpariaeth y gwasanaeth a dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau fod unrhyw gydweithio gydag Awdurdodau eraill â'r rheiny oedd mor effeithlon â Sir Ddinbych. Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ei bod yn bwysig i'r mentrau yn y cynllun effeithlonrwydd weithio, neu efallai y bydd angen toriadau ariannol gorfodol y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams y gellid ystyried cydweithio weithiau'n wrthgynhyrchiol ac yr oedd yn bwysig sicrhau fod staff yn ymwybodol o'r manteision, fod dyfodol i'r Sir ac y byddai'n parhau i ddatblygu. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi amlinellu manteision cydweithio a'r newidiadau i staff, a'r angen am i'r Awdurdod for yn effeithlon. Roedd argymhellion Adroddiad Beecham a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Awdurdodau Lleol i gydweithio a darparu gwasanaethau gwell. Mewn rhai enghreifftiau fe fyddai yna effaith bositif ar strwythurau gyrfa tra mewn enghreifftiau eraill fe fyddai yna effaith niweidiol ar swyddi. Cytunodd y Cynghorydd R W Hughes a dywedodd ei bod yn bwysig fod Sir Ddinbych yn rheoli'r newidiadau ac yn dod o hyd i ffordd well o ddarparu gwasanaethau.

Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet drafod y Cynllun Effeithlonrwydd drafft gyda swyddogion a dynodi enillion effeithlonrwydd ar gyfer y Datganiad Effeithlonrwydd cyn i'r adroddiad fynd at y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr Aelodau yn trafod y Cynllun Effeithlonrwydd drafft 2007-2010 gyda swyddogion i ddynodi enillion effeithlonrwydd ar gyfer y Datganiad Effeithlonrwydd cyn i'r Adroddiad fynd at y Cyngor i'w gymeradwyo ar Fehefin 27 2007.*

**48 CYNLLUN DATBLYGU CYNALADWYEDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau o'r Cynllun Cynaladwyedd (Atodiad 1 i'r adroddiad) a'i gymeradwyo i'r Cyngor am gymeradwyaeth. Nododd y Cynghorydd Thompson Hill y pum amcan allweddol a'r cynllun gweithredu a diolchodd i'r Cydlynydd Prosiect Cynaladwyedd am ei waith ar yr adroddiad.

Dywedodd y Cydlynydd Prosiect Cynaladwyedd fod yr adroddiad yn gosod y camau cyntaf i ymdrin â materion i symud cynaladwyedd ymlaen yn y Sir a'u bod ynghlwm â gwelliannau ac effeithlonrwydd.

Gan gyfeirio at baragraff 4.4, gofynnodd y Cynghorydd P A Dobb i roi'r gair "paratoi" yn lle "ymchwiliad" gan y byddai hyn yn eu cysylltu â'r Safon Iechyd Corfforaethol. Roedd yn falch o weld y gwaith rhyngweithiol gydag ysgolion yn y Cynllun ond roedd yn bryderus nad chynhwyswyd Cynllunio..

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet (Arsyllwr) ei bod yn bwysig fod yr Awdurdod yn gweithredu Cynllun Gweithredu'r adroddiad. Anogodd yr Aelodau a'r swyddogion i drafod y defnydd ynni uchel yn Neuadd y Sir efo perchnogion yr adeilad a dywedodd fod yr anghenion a'r safonau wedi newid ers ei adeiladu yn y lle cyntaf. Aeth ymlaen i awgrymu y dylid ail ymweld â'r system wresogi ar gyfer yr ysgol newydd ym Mhrestatyn a'r Ganolfan Grefftau gan y dylid eu hystyried ar gyfer systemau gwresogi amgen.

Mewn rhai amgylchiadau, gellid defnyddio pympiau gwres daear oedd wedi derbyn arian allanol yn Iwerddon. Hysbysodd yr Aelodau fod LlCC yn gosod boeler peledi coed biomas yn eu hadeilad newydd yn Llandudno. Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd i'r Cynghorydd Marfleet am ei sylwadau amserol a chytunodd i werthuso sustemau o'r fath os na fyddai hyn yn amharu ar amserlen y prosiect, o fewn y cyfyngiadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G C Evans (Arsyllwr) at Bolisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod a dywedodd y dylid cyfeirio at y polisi i sicrhau cynaladwyedd y diwylliant Cymreig a'r iaith. Awgrymodd hefyd y gellid gwneud cynilion drwy gyd-hyfforddi Aelodau a staff. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd S A Davies fod gan yr Awdurdod Bolisi Iaith Gymraeg oedd yn fwy llym na'r hyn ddisgwylid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a sicrhaodd y Cynghorydd Evans fod yr Iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth ddifrifol. Dywedodd y gwelid Sir Ddinbych yn fwy Cymreig na rhai Awdurdodau cyfagos ac yn llai Cymreig nag eraill. Cytunodd y Cynghorydd R W Hughes a dywedodd ei bod yn bwysig i danlinellu cynaladwyedd y diwylliant Cymreig yn y cynllun. Fe ellid rhannu hyfforddiant ond mewn rhai enghreifftiau roedd hyfforddi swyddogion yn fwy technegol. Dywedodd y Cynghorydd E W Williams ei bod yn bwysig i Sir Ddinbych sicrhau nad oedd yr iaith yn dirywio a'i bod yn gweithio i ennill unrhyw dir a gollwyd.

Gan gyfeirio at yr ysgol newydd sydd i'w hadeiladu ym Mhrestatyn, dywedodd y Cynghorydd M A German y dylid rhoi sylw pellach i'r awgrym fod angen system wresogi wahanol. Mewn ymateb, cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Cynghorydd J Thompson Hill fod y cytundeb ar gyfer yr adeilad newydd wedi ei osod a bode contractwyr yn gweithio ar y safle. Fodd bynnag, cytunodd y byddid yn ystyried newidiadau i fanylion dyluniad y system wresogi. Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd am atgoffa Aelodau fod cynaladwyedd adeilad yr ysgol newydd wedi bod yn ystyriaeth ers y diwrnod cyntaf a bod yn rhaid cynnal cydbwysedd rhwng cynaladwyedd a chost. Cytunodd y Cynghorydd Hughes a dywedodd fod yna drothwy i bob prosiect cyfalaf.

Roedd angen cyflwyniad a rhagair gan yr Aelod Arweiniol a'r aelodau arweiniol ac yr oedd y Cynghorydd Hughes am i enwau'r Aelodau hefyd gael eu cynnwys ar y Cynllun. Dylai unrhyw adroddiadau yn y dyfodol i'r Cabinet gafodd eu hystyried gan Bwyllgor Craffu yn flaenorol, gynnwys crynodeb byr o sylwadau / argymhellion y Pwyllgor hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Cynaladwyedd Corfforaethol i'r Cyngor i'w cymeradwyo.*

Yn y pwynt yma (11.20 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am 15 munud i ganiatáu i'r Aelodau gael lluniaeth.

**49 CYNYDDU'R CYFLENWAD O DAI FFORDDIADWY**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad i ddiweddaru'r Aelodau ynghylch mentrau tai fforddiadwy o fewn y Sir ac i gynnig opsiynau newydd pellach am dai fforddiadwy i Aelodau eu hystyried. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau gytuno ar ddatblygiad cydberthnasau gweithiol pellach gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) addas i ddarparu cynlluniau tai fforddiadwy gyda chefnogaeth a heb gefnogaeth Grant Tai Cymdeithasol (GTC).

Dywedodd y Cynghorydd Dobb fod yr adroddiad yn tanlinellu'r gwaith parhaol wneir i ddarparu tai fforddiadwy o fewn y Sir a hefyd niferoedd o rwystredigaethau sy'n rhaid eu goresgyn i gynhyrchu mwy - o gostau tir uchel i argaeledd grantiau a chyfalaf. Nododd yr adroddiad y cosbau ariannol difrifol roddid os byddai mwy o dai Cyngor yn cael eu hadeiladu. Gan fod y Strategaeth Dai mewn ymgynghoriad ar hyn o bryd gofynnodd i'r Aelodau drafod beth arall allai Sir Ddinbych ei wneud a pha gydweithio oedd ei angen ar dai fforddiadwy. Roedd Calc eisoes wedi sefydlu rhwydweithiau rhanbarthol ac wedi eu defnyddio i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnodd y Cynghorydd Dobb os oedd yr Aelodau'n teimlo fod hyn yn gyfle amserol i Sir Ddinbych osod ei agenda ei hun ar gyfer ymgyrch ddwys i lobïo Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Yr oedd hi, ynghyd â'r Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai wedi cyfarfod â sefydliad ariannol gyda statws elusennol i drafod anghenion y Sir a'r meini tramgwydd sy'n rhaid eu hwynebu i ddarparu tai fforddiadwy. Yn awr fe ddisgwylid syniadau ysgrifenedig a modelau enghreifftiol.

Gofynnodd y Cynghorydd Dobb i'r Aelodau os dylai'r Awdurdod fod yn ystyried adolygiad o'i Strategaeth Rheolaeth Asedau Corfforaethol er mwyn ceisio'r gwerth gorau yn hytrach na'r pris gorau ar gyfer gwerthu tir neu efallai neilltuo Treth Cyngor a gesglir ar ail gartrefi. Awgrymodd hefyd y dylid neilltuo arian cyfalaf er mwyn gweithredu cronfa tai gwag lle cynigir grant i berchnogion tai er mwyn adfer y tai i safon gyfanheddol ac yna eu hadlesu i'r Cyngor am nifer o flynyddoedd. Dylid hefyd ystyried diwygio polisïau cynllunio, yn enwedig mewn cymunedau gwledig neu brynu tai Cyngor gwledig yn ôl.

Gan gyfeirio at gyfarfod y Cynllun Datblygu Lleol gynhaliwyd ar 21.05.2007, dywedodd y Cynghorydd E W Williams fod tai fforddiadwy wedi eu trafod gan nad oedd rhai targedau'n cael eu cyflawni. Yn dilyn trafodaeth cytunodd cyfarfod y CDLl ar gonsensws y dylid darparu nifer isaf sef 4,500 ac nid 6,000 o dai, ar draws y Sir a chefnogi twf naturiol yn hytrach na dylifiad anferth i'r Sir ar un pryd. Fe drafodir hyn yn y Cyngor maes o law. Cyfeiriodd y Cynghorydd S A Davies at ddiffiniad y gair "lleol" nad oedd wedi ei gynnwys a dywedodd fod cytundeb ynglŷn â'r hyn oedd yn "lleol" yn hanfodol.

O safbwynt Strategaeth Rheolaeth Asedau Corfforaethol, dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill fod Pwyllgor Rheolaeth Asedau wedi ystyried y mater 2 flynedd yn gynharach ac wedi cytuno i beidio defnyddio tir yr Awdurdod ei hun os golyga hyn golled mewn derbyniadau cyfalaf.

Roedd y Cynghorydd E C Edwards am atgoffa'r Aelodau o benderfyniad diweddar y Cyngor lle nad oedd yn rhaid darparu unrhyw dai fforddiadwy pan roddwyd cytundeb i ddatblygiadau Ocean Beach. Cytunodd hefyd â'r Cynghorydd Thompson Hill ynghylch pwysigrwydd peidio ag effeithio ar hyfywdra datblygiadau. Awgrymodd y Cynghorydd Edwards y dylid ffurfio Grŵp Tasg Tai Fforddiadwy, gydag aelodaeth wledig a threfol, o Grwpiau Ardal Aelodau Etholedig. Roedd yr angen yn lleol am dai fforddiadwy a materion eraill yn wybyddus i'r aelodau lleol. Cefnogodd yr adolygiad o safleoedd garej a gobeithiai y byddai hyn yn nodi tir gweddill posib y gellid ei ddefnyddio ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb y byddai'n fodlon ffurfio Grŵp Task gydag Aelodau a swyddogion allweddol. Cytunodd y Cynghorydd E W Williams a dywedodd y dylai cylch gwaith y Grŵp ystyried a oedd darpariaeth o 30% o dai fforddiadwy yn y Sir yn ddigonol.

Awgrymodd y Cynghorydd R W Hughes y dylai trafodaethau cychwynnol hefyd gynnwys cymdeithasau amrywiol a datblygwyr gan nad ar dir y Sir yn unig y darperir tai fforddiadwy ac yr oedd yn fater ar gyfer Cymru gyfan.

Roedd y Cynghorydd S A Davies am atgoffa'r Aelodau fod Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu lobïo. Awgrymodd y byddai gwahardd y cynllun Hawl i Brynu yn cael effaith a chefnogodd gais y Cynghorydd Edwards am Grŵp Tasg diffiniedig. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd P A Dobb ei bod yn bwysig parhau â'r lobïo ac y dylid datblygu rhaglen fisol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton (Arsyllwr) at y prosiect galluogi gwledig ac awgrymodd y dylid ei ymestyn. Yr oedd yn gwbl gefnogol i ffurfiant Grŵp Tasg. Dywedodd Rheolwr Strategaeth Tai y bydd arian LlCC ar gyfer y prosiect galluogi gwledig yn peidio fis Tachwedd 2007 ond bydd LlCC yn darparu arian ar gyfer hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yn bwysig fod Sir Ddinbych nid yn unig yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy ond hefyd yn dod â mwy o dai ar rent i mewn.

Teimlai'r Cynghorydd H H Evans (Arsyllwr) fod yna rôl i'r Bwrdd Partneriaethau Lleol i herio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion tai fforddiadwy ac er bod cynllun Hawl i Brynu yn bolisi da, ni ddaeth LlCC â chynllun arall i'w ddilyn. Teimlai nad oedd gan ardaloedd gwledig bolisi tai fforddiadwy ac yr oedd yn hanfodol i adeiladu y tu allan i ffiniau'r datblygiad. Awgrymodd y gellid adfer tai gwag i'w gwneud yn gyfanheddol i ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy. Teimlai mai'r unig ffordd o gael ardaloedd gwledig cynaliadwy oedd sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G C Evans (Arsyllwr) at y gwahanol bwyllgorau e.e. y Grŵp Canolog neu'r Fforwm Gwledig a dywedodd y dylai Sir Ddinbych ystyried troi ei heiddo ei hun yn dai fforddiadwy. Fydd yr anawsterau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ddim mewn 5, 10 neu 15 mlynedd ond gyda'r prinder tai fforddiadwy sydd ar gael yn awr.

Eiliodd y Cynghorydd S A Davies gynnig y Cynghorydd E C Edwards i ffurfio Grŵp Tasg Gwledig / Trefol ac awgrymodd y dylai eu hargymhellion fod ar gael cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach. Awgrymodd y Cynghorydd y dylid ehangu'r drefn weithredu bresennol ac y dylid parhau â'r prosiect galluogi gwledig.

Teimlai'r Prif Weithredwr fod amser yn cael ei golli wrth ddisgwyl am argymhellion y Grŵp Tasg. Ynglŷn ag awgrym y Cynghorydd H H Evans ynghylch lobïo, dywedodd y dylai'r Awdurdod lobïo LlCC ynglŷn â gallu unrhyw Gyngor i ailwampio neu adeiladu eiddo i ddarparu tai ac ni ddylid cosbi'r awdurdodau hynny. Awgrymodd y dylid atal y cynllun Hawl i Brynu yn y Sir. Gellid ystyried hefyd unrhyw ganran dros 30% ar gyfer darparu tai ar dir sy'n eiddo'r Awdurdod ond gallai hyn arwain at golli derbyniadau cyfalaf.

Cytunodd yr Aelodau ar ffurfiant Grŵp Tasg, fyddai hefyd yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o adfer adeiladau gwag mewn ardaloedd gwledig fel y gellid eu defnyddio. Cytunodd yr aelodau hefyd y dylid ystyried ffyrdd i ariannu'r prosiect galluogi gwledig.

***PENDERFYNWYD** fod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad yn nodi'r mentrau tai fforddiadwy cyfredol o fewn y Sir ac ystyried rhoi mwy o arian cyfalaf a refeniw ar gael drwy'r gyllideb a phrosesau adolygiad prosiectau cyfalaf i ddarparu mentrau tai fforddiadwy newydd. Cytunodd yr Aelodau ar ddatblygiad cydberthnasau gweithiol pellach gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) addas i ddarparu cynlluniau tai fforddiadwy gyda chefnogaeth a heb gefnogaeth Grant Tai Cymdeithasol (GTC).*

*Cytunodd yr Aelodau hefyd i'r Cynghorydd Dobb ffurfio Grŵp Tasg Tai Fforddiadwy Gwledig / Trefol gydag Aelodau a swyddogion, i archwilio materion tai fforddiadwy a'u prysuro ymlaen.*

**50 STRATEGAETH PARC AILGYLCHU SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd E W Williams yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r ffordd o weithredu a argymhellir ar gyfer datblygu parciau ailgylchu'r Cyngor. Dywedodd fod y cyfle gafodd yr Aelodau i ymweld â safle Greenfield yn Sir y Fflint wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Teimlai'r Cynghorydd S A Davies y byddai'r cyhoedd yn cwyno os symudid y cyfleusterau presennol a byddai'n golygu dreifio am 5 neu 10 milltir i safle, yn enwedig o'r ardaloedd mwy gwledig.

Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill mai yn rhesymegol, safle wedi ei chanoli yn Rhuddlan fyddai'r ffordd orau ymlaen ond roedd mwyafrif helaeth y gwastraff yn y Sir yn dod o'r trefi arfordirol. Teimlai hefyd y byddai llawer o bobl yn cwyno ynghylch lleoliad y safle newydd a gallai hyn arwain at dipio anghyfreithlon.

Awgrymodd y Cynghorydd P A Dobb y dylid ailwampio safleoedd ailgylchu Rhuthun a Dinbych. Teimlai na allai gefnogi safle newydd yn Rhuddlan oherwydd y gallai hyn gael effaith andwyol ar bobl hŷn fyddai'n gorfod teithio ymhellach a gofynnodd a ymgynghorwyd ag Aelodau'r Rhyl a Phrestatyn am y safle newydd arfaethedig. Ymateb Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol oedd yr ymgynghorwyd ag Aelodau Rhuddlan a bod Craffu'r Amgylchedd yn cefnogi'r cynnig. Darparwyd ffigurau manwl i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac yr oedd ar y Sir angen cyfarfod â'r targedau anodd. Roedd y safleoedd newydd ar gyfer ailgylchu eitemau mawr, er enghraifft unedau cegin a charpedi.

Cefnogodd y Cynghorydd R W Hughes y safleoedd newydd a'u manteision, er bod y safleoedd presennol yn nes at fwyafrif y boblogaeth a gofynnodd a ellid cadw rhai o'r hen safleoedd ar gyfer peth ail gylchu.

Roedd y Prif Weithredwr am atgoffa'r Aelodau o gytundeb blaenorol y Cyngor ar y Strategaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor fel rhan o'r Cynllun Cyfalaf i gael ond 3 canolfan yn y Sir. Nid oedd rhai o'r safleoedd presennol yn ddigon mawr i'w trawsnewid. Roedd yna angen am newid yn y Sir i gyfarfod â thargedau ailgylchu a dyma'r ffordd orau ymlaen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S A Davies at drafodaethau cynharach y Cabinet ar ddarparu safleoedd ailgylchu mini ar gyfer ardaloedd gwledig, lle'r oedd darpariaeth bocsys glas yn anaddas. Awgrymodd fod angen mwy o arian i ddarparu systemau ailgylchu ar gyfer ardaloedd gwledig.

Cefnogwyd safle Rhuddlan gan y Cynghorydd E W Williams a dywedodd y byddai'r safle newydd yn fwy canolog ac yn llawer mwy effeithlon, tra bod darparu canolfannau ailgylchu mini mewn ardaloedd gwledig yn fater gwahanol. Hyd yma nid oedd arian ar gael ar gyfer y 2 safle newydd. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd am atgoffa'r Aelodau y byddai methu cyrraedd y targedau penodedig yn golygu dirwyon anferth mewn blynyddoedd i ddod a dyma'r ffordd orau i'r Sir. Rhoddodd sicrwydd y byddai'r Adran yn cydweithio â'r Aelodau i brysuro ymlaen â hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R W Hughes at lwyddiant y system X2 gefnogwyd gan yr Aelodau a'r cyhoedd. Roedd angen cytundeb y Cabinet ar y cynnig cyfredol ac ymarferiad gwybodaeth y cyhoedd i ganlyn. Fodd bynnag, teimlai y dylid ymgynghori â Grŵp Aelodau'r Rhyl a Phrestatyn ynghylch y cynnig. Cefnogodd y Cynghorydd M A German y cynnig a theimlai y byddai'r cyhoedd yn cefnogi'r cynnig lle gallent gael gwared ag eitemau mawr.

Gan gyfeirio at y safleoedd bach, dywedodd y Cynghorydd P A Dobb y dylid gwagio'r rhain yn rheolaidd a mwy o ddarpariaeth ar gyfer defnyddiau compost.

Dywedodd y Cynghorydd D Owens fod angen ymarferiad marchnata unwaith y bo'r safleoedd newydd yn barod i'w defnyddi, ac yna ddileu'r hen safleoedd yn raddol. Byddai darpariaeth y safle newydd yn ychwanegu at yr ôl troed carbon ond byddai cyfarfod â thargedau ailgylchu yn ei gydbwyso.

Awgrymodd y Cynghorydd R W Hughes y dylid cael trafodaethau pellach gyda Grwpiau Aelodau er y teimlai fod yr Aelodau'n cefnogi'r safle yn Rhuddlan. Fodd bynnag, roedd y Prif Weithredwr am atgoffa'r Aelodau mai nhw oedd y corff oedd yn gwneud penderfyniadau a bod y Pwyllgor Craffu wedi cefnogi'r safle newydd. Nid oedd Aelodau'r Rhyl a Phrestatyn wedi cwyno ac yr oedd y wybodaeth yn wybyddus i'r cyhoedd.

Gan gyfeirio at y ffaith fod y Pwyllgor Craffu wedi ystyried yr adroddiad eisoes, dywedodd y Cynghorydd R W Hughes nad oedd y Cabinet fel y corff sy'n gwneud y penderfyniadau, wedi eu gwneud yn ymwybodol o'u hargymhellion. Cytunodd y Cynghorydd S A Davies a dywedodd y dylai'r Pwyllgorau Craffu fod yn archwilio penderfyniadau'r Cabinet.

Ynglŷn â'r Argymhelliad, cynigiodd y Cynghorydd G O Rowlands, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd J Thompson Hill, fod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad. Fodd bynnag, cynigiodd y Cynghorydd P A Dobb ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd E C Edwards fod yr adroddiad yn cael ei hanfon ymlaen at Grwpiau Aelodau Ardal i'w ystyried cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cytuno i ohirio'r adroddiad. Cytunwyd y dylid trafod yr adroddiad yn 4 Grŵp Aelodau Ardal gydag adroddiad pellach i'r Cabinet pan fyddai canlyniadau'r ymgynghoriadau ar gael.*

## 51 ADRODDIADAU ARFEROL AR BERSONÉL

Cyflwynodd y Cyngorydd S A Davies yr adroddiad i Aelodau nodi'r adroddiad ar nifer y staff. Byddai adroddiad y mis canlynol yn cynnwys mwy o graffau a llai o dablau, gan wneud tueddiadau niferoedd yn haws eu deall.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.*

## 52 RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies y Rhaglen Waith Arfaethedig. Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill y byddai adroddiad ar y Broses Herio Asedau'n cael ei gyflwyno o fewn y ddau fis nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb efallai na fyddai'r adroddiad ar Strategaeth Tai Lleol ar gael tan fis Gorffennaf.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi Rhaglen Waith Arfaethedig y Cabinet.*

**53 EITEMAU BRYS:**

Nid oedd yna unrhyw Eitemau Brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**54 UWCHYSGOL GATHOLIG BLESSED EDWARD JONES , Y RHYL**

[Gwnaeth y Cynghorydd S Roberts ddatganiad o ddiddordeb yn yr eitem a gadawodd yr ystafell]

[Gwnaeth y Cynghorydd D Owens ddatganiad o ddiddordeb ond oherwydd ei fod yn llywodraethwr apwyntiedig yr AALl roedd ganddo hawl i siarad ond nid i bleidleisio].

Cyflwynodd y Cynghorydd D Owens yr adroddiad gan geisio cytundeb yr Aelodau i ddarparu Uwchysgol Blessed Edward Jones, Y Rhyl gyda threfniadau ar gyfer ariannu ychwanegol i ddelio â'r sefyllfa ariannu i sicrhau ei bod yn darparu cwricwlwm cyfreithiol ac yn cyflawni gofynion y Cynllun Gweithredu Mesuriadau Arbennig ac i ddarparu cefnogaeth ariannol fel y bo'r angen.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes y sefyllfa bresennol yn fanwl a'r angen i sicrhau fod yr Awdurdod yn cyfarfod â'i rwymedigaeth statudol i addysg y disgyblion.

Cytunodd yr Aelodau fod angen cynllun busnes, fyddai'n ystyried yr arian ychwanegol oedd yn cael ei ddarparu. Roedd trefniadau gweithredu monitro ariannol llym ar waith.

Awgrymodd y Cynghorydd H H Evans (Arsyllwr) y dylid ffurfio Panel Monitro Ysgolion i fonitro ysgolion, i danlinellu unrhyw faterion fel y bônt yn codi ac i godi safonau. Ni fyddai cyfarfodydd y Panel yn gyfarfodydd cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr Aelodau'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf yn Uwchysgol Blessed Edward Jones , Y Rhyl a chytuno i ddelio â sefyllfa'r ariannu i sicrhau ei bod yn darparu cwricwlwm cyfreithiol a'i bod yn cyfarfod ag anghenion y Cynllun Gweithredu Mesurau Arbennig ac i ddarparu cefnogaeth ariannol fel y bo'r angen.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.00 p.m.

**********

**PANEL APWYNTIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH DYSGU A GWELLA**
**A PHENNAETH PARTNERIAETH A CHYNHWYSIANT)**

Cofnodion Panel Apwyntiadau Arbennig (Pennaeth Dysgu a Gwella a Phennaeth Partneriaeth a Chynhwysiant) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth 22 Mai 2007 am 5.00 p.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr N Hugh-Jones (Cadeirydd), J Chamberlain Jones, S A Davies, M M Jones a D Owens, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L Jones) a Chlerc y Sir ynghyd â C Johnson a M Phillips (GatenbySanderson).

**55 MATERION BRYS**

Dim

**56 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Apwyntiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Mai.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod dau Gyngor cymdogol wedi mynegi diddordeb cychwynnol i gydweithio yn swydd Pennaeth Dysgu a Gwella. Os na fyddai'r trafodaethau yn dwyn ffrwyth erbyn 22 Mehefin, byddai'r swydd yn cael ei hail hysbysebu.

***PENDERFYNWYD** bod cofnodion cyfarfod y Panel Apwyntiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Mai 2007 yn rhai cywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.*

***PENDERFYNWYD** nodi'r camau a gymerir i lenwi swydd Pennaeth Dysgu a Gwella.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bod yr eitem busnes ganlynol yn cael ei drafod dan Adran 100(A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Y rheswm dros eu gwahardd yw bod yr eitem yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**57 APWYNTIO PENNAETH PARTNERIAETH A CHYNHWYSIANT – RHESTR FER DERFYNOL**

Adroddodd ymgynghorwyr y Cyngor fod y 4 ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu fel penderfynwyd gan y Panel: roedd yr ymgeisydd arall a wahoddwyd wedi tynnu ei enw nôl. Rhoddodd yr ymgynghorwyr orolwg o'r broses yn y Ganolfan Asesu a'r ymarferion a wnaed yno. Cwblhawyd eisoes broffil bersonoliaeth ar-lein gan yr ymgeiswyr ac ar y dydd rhoddodd yr ymgynghorwyr adborth iddynt. Yn ystod y dydd aseswyd yr ymgeiswyr ar ystod o ffactorau gan gynnwys archwilio'r cymhellion a oedd yn eu hysgogi i weithio, dadansoddi ei galluoedd meddyliol beirniadol, gweithio mewn grwpiau a rhyngweithio â Phanel Swyddog/ Athro/awes.

Ymatebodd yr ymgynghorwyr i gwestiynau'r aelodau ynghylch y broses a'r adborth ynglŷn â phob ymgeisydd. Bu'r aelodau yn pwyso a mesur bob ymgeisydd yn ofalus a chasglu bod dau yn teilyngu mynd i'r cyfweliad terfynol o flaen y Panel.

**PENDERFYNWYD** y dylai

(a) *ymgeiswyr 2 a 9 fynychu'r cyfweliad terfynol o flaen y Panel ar 23 Mai. Bydd y Panel yn ail gwrdd am10.45 a.m. a'r ymgeisydd cyntaf yn cael ei gyfweld am 11.00 a.m. a'r ail am 12 o'r gloch.*

(b) *ymgeiswyr gael testun gan y swyddogion i'w gyflwyno ar ddydd y cyfweliad terfynol. Gofynnir yr un cwestiwn i'r ymgeiswyr gan aelodau'r Panel, a'r Panel fydd yn penderfynu pa gwestiynau i ofyn.*

Terfynodd y cyfarfod am 6.30 p.m.

********

**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH DYSGU A GWELLA**
**A PHENNAETH CYNHWYSIANT A PHARTNERIAETHAU)**

Cofnodion o gyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Dysgu a Gwella a Phennaeth Cynhwysiant a Phartneriaethau) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mercher, 23 Mai 2007 am 10.45 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr N Hugh-Jones (Cadeirydd), J Chamberlain Jones, S A Davies, M M Jones a D Owens, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Personél a Chlerc y Sir ynghyd â L Judd (Gatenby Sanderson).

**58 EITEMAU BRYS**

Dim eitemau brys.

**59 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Mai.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Mai 2007 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem busnes a ganlyn ar y sail y gellid datgelu gwybodaeth eithredig iddynt, fel a ddiffinnir ym mharagraffau 12 ac 13 yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**60 PENODI PENNAETH CYNHWYSIANT A PHARTNERIAETHAU**

Bu'r Panel yn ystyried, a chytunwyd ar restr o gwestiynau atodol i'w gofyn i'r ymgeiswyr a pha aelod fyddai'n holi pa gwestiwn.

Yna aeth y Panel ymlaen i gyfweld y ddau ymgeisydd a ddetholwyd gan y Panel yn dilyn cwblhau tasgau'r Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd y ddau ymgeisydd gyflwyniad ar bwnc a roddwyd iddynt ddiwrnod y cyfweliad. Caniatawyd awr o amser paratoi yn union cyn amser eu cyfweliad.

Yn ychwanegol gofynnwyd saith cwestiwn gan wahanol aelodau'r Panel i'r ddau ymgeisydd.

Ar ôl ystyried rhinweddau'r ddau ymgeisydd, yn unfrydol

***PENDERFYNWYD*** *cynnig y swydd Pennaeth Cynhwysiant a Phartneriaethau i Sylvia Jones.*

Gorffennodd y cyfarfod am 1.50 p.m.

**********

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar Fai 23ain 2007 am 09.30 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr R E Barton, J M Davies, M Ll Davies, S A Davies, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, M A German, T K Hodgson, T R Hughes, N Hugh-Jones, E R Jones, H Jones, M M Jones, P W Owen, N P Roberts, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, C H Williams ac R Ll Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllun a Gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G. Butler) Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Wyn Hobson (Cyfieithydd)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

Y Cynghorwyr J Thompson-Hill, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, I M German, G M Kensler a D Hannam

### 61 PENODIAD Y GADAIR

Fe enwebwyd ac fe eiliwyd y Cynghorydd Selwyn Thomas yn Gadeirydd.

Yn absenoldeb unrhyw Enwebiadau eraill etholwyd y Cynghorydd Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn ganlynol.

### 62 PENODIAD IS-GADEIRYDD

Fe enwebwyd y Cynghorydd Lloyd Williams ac fe'i heiliwyd yn Is-gadeirydd. Yn absenoldeb unrhyw Enwebiadau eraill fe etholwyd y Cynghorydd Lloyd Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

### 63 CYNRYCHIOLYDD Y GRŴP ANNIBYNNOL

Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Edwards fel cynrychiolydd y grŵp annibynnol i gymryd lle'r Cynghorydd K Hawkins sy'n awr yn Gadeirydd y Cyngor.

### 64 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd (ddosbarthwyd eisoes) yn rhifo cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd eu hangen ar y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'i gwelir yn yr adroddiad a gyflwynid yn awr, a chaniatâd cynllunio neu wrthod caniatâd cynllunio i'w ddyroddi fel y bo'n addas dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Caniatâd Datblygiad Cyffredinol) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Gynllunio (Adeiladau Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990i'r datblygiad a argymhellir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a rifir yn yr amserlen a gyflwynid yn awr:-*

(i) **CANIATÁU**

| Rhif y Cais, | Disgrifiad a Safle |
|---|---|
| 43/2007/0214/PF | Codi penty ar ochr y tŷ<br>**4, Stoneby Drive, Prestatyn**<br>**GRANT** |

43/2007/0266/PF

Trawsnewid atig yn cynnwys codi uchder y grib a newidiadau cysylltiol
**54, Linden Walk, Prestatyn**
**GRANT**

43/2007/0283/PF

Codi estyniad dau lawr ar ochr y tŷ gyda tho ar ongl
**26, Ffordd Aberconwy , Prestatyn**
**GRANT**
Amodau Ychwanegol
3. Y ffenestr ar lawr cyntaf ochr ddwyreiniol yr estyniad a ganiatawyd i'w gosod gyda gwydr aneglur a hynny cyn dechrau defnyddio'r estyniad ac i barhau felly wedi hynny.
*Rheswm:* preifatrwydd y trigolion cyfagos.
Er gwaethaf darpariaeth Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Caniatâd Datblygiad Cyffredinol) 1995 (neu unrhyw orchymyn i ddiddymu neu ail-ddeddfu gorchymyn gyda neu heb addasiadau) ni chaniateir gosod ffenestri ychwanegol i'r rhai ddynodir yn y cynlluniau a gytunwyd ar unrhyw adeg ar lawr cyntaf ochr yr estyniad oni roddir caniatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.

45/2007/0105/PF

Newidiadau ac estyniad i'r eiddo presennol i ffurfio 2 fflat annibynnol ychwanegol
**71, Ffordd Brighton, Y Rhyl**
**GRANT**

45/2007/0257/PF

Codi estyniad un llawr yn y cefn i greu swyddfa/ystafell staff newydd
**Cartref Gofal Canterbury House, 77 Ffordd Dyserth Road, Y Rhyl**
**GRANT**

46/2007/0084/AC

Manylion asesiad tawelu traffig yn unol ag amod rhif 12 caniatâd cynllunio rhif cod 46/2003/0158/PF
**Tir sy'n cyd-ffinio Ystâd Parc Elwy, oddi ar Lys Dyffryn, Llanelwy**
Nodyn i'r ymgeisydd: Fe'ch cynghorir y bydd angen gwaith ar gyffordd Rhodfa Esgobion a Llys Dyffryn i bwysleisio blaenoriaethau dan Gytundeb Adran 38 a/neu Adran 278 Deddf Priffyrdd e.e. marciau traffig, arwyddion. Dylid gwneud y gwaith yma cyn dechrau codi unrhyw anheddau ar y safle.

02/2006/0796/PF

**Siaradwr yn erbyn CV Honey. O blaid Dawn Morris-Roberts**
Mynegodd y Cynghorydd Elwyn Edwards ddidordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.
Cyn belled na dderbynnir unrhyw gynrychioliadau yn codi unrhyw fater cynllunio pellach nad yw eisoes wedi ei drin yn yr adroddiad drwy ddilyn ystyriaeth llythyrau ychwanegol gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Newid y defnydd o dir amaethyddol i gaeau chwarae, creu maes parcio newydd a mynediad, ac estyniad i'r maes parcio presennol
**Tir yn, Lon Fawr, Rhuthun**
**GRANT**
Amod Ychwanegol
15. Y maes parcio arfaethedig rhwng Lôn Fawr a Stryd Mwrog ddynodir yn Nyluniad Rhif LCC/003 Rev. C i'w weithredu yn unol â chynllun rheoli i'w gyflwyno ac i'w

gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau defnyddio'r maes parcio. Bydd y cynllun rheoli'n cynnwys cyfyngiadau ar barcio dros nos a threfn cynnal a chadw.
*Rheswm:* O safbwynt amwynder gweledol ac amwynder y trigolion.
Nodyn diwygiedig i'r ymgeisydd: "arwyddion traffig".

02/2007/0208/PF

Ailgodi annedd
**Ael Y Bryn, Bryn Goodman, Rhuthun**
**GRANT**

03/2006/1405/PF

Yn dilyn ystyriaeth o 1 llythyr ychwanegol o sylwadau gan Martin Crompton, Hafod Y Maidd, Berwyn Llangollen
Gosod 4 camera CCTV cameras yng nghanol y dref (3 ar adeiladau presennol ac ar bolyn lamp) ac 1 camera CCTV ym Mharc Riverside a gosod antena ar Dŵr Cloch to Neuadd y Dref
**Safleoedd yn Ffordd yr Abaty, Parc Riverside a Neuadd y Dref, Stryd y Castell, Llangollen**
**GRANT**

05/2007/0218/PO

Datblygiad 0.1 hectar o dir drwy godi 1 annedd yn cynnwys lleoli a mynediad (cais amlinellol)
**Tir sy'n cyd-ffinio Jalna, Penybryn, Corwen**
**GRANT**
Mae'n rhaid i'r holl blannu, hadu, tyrffio, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall gynhwysir yn y manylion a gytunwyd ar gyfer tirlunio, ddigwydd yn y tymhorau hadu cyntaf yn dilyn cychwyn y datblygiad. Os bydd unrhyw goed neu blanhigion yn marw, yn cael eu symud neu'n cael eu niweidio'n ddifrifol neu eu heintio o fewn cyfnod o bum mlynedd, mae'n rhaid rhoi planhigion o'r un maint a'r un rhywogaeth yn eu lle yn y tymor plannu nesaf

14/2006/1318/PS

Amrywiad i Amod Rhif 8 ar ganiatâd cynllunio Rhif Cyf 14/2004/0151/PF i ganiatáu plannu mewnlenwi yn lle ffens bren 1.8m yng nghefn Plotiau 1-5 inc
**Plotiau 1-5 yn cynnwys Tir oddi ar Faes Y Delyn, Cyffylliog, Rhuthun**

20/2007/0205/PO

Yn dilyn ystyriaeth o 2 lythyr ychwanegol o sylwadau gan Bwyllgor AONB a Dŵr Cymru
Datblygiad o 0.06 hectar o dir drwy godi 1 annedd a ffurfiant mynediad newydd ar gyfer un cerbyd (cais Amlinellol)
**Tir (a rhan o ardd) yn Nhŷ Berllan, Graigfechan, Rhuthun**
**GRANT**

(ii) **GWRTHOD**

03/2007/0204/PO

**Siaradwr o Blaid For – Gareth Edwards**
Ystyriaeth yn dilyn ymweliad safle ar Fai 18fe
Datblygiad o 0.03 hectar o dir drwy godi annedd unigol (cais Amlinellol)
**Fferm Penrallt, Sun Bank, Llangollen**
**Gwrthodwyd** ar bleidlais derfynol y Cadeirydd

(iii) **GOHIRIWYD AM Y RHESYMAU RODDWYD**

| | |
|---|---|
| 42/2005/1150/PO | Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad adendwm ynglŷn â symiau cymudol<br>Disgrifiad o 0.14he o dir gan godi 2 annedd a chreu mynediad newydd ar gyfer cerbydau a cherddwyr (cais amlinellol)<br>**Tir (rhan o ardd 73 Ffordd Cwm) yn 93/95, Ffordd Cwm, Dyserth, Y Rhyl**<br>**GOHIRIWYD** i ganiatáu i faterion tai fforddiadwy a symiau cymudol (£73,138) gael eu codi gyda'r ymgeisydd i geisio sicrhau rhwymedigaeth Adran 106 i ddarparu'r swm cymudol |
| 15/2007/0182/PF | Ailaliniad ffordd fynediad presennol a lleoli 4 carafán sefydlog, mannau parcio cysylltiedig a gosod tanc septig newydd<br>**Tir cyfagos i Ffynnon y Berth, Ffordd Llanarmon, Llanferres , Yr Wyddgrug**<br>**GOHIRIWYD** i ganiatáu asesiad pellach o'r effaith ar y tirlun a lliniariadau ychwanegol o safbwynt cynllun tirlunio cynhwysfawr ar gyfer y safleoedd presennol a'r rhai arfaethedig |

(iv) **TYNNWYD YN ÔL**

| | |
|---|---|
| 24/2007/0351/PS | Amrywiad ar Amod Rhif 5 yng Nghaniatâd Cynllunio Rhif Cyf. 24/0834/98/PF i ganiatáu defnyddio'r adeilad a'r safle gan unrhyw sefydliad anawdurdodedig a gweithredu ar ddyddiau Sadwrn, Sul a Gwyliau'r Banc<br>**Canolfan Hyfforddi Drylliau, Chwarel Craig y Ddywart, Rhewl, Rhuthun**<br>**TYNNWYD YN ÔL** |

**65 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd i ddiweddaru'r Aelodau ar y datblygiadau o safbwynt gweithredu Cytundeb Adran 106 a datblygiadau cyffredinol yn y safle.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

**66 DIWEDDARIAD O FATERION GORFODI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd yn rhoi manylion am y datblygiadau mewn achosion Gorfodi

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn yr adroddiad*

**67 DIWEDDARIAD AR BENDERFYNIADAU APÊL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd yn rhoi manylion am benderfyniadau Apeliadau a'r rhai oedd yn weddill.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

**68 ADRODDIAD GWYBODAETH**

Nodyn Cyngor Technegol 18 (Trafnidiaeth) Polisi Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad*

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40 am

********

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes a gafodd ei gynnal yn Ystafell Gynadledda 1, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Iau 24 Mai 2007 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr D. Cooper, H H Evans, N. Hugh-Jones, M.M. Jones, G.J. Pickering ac N.P. Roberts ynghyd â'r Aelodau Cyfetholedig R.G. Beattie, E. Jones, C.J. Thomas a D. Wilson.

Mynychodd y Cynghorwyr R.E. Barton, G.C.Evans a J.R.Bartley fel arsyllwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Mynychodd Swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes a Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i gyflwyno adroddiadau fel sy'n ofynnol. Mynychodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes am ran o'r cyfarfod.

### YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau i law gan y Cynghorydd S. Frobisher a'r Aelodau Cyfetholedig G. Greenland, D. Hesketh a'r Parch. M. Parry.

### 69 PENODI CADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd H.H. Evans ac eiliodd y Cynghorydd D. Cooper bod y Cynghorydd N. Hugh-Jones yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd N. Hugh-Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod*.

### 70 PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd D. Cooper ac eiliodd y Cynghorydd G. Pickering bod y Cynghorydd H. H. Evans yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd H. H. Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod*.

### 71 MATERION BRYS

Yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol, yr oedd angen sylw brys arno, i'w drafod :-

> Astudiaeth Cambridge Education ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg – Ymgynghoriad Cyhoeddus

Ceisiodd y Cynghorydd G. Pickering gael eglurhad mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer adroddiad Cambridge Education. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach pan fyddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn bresennol.

### 72 COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 19 Ebrill 2007 eu cyflwyno :-

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 19 Ebrill 2007.*

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at erthygl mewn rhifyn diweddar o'r Daily Post a oedd yn rhoi cyhoeddusrwydd i enillwyr coleg Prifysgol Cymru ar gyfer 2007. Cyfeiriodd at lwyddiant disgyblion o Ysgol Brynhyfryd a gofynnodd bod y Pwyllgor yn eu llongyfarch. Cytunodd yr aelod cyfetholedig a Phennaeth Brynhyfryd, Mrs Eleri Jones, i wneud hyn.

**73 CYNNIG I GODI FFI AM GLUDIANT ÔL-16 – CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD**

(Datganodd y Cynghorwyr M.M. Jones, N. Hugh-Jones a G.P.Pickering gysylltiad â'r eitem hon yn flaenorol pan gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2007).

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad (G. Yates) adroddiad, a gafodd ei ddosbarthu'n flaenorol, ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori i gyflwyno ffi i fyfyrwyr ôl-16 a oedd yn teithio i'w lle addysg neu hyfforddiant.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal gan Cambridge Education ar ran Cynghorau Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych ac mae pob Cyngor wedi cael y canlyniadau ar gyfer eu hardaloedd unigol erbyn hyn. O'r 49 ymateb a ddaeth i law, roedd 48 yn erbyn y cynnig, ac mae manylion ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad. Roedd y dadleuon yn erbyn y ffioedd yn syrthio i ddau brif gategori:-

- Y byddai'n annheg neu'n wahaniaethol am resymau amrywiol, ac
- Y byddai'n tanseilio amcanion addysgol ac amcanion eraill (San Steffan, y Cynulliad a/neu Sir Ddinbych).

Ystyriodd Gweithgor Cludiant Ysgolion y Pwyllgor y mater ar 14 Mai 2007 ac nid oeddent yn cefnogi cyflwyno ffi. Rhoddodd Adran 4.8 yr adroddiad ffigurau presennol o ran nifer y disgyblion a fyddai'n cael eu heffeithio petai ffioedd cludo'n cael eu gweithredu.

Cynigiodd y Cynghorydd H H Evans bod argymhellion y Gweithgor yn cael eu cefnogi ac os oedd penderfyniad terfynol y Cabinet yn wahanol i'r argymhellion a oedd yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Craffu, y dylai'r mater gael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor hwn i'w ystyried ymhellach.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G Pickering o ran y posibilrwydd o sicrhau adnoddau o lifoedd cyllidebol eraill, esboniodd y Pennaeth Strategaeth ac Adnoddau bod cyflwyno ffioedd am gludiant wedi'i nodi'n un o enillion effeithlonrwydd y Gyfarwyddiaeth i'r dyfodol. Os na fyddai'r ffioedd yn cael eu cyflwyno, byddai angen i'r Aelodau ystyried ffyrdd eraill o gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Ychwanegodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad bod y Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad yn flaenorol i gynnal ymgynghoriadau ar gludiant ysgol yn yr Hydref ond nad oedd llawer o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas ag unrhyw gynigion na chynlluniau.

***ARGYMHELLWYD*** *bod:-*

*Aelodau'r Pwyllgor yn ardystio nad yw argymhelliad y Gweithgor Cludiant Ysgolion i godi ffi ar fyfyrwyr ôl-16 sy'n teithio i'w lle addysg neu hyfforddiant yn cael ei gefnogi am y rhesymau canlynol, a'u bod yn rhoi gwybod i'r Cabinet am fwriad y Pwyllgor i herio unrhyw benderfyniad i gyflwyno unrhyw ffioedd :-*

*(a) mae gan y Cyngor ddyletswydd i annog myfyrwyr i barhau ag addysg bellach a byddai cyflwyno ffioedd cludiant yn debygol o leihau'r dewis a hyblygrwydd i fyfyrwyr a byddai hyn yn groes i nodau'r agenda Llwybrau Dysgu 14 – 19;*

*(b) roedd yr ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar y cynnig yn llethol yn erbyn cyflwyno ffioedd ac edrychodd y Gweithgor ar y pryderon a gafodd eu mynegi a gwelwyd eu bod yn ddilys ar y cyfan;*

*(c) byddai'n well mynd i'r afael â mater nawdd cludiant ôl-16 yn genedlaethol trwy'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na chan awdurdodau lleol unigol er mwyn osgoi mabwysiadu polisïau sy'n gwahaniaethu ar raddfa eang, a*

(ch) *phetai'r Cabinet yn dod i benderfyniad gwahanol i'r argymhellion a gafodd eu rhoi gerbron gan y Pwyllgor Craffu, bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor hwn i'w ystyried ymhellach.*

## 74 FFIGURAU A STRATEGAETHAU PRESENOLDEB YSGOLION Y SIR GYFAN

Gyda chwmni Dirprwy Benaethiaid Ysgol Blessed Edward Jones ac Ysgol Uwchradd y Rhyl, cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg (W. Wheatley) adroddiad, a oedd wedi'i ddosbarthu'n flaenorol, ar batrymau presenoldeb yn ysgolion Sir Ddinbych. Esboniodd yr adroddiad hefyd y strategaethau amrywiol a oedd yn cael eu hyrwyddo gan y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg ac a oedd yn cael eu gweithredu gan Ysgolion Sir Ddinbych, i frwydro yn erbyn absenoliaeth a hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

Cynigiodd yr adroddiad 'Gwella Presenoldeb' mewn ysgolion a gafodd ei gyhoeddi gan Estyn ym mis Awst 2006 sail ar gyfer Strategaeth Presenoldeb Sir Ddinbych 2006-08 a chafodd hon ei chynnwys yn y Cynllun Addysg Sengl. Roedd llawer o'r argymhellion a'r enghreifftiau o arfer da a gafodd eu cyfeirio atynt yn yr adroddiad i Gymru gyfan eisoes wedi'u gweithredu yn ysgolion yr Awdurdod.

Darparodd y Cynulliad Cenedlaethol nawdd i weithredu System Gofrestru Electronig dros gyfnod o dair blynedd. Esboniodd yr Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg y byddai'r system olrhain yn galluogi monitro o wers i wers i leihau triwantiaeth a'r disgwyl oedd y byddai'r system yn cael ei defnyddio ym mhob ysgol uwchradd erbyn mis Medi 2007.

Roedd dau o argymhellion Estyn yn cyfeirio at a) yr angen i Gyrff Llywodraethol Ysgolion gymryd rôl arwain o ran codi a chynnal y proffil a b) i Uwch Dimau Rheoli Ysgolion nodi unigolyn i oruchwylio'r cyfrifoldeb am bresenoldeb.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd N. P Roberts, nododd yr Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg bod yr Awdurdod wedi mynd â 12 achos i'r llys yn y deuddeg mis blaenorol, ac roedd pob un o'r rheiny wedi arwain at erlyniadau llwyddiannus.

Esboniodd y swyddog hefyd bod y ffigurau a gafodd eu dyfynnu yn yr adroddiad yn cyfeirio at bob absenoldeb, gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u hawdurdodi. Roedd arweiniad y Cynulliad i ysgolion yn nodi na ddylai disgyblion gael mwy na 10 diwrnod o wyliau gydag awdurdod yn ystod y tymor. Mewn ymateb i gais i gael crynodeb o absenoldeb gydag awdurdod a heb awdurdod, cytunodd yr Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg i roi'r wybodaeth hon i Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau mewn perthynas ag adnoddau, nododd yr Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg, oherwydd bod pob achos yn unigol a bod angen ymchwiliadau trylwyr a beichus o ran amser yn aml, bod adnoddau'n cael eu rhoi dan straen yn aml, yn enwedig yn y sector cynradd.

***PENDERFYNWYD** bod:-*

(a) *yr adroddiad yn cael ei nodi a'i dderbyn,*

(b) *diweddariadau diweddar ar lefelau absenoldeb i ysgolion unigol, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol yn cael eu cyflwyno i Weithgor Safonau Ysgolion y Pwyllgor,*

(c) *Cyrff Llywodraethol yn cael eu cefnogi i enwebu Llywodraethwr Arwain ar gyfer materion Presenoldeb, a bod*

(ch) *cyfleoedd ar gael i ysgolion rannu arfer da wrth hyrwyddo presenoldeb a lleihau absenoldeb trwy raglen gwaith ymlaen llaw'r Pwyllgor.*

Torrodd y cyfarfod yn y fan hon er mwyn cael egwyl lluniaeth.

## 75 AMSERLEN CAMBRIDGE EDUCATION

Yn dilyn pryderon a gafodd eu mynegi gan yr Aelodau yn gynharach yn y cyfarfod, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddiweddariad i'r Pwyllgor o ran yr amserlen ar gyfer adroddiad Cambridge Education ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Cadarnhaodd y byddai digon o amser yn cael ei roi i bob rhanddeiliad ystyried a rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad. Gan ymateb i bryderon yr aelodau y gallai'r adroddiad gael ei gyhoeddi'n agos i ddiwedd tymor yr haf, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod yn fwy tebygol o ddigwydd yn ystod mis Medi 2007. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gadarnhau'r amserlen yr wythnos ganlynol ond ailadroddodd y byddai digon o amser i roi adborth i sicrhau proses deg, agored a thryloyw.

Ceisiodd yr Aelodau ddiweddariad ar lafar ar y sefyllfa o ran Ysgol Uwchradd Blessed Edward Jones, Y Rhyl. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, oherwydd rhesymau cyfrinachedd, ni allai roi gwybodaeth fanwl ond cadarnhaodd bod adroddiad llawn wedi'i gyflwyno i'r Cabinet yr wythnos flaenorol a bod y penderfyniadau a gafodd eu gwneud wedi adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i gefnogi a chynorthwyo'r ysgol wrth dynnu hi allan o fesurau arbennig. Gofynnodd yr Aelodau am gael diweddariadau'n rheolaidd.

## 76 CYNLLUN GWEITHREDU FFYRDD GWEITHGAR O FYW SIR DDINBYCH 2007-08

Cyflwynodd y Pennaeth Cefn Gwlad a Hamdden adroddiad, a oedd wedi'i ddosbarthu'n flaenorol, yn gofyn am safbwyntiau'r Aelodau ar yr ail Gynllun Gweithredu Ffyrdd Gweithgar o Fyw blynyddol Sir Ddinbych ar gyfer 2007/08 y mae copi ohono ynghlwm â'r adroddiad.

Cefnogodd y Cynllun y flaenoriaeth strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i annog lefelau mwy o weithgarwch corfforol fel un o'r prif benderfynyddion iechyd ac a oedd yn cynnwys 60 o gamau sydd wedi'u nodi.

Tynnodd y Pennaeth Cefn Gwlad a Hamdden sylw'r Aelodau at gynnwys adran ychwanegol ar Reoli Perfformiad yr oedd manylion amdani yn 4.0 y Cynllun. Nododd hyn Ddangosyddion Cynllun Ffordd Weithgar o Fyw Sir Ddinbych 2007/08 a thargedau ar lefel genedlaethol a lleol.

Roedd sylwadau'r Aelodau ar y Cynllun yn cynnwys:-

- awgrym bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i hysbysebu Teithiau Cerdded Iach mewn mannau a lleoliadau ar wahân i Ganolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd ac adeiladau'r Cyngor – e.e. tafarndai
- mae angen gwneud mwy o ddefnydd o adeiladau ysgolion yn ystod y gwyliau
- roedd rhai o'r blaenoriaethau 'Dringo'n Uwch' a oedd wedi'u rhestru ar dudalen 2 y Cynllun yn uchelgeisiol iawn ac yn annhebygol o gael eu cyflawni
- cafodd amheuon eu mynegi am ddibynadwyedd data'r arolwg a gafodd ei ddefnyddio,
- roedd angen dull mwy cytbwys o ran gweithgareddau sydd ar gael yn ne'r Sir,
- roedd y diffyg cludiant yn atal pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu. Roedd problemau tebyg yn effeithio ar y sawl dros 60 oed a oedd yn cymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim
- ymddangosai bod diffyg cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon nad ydynt yn rhai'r brif ffrwd

***PENDERFYNWYD*** *bod Cynllun Gweithredu Ffyrdd Gweithgar o Fyw Sir Ddinbych ar gyfer 2007/08 yn cael ei ardystio yn amodol ar ystyried y sylwadau uchod.*

## 77 STRATEGAETH TWF ECONOMAIDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Prif Reolwr Adfywio (M. Dixon) adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu, a gafodd ei ddosbarthu'n flaenorol, yn gofyn am safbwyntiau'r Aelodau ar Strategaeth Twf Economaidd ddrafft Sir Ddinbych cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol i'r Cabinet i'w chymeradwyo.

Esboniodd yr adroddiad ers 2000, bu Sir Ddinbych yn cael y lefel uchaf o adnoddau cronfa strwythurol o'r Undeb Ewropeaidd, yn bennaf o raglen Amcan 1 ond hefyd gan INTERREG a Leader Plus.

Byddai'r Sir yn parhau i fod yn gymwys am nawdd strwythurol yr UE a lefelau uwch o gymorth y wladwriaeth am y chwe blynedd nesaf ac roedd y Cyngor wedi comisiynu paratoadau'r strategaeth a fyddai, o'i gweithredu, yn ecsbloetio'r cyfle ac yn dod â thwf economaidd parhaus yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd y blaenoriaethau a gafodd eu rhestru yn DEG2 eu hystyried yn hynod berthnasol i'r Pwyllgor hwn gan eu bod yn cynnig y dylai twristiaeth barhau'n sector allweddol sy'n cynnig cyflogaeth leol trwy welliannau yn safon yr adeiladau a'r bwyd ac atynioldeb yr arfordir. Cyfeiriodd DEG3 a DEG7 hefyd at y manteision o godi lefelau sgiliau'r sawl mewn cyflogaeth a diogelu cyflenwad llafur digonol trwy wella sgiliau a chymhelliant y rhai ar fudd-daliadau analluogrwydd.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau, nododd y Prif Reolwr Adfywio y byddai'r mater cyflogaeth dymhorol yn cael ei gynnwys yn fersiwn derfynol y Strategaeth. Cadarnhaodd hefyd bod Strategaeth Dwristiaeth yn y broses o gael ei datblygu. Cyfeiriodd aelodau hefyd at yr angen am ddull sir gyfan, gytbwys a fyddai'n dod â buddiannau i bob sector o'r gymuned.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr ymgynghoriad drafft o Strategaeth Twf Economaidd Sir Ddinbych yn cael ei ardystio a bod y naw blaenoriaeth a gafodd eu nodi (gan gynnwys camau i gefnogi gwasanaethau mewn cymunedau gwledig) yn cael eu cefnogi.*

## 78 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU

Cyflwynodd y Swyddog Cymorth Craffu (S. Price) adroddiad, a oedd wedi'i ddosbarthu'n flaenorol, yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau o raglen waith ymlaen llaw'r Pwyllgor ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Cafodd copi o'r rhaglen waith ei gysylltu fel atodiad i'r adroddiad.

**Grŵp Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol**
Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at y penderfyniad a gafodd ei wneud yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2007 i sefydlu Grŵp Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol i gefnogi rôl y Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant a ofelir amdanynt ac ymadawyr gofal. Mewn ymateb i gais gan y Swyddog Cymorth Craffu i enwebu Aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Grŵp, y cynnig oedd y byddai'r Cynghorydd N. Hugh-Jones yn gynrychiolydd y Pwyllgor a chafodd hyn ei gytuno arno.

**Eitemau'r Agenda**
Cyfeiriodd y Swyddog Cymorth Craffu at y cytundeb y daethant ato yn y cyfarfod blaenorol i leihau nifer yr eitemau ar yr agenda i'w hystyried ym mhob cyfarfod.

Trafododd yr aelodau'r mater o alw cyfarfodydd ychwanegol i ystyried materion addysg ar wahân i faterion diwylliant a hamdden gan eu bod yn teimlo nad oedd digon o amser yn aml i ymdrin â chylch gwaith eang y Pwyllgor ym mhob cyfarfod misol. Awgrymodd y Cynghorydd G. Pickering y dylai adroddiadau gael eu dosbarthu i Aelodau cyn gynted â bod y fersiynau terfynol wedi'u cyhoeddi i alluogi ar gyfer codi cwestiynau gyda swyddogion cyn pob cyfarfod. Awgrymodd y cynghorydd H.H. Evans y gallai'r cynnig gan y Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant i sefydlu Grŵp Llywio helpu lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Roedd yr Aelodau Cyfetholedig yn ffafrio cyfarfodydd ar wahân ar y sail eu bod wedi'u cyfethol ar y Pwyllgor i ystyried materion addysg.

Y cynnig oedd, yn dibynnu ar y baich gwaith, y byddai cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal a bod cyfarfodydd ar wahân ar gyfer materion diwylliant/hamdden ac addysg yn cael eu cynnal lle bo hynny'n ymarferol Cafodd hyn ei gytuno arno.

**Rheolaeth a Pherfformiad y Canolfannau Hamdden**
Yn dilyn trafodaethau blaenorol, cafodd Aelodau eu gofyn i ystyried a fyddai'n deilwng i ehangu'r daith o Ganolfannau Hamdden y Sir. Y cytundeb oedd y gallai'r ymweliad gynnwys Canolfannau Hamdden Corwen, Dinbych, Llanelwy a'r Rhyl.

**Adolygiad o Aelodaeth Gyfetholedig**
Atgoffodd yr adroddiad yr Aelodau o'r trefniadau'n ymwneud â thelerau'r swyddi sy'n cael eu gwasanaethu gan aelodau cyfetholedig nad ydynt yn pleidleisio. Cafodd Aelodau wybod y byddid yn ymgynghori â nhw i gael eu safbwyntiau cyn cael eu gofyn i adolygu'r aelodaeth gyfetholedig yn ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

Nododd y Cynghorydd H H Evans bod Gweithgor Safonau Ysgolion y Pwyllgor wedi argymell bod yr AALl yn sefydlu Bwrdd Monitro Ysgolion gyda chefnogaeth gorfforaethol i fonitro cynnydd ysgolion Sir Ddinbych er mwyn tynnu sylw at unrhyw bryderon yn gynnar.

Rhoddodd y Cynghorydd Evans wybod bod awgrym wedi dod i law y dylai'r Bwrdd gynnwys Penaethiaid neu cyn Benaethiaid Ysgolion, arolygwyr ysgolion ac unigolion eraill gyda phrofiad ac arbenigedd priodol, yr Aelod Arwain ar gyfer Ysgolion a Dysgu Gydol Oes a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes, a'i fod yn cael ei gefnogi gan swyddogion gwella ysgolion yr AALl a chynrychiolydd y gyfarwyddiaeth Adnoddau ar gyfer materion ariannol.

Teimlai'r Aelodau bod yr awgrym yn un teilwng a gwnaethant gytuno y dylai argymhelliad gael ei roi i'r arweinyddiaeth gorfforaethol sefydlu Bwrdd Monitro Ysgolion.

***PENDERFYNWYD** bod:-*

*(a)* *y Rhaglen Waith y mae ei manylion yn Atodiad 1 yn cael ei chymeradwyo,*

*(b)* *trefniadau'n cael eu gwneud i ymweld â'r Canolfannau Hamdden a gafodd eu cyfeirio atynt uchod,*

*(c)* *y Cynghorydd N. Hugh-Jones yn cael ei enwebu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol;*

*(ch)* *yn dibynnu ar faich gwaith y Pwyllgor, cynnal cyfarfodydd ychwanegol a lle'r oedd hynny'n ymarferol, cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer materion diwylliant/hamdden ac addysg*

*(d)* *argymell bod arweinyddiaeth gorfforaethol yn sefydlu Bwrdd Monitro Ysgolion.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.

*********

**IS BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod yr Is Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Heol Churton, Y Rhyl dydd Gwener, 25 Mai 2007 am 9.30 a.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr B. Blakeley, I.M. German a J.A. Smith

Arsyllwyr – Cynghorydd R.E. Barton

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (A. Wright), Swyddog Trwyddedu (J. Thomas) a'r Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

**79 PENODI CADEIRYDD I'R CYFARFOD**

Penodwyd y Cynghorydd J.A. Smith yn Gadeirydd ar y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion a oedd yn bresennol. Dosbarthwyd dulliau gweithredu Gwrandawiadau yn flaenorol i bob parti a dosbarthwyd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn y cyfarfod.

**80 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I AMRYWIO TRWYDDED ADEILAD SYDD EISOES YN BODOLI – EASTERN DELIGHT, 10 STRYD CINMEL, Y RHYL**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar:-

(i) gais a dderbyniwyd oddi wrth Mr. Tariq Mahmood i amrywio trwydded adeilad sydd eisoes yn bodoli er mwyn estyn yr oriau darparu Lluniaeth Hwyr y Nos yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 fel a ganlyn:-

Lluniaeth Hwyr y Nos

| | |
|---|---|
| Dydd Sul – Dydd Iau | 23.00 – 03.00 |
| Gwener a Sadwrn | 23.00 – 04.00 |

Oriau agor arfaethedig yr adeilad i ddilyn y patrwm uchod.

(ii) ar hyn o bryd, mae'r adeilad yn gweithredu fel lle i brynu bwydydd parod yn ystod yr oriau a ganiateir o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn 23.00 – 02.00 a'r oriau agor penodedig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 10.00 – 02.00 a dydd Sul 10.00 – 23.00 [mae angen trwydded i werthu bwyd poeth i'r cyhoedd ar unrhyw adeg rhwng 23.00 a 05.00];

(iii) cyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru sylwadau (Atodiad 1) yn gwrthwynebu i'r oriau arfaethedig ar sail troseddu ac anhrefn. Wrth ystyried y cais, mae angen rhoi sylw dyladwy i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; y pedwar amcan trwyddedu allweddol a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003; y sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru a dderbyniwyd a'r wybodaeth a gafwyd gan yr Ymgeisydd, a'r

(iv) opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

(v) Cafodd yr aelodau grynodeb o'r adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu gyda manylion y gweithgaredd trwyddedadwy y gwnaed cais amdano a'r sylwadau a dderbyniwyd.

**DATGANIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr Ymgeisydd, Mr. Tariq Mahmood ynghyd â'i wraig (a'i gynrychiolydd) Mrs. Mahmood yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r cais. Bu Mrs. Mahmood yn annerch yr Is Bwyllgor Trwyddedu. Nododd fod yr Eastern Delight wedi'i leoli yng nghanol cymuned lle'r oedd galw am luniaeth hwyr. Eglurodd fod y Bar Blu, (sydd gyferbyn â'r adeilad) wedi cael trwydded hwyr tan 4.00 a.m ers y Nadolig; roedd hyn wedi cael effaith niweidiol ar eu busnes a dyna'r rheswm dros y cais hwn i estyn yr oriau i alluogi eu busnes nhw i gystadlu.

Mewn ymateb i sylwadau ysgrifenedig yr Heddlu (Atodiad 1) dywedodd Mrs. Mahmood :-

- ym mis Chwefror roedden nhw dan yr argraff bod ymgyrch wedi'i chynnal ledled y DU gan y Gwasanaeth Mewnfudo; am un wythnos yn unig y bu'r person dan sylw yn gweithio yn eu bwyty ac nid oedden nhw'n ymwybodol nad oedd ganddo'r hawl i weithio yno
- roedd y digwyddiad ar 1 Ebrill 2007 yn un dadleuol iawn; pedwar cwsmer yn unig oedd yn yr adeilad ac roedden nhw wedi archebu bwyd cyn 2.00 a.m; ond, gan fod yr adeilad yn brysur iawn, roedden nhw'n dal i aros am eu bwyd ar ôl 2.00 a.m.; roedd yn arfer derbyniol i dderbyn archebion am fwyd ar unrhyw adeg hyd at 2.00 a.m. hyd yn oed os na drosglwyddwyd y bwyd cyn yr amser hwnnw; clowyd y drysau am 2.00 a.m. ac ni dderbyniwyd yr un archeb ar ôl hynny
- gallai cyflogi goruchwylwyr drws greu delwedd negyddol i adeilad nad oedd yn denu drwgweithredwyr nac yn gwerthu alcohol
- roedd Teledu Cylch Cyfyng eisoes wedi'i osod ac yn gweithredu ar yr adeilad
- sefydlwyd perthynas dda gyda chwsmeriaid ac asiantaethau eraill, fel ei gilydd
- busnes bach oedd Eastern Delight ac roedd Mr. Mahmood wedi buddsoddi llawer iawn o amser ac arian yn y busnes a oedd wedi dioddef wedi i Bar Blu estyn ei oriau.

I gloi, cyflwynodd Mrs. Mahmood amryw o lythyron a oedd yn gefnogol i'r cais, (dosbarthwyd y rhain yn y cyfarfod), gan gynnwys llythyron gan Mr. Chris Ruane, AS, a gan Bar Blu ei hunain.

**SYLWADAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Cyfeiriodd y Rhingyll M. Evans at y sylwadau ysgrifenedig (Atodiad 1) a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a gwrthwynebodd y cais yn ffurfiol ar sail troseddu ac anhrefn. Ailadroddodd hanes y digwyddiadau y cyfeiriwyd atyn nhw yn sylwadau'r Heddlu sef (1) yn ystod Chwefror cynhaliwyd ymgyrch gan y Gwasanaeth Mewnfudo a arweiniodd at arestio person oedd yn gweithio yn yr adeilad, ac (2) ymwelodd swyddog â'r adeilad am 2.30 a.m. ar 1 Ebrill 2007 pan oedd yr adeilad yn llawn o tua phymtheg o gwsmeriaid ac roedd bwyd poeth yn dal i gael ei weini pan oedd gan yr adeilad drwydded hyd at 2.00 a.m. yn unig. Er bod y drws wedi'i gloi a'r golau wedi'i bylu, roedden nhw'n dal i weini bwyd, a rhoddwyd rhybudd i'r rheolwr ar yr achlysur hwn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau: ers Medi 2005 cafwyd un ar ddeg o ddigwyddiadau troseddol ac anhrefnus yn gysylltiol â'r adeilad, yn ymestyn o droseddau casineb, ymosodiadau a difrod troseddol i ymosod yn anweddus; roedd hyn yn tystio bod troseddau'n digwydd yn gyson yn yr adeilad. [Dosbarthwyd rhestr fanwl o'r digwyddiadau i bawb yn y cyfarfod.]

Mewn cysylltiad â'r llythyron o gefnogaeth i'r cais a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, dywedodd y Rhingyll Evans fod Mr. Chris Ruane, AS wedi datgan na chafwyd unrhyw droseddu nac anhrefn ond roedd yn amlwg nad oedd hyn yn gywir. Nodwyd hefyd bod amryw o'r llythyron gan ddarparwyr nwyddau a allai elwa'n ariannol pe bai'r cais yn llwyddiannus. Wrth gloi, dywedodd y Rhingyll Evans fod troseddau treisgar wedi cynyddu o 38% yn Sir Ddinbych a pho fwyaf y nifer o adeiladau a fyddai'n cael caniatâd i agor yn hwyrach, mwyaf dwys fyddai'r broblem gyda mwy o droseddau'n digwydd. Byddai'r Heddlu'n barod i gytuno i estyn yr oriau i 2.30 a.m. ar y penwythnos a 01.30 a.m. yn ystod yr wythnos ar yr amod bod staff drws cofrestredig SIA yn cael eu cyflogi o 11.00 p.m. tan amser cau.

Ar yr adeg honno (10.05 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am ddeng munud i alluogi pob ochr i ystyried y rhestr o ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan yr Heddlu.

Pan ail-ddechreuodd y cyfarfod, manteisiodd aelodau ar y cyfle i holi'r Rhingyll Evans am ei sylwadau a dywedodd fod :-

- y digwyddiadau a restrwyd wedi'u cofrestru fel digwyddiadau a ddigwyddodd yn yr adeilad ac ni allai brofi ble roedd yr unigolion wedi bod cyn y digwyddiadau hynny; fel arfer, roedd pobl yn gadael mannau gwerthu alcohol ag awydd bwyd ac yn ymgasglu mewn mannau arbennig i gael bwyd yn hytrach na mynd adref
- roedd y digwyddiadau'n amlygu at y troseddu a'r anhrefn yn gysylltiol â'r adeilad ac yn cyfrannu at gyfraddau uchel y troseddau a gofnodwyd yn Y Rhyl.

Rhoddwyd cyfle i Mrs. Mahmood ymateb i'r rhestr o ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan yr Heddlu. Cofnodir disgrifiad byr o bob digwyddiad a'i hymateb hi fel a ganlyn:-

07/01/07 – Trosedd Casineb – Galwr yn dweud ei fod wedi bod yn derbyn negeseuon hiliol, dilornus oddi wrth alwr gwrywaidd anhysbys dros gyfnod o bythefnos. Roedd hyn yn gwaethygu.

Ymateb: Nid oedd hon yn drosedd a ddigwyddodd yn yr adeilad fel rhan o'r busnes. Roedd yn gwbl amherthnasol i'r cais.

23/12/2006 – Ymosodiad - Gofynnodd Perchennog y Siop i'r troseddwr adael yr adeilad. Yna derbyniodd y person a anafwyd ergyd dwrn yn ei wyneb. Wedi i'r troseddwr adael yr adeilad, clywodd swyddogion yr heddlu ef yn gweiddi sarhad hiliol; fe'i arestiwyd.

23/12/06 – Trosedd Hysbysadwy– Y person a anafwyd yn derbyn ergyd dwrn yn ei geg.

Ymateb: Roedd y ddau ddigwyddiad uchod yn cyfeirio at yr un digwyddiad a gofnodwyd ddwywaith. Aeth unigolyn meddw i mewn i'r siop; gofynnwyd iddo adael ac yna ymosododd ar Mr. Mahmood. Ni chafodd yr Ymgeisydd unrhyw wybodaeth gan yr Heddlu am y camau y bwriadwyd eu cymryd yn yr achos hwn; nid oedd yn fodlon ag ymateb yr Heddlu hyd yma.

17/07/06 – Ymosodiad Cyffredin – Ymosodiad ar ddyn a chofnodwyd mai lleoliad y digwyddiad oedd y tu allan i Eastern Delight.

Ymateb: Heb fod yn ymwybodol o'r digwyddiad hwn a ddigwyddodd yn Stryd Cinmel, heb unrhyw gysylltiad â'r adeilad.

07/02/06 - Difrod Troseddol - Aeth y person a ddrwgdybiwyd i mewn i'r siop ac archebu pryd parod i fynd allan ac yna bu'n sarhaus wrth y perchennog. Gofynnwyd iddi adael a throdd yn hiliol ddifrïol. Yn syth wedi iddi adael yr adeilad, trawodd y ffenestr bedair gwaith gan achosi craciau mewn pedwar man gwahanol.

Ymateb: Roedd dynes feddw wedi mynd i mewn i'r siop ac ymddwyn yn ddifrïol pan ofynnwyd iddi adael. Wedyn cafodd ei harestio gan yr Heddlu. Dychwelodd i'r siop drannoeth i ymddiheuro am ei hymddygiad. Roedd y digwyddiad yn gysylltiol ag alcohol .

07/02/06 – Lladrad – Daeth y troseddwr i mewn i'r siop; dewisodd dri thun o gôc o'r oergell; taflodd un i gyfeiriad y cownter a gadael heb dalu am y ddau arall.

Ymateb: Cofnodwyd y digwyddiad hwn fel lladrad a Mr. Mahmood a wnaeth adroddiad ar y mater.

21/12/05 – Ymosodiad – Dyrnodd y troseddwr y Person a Anafwyd ddwywaith yn yr wyneb gan achosi anaf; hefyd taflodd fwyd at ei hwyneb yn y siop.

Ymateb: Dechreuodd ysgarmes am bêl droed y tu allan i'r adeilad.

04/09/2005 – Ymosodiad - Roedd y Person a Anafwyd yn eistedd yn bwyta yn y bwyty pan ddynesodd dyn ato, ei ddifrïo'n hiliol a'i ddyrnu yn ei ben.

04/09/2005 – Ymosodiad Anweddus ar Ddynes – Roedd y Person a Anafwyd yn eistedd yn y bwyty pan ddaeth dyn i mewn ac ymddwyn yn sarhaus. Gofynnodd iddo adael a gafaelodd ef yn ei bronnau gyda'i ddwy law.

Ymateb: Mae'r ddau ddigwyddiad uchod yn cyfeirio at yr un achlysur.

03/08/2006 – Difrod Troseddol – Troseddwr gwrywaidd meddw yn malu sgrin wynt cerbyd wedi'i barcio, heb neb ynddo.

Ymateb: Digwyddodd hyn yn Stryd Cinmel - heb unrhyw gysylltiad â'r adeilad.

14/11/05 – Difrod Troseddol– Roedd y person a ddrwgdybiwyd wedi malu ffenestr y siop.

Ymateb: Digwyddodd hyn pan oedd y siop ynghau.

Defnyddiodd yr Aelodau’r cyfle i holi Mrs. Mahmood ac atebodd hi fel a ganlyn:-

- o roedd Teledu Cylch Cyfyng yn gweithredu bellach yn yr adeilad – pedwar camera lliw â'r gallu i recordio sain.
- o yn awr, mae'r adeilad yn cau am 2.00 a.m. Dyna pryd y caeir y drysau ac, fel arfer, ni dderbynnir unrhyw archeb ar ôl 1.45 a.m.
- o pe bai aelodau'n ymateb yn ffafriol i'r cais, byddai'r perchennog yn barod i gyflogi staff drws i'r adeilad yn ystod yr oriau agor ychwanegol (rhwng 2.00 a.m. - 4.00 a.m.); busnes bychan oedd hwn ac nid oedd angen cyflogi staff drws yn ystod yr oriau agor presennol.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Diolchodd Mrs. Mahmood i'r Is Bwyllgor Trwyddedu am wrando ar y cais. Atgoffodd yr aelodau fod Teledu Cylch Cyfyng eisoes wedi'i osod yn yr adeilad a phe bai aelodau yn cytuno i'r cais, fe fydden nhw'n barod i gyflogi staff drws yn ystod yr oriau ychwanegol y gofynnwyd amdanyn nhw.

**GOHIRIO I DRAFOD Y CAIS**

Ar yr adeg honno (10.40 a.m.) gohiriodd yr Is Bwyllgor y cyfarfod er mwyn trafod y cais.

**PENDERFYNIAD - A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *caniatau’r cais yn amodol ar yr amodau canlynol:*

*Lluniaeth Hwyr*

| | |
|---|---|
| *Sul – Iau* | *23.00 – 02.30* |
| *Gwener a Sadwrn* | *23.00 – 03.30* |

*Ar yr amodau canlynol:-*

1. *Byddai isafswm o ddau aelod o staff yn gweini yn yr adeilad yn ystod yr oriau hyn.*

2. *Byddai'r Teledu Cylch Cyfyng yn parhau i weithredu bob amser a byddai tapiau ar gael i'r heddlu dros gyfnod o 30 diwrnod.*

3. *Ar ddydd Gwener a Dydd Sadwrn rhwng canol nos a 03.30 a.m. cyflogir o leiaf un person drws cofrestredig SIA.*

Hysbysodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd a budd-gyfranogwyr eraill yn y cyfarfod am benderfyniad yr Is Bwyllgor. Hefyd rhoddodd adroddiad llafar ar y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn:-

1. Roedd yr Is Bwyllgor Trwyddedu yn cydnabod bod rhai digwyddiadau troseddol ac anhrefnus, er nad yn eithafol, wedi'u cofnodi yn yr adeilad.

2. Roedd yr adeilad yng Nghanol y Dref ac felly yn denu mwy o gwsmeriaid o adeiladau cyfagos gan beri risg uwch o droseddu ac anhrefn.

3. Byddai'r oriau ychwanegol yn caniatáu i gwsmeriaid o adeiladau cyfagos ymwasgaru'n raddol gan leihau problemau a allai godi pan fyddai torf o bobl yn chwilio am luniaeth ar yr un pryd.

4. Byddai'r oriau ychwanegol yn hyrwyddo'r ffordd i gwsmeriaid gael mwy o ddewis ac yn rhoi cyfle cyfartal i berchnogion yr adeilad gystadlu yn yr ardal.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.

*******

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun dydd Mercher, 30 Mai, 2007 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr B. Blakeley, S.A. Davies, P.C. Duffy, E.C. Edwards, I.M. German, T.K. Hodgson, J.A. Smith, J. Thompson-Hill a C.H. Williams

### HEFYD YN MYNYCHU

Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (G. Sumner), Rheolwr Trwyddedu (P. Rafferty), Cyfreithiwr (A. Wright) a'r Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIAD AM AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J. Butterfield a M.M. Jones

### 81 PENODI CADEIRYDD

Gofynnodd y Cyfreithiwr am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cynigiodd y Cynghorydd E.C. Edwards - ac eiliiwyd hyn gan y Cynghorydd I.M. German – y dylid penodi'r Cynghorydd J.A. Smith yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Yn absenoldeb unrhyw enwebiad arall:-

***PENDERFYNWYD*** *y dylid penodi'r Cynghorydd J.A. Smith yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.*

### 82 PENODI DIRPRWY-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cynigiodd y Cynghorydd T.K. Hodgson – ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd S.K. Davies – y dylid penodi'r Cynghorydd J. Thompson-Hill yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Yn absenoldeb unrhyw enwebiad arall:-

***PENDERFYNWYD*** y dylid penodi'r Cynghorydd J. Thompson-Hill yn ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.

### 83 MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw eitem yr oedd y Cadeirydd yn ystyried ei fod yn fater brys, gan ddilyn Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 84 SWYDD RHEOLWR TRWYDDEDU

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd Mr. Philip Rafferty, a benodwyd gan yr awdurdod yn Reolwr Trwyddedu a chroesawodd ef i'r Pwyllgor.
Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) a oedd yn hysbysu aelodau am y trefniant a wnaed â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am swydd Rheolwr Trwyddedu i Sir Ddinbych. Atgoffwyd Aelodau am y golled o ddau swyddog allweddol o'r Adran Drwyddedu a dywedwyd bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) wedi'i gytuno rhwng Sir Conwy a Sir Ddinbych i ddefnyddio gwasanaethau Mr. Philip Rafferty, Rheolwr Trwyddedu Conwy. Ymgynghorwyd â'r staff priodol a Chynghorwyr awdurdodau lleol Siroedd Conwy a Dinbych ar yr SLA a lofnodwyd gan yr Aelod Arweiniol: Amgylchedd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd.

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fuddiannau cydweithio o ran effeithiolrwydd ac arferion gwaith, yn enwedig mewn maes fel trwyddedu. Dywedodd fod yr SLA wedi'i gadarnhau ar gyfer cyfnod cychwynnol o ddeuddeng mis a'r gobaith oedd y byddai'r trefniadau partneriaeth yn parhau am gyfnod hwy ar ôl adolygiad. Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu y byddai cydweithio

agosach rhwng Sir Conwy a Sir Ddinbych yn creu dull o weithredu mwy cadarn a chyson; ychwanegodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio o dan y drefniadaeth newydd. Cadarnhaodd ei fod wedi cyfarfod â staff trwyddedu Sir Ddinbych a diolchodd i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a'r Pennaeth Cynorthwyol am estyn croeso mor gynnes iddo i Sir Ddinbych.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd I.M. German, disgrifiodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yr agweddau ymarferol o ddydd i ddydd a'r trefniadau rheoli newydd, y manteision o ran effeithiolrwydd o ganlyniad i'r bartneriaeth a'r angen am fuddsoddi ymhellach yn y gwasanaeth, yn ogystal â gweithredu mewn partneriaeth rhwng adrannau eraill o fewn y gyfarwyddiaeth, gan gynnwys Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Roedd y Cadeirydd a'r Aelodau'n hapus i groesawu Mr. Rafferty i'r awdurdod fel Rheolwr Trwyddedu:-

***PENDERFYNWYD*** *i dderbyn yr adroddiad a'i nodi.*

**85 ADRODDIAD AR WEITHREDU'R ADRAN DRWYDDEDU 2006/07**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) am weithredu'r Adran Drwyddedu yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2007. Atodwyd i'r adroddiad Gynllun Gweithredol yr Adran Drwyddedu ar gyfer 2006/07 (Atodiad 1) a Chynllun Gweithredol y Tîm Trwyddedu ar gyfer 2007/08 (Atodiad 2). [Dosbarthwyd diweddariadau i dudalennau 5 ac 8 o'r Cynllun yn y cyfarfod].

Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd grynodeb o brif feysydd gwaith yr Adran Drwyddedu yn ystod 2006/07 gan gynnwys tipyn o waith nas cynlluniwyd - yn sgil gofynion y Ddeddf Drwyddedu, fel ymholiadau cyffredinol; cyfarfodydd gyda Heddlu Gogledd Cymru, dalwyr trwyddedau a chymodi rhwng partion perthnasol; ceisiadau a gyfeiriwyd at yr Is-Bwyllgor Trwyddedu; ymweliadau aml-asiantaeth â dalwyr trwyddedau, a gwaith i sicrhau bod safleoedd trwyddedig yn Sir Ddinbych yn cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd 2006 (yn enwedig o ran deddfwriaeth ddi-fwg).

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd at bedwar Fforwm Tacsi a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'r gwaith da a gyflawnwyd trwy ymgynghori ar bynciau sylweddol fel gwaredu'r parthau cerbydau hur. Yn anffodus, ychydig o bobl a fynychodd y ddau gyfarfod diweddaraf ac efallai y byddai'n well gostwng y nifer o fforymau a gynhelir yn ystod y flwyddyn bresennol. Hysbyswyd Aelodau hefyd bod Cynllun Cerdyn Profi Oed y Cyngor wedi'i ganslo oherwydd bod modd ffugio hunaniaeth yn hawdd a bod amryw o ddalwyr trwyddedau'n awr yn gofyn am drwyddedau gyrru neu basport fel tystiolaeth o oed. Mynegodd y Cynghorydd T.K. Hodgson ei siom fod y cynllun wedi'i ganslo; teimlai y dylai'r awdurdod fod yn gadarn wrth fynd i'r afael â'r pwnc. Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu fod Sir Conwy hefyd wedi cydnabod rheidrwydd i ganslo'r Cynllun Cerdyn Profi Oed ond ei bod hefyd yn edrych ar bolisiau eraill fel Her 21. Roedd y Cynghorydd Hodgson hefyd yn siomedig i nodi nad oedd y profion ar ddalwyr trwyddedau blaendraeth wedi'u cynnal a cheisiodd sicrwydd y byddai'r Cynllun Gweithredol nesaf yn mynd i'r afael â hyn. Atebodd y Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod y Swyddog Gorfodi Trwyddedu yn gweithio ar y pwnc hwn; roedd yn gobeithio cyflwyno adroddiad ar hyn i gyfarfod nesaf y pwyllgor.

Nododd yr Aelodau incwm a gwariant Trwyddedu yn ystod 2006/07 a'r amcangyfrifon ar gyfer 2007/08 (tud. 8 o'r Cynllun). Roedd y Cynghorydd S. Davies yn credu y dylai lleoliadau a oedd yn arbennig o anodd, lle byddai angen neilltuo adnoddau, dalu ffioedd ychwanegol er mwyn sicrhau y gellid ad-dalu costau cysylltiol. Ymhelaethodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd am yr incwm a'r gwariant cyllidebol ac atgoffodd Aelodau fod rhai ffioedd wedi'u gorfodi gan statud neu reoliadau ond bod eraill yn ddibynnol ar farn awdurdodau lleol. Pwysleisiodd yr angen am sicrhau bod y ffioedd a osodwyd gan yr awdurdod yn rhesymol ac yn cynnwys costau gweinyddu a gorfodi.

Wrth ymateb i gwestiynau gan Aelodau, ymhelaethodd y swyddogion am wahanol agweddau o orfodi a oedd yn ymwneud â gwirio cerbydau ac ymweliadau â lleoliadau trwyddedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r telerau a fynnwyd gan yr awdurdod. Roedd rhai Aelodau'n awyddus i swyddogion fabwysiadu ymagwedd cwbl anoddefgar wrth drin diffyg cydymffurfio. Cyfeiriwyd yn benodol at y defnydd o geidwaid drws di-drwydded; cadarnhaodd y

Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'n cysylltu ag Awdurdod y Diwydiant Diogeledd yn uniongyrchol er mwyn sicrhau pwerau gorfodi yn yr achos hwn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gweithredu tîm rhagorol rhwng y staff trwyddedu a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a amlygwyd mewn cyfarfod yr oedd ef yn bresennol ynddo y diwrnod cynt. Talodd y Cynghorydd I.M. German deyrnged i waith caled ac ymroddiad y staff trwyddedu ac ategodd y Cadeirydd y sylwadau hynny ar ran y pwyllgor .

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a'i nodi.*

**86 DEDDF HAPCHWARAE 2005 - AWDURDODIADAU**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) yn gofyn i Aelodau gymeradwyo dirprwyaethau ac awdurdodiadau i'r Prif Swyddog Gweithredol mewn materion yn ymwneud â Deddf Hapchwarae 2005. Roedd tabl o bwerau, dirprwyaethau ac awdurdodiadau yn atodiad i'r adroddiad (Atodiad 1).

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Adran 154 Deddf Hapchwarae 2005 yn caniatau i'r holl benderfyniadau am drwyddedau gael eu dirprwyo i Bwyllgorau Trwyddedu (gan eithrio gosod ffioedd a ddirprwy-wyd gynt gan y Cyngor Llawn i'r Pwyllgor Trwyddedu). Argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn y dirprwyaethau ac awdurdodiadau, a restrwyd yn Atodiad 1, i'r Prif Weithredwr eu dirprwyo wedyn i swyddogion cymwys. [Gofynnwyd i Aelodau anwybyddu argymhelliad 3.2 yn yr adroddiad gan y byddai'r Prif Weithredwr Gweithredol yn dirprwyo i swyddogion perthnasol]

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cyflwyno'r dirprwyaethau ac awdurdodiadau i'r Prif Weithredwr, y rhai'n ymwneud â materion yn ymwneud â'r Ddeddf Hapchwarae 2005, a restrwyd yn Atodiad 1.*

**87 DEDDF HAPCHWARAE 2005 - FFIOEDD**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) a oedd yn ceisio cymeradwyaeth Aelodau i'r rhestr ffioedd a thaliadau (Atodiad 1) am drwyddedau lleoliadau a bennwyd dan Ddeddf Hapchwarae 2005. Adroddwyd:-

- bod yn rhaid i'r Cyngor bennu'r ffioedd i'w codi am roi trwyddedau i leoliadau lle'r oedd hapchwarae'n digwydd;
- bod y Cyngor mewn cyfarfod ar 19 Rhagfyr 2006 wedi penderfynu dirprwyo'r gwaith o osod ffioedd am drwyddedau lleoliadau i'r Pwyllgor Trwyddedu
- bod y Rheoliadau Hapchwarae (Ffioedd Trwyddedau Lleoliadau) (Cymru a Lloegr) 2007 yn amlinellu'r ffioedd y gallai awdurdodau eu codi am y trwyddedau hyn a bod y Comisiwn Hapchwarae wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i gyfrifo a gosod y ffioedd
- ar ôl yngynghori gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, y teimlad oedd y byddai gweithredu'n unffurf yn rhwystro unrhyw her i'r ffioedd a osodwyd, yn enwedig gan gwmniau a busnesau mewn dalgylch mwy nag un awdurdod
- roedd Siroedd y Fflint, Wrecsam, Conwy, Gwynedd ac Ynys Mon wedi derbyn y rhestr ffioedd a thaliadau a amlinellwyd yn Atodiad 1 ac argymhellwyd y dylai'r Aelodau hefyd dderbyn y ffioedd hynny ar gyfer Sir Ddinbych.

Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu wrth yr Aelodau fod y Ddeddf Hapchwarae yn un gymhleth iawn ond mai bach fyddai'r incwm. Er bod gan y Cyngor hawl i bennu'r ffioedd, roedd y ddeddfwriaeth wedi gosod uchafswm ac ni ddisgwyliwyd i awdurdodau gyrraedd y lefel honno. Gyda hyn mewn golwg, a chan roi sylw priodol i'r canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfrifo ffioedd, cytunwyd gydag awdurdodau eraill ar restr ffioedd i Ogledd Cymru. Y rheswm dros gydweithredu fel hyn oedd lleihau'r risg o gwmniau'n herio'r ffioedd trwy ddangos cysondeb yn y ffioedd a byddai modd adolygu'r ffioedd hyn yn flynyddol pan fyddai angen. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd y ffioedd yn cynnwys y costau cychwynnol; gwnaed cais am Grant Cynnal Refeniw tuag at hyn yn 2004/05. Wrth gloi, mynegodd y

Rheolwr Trwyddedu ei bryder am hapchwarae anghyfreithlon a'i obaith y byddai'r ffioedd a bennwyd yn talu am orfodi'r gyfraith.

***PENDERFYNWYD** derbyn y rhestr ffioedd a thaliadau a bennwyd o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

**88 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2007/08**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) a oedd yn amlinellu rhaglen waith y dyfodol i'r Pwyllgor. Dywedodd y byddai swyddogion yn croesawu awgrymiadau gan Aelodau am ychwanegiadau neu ddileadau yn y rhaglen waith; adolygir y rhaglen ym mhob cyfarfod. Anogwyd Aelodau hefyd i gysylltu ar unrhyw adeg â swyddogion i drafod meysydd gwaith y dylid eu hystyried. Yn dilyn trafodaethau heddiw, hwyrach y byddai Aelodau'n dymuno trafod adroddiadau yn y dyfodol am bwerau gorfodi i fynd i'r afael â cheidwaid drws di-drwydded; gwirio trwyddedau blaendraeth a'r cynllun profi oed.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen am hyfforddiant i aelodau am y Ddeddf Hapchwarae newydd ac awgrymodd y Rheolwr Trwyddedu y gellid gwneud arbedion trwy ymuno â Chonwy mewn cyrsiau hyfforddi. Awgrymodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y gellid trefnu hyfforddiant gloywi am y Ddeddf Trwyddedu ar ôl cyfarfod arall o'r Pwyllgor Trwyddedu a chytunodd y Cyfreithiwr i drefnu sesiwn hyfforddiant i awgrymu cyfeiriad i gwestiynau Aelodau yn ystod gwrandawiadau.

***PENDERFYNWYD** derbyn y rhaglen waith a amlinellwyd yn yr adroddiad gan ychwanegu unrhyw eitemau eraill a gytunwyd yn y cyfarfod heddiw.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 a.m.

********

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD

Cofnodion Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Prestatyn ar ddydd Iau, 31 Mai, 2007 am 9.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr E.R. Jones (Cadeirydd), B. Blakeley, P.C. Duffy, P.W. Owen, D.A.J. Thomas, S. Thomas a C.H. Williams.
Roedd y Cynghorydd R.E. Barton yn bresennol fel arsylwr.
.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (G. Boase), Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd - Gorfodi Tai (G. Owen), Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd - Diogelwch Bwyd (E. Jones), Rheolwr Rheoli Adeiladu (R. Johnson), Swyddog Craffu Cynorthwyol (S. Price) a swyddogion eraill gan gynnwys Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

### 89 PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD –** penodi'r Cynghorydd E.R. Jones yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.*

### 90 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD

***PENDERFYNWYD –** penodi'r Cynghorydd P.W. Owen yn Ddirprwy Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.*

### 91 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 92 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar ddydd Iau 5 Ebrill 2007.

Cywirdeb:-

5. Standiau Tacsis Hackney yn Y Rhyl - dylid newid y gair 'taxes' ym mharagraff 6 i 'taxis'.

Materion a godwyd:-

6. Strategaeth Parc Ailgylchu Sir Ddinbych - Esbonion y Cynghorydd R.E. Barton bod y Cabinet, ar ôl ystyried y mater, wedi cytuno y dylai'r eitem yma gael ei ohirio nes bod ymgynghoriadau pellach wedi'u cynnal gyda'r Grwpiau Aelodau Etholedig Ardal a fforymau gwledig.

7. Ymarfer peilot, Marchnadoedd Stryd – Mewn ymateb i gwestiwn a gafwyd gan y Cynghorydd C.H. Williams, cytunodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol y byddai'n dosbarthu diweddariad ar y cynnydd a wnaed.

***PENDERFYNWYD –** yn amodol ar yr uchod, bod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

### 93 CYNNYDD Y GWASANAETH GORFODI TAI

Roedd copi o adroddiad oddi wrth y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, oedd yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a materion eraill fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, 2006, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wybod i'r Aelodau bod yr adroddiad hwnnw yn cynnwys manylion y gwaith ardderchog a wnaed gan y Gwasanaeth Gorfodi Tai yn ystod y flwyddyn flaenorol. Hefyd tynnodd eu sylw at y gwaith paratoi a wnaed ar gyfer Trwyddedu HMO, Amodau Trwyddedu, Safonau Trwyddedu HMO a Ffioedd Trwyddedu oedd wedi'u cymeradwyo a'u mabwysiadu gan yr Awdurdod, ac effaith trosiant staff ar y gwasanaeth.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd - Gorfodi Tai yr adroddiad a rhoddodd grynodeb o swyddogaethau'r Tîm Gorfodi. Cafwyd cyfeiriad at gyflwyniad y Deddf Tai 2004 newydd oedd wedi tynnu'r pwyslais oddi ar anaddasrwydd eiddo i nodi pa elfennau o gartref person allai beri amgylchedd afiach ac anniogel iddyn nhw a phobl sy'n ymweld â'u heiddo. Esboniwyd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn dal i gydnabod yr angen am lety ar rent a'i rôl sylfaenol yn stoc tai unrhyw awdurdod lleol, gan gyfeirio'n arbennig at bwysigrwydd eiddo Tai Amlfeddiannaeth wrth ddarparu llety.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod arolwg cyflwr tai arall wedi'i gomisiynu fyddai'n helpu i dargedu adnoddau cyfyng at y peryglon gwaethaf sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag effaith ganlyniadol y system budd-dal tai newydd, esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd bod achosion wedi codi lle'r oedd gormod o bobl wedi'u rhoi mewn eiddo er mwyn cael mwy o fudd-dal.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton ynglŷn â darpariaethau yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth, rhoddodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fanylion y sefyllfa ariannol bresennol a chadarnhaodd efallai y byddai angen cais pwysau yn ddiweddarach yn y flwyddyn wrth ystyried darpariaeth gyllidebol y dyfodol.

Ymatebodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd D.A.J. Thomas ynglŷn â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr Arolwg Cyflwr Tai, amlinellodd y byddai'r arolwg yn cwmpasu trawstoriad cynrychiadol o eiddo'r sector preifat a chadarnhaodd ei fod yn bosibl y byddai achos ar gyfer ffocysu ar HMOs. Hefyd, cadarnhaodd y byddai canlyniadau'r arolwg cyflwr tai ar gael i'r Pwyllgor.

Teimlodd yr Aelodau y byddai angen ymdrin â phwysau cyllidebol a materion lefelau staffio o fewn y Tîm Gorfodi Tai yn ystod rowndiau gosod cyllideb 2008/2009.

***PENDERFYNWYD –*** *bod*

(a) *Pwyllgor yr Amgylchedd yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2007/2008;*

(b) *yr Aelodau/Gweithgor Swyddogion yn cyfarfod ymhellach i gwmpasu'r materion a goblygiadau'r Cynllun Gweithredu, ac*

(c) *Aelodau'n cael adroddiad cynnydd am y Tîm Gorfodi Tai ym mis Mai 2008.*

**94 ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL AR IECHYD YR AMGYLCHEDD A SAFONAU MASNACH (IECHYD YR AMGYLCHEDD)**

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, oedd yn monitro'r cynnydd ar weithrediad argymhellion a gafwyd mewn dau Adroddiad Archwilio ynglŷn â swyddogaethau Diogelu'r Cyhoedd o fewn y gwasanaeth, wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd Emlyn Jones i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac esboniodd bod Emlyn wedi cael ei benodi'n ddiweddar i'r Swydd Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd - Diogelwch Bwyd.

A Darparwyd crynodeb manwl o'r adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Esboniodd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno adroddiad o'r enw "Asesiad Gwaelodlin o Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach' i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2005, yn dilyn Archwiliad eang o'r gwahanol swyddogaethau Diogelu'r Cyhoedd sydd o fewn y gwasanaeth.

Ym mis Chwefror 2005, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflwyno adroddiad o'r enw "Adroddiad ar Reoli'r Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch" i Sir Ddinbych yn dilyn rhaglen Archwilio rhyngawdurdodol ledled Cymru ar y swyddogaeth Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch. Rhoddwyd copi o'r Adroddiad Archwilio Rhyngawdurdodol i'r Aelodau ym mis Mehefin 2006.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnwys 8 argymhelliad eang ar gyfer gwella'r gwasanaeth; esboniodd y swyddogion eu bod yn teimlo bod 7 o'r argymhellion bellach wedi'u cwblhau a bod yr un oedd yn weddill wedi'i gwblhau'r rhannol ond nid oedd yn flaenoriaeth uchel.

Gwahoddodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i dynnu eu sylw at yr adroddiad cynnydd a oedd yn Atodiad 2 yr adroddiad. Esboniodd bod yr Adroddiad Archwilio Rhyngawdurdodol wedi cynnwys 15 o argymhellion manwl ar gyfer gwella'r gwasanaeth ac y credwyd bod 8 o'r argymhellion wedi'u cwblhau a bod gwaith ar y 7 oedd yn weddill yn mynd rhagddo.

Esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud eu bod yn bwriadu cynnal asesiad dilynol o ran swyddogaethau Diogelu'r Cyhoedd yn ystod yr haf 2007.

***PENDERFYNWYD –** bod*

*(a) y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cefnogi'r camau a nodwyd yn erbyn pob argymhelliad fel y maent yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad;*

*(b) y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn ardystio'r cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y camau sydd yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad.*

**95 RHEOLI ADEILADU – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF A DATGANIAD SEFYLLFA**

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, oedd yn archwilio perfformiad gan gynnwys meincnodi mentrau ar gyfer y tîm, wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Wedi i Aelodau ei nodi'n faes gwaith oedd ag angen ei graffu, esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd bod Rheoli Adeiladu wedi cyflwyno adroddiad o'r enw "Rheoli Adeiladu – Cyflwyniad, Dangosyddion Perfformiad ac Arfer Da" i'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2007. Roedd manylion yr argymhellion y gofynnwyd i Aelodau eu hystyried, ynghyd â'r Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2006, fel y'u nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Adeiladu, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac roedd Aelodau wedi cytuno arnynt.

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Adeiladu yr adroddiad a gwahoddodd yr Aelodau i dalu sylw at y diweddariad a'r datganiad sefyllfa o ran amcanion a blaenoriaethau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, gan gyfeirio'n arbennig at y Cyfrif Ennill Tâl Rheoliadau Adeiladu, Rheoli Perfformiad, Newidiadau Deddfwriaethau a Hyfforddiant a'r Prif Flaenoriaethau ar gyfer 2007/2008.

Cyfeiriodd y Rheolwr Rheoli Adeiladu at recriwtio staff, gan gyfeirio'n arbennig at recriwtio swyddog dan hyfforddiant Rheoli Adeiladu, a'r defnydd o staff asiantaeth i alluogi swyddogion y Cyngor i dreulio mwy o amser yn archwilio safleoedd ac yn gwella perfformiad fel y dangoswyd gan ddau ddangosydd perfformiad craidd Rheoli Adeiladu. Pwysleisiodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd bod yr adain Rheoli Adeiladu yn cystadlu'n uniongyrchol â'r sector preifat.

Ystyriodd Aelodau'r Prif Flaenoriaethau oedd yn yr adroddiad yn llawn ac yn dilyn trafodaeth lawn a manwl:-

***PENDERFYNWYD –** bod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cefnogi'r Blaenoriaethau Allweddol a ganlyn ar gyfer 2007/2008:-*

- *gwella rheolaeth perfformiad o fewn y tîm i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithlon*

- *gwella darpariaeth gwybodaeth i hyrwyddo'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu a chynnal gwasanaeth sy'n ffocysu ar y cwsmer*
- *adolygu'r strwythur staff a sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau'n ddiweddar ac yn berthnasol*

**96 DEDDF LLEIHAU TROSEDD TREISGAR 2006**

Roedd copi o adroddiad oddi wrth y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd gan Deddf Lleihau Trosedd Treisgar 2006. Esboniodd bod Sir Ddinbych yn ymroi i fynd i'r afael â throsedd treisgar yn effeithiol a'u bod yn gweithio mewn cydweithrediad â'r heddlu i atal a lleihau trosedd treisgar. Nod strategol o'r Cynllun Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd oedd cynyddu diogelwch y cyhoedd mewn eiddo trwyddedig, a rhagwelwyd y byddai'r grymoedd newydd hyn yn helpu i gyflawni'r nod yma. Byddai'r mesurau newydd yn golygu bod gan swyddogion yr awdurdod fwy o gyfrifoldeb wrth iddynt ymgymryd â'u busnes rheoliadol a gorfodi a byddai eu heffeithlonrwydd yn cynyddu yn sgil hyn.

Esboniwyd bod Deddf Lleihau Trosedd Treisgar 2006 yn darparu grymoedd newydd i'r heddlu ymdrin â throsedd treisgar, yn arbennig trosedd treisgar, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cafodd y grymoedd newydd hyn eu hystyried yn y Cabinet ar 27 Mawrth 2007, a rhoddwyd awdurdod wedi'i ddirprwyo ar gyfer swyddogaethau'r Awdurdod yn yr achos gyntaf i'r Prif Weithredwr o ran Gorchmynion Gwahardd Yfed ac i'r Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cwsmeriaid a Chynnwys Dinasyddion ar gyfer pennu Parthau Anhrefn Alcohol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd S. Thomas ynglŷn ag anawsterau posibl y gellid dod ar eu traws wrth orfodi'r ddeddfwriaeth newydd, esboniodd y gall rhieni brynu eitemau fel alcohol a rifflau aer ar ran eu plant a bod cyllyll yn cael eu defnyddio'n aml at ddibenion gwaith neu gymdeithasol fel pysgota, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y gallai fod yn anodd ymdrin â'r mater o werthiannau dirprwyol.

Darparodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd grynodeb manwl o'r ddeddfwriaeth newydd ac esboniodd y gellid cau eiddo oedd yn gwerthu alcohol i bobl dan oed yn gyson ar unwaith am gyfnod o 48 awr, hefyd cadarnhaodd ei fod yn drosedd gwerthu cyllell i berson llai nag 16 oed.

Mynegodd y Cynghorydd C.H. Williams bryder ynglŷn â'r cyfieithiad Cymraeg o'r gair 'persistently' ym mharagraff 5.5. yr adroddiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'n bwysig darparu diffiniad clir o ystyr y gair 'persistently'.

Yn dilyn trafodaeth bellach,

***PENDERFYNWYD –*** *nodi'r sefyllfa.*

**97 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Roedd copi o adroddiad oddi wrth y Swyddog Craffu Cynorthwyol, oedd yn adolygu rhaglen waith y dyfodol Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, ei ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Darparodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol grynodeb o'r adroddiad a chafodd y diwygiadau a ganlyn i'r Blaenraglen Waith eu hamlygu:-

- Agenda cyfarfod mis Mai - Cadarnhaodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol y cafwyd arweiniad clir gan Aelodau Craffu'r Amgylchedd bod gormod o eitemau'n cael eu cynnwys ar agendâu a bod hyn wedi bod yn cael effaith andwyol ar fusnes y Pwyllgor.

  Esboniodd bod rhaid ystyried rhaglen waith y Pwyllgor yn fisol gan fod hyn yn galluogi i Aelodau reoli a monitro busnes y Pwyllgor ac roedd y rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn wedi'i gytuno gan y Pwyllgor ac roedd yn cynnwys 7 adroddiad. Cadarnhaodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol ei fod wedi cysylltu â swyddogion adrodd i leihau nifer yr adroddiadau i fwyafswm o 4 ac roedd manylion sut yr oedd hyn wedi'i gyflawni wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

- Treial Biodanwydd - Cytunodd yr Aelodau gynnwys canlyniadau'r treial ar y defnydd o fiodanwydd yng ngherbydau'r Cyngor yn rhaglen waith mis Mehefin 2007 y Pwyllgor.

- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Hysbysiadau Cosb Benodedig - Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y Cyngor Blynyddol, yn ei gyfarfod ar 15 Mai, wedi ystyried effeithlonrwydd grymoedd newydd sydd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer sbwriel a baw ci i'r Pwyllgor a byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ystyried ym mis Medi, 2007.

  Esboniodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol bod y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod mis Mehefin 2007 hefyd yn cynnwys adroddiad i adolygu ymagwedd y Cyngor at gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas ag ystod o droseddau. Cytunodd Aelodau y byddai'r mater hwn yn cael ei gyfuno â'r adroddiad fyddai'n cael ei ystyried ym mis Medi, 2007.

- Cyfarfod mis Gorffennaf - Esboniwyd bod cyfarfod o'r Pwyllgor wedi'i amserlennu ar gyfer 26 Gorffennaf 2007, a bod hyn yn cyd-daro â Sioe Frenhinol Cymru. Cytunodd Aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei ail-drefnu ac yn cael ei gynnal ar 2 Awst 2007 am 9.30a.m. yn Rhuthun.

- Grŵp Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol - Esboniodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol bod y Cyngor Blynyddol, yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2007, wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo sefydlu'r Pwyllgor Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol i hyrwyddo rôl rhiant corfforaethol dros blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal. Roedd manylion yr aelodaeth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a chytunodd Aelodau y gall unrhyw enwebiad am gynrychiolydd o Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd gael ei roi i'r Swyddog Craffu Cynorthwyol.

- Rhaglen Waith y Dyfodol - Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd D.AJ. Thomas nad oedd y rhwystrau mannau i gerddwyr yn Y Rhyl yn weithredol eto, cadarnhaodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol y byddai'r eitem hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor i'w ystyried.

  Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton, cadarnhaodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol y dylai'r mater oedd yn gysylltiedig â'r adroddiad gwybodaeth gael ei gyflwyno fel adroddiad gwybodaeth ac y byddai'r mater oedd yn gysylltiedig â Gorchmynion Gwyro Lwybr Troed yn cael ei ddilyn.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, bod y rhaglen waith ar gyfer Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, fel y mae yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.

**********

**PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU**

Cofnodion y Pwyllgor Craffu Adnoddau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher, 6 Mehefin, 2007 am 9.30 a.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr G.C. Evans (Cadeirydd), R.E. Barton, J.M. Davies a H. Jones.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Pennaeth Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifo Ariannol C. Foulkes), Prif Gyfrifydd Rheoli (P. McGrady), K.A. Jones (Rheolwr Refeniw), Swyddog Polisi Strategol (H. Griffin), J. Curran (Swyddog Craffu Cynorthwyol) a Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

**YMDDIHEURIADAU**

Cynghorwyr G.M. Kensler, J.A. Smith a G. Williams.

Bu i aelodau'r Pwyllgor longyfarch y Cynghorwr G.M. Kensler ar enedigaeth ddiweddar ei wyres.

**98 MATERION BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater a ganlyn i'w drafod fel mater brys:-

(i) Materion sy'n gysylltiedig â Swyddfeydd Post

**99 COFNODION**

Cyflwynwyd Gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 17 Mai, 2007.

**Cywirdeb:-**

5. Dangosyddion Ansawdd Dylunio (DQI) – ar gais y Cynghorydd R.E. Barton, cytunodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol gofyn i'r swyddog perthnasol a fyddai angen newid y gair 'could' yn 'should' ym mharagraff 6 ar dudalen 2.

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, bod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**100 CYMHARU CYLLIDEBAU GWASANAETH GYDAG ASESIAD GWARIO SAFONAU 2007/2008**

Roedd copi o adroddiad oddi wrth y Rheolwr Ariannol, oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y gymhariaeth o gyllidebau refeniw gyda'r data a ddefnyddir i lunio Setliad Refeniw Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau yr adroddiad oedd yn rhoi cymhariaeth fanwl i'r Aelodau rhwng Cyllidebau Refeniw Gwasanaeth a data Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) sy'n adeiladu i mewn i Asesiad Gwario Safonol yr awdurdod, ceisiodd farn yr Aelodau ar y materion â'r camau a gafodd eu cwmpasu gan yr adroddiad a nododd gynnwys y datganiad ar y gyllideb Addysg ar gyfer 2007/9 i LlCC oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 7 yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i'r awdurdodau adrodd yn ôl i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Fforwm Cyllid Ysgolion a'r Cyngor Llawn ar y rhesymau dros unrhyw amrywiaeth rhwng yr elfen o Asesiad o Wariant Safonol (SSA) sy'n gysylltiedig ag Addysg a'r gyllideb a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth ar gyfer 2007/8. Er mwyn dod o hyd i'r ffigyrau a gynhyrchwyd ar sail gymaradwy bu'n rhaid defnyddio'r data a gafodd ei

gynnwys yn yr adroddiad 'Cyfrif Refeniw' (RA). Roedd cyllidebau a gafodd eu cynnwys yn yr ymarfer wedi'u cyfrifo ar sail cyfrifo cost lawn, gan gynnwys gorbenion canolog a chyfarwyddiaethau. Roedd Aelodau wedi mynegi'r awydd i adolygu data cymharol debyg o'r blaen ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor ac i ddeall unrhyw amrywiaethau tebyg. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau bod yr adroddiad yn cynnwys cafeatau gan nad oedd y ffigyrau SSA ac RA yn cael eu paratoi ar yr un seiliau a chadarnhawyd bod y ffigyrau SSA yn ganllaw cyffredinol.

Mynegodd y Cynghorydd R.E. Barton bryder ynglŷn â chostau a gorbenion Cyfarwyddiaeth a theimlodd bod cymariaethau anghytbwys o fewn y Grŵp Cynghorau Teulu, awgrymodd y byddai'n hanfodol i bob awdurdod weithio ar sail gyfartal drwy ddefnyddio'r un ffigyrau, cytuneddau a methodoleg.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau bod cyfres o atodiadau wedi'u hatodi i'r adroddiad i hysbysu'r Aelodau o'r cymariaethau manwl a wnaed ac o wahanol ddarnau o wybodaeth gefndirol a helpodd i esbonio'r amrywiaethau. Darparodd grynodeb o bob un o'r atodiadau priodol ac ymatebodd i'r materion a ganlyn:-

**Atodiad 1**

Cynnwys dyfyniad o gyhoeddiad Is-adran Gyllid Llywodraeth Leol LlCC ar y Setliad Refeniw ar gyfer 2007/8 oedd yn esbonio'r broses o bennu setliadau unigol awdurdodau. Nodwyd bod y canllaw'n pwysleisio nad yw ffigyrau o fewn yr SSA yn 'ffigyrau tybiannol' ac nad oeddynt yn cynrychioli targedau gwario ar gyfer gwasanaethau unigol. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gofyn i awdurdodau gynhyrchu adroddiad ar y rhesymau am unrhyw amrywiaeth rhwng cyfanswm y gyllideb a osodwyd ar gyfer Addysg yn 2007/8 a'r elfen o SSA a elwir yn Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion. Roedd ymateb y Cyngor i'w weld yn Atodiad 7 yr adroddiad.

Mynegwyd pryderon bod peth ddata setliad a gwasgariad yn parhau i gael ei seilio ar gyfrifiad 1991 ac na fyddai effaith y boblogaeth symudol ar y gallu i lunio ffigyrau ac ystadegau o fewn yr awdurdod a'r effaith andwyol a geir o ganlyniad i hyn ar gyllidebau gwasanaethau Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei amlygu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ar y gwaith oedd yn cael ei wneud gan y Grŵp Dosbarthu, o ran y mater setliad, a chadarnhaodd bod argymhellion yn parhau i gael eu gweithredu mewn setliadau trwy fecanwaith yr Is-Grŵp Dosbarthu.

Mewn ymateb i gwestiynau oedd yn gysylltiedig ag arian SSA, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod arian SSA wedi'i seilio ar swm tair elfen, SSA = NDR + CT + RSG ac o ran Y Dreth Gyngor roedd ffigyrau wedi'u seilio ar fand D Y Dreth Gyngor.

**Atodiad 2a/b**

Cymhariaeth o Data a addasir yn ôl RA gydag SSA 2007/2008.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ar yr anghysonderau yn Atodiadau 2a a 2b rhwng yr hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer a'r hyn yr awgrymodd yr SSA.

O ran y dadansoddiad manylach o'r data sydd yn atodiad 2a, teimlwyd y gall cymariaethau ar y lefel hwn fod yn hyd yn oed mwy gwallus nag ar lefel crynodeb ac na fyddai'n bosib gwneud unrhyw gasgliadau cadarn am resynoldeb elfenau unigol cyllidebau gwasanaeth.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton o ran costau gweinyddol uchel o fewn y gyllideb addysg, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau at ddyraniad gorbenion ac amsugniad ffioedd.

Hefyd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau nad oedd darpariaeth yn y ffigyrau SSA ar gyfer unrhyw gyfraniad at adnewyddu balansau'r Cyngor i lefelau argymelledig ac mewn gwirionedd, roedd cyfraniadau o'r fath yn cael eu tynnu cyn i gyllidebau gael eu gosod.

**Atodiad 3**

Dosbarthwyd diweddariad o Atodiad 3, Arolwg ADSS a Data Ystadegol - Penawdau 2007-2008 i'r Aelodau yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai at y pryderon ynglŷn â'r cymariaethau ar draws Gymru yn seiliedig ar ddychweliadau Cyfrif Refeniw gan fod hwn dim ond yn cyfeirio at yr hyn y cyllidwyd ar ei gyfer yn hytrach na gwariant gwirioneddol. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol gan fod 19 o 22 wedi gorwario yn erbyn cyllideb 2006/2007.

**Atodiad 4a/b/c**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ar ddosbarthiad y setliad a chadarnhaodd er bod Sir Ddinbych yn addysgu mwy o fyfyrwyr, ar lefel uwchradd roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael setliad ariannol mwy. Esboniodd bod materion setliad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Eto, mynegwyd pryderon gan y Cynghorydd R.E. Barton a awgrymodd y gallai newid ffiniau i greu cymunedau llai fod yn fuddiol i Sir Ddinbych.

**Atodiad 5(a)**

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau bod nifer y disgyblion mewn ysgolion wedi bod yn disgyn ac y gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer yr arian oedd ar gael i bob disgybl pe bai arian presennol yn cael ei gynnal.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at y pwysau a roddir ar ysgolion o fewn yr awdurdod o ganlyniad i'r boblogaeth symudol a chan fod y data rôl ysgolion penodol wedi'i seilio ar 2 ddyddiad penodol yn y flwyddyn. Esboniwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion ar adegau arbennig o'r flwyddyn ac nad arian cyfatebol wedi'i ddarparu ar gyfer y cynnydd hwn. Amlygodd bwysigrwydd cynnwys y mater hwn yn yr ymateb i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Atodiad 7 yr adroddiad, a chefnogodd y Pwyllgor y farn hon.

**Atodiad 5(b)**

Manylion sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth hŷn, rhwng 60 ac 85 oed, a ddefnyddir yn setliad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Atodiad 6**

Cyfeiriwyd at y safle o ran gwariant cyfalaf yn 2005/6 oedd yn arddangos safle ffafriol ar gyfer yr awdurdod, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau Addysg a Thai, pan gafodd gwariant ei fynegi fel gwariant y pen o'r boblogaeth. Ar gyfer 2006/7 a 2007/8, dylai effaith Benthyca Darbodus ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor wella'r safle Cludiant Lleol ac Addysg ymhellach fyth.

Yn arbennig, nodwyd mai'r ffigyrau Addysg yn Sir Ddinbych oedd y trydydd gorau yng Nghymru a bod Cynllun Tai yr Awdurdod ymhlith y gorau yng Nghymru. Cadarnhaodd bod Sir Ddinbych yn ymdopi o fewn eu cyllideb er gwaethaf toriadau effeithlonrwydd a chyllideb. Fodd bynnag, pwysleisiodd y byddai gan y rownd cyllideb nesaf heriau ac amlygodd pwysigrwydd hanfodol yr agenda effeithlonrwydd. Hefyd, cyfeiriwyd at effaith unrhyw adolygiadau i fformiwla Barnett.

**Atodiad 7**

Roedd Atodiad 7 yn cynnwys yr ymateb i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y gymhariaeth o gyllideb Addysg ag IBA oedd wedi'i gynhyrchu, gan fod y Gweinidog wedi gofyn i'r ymateb gael ei adolygu gan y Cyngor llawn a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

I grynhoi, roedd Aelodau'n cefnogi cynnwys, o fewn cyflwyniad yr Awdurdod i'r Gweinidog, cyfeiriad at effaith y boblogaeth symudol ar arian yn Sir Ddinbych, yn arbennig ar gyfer ariannu ysgolion. Hefyd, awgrymodd y Cynghorydd R.E. Barton y dylai'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes ystyried y materion sy'n gysylltiedig ag Ariannu Ysgolion yn ei gyfarfod nesaf. Awgrymodd y Cynghorydd M.M. Jones

(Aelod o'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes) efallai y byddai'n fwy priodol i'r mater gael ei ystyried gan Weithgor Cyllid y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes. Cefnogodd yr aelodau'r farn hon:-

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Craffu Adnoddau:-*

*(a)* *yn nodi'r data cymharol sydd wedi'i gynnwys yn yr atodiadau, ynghyd â'r wybodaeth ystadegol arall a ddarparwyd;*

*(b)* *yn nodi cynnwys y dychweliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y sefyllfa benodol sy'n gysylltiedig â'r gyllideb addysg.*

*(c)* *yn cefnogi cynnwys y mater sy'n gysylltiedig â'r pwysau a roddir ar ysgolion o ganlyniad i'r boblogaeth symudol, ac yn mynegi pryder bod y ffigyrau penodol wedi'u seilio ar 2 ddyddiad penodol yn ystod y flwyddyn, ac*

*(d)* *yn gofyn i'r mater sy'n gysylltiedig ag Ariannu Addysg gael ei ystyried gan Weithgor Cyllid y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes, a bod unrhyw farn neu ymatebion a gyfyd o ganlyniad i hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.*

**101 PROSIECT LLIFLINIO GWASANAETHAU CEFNOGI**

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, oedd yn nodi cynnydd y Prosiect Lliflinio Gwasanaethau Cefnogi ac a oedd yn gwahodd sylwadau'r Aelodau am hynny, wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Esboniodd y Swyddog Polisi Strategol bod penderfyniad wedi'i wneud i gynnal adolygiad o swyddogaethau'r gwasanaeth cefnogi i asesu a oedd gwasanaethau cefnogi wedi'u trefnu yn y ffordd orau i fodloni heriau'r dyfodol, gan gynnwys yr agenda cydweithio ac effeithlonrwydd. Cytunwyd bod y dylai'r adolygiad gynnwys Personél, TGCh a Chyllid ac roedd tîm prosiect wedi'i sefydlu oedd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth swyddogaethau cefnogi canolog a datganoledig Personél, TGCh a Chyllid a'r Pennaeth Polisi Strategol.

Roedd canfyddiadau'r Tîm Prosiect wedi'u hystyried gan y Bwrdd Rheoli Newid ar 9 Mai, 2007, ac roedd y Bwrdd wedi cytuno ar dri argymhelliad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;

- Canoli'r timau cyllid o fewn yr Awdurdod o dan strwythur rheoli llinell unigol ond cadw lleoliad ffisegol timau o fewn Cyfarwyddiaethau

- Peidio a chynnwys yr Uned Ariannu Allanol a Rheoli Hawliadau, fyddai'n cael ei chadw o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd na chynnwys Swyddogion Asesu Ariannol yr Awdurdod cyfan, gan fod datrysiad rhanbarthol yn cael ei archwilio ar eu cyfer.

- Dylai'r amserlen gweithredu gymryd ystyriaeth lawn o'r amserlen ariannol a'r llwyth gwaith cysylltiedig, ond dylid gweithredu cyn diwedd mis Tachwedd 2007.

Cytunodd y tîm prosiect y dylai'r ffocws nesaf fod ar feysydd lle'r oedd arbedion effeithlonrwydd arian yn fwy amlwg. Cytunwyd y byddai cyfnod nesaf y prosiect yn cynnwys:

- astudiaeth o'r broses recriwtio y telir amdano, gan gynnwys trefniadau hysbysebu, ac adolygiad o'r fframwaith polisi sy'n cefnogi recriwtio yn yr Awdurdod.

- y broses caffael, i annog cyflwyniad cynt o'r system e-gaffael Proactis trwy'r Awdurdod cyfan a sicrhau bod ein rheolau gweithdrefn contract caffael yn briodol.

Hysbyswyd Aelodau y cytunwyd y byddai ystyriaeth o'r swyddogaeth TGCh yn cael ei gynnal gan Grŵp Strategaeth TGCh a chanddo enw newydd, ac y byddai'n cael ei gwblhau mewn cydweithrediad â Strategaeth TGCh yr Awdurdod. Hefyd, roedd effeithlonrwydd yn cael ei nodi trwy brosiect E-weithio gyda'r nod o allu nodi sut i ddefnyddio technoleg newydd i foderneiddio'r ffordd roedd gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton, cadarnhaodd y Swyddog Polisi Strategol bod materion hyfforddi oedd yn gysylltiedig â chaffael yn cael eu hystyried ac y byddai'r rheolau caffael cytundebol presennol yn cael eu harchwilio.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a nodi'r safle.*

**EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau o fusnes a ganlyn ar y sail eu bod yn cynnwys datgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y'i ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**102 Y DEFNYDD O YMGYNGHORWYR**

Roedd copi o adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifo Ariannol, oedd yn rhoi'r cyfle i Aelodau ystyried yn fanwl enghreifftiau o wariant ar ymgynghorwyr o fewn yr Awdurdod, wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Cafodd copïau o'r Strwythur Cod Gwariant a'r Cod Manwl Ffïoedd Ymgynghori eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifo Ariannol bod adroddiad a gyflwynwyd gan y Swyddog Craffu Cynorthwyol i gyfarfod mis Mawrth 2007 y Pwyllgor, wedi nodi materion o ran ymrwymo ymgynghorwyr gan yr awdurdod, ynghyd â dadansoddiad sylfaenol ar lefelau presennol gwariant ar ymgynghorwyr.

Er mwyn helpu Aelodau i ddeall gwariant y Cyngor ar Ymgynghorwyr, darparwyd arddangosiad o'r Gronfa Ddata Masterpiece a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer Cyfriflyfr Cyfrifo'r Cyngor yn y cyfarfod.

Yn dilyn cyflwyniad PowerPoint a dadansoddiad graffig drwy ddefnyddio tablau pifod Excel o gronfa ddata caffael Alito, a ddarparwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifo Ariannol, cytunodd Aelodau bod y Pennaeth Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifo Ariannol yn cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau gyda'r rhesymau dros benodi ymgynghorwyr a enwebwyd. Dewisodd Aelodau'r tri ymgynghorydd o fewn pob un o'r Cyfarwyddiaethau penodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Craffu Adnoddau:-*

*(a) yn derbyn a nodi cynnwyd yr arddangosiadau, a*

*(b) bod y Pennaeth Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifo Ariannol yn cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau yn rhestru'r rhesymau dros benodi'r ymgynghorwyr penodol a enwebwyd gan y Pwyllgor.*

Bryd yma yn y cyfarfod, parhaodd y pwyllgor i drafod busnes mewn sesiwn agored.

**103 FFIOEDD A THALIADAU**

Cafodd copi o adroddiad gan y Prif Reolwr Refeniw, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd y fenter Ffioedd a Thaliadau, wedi cael ei ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Hysbyswyd Aelodau bod y Pwyllgor wedi nodi'r thema Ffioedd a Thaliadau o'r blaen yn fater i'w ystyried yn sgil ei bwysigrwydd o ran adnoddau cyffredinol y Cyngor.

Rhoddodd y Prif Reolwr Adnoddau grynodeb o'r adroddiad ac atgoffodd Aelodau bod y Pwyllgor wedi cytuno byddai'r Gyfarwyddiaeth, mewn cydweithrediad â Chraffu, yn parhau i sicrhau bod gwneud y mwyaf o incwm yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn unol â Pholisi Corfforaethol. Pwysleisiodd bod adolygu a chynnal ffioedd a thaliadau'n broses parhaus gyda'r bwriad o hyrwyddo perchnogaeth Aelodau a swyddogion Cyfarwyddiaethau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion Polisi Corfforaethol o ran ffioedd a thaliadau a’r tybiaethau mewn perthynas â ffioedd a thaliadau oedd yn cael eu cynnwys o fewn trafodaethau cyllideb ar gyfer 2007/2008.

Hefyd, cadarnhawyd bod yr adolygiad parhaus o ffioedd a thaliadau’n cynnwys camau ar adolygiad 2006/07, fel cymharydd â 2005/06, a chwblhad Ffioedd a Thaliadau 2007/08 ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Cyfanswm yr incwm a godwyd trwy anfonebau Mân Ddyledwyr ar gyfer 2006/07 oedd £24,599,350, 24,770 o anfonebau. Roedd hyn wedi cynrychioli cynnydd o £1,765,470 (7.73%) a 873 o anfonebau (3.65%) ers 2005/06.

Rhoddodd y Prif Reolwr Adnoddau wybod i Aelodau bod manylion dychweliadau ffioedd a thaliadau Cyfarwyddiaethau ar gyfer 2007/08 ar gael yn Atodiad A yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at y Polisi Corfforaethol o ran ffioedd a thaliadau cynyddol a’r posibilrwydd o golli incwm lle nad oedd cwsmeriaid yn gallu parhau i gyrchu gwasanaethau, yn arbennig mewn perthynas â chleientiaid agored i niwed. Dywedodd y Prif Reolwr Adnoddau y dylai swyddogion ystyried achosion busnes penodol pob cynnydd i sicrhau bod taliadau o’r fath yn briodol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd yr Aelodau y dylai’r Prif Reolwr Adnoddau ofyn i Gyfarwyddiaethau, trwy ymweliadau â Thimau Rheoli’r Cyfarwyddiaethau penodol, i nodi eu cynigion ffioedd a’u taliadau penodol erbyn mis Tachwedd pob blwyddyn ariannol yn unol â Pholisi Corfforaethol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

*(a)* *yr adroddiad yn cael i dderbyn a bod y cynnwys yn cael eu nodi, a*

*(b)* *y Prif Reolwr Adnoddau yn gofyn i Gyfarwyddiaethau nodi eu cynigion penodol ar gyfer ffioedd a thaliadau yn unol â Pholisi Corfforaethol y Cyngor a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor ym mis Tachwedd, 2007.*

**104 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Craffu Cynorthwyol, oedd yn adolygu rhaglen waith y dyfodol Pwyllgor Craffu’r Amgylchedd, wedi’i ddosbarthu gyda phapurau’r cyfarfod.

Darparodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol grynodeb o’r adroddiad ac amlygwyd y diwygiadau a ganlyn i’r Rhaglen Waith:-

- Grŵp Aelodau Etholedig Rhianta Corfforaethol - Esboniodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol bod y Cyngor Blynyddol, yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2007, wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo sefydlu’r Grŵp Aelodau Etholedig Rhiant Corfforaethol i gefnogi rôl y rhiant corfforaethol ar gyfer plant sy’n cael gofal a rhai sy’n gadael gofal. Dywedodd y Cynghorydd R.E. Barton y byddai ganddo ddiddordeb mewn gwasanaethu ar y Grŵp ac awgrymodd y dylid ceisio barn y Cynghorydd G.M. Kensler cyn i’r Cadeirydd gadarnhau pwy fyddai cynrychiolydd y Pwyllgor.

- Absenoldeb Salwch - Cytunodd Aelodau y dylid cynnwys eitem ar absenoldeb salwch yn y Blaenraglen Waith ar gyfer cyfarfod Gorffennaf 2007 y Pwyllgor Craffu Adnoddau.

- Cyfleusterau Cyfieithu - Cyfeiriodd y Cadeirydd at broblemau a gafwyd mewn perthynas â chyfieithu dogfennau Cymraeg i’r Gymraeg yn yr Awdurdod. Cytunodd Aelodau y byddai eitem am wasanaethau cyfieithu’n cael ei gynnwys yn y Blaenraglen Waith cyfarfod mis Medi 2007 y Pwyllgor Craffu Adnoddau.

- Siarter Cymru dros Gefnogi a Datblygu Aelodau – Rhoddodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol wybod i Aelodau bod cais wedi’i gyflwyno o ran Siarter Cymru dros Gefnogi a Datblygu Aelodau.

- Poblogaeth Symudol – Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd R.E. Barton, ynglŷn â’r angen i flaenoriaethu’r mater sy’n gysylltiedig â’r boblogaeth symudol, esboniodd y Cyfarwyddwr

Corfforaethol: Adnoddau y byddai'r mater hwn yn cael ei gyfleu yn y ddogfen Briffio AS/AC oedd ar ddod.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor Craffu Adnoddau, fel y'i amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

**105 MATERION SY'N GYSYLLTIEDIG Â SWYDDFEYDD POST**

(Trafodwyd yr eitem hon fel mater o frys, wedi i rybudd gael ei roi gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod).

Cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at y rhybudd o gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 23 Ionawr 2007, i wrthwynebu'r bwriad i gau Swyddfeydd Post.

Esboniodd y Swyddog Craffu Cynorthwyol bod mater y cynigion i gau Swyddfeydd Post mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cael ei olrhain ar hyn o bryd gan yr Uned Polisi Strategol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Polisi Strategol drefnu bod Pennaeth yr Uned Polisi Strategol yn cysylltu â'r Cynghorydd R.E. Barton mewn perthynas â'r mater hwn.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton, nad oedd datganiadau na derbynebau ar gael i roi manylion swm y Dreth Gyngor a dalwyd neu sy'n weddill wrth ddefnyddio cardiau talu'r Dreth Gyngor, esboniodd y Prif Reolwr Refeniw bod y Swyddfa Bost wedi cyflwyno'r system electronig tua naw mlynedd yn ôl ac felly nad oedd system derbynebau ar wahân ar gael. Rhoddodd fanylion y costau posibl fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno'r gwasanaeth hwn a chadarnhaodd na chafwyd unrhyw geisiadau ffurfiol i ddarparu derbyniadau a datganiadau. Hefyd, esboniwyd bod y system dan sylw wedi'i fabwysiadu gan lawer o sefydliadau eraill. Cytunodd yr Aelodau pe bai llawer o sylwadau'n cael eu derbyn oddi wrth asiantaethau cyngor perthnasol mewn perthynas â'r mater a godwyd, y byddai'r Cyngor yn adolygu'r mater.

***PENDERFYNWYD*** bod y materion a godwyd yn cael eu nodi a bod Pennaeth yr Uned Polisi Strategol yn cysylltu â'r Cynghorydd R.E. Barton ynglŷn â mater y bwriad i gau Swyddfeydd Post.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.

*********

## PWYLLGOR RHEOLAETH GORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Caledfryn, Heol Smithfield, Dinbych dydd Mawrth,12 Mehefin, 2007 am 9.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr J. Butterfield, M. Ll. Davies, C.L. Hughes a R. Ll. Williams

**Arsyllwyr:** Cynghorwyr R.E. Barton, M.M. Jones a D. Owens (Aelod Arweiniol y Cabinet ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Uwch Swyddog Addysg Ysgolion Uwchradd (J. Molloy) a'r Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

### YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau oddi wrth Clerc y Sir.

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd oddi wrth y Cyfieithydd a gyflogwyd i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod heddiw; roedd yn methu â bod yn bresennol oherwydd afiechyd.

### 106 PENODI CADEIRYDD

Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor am y flwyddyn i ddod.
Cynigiodd y Cynghorydd R. Ll. Williams, â'r Cynghorydd C.L. Hughes yn eilio, y dylid penodi'r Cynghorydd J. Butterfield yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Yn niffyg unrhyw enwebiad arall::-

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd J. Butterfield yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol am y flwyddyn I ddod.*

### 107 PENODI IS GADEIRYDD

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau i benodi Is Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Williams, â'r Cynghorydd M. Ll. Davies yn eilio, y dylid penodi'r Cynghorydd C.L. Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod . Yn niffyg unrhyw enwebiad arall:-

***PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cynghorydd C.L. Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol am y flwyddyn i ddod.*

### 108 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mynegodd y Cadeirydd ei bwriad i gynnwys trafodaeth ar y mater canlynol a oedd angen sylw ar frys:-

**Ysgol Uwchradd Y Rhyl – Darpariaeth Chweched Dosbarth**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at e-bost a ddygwyd i'w sylw ynglŷn â darpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl a gofynnodd am esboniad am ei gynnwys. Yn dilyn cyngor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau ar gyfrinachedd:-

***PENDERFYNWYD:** yn unol ag Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y wasg a'r cyfryngau o'r cyfarfod oherwydd bod y mater hwn yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraff 14 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 197,.*

Adroddodd y Cynghorydd D. Owens am yr adolygiad diweddar o ddarpariaeth addysg ôl-16 gan hysbysu bod cyfarfod gyda Chyngorwyr Tref Y Rhyl wedi'i drefnu'n hwyrach yn yr wythnos i drafod y mater yn fanwl.

***PENDERFYNWYD:*** *nodi'r sefyllfa.*

**SESIWN AGORED**

Wedi cwblhau'r drafodaeth flaenorol, ail-ddechreuwyd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**109 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2007(dosbarthwyd yn flaenorol).

**Cywiriad -**

Tudalen 5 – Eitem Rhif 4. Cynllun Rheoli Sir Ddinbych 2006/07 – Cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd M. Ll. Davies yn y cyfarfod diwethaf am gost y ffi archwilio. Teimlai'r Cynghorydd Barton y dylid ei gofnodi hefyd bod y Cyngor yn derbyn lwfans ar gyfer y ffi archwilio fel rhan o'r trefniant cyffredinol gyda Chynulliad Cymru

**Materion yn Codi-**

Tudalen 10 – Eitem 9. Crynodeb o'r Adroddiadau Archwilio Mewnol a Gyflwynwyd (Cynnig 9b) – Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol na fyddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad ar y mater hwn gan nad oedd unrhyw dramgwyddwyr cyson yn achosi'r oedi mewn hysbysiadau gadawyr a gordaliadau ôl-ddilynol.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2007 fel cofnod cywir, yn amodol ar yr uchod.*

**110 ADRODDIAD PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL 2006/07**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) gan ofyn i aelodau arolygu perfformiad Archwilio Mewnol yn 2006/07, gan gynnwys cymhariaethau ag awdurdodau lleol Cymreig eraill.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol ei bod, yn gyffredinol, wedi bod yn flwyddyn llwyddiannus iawn i'r Adran; rhoddodd ddisgrifiad ychwanegol o'r prif lwyddiannau yn 2006/07 a restrwyd yn yr adroddiad. Gwnaed cyfeiriad arbennig at y safonau gwasanaeth uchel y cafwyd tystiolaeth ohonyn nhw yn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd 90% o argymhellion archwilio wedi'u gweithredu yn ystod 2006/07. Roedd hefyd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar y byddai Heddlu Gogledd Cymru yn ymestyn y cytundeb rheoli archwilio am flwyddyn arall.

Yna hysbyswyd yr aelodau o'r materion rheoli perfformiad a fesurwyd gan ddefnyddio amryw o ddangosyddion perfformiad ac a oedd wedi'u meincnodi gydag awdurdodau lleol Cymreig eraill mewn rhai achosion. Soniodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol am safle Sir Ddinbych o'i chymharu ag awdurdodau Cymreig eraill a'r cyfartaledd dros Gymru [Tablau 1 – 9 yn yr adroddiad] a oedd yn adlewyrchu perfformiad da gan Sir Ddinbych. Roedd y dangosydd perfformiad gwaethaf yn gosod Sir Ddinbych yn 15fed allan o 18 awdurdod - am gyfartaledd cost staffio fesul diwrnod archwilio. Esboniwyd bod Sir Ddinbych yn buddsoddi yn ei staff a dangoswyd hyn yn ansawdd y gwaith a gynhyrchwyd. O ran amser archwilio penodol (yr amser a dreuliwyd ar brosiectau yn hytrach na rheoli, gweinyddu, gwyliau, hyfforddiant ayyb) roedd yr aelodau'n siomedig i nodi bod hyfforddiant yn cael ei gyfrif yn amser anghynyrchiol, yn arbennig o gofio pwysigrwydd a buddion hyfforddiant staff. Wrth ymateb, cytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol i fynegi sywadau'r aelodau yng nghyfarfod nesaf Grŵp Prif Archwilwyr Cymru yn ddiweddarach eleni.

Gofynnodd y Cynghorydd R. Ll. Williams a oedd yn bosibl dynodi sefyllfa awdurdodau eraill yn y tablau gan ei bod yn bwysig cymharu tebyg â'i debyg. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio

Mewnol fod yr un gwasanaeth yn cael ei ddarparu beth bynnag fyddai maint yr awdurdod, er bod y gost mewn awdurdodau mwy yn rhatach fel arfer. Roedd Sir Ddinbych yn gymharol dda o ran staffio ac yn cyfateb i'r sefyllfa mewn awdurdodau cyfagos - Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd fod y Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi cytuno i beidio â datgelu enwau wrth gofnodi ffigyrau maincnodi. Wrth ymateb i gwestiynau eraill am y gwasanaeth, soniodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol am y cytundeb archwilio gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r weithdrefn dendro yn y dyfodol; sicrhaodd yr aelodau mai isel iawn oedd lefelau absenoldeb oherwydd afiechyd oedd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Ychwanegodd y byddai'r holiadur boddhad cwsmeriaid yn cael ei adolygu'n fuan gyda'r bwriad o'i wneud yn fwy heriol. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid dosbarthu'r holiadur i aelodau'r Pwyllgor er mwyn iddyn nhw gael mewnbwn i'r broses.

Wrth gloi, cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at broses hunan-arfarnu'r ysgolion ac ailadroddodd ei ofidiau blaenorol nad oedd modd i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid arwyddo holiaduron gan fod y dogfennau'n cael eu cadw'n electronig. Pwysleisiodd y Cynghorydd Barton yr angen am sicrhau bod y ddogfen yn cael ei dilysu gan yr Is Bwyllgor Cyllid a bod y Corff Llywodraethol hefyd yn ymwybodol o'r ddogfen ac o'u cyfrifoldebau. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol y drefniadaeth bresennol a dywedodd mai'r Pennaeth oedd yn gyfrifol am hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr. Ychwanegodd hefyd nad mater i Bwyllgorau Cyllid ysgolion oedd hwn oherwydd bod yr holiaduron yn cwmpasu pob agwedd ar lywodraethu, nid cyllid yn unig. Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol oedden nhw felly. Fodd bynnag, byddai'n bosibl i Archwilio Mewnol anfon y ffurflen at y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn gydamserol fel bod y ddau yn ymwybodol ohoni. Byddai unrhyw adroddiad yn codi allan ohoni'n cael ei anfon at Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Roedd y Cadeirydd a'r aelodau'n hapus i nodi perfformiad rhagorol y gwasanaeth ac yn llongyfarch staff archwilio ar yr hyn a gyflawnwyd ganddyn nhw. Roedd yr aelodau hefyd yn falch o nodi y byddai gan yr awdurdod yn fuan gyflenwad llawn o staff archwilio – unarddeg.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a)* *derbyn yr adroddiad a nodi perfformiad da y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac*

*(b)* *anfon llythyr at y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn llongyfarch staff am yr hyn a gyflawnwyd ganddyn nhw ac am eu perfformiad rhagorol, a amlygwyd yn yr adroddiad.*

**111 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2007/08**

Cyflwynwyd adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn amlinellu rhaglen waith y Pwyllgor yn 2007/08. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod modd ychwanegu at y rhaglen waith neu ddileu elfennau ohoni pan fyddai angen gwneud hynny.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn y rhaglen waith oedd yn yr adroddiad, yn amodol ar y gwelliannau y cytunwyd arnyn nhw yng nghyfarfod heddiw*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD:*** *yn unol ag Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitemau busnes canlynol, oherwydd ei bod yn debygol y gellid datgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinir ym mharagraff 14 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972,.*

**112 CRYNODEB O ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL A GYHOEDDWYD**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd yn flaenorol) yn crynhoi'r farn archwilio, y casgliadau allweddol a'r argymhellion a godod o'r tasgau archwilio a gwblhawyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd yr aelodau eisoes wedi derbyn crynodeb o'r adroddiadau archwilio ac wedi cael cyfle i godi cwestiynau amdano. Cwblhawyd tasgau archwlio yn y meysyddd hyn: Mân Ddyledwyr; Gwasanaethau Byw yn y Gymuned, Budd-daliadau, Rheoli’r Trysorlys a Phrydlesu.

Rhoddwyd cyflwyniad byr am y tasgau archwilio a chododd yr aelodau y materion canlynol:-

3.1 Mân Ddyledwyr – Roedd y tîm Mân Ddyledwyr yn trefnu'u gweinyddiaeth gyffredinol a'u rheolaeth systemau yn effeithlon. Er bod tri argymhelliad yn tynnu sylw at risg uchel wedi'u gwneud, roedd y cyfrifoldeb am ddau o'r rheiny yn nwylo Gwasanaethau Eiddo; mynegwyd pryder bod y ddau heb eu gweithredu ers yr adolygiad blaenorol. Hefyd mynegodd aelodau eu pryder ynghylch y ddyled sylweddol oedd yn dal heb ei thalu gan un dyledwr a nodwyd yr argymhelliad y dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys. Cytunwyd i barhau i adolygu'r mater ac y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn rhoi adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Medi. Nododd yr aelodau hefyd bod toreth o anfonebau am symiau'n is na £10. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol - os oedd yr arfer hwn yn mynd i barhau, dylai Adrannau roi cyfiawnhâd am godi'r anfonebau hyn a dylid cofnodi'n ysgrifenedig eu hesboniadau.

3.2 Byw yn y Gymuned – Atgoffwyd yr aelodau am y weithdrefn newydd i weithredu nifer o gynlluniau ar yr un pryd, i hyrwyddo crynhoi unrhyw dueddiadau neu batrymau. Siomedig oedd nodi bod yr un pynciau'n dal i godi yn yr archwiliad hwn ag a oedd mewn cynlluniau blaenorol ac ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar rai pryderon arbennig. Roedd y Cadeirydd yn arbennig o siomedig i nodi bod yr un gwendidau yn y cynllun yn dal i gael eu hamlygu a mynegodd bryderon difrifol am risg. Teimlai'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol y byddai cynnal archwiliadau grŵp o'r cynlluniau'n profi'n fuddiol a rhoddodd gysur i aelodau trwy gadarnhau y byddai unrhyw argymhellion yn cael eu gweithredu ar wahân, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Byddai grŵp o gynlluniau'n dal i gael eu harchwilio'n flynyddol. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd C.L. Hughes am weithdrefnau rheoli arian parod, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth mai Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai'n gosod y terfynau ariannol yn eu canllawiau ariannol.

3.3 Budd-daliadau – Er nad yn archwiliad llawn, cynhaliwyd arolwg o'r potensial i gael hawliadau twyllodrus yn y system cwestiynu data. Un argymhelliad yn unig a wnaed, ar boblogaeth y maes data cyfrifon. Gofynnodd y Cadeirydd am I'r aelodau gael gwybodaeth gyson am gynnydd gyda'r argymhelliad a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio y byddai diweddariad yn ymddangos yn ei adroddiad arferol ar Weithredu Argymhellion Archwilio i'r Pwyllgor.

3.4 Rheoli'r Trysorlys – Er bod system gadarn o reoli mewnol yn bodoli, roedd gwnendidau yn y dylunio a thystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth â rhai rheoliadau. Wrth ymateb i gwestiynau, adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau am froceriaid buddsoddiadau'r Cyngor a'r ddarpariaeth o gyfarwyddyd ar reoli'r trysorlys.

3.5 Prydlesu – Dywedwyd wrth yr aelodau bod system gadarn o reoli mewnol yn bodoli ond roedd diffygion a thystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth â rhai rheoliadau. Wrth ymateb i gwestiynau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol fod Deloittes wedi cynnal yr archwiliad ac wedi ysgrifennu'r rhaglen asesiadau yn seiliedig ar eu harbenigrwydd. Gellir defnyddio'r rhaglen archwilio ar gyfer adolygiadau'r dyfodol, gan gynnwys cytundebau rheolaeth archwilio Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. O ran prydlesu ceir, dywedwyd wrth yr aelodau bod yr opswn o gaffael er mwyn creu fflyd o geir wedi'i ystyried ac adolygwyd achosion busnes er mwyn sicrhau bod y Cyngor wedi dewis yr opsiwn iawn wrth ddewis prydlesu. Soniodd y Cynghorydd R. Ll. Williams am y cyfleoedd i weithio ar y cyd ar brydlesu ceir er mwyn sicrhau disgowntiau mwy. Addawodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r rheolwyr fflyd i sicrhau eu bod wedi ymchwilio i'r opsiwn hwn. Ychwanegodd y Cadeirydd y dylid ystyried cyfleoedd i weithio ar y cyd mewn meysydd eraill hefyd.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn yr adroddiadau archwilio;*

*(b) y dylid cael adroddiad ar y cynnydd yng ngweithredu'r argymhelliad archwilio i fynd i'r afael â'r ddyled heb ei thalu a nodwyd yn yr archwiliad Mân Ddyledwyr yng nghyfarfod mis Medi'r Pwyllgor;*

(c) *y dylai'r cynnydd mewn gweithredu'r argymhelliad archwilio I fynd i'r afael â phoblogaeth y maes data cyfrifon yn yr archwiliad Budd-daliadau gael ei amlygu yn yr adroddiad nesaf ar Weithredu Argymhellion Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor*

(ch) *bod y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn trafod y pwnc o weithio ar y cyd yn uniongyrchol gyda'r Rheolwyr Fflyd, er mwyn sicrhau bod yr opsiwn hwn yn cael ei ystyried wrth drefnu prydlesu ceir.*

Ar yr adeg hon (11.00 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am bum munud i gael toriad lluniaeth.

**113 YSGOL UWCHRADD GATHOLIG Y BENDIGAID EDWARD JONES**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Addysg Uwchradd adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad I’r aelodau ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran ariannu Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad ar gynnydd o ran y pynciau ariannol hyn yng nghyfarfod
25 Ebrill 2007.

Gwnaed cynnydd wrth weithredu'r pynciau ariannol yn y Cynllun Gweithredu Statudol a gwelir manylion y sefyllfa ddiweddaraf o ran y camau datganiadol mewn atodiad i'r adroddiad i'r aelodau eu hystyried. Roedd Estyn yn parhau i fonitro'r ysgol a'i chynlluniau gwella, ac yn bwriadu ymweld â'r ysgol eto yn ddiweddarach yn yr wythnos. I gloi, dywedodd wrth yr aelodau fod cynnydd sylweddol wedi digwydd ers

eu cyfarfod diwethaf; bellach teimlir bod yr ysgol yn barod i symud ymlaen a gweithredu'r cynllun gweithredu.

Ar yr adeg hon (11.20 a.m.) roedd diffyg cworwm gan y Pwyllgor. Penderfynodd y Cadeirydd barhau â'r cyfarfod a gorffen yr eitem.

Pwysleisiod y Cadeirydd yr angen am sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i sicrhau na fyddai'r sefyllfa'n cael ei hailadrodd mewn ysgolion eraill yn Sir Ddinbych; cafodd ei sicrhau y byddai'r pwyllgor craffu yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y dylai'r pwyllgor craffu ymchwilio i'r posibilrwydd o hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a benodir gan yr AALl.

Yn wyneb y newidiadau a chynnydd sylweddol a wnaed yn yr ysgol ers y cyfarfod diwethaf, roedd yr aelodau'n fodlon bod y materion bellach yn cael eu trin yn drylwyr. Felly, roedd yr aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad, a chael diweddariad arall yng nghyfarfod mis Hydref y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45a.m.

******

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Prestatyn ddydd Iau Mehefin 14eg 2007 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr J. Chamberlain Jones, D. Hannam, T.K. Hodgson, J. A. Smith ac M. A Webster.

Roedd y Cynghorwyr R.E. Barton, P.A. Dobb ac M.A. German yn bresennol fel arsyllwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Cefnogaeth a Datblygiad Busnes, Swyddog Cefnogi Craffu (J. Curran) a Chlerc y Pwyllgor (Mrs J V Pring). Roedd swyddogion eraill o'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau.

**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd T.R. Hughes.

**114 PENODIAD Y GADAIR**

Cynigiodd y Cynghorydd J. A. Smith ac fe eiliodd y Cynghorydd D. Hannam i'r Cynghorydd T.K. Hodgson gael ei benodi'n Gadeirydde y Pwyllgor am y flwyddyn fwrdeistrefol 2007/08. Yn absenoldeb unrhyw enwebiad arall

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd T.K. Hodgson yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn fwrdeistrefol 2007/08 .*

**115 PENODIAD IS-GADEIRYDD**

Cynigiodd y Cynghorydd D. Hannam ac fe eiliodd y Cynghorydd J. Chamberlain Jones i'r Cynghorydd J A Smith gael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn fwrdeistrefol 2007/08. Yn absenoldeb unrhyw enwebiad arall

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd J. A. Smith yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn fwrdeistrefol 2007/08.*

**116 MATERION BRYS**

Nid oedd yna unrhyw faterion brys.

**117 AELODAETH Y PWYLLGOR**

Mewn ymateb i gais y Cadeirydd am eglurhad o Aelodaeth y Pwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Cefnogi Craffu, yn unol â'r adolygiad diweddar o gydbwysedd gwleidyddol, ac aelodaeth y pwyllgor, fod cyfansoddiad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Ceidwadwyr - 2
Annibynnol - 2
Llafur - 1
Plaid Cymru – 1
Di-aliniad – 1

Nododd y Cynghorydd J A Smith y byddai'r sedd wag bresennol yn cael ei llenwi'n fuan.

**118 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y pwyllgor gynhaliwyd ar Fai 10fed 2007:-

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar Fai 10fed 2007.*

Materion yn codi

Tudalen 4 - (Cefnogwr Anabledd Dysgu) Mewn ymateb i bryderon fynegwyd gan y Cynghorydd R E Barton ynglŷn ag oblygiadau penodi Aelodau nad oeddynt yn Aelodau o'r Pwyllgor perthnasol fel Cefnogwyr, cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd y mater hwn wedi ei ddatrys eto.

Tudalen 5 – (Gwasanaeth Maethu) Cadarnhaodd y Swyddog Cefnogi Craffu fod datganiad i'r wasg oedd yn rhoi cyhoeddusrwydd i waith a llwyddiannau'r gwasanaeth wedi ei gyhoeddi ar Fai 22ain 2007

Tudalen 6 – (Ymweliadau rota) Dywedodd y Cynghorydd J. A Smith fod Personél erbyn hyn wedi derbyn gweddill ffurflenni cliriad y Swyddfa Gofnodion Troseddau.

Tudalen 7 – (Ffordd Brighton) Dywedodd Pennaeth Cefnogi Busnes a Datblygiad fod gwaith yn awr wedi dechrau a bod yr amserlen i gwblhau ddiwedd Awst yn sefyll gyda phobl yn symud i mewn ddechrau mis Medi..

Tudalen 7 – (cyflwyniad gan Wasanaeth Ambiwlans Cymreig Ymddiriedolaeth GIC) Dywedodd Swyddog Cefnogi Craffu wrth yr Aelodau fod y cyflwyniad oedd i fod i ddigwydd yn un o Bwyllgorau Craffu Cyngor Sir Fflint wedi cael ei ohirio ac mae'n awr wedi ei drefnu ar gyfer Gorffennaf 17eg 2007.

**119 STRATEGAETH TAI LLEOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Strategaeth Tai (S. Kaye) adroddiad, ddosbarthwyd eisoes, ar ddatblygiad gweithrediadau o fewn Strategaeth Tai Lleol newydd y Sir (STLl) am 2004-09. Ceisiwyd barn yr Aelodau ar y STLl newydd am 2007 – 2012, fe atodwyd copi i'r adroddiad.

Roedd y Strategaeth Tai Lleol yn cwmpasu llawer o faterion tai allweddol yn cynnwys tai fforddiadwy, digartrefedd a chyflwr y stoc tai. Fe ddatblygwyd y strategaeth drwy ymgynghoriadau helaeth gydag Aelodau, sefydliadau cyfranogol, y cyhoedd a'r Cynulliad Cymreig ac y mae'n cynnwys cynllun gweithredu sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

Roedd yn rhaid cyflwyno'r STLl am 2007 - 12 i'r Cynulliad erbyn Mehefin 30ain 2007 fel rhan o resymoliad cynllun ac yr oedd hyn yn eithriadol dyn o ran amser. Roedd hyn yn golygu fod y strategaeth ddrafft yn ddogfen amlinellol i sefydlu fframwaith cyfredol ond gyda'r Strategaeth bresennol, oedd i redeg am ddwy flynedd arall, yn sail gadarn iddi. Amlinellwyd llwyddiannau allweddol o safbwynt tair blynedd gyntaf Strategaeth 2004-09 mewn atodiad i'r adroddiad hwn.

Roedd y STLl gyfredol yn dynodi'r sefyllfa leol o safbwynt tai ar draws yr holl ddaliadaethau ac roedd yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Cafodd enghreifftiau o'r ffordd yr oedd y byrdwn cyffredinol yn wahanol i fersiwn 2004 eu cynnwys yn yr adroddiad.

Nododd y Cadeirydd y diffyg arweiniad penodol o fewn y cynllun tai fforddiadwy o safbwynt costau gweithredu o ddydd i ddydd a chostau cynnal yn y dyfodol yn enwedig o safbwynt effeithlonrwydd ynni. Yna cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd symud ymlaen a chryfhau ymwybyddiaeth o'r agenda ecolegol o safbwynt anghenion tai. Cyfeiriodd y Swyddog Strategaeth Tai (Sue Lewis) at gynllun tai fforddiadwy newydd oedd i'w gwblhau yn hwyrach eleni. Cafodd y cynllun y dyfarniad uchaf a roddwyd erioed i adeiladwr yng Ngogledd Cymru o safbwynt graddfa eco. Fe gyflawnwyd hyn drwy ystod o gyfleusterau effeithlonrwydd ynni.

Cafwyd trafodaeth am ystod o faterion ynglŷn â thai, yn cynnwys :-

- Yr angen i osod y lwfans Tai Lleol ar y lefel gywir,
- Cynllun cyfnewid tai wed ei seilio ar gymhelliad
- Y berthynas rhwng y Cyngor, datblygwyr lleol a landlordiaid preifat,
- Cynlluniau Gofal Ychwanegol a Grant Tai Cymdeithasol,
- Yr angen i sicrhau arian i brysuro'r cynllun 'tai gwag' ymlaen.
-

Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o'r gwaith wnaethpwyd gan y Rheolwr Strategaeth Tai a'i Dîm ac fe

***BENDERFYNWYD***

*(a) nodi'r llwyddiant gafwyd wrth gyflawni gweithrediadau allweddol ddynodwyd o fewn y Strategaeth Tai Lleol, ac*

*(b) ardystio'r cynnig fod y Cabinet yn mabwysiadu'r Strategaeth Tai Lleol am 2007-2012.*

**120 ADNODDAU DYNOL**

(Daethpwyd â'r eitem hon ymlaen ar yr agenda gyda chydsyniad y Gadair)

Cyflwynodd y Pennaeth Cefnogi Busnes a Datblygiad adroddiad, ddosbarthwyd eisoes, ar fentrau cyfredol Adnoddau Dynol o fewn y Gyfarwyddiaeth. Roedd yr Aelodau wedi gofyn yn flaenorol am gael eu diweddaru ynglŷn â'r datblygiadau mewn recriwtio a dargadw.

Darparodd yr adroddiad wybodaeth am lefelau cyfredol y gweithlu, proffiliau oed, graddfeydd salwch a blaenoriaethau'r dyfodol. Gan gyfeirio at lefelau absenoldeb oherwydd salwch y rheiny oedd yn gweithio yn y Gwasanaethau Oedolion, dywedodd y Pennaeth Cefnogi Busnes a Datblygiad fod y Gweithwyr Cymdeithasol oedd mewn cysylltiad â chleientiaid hŷn yn fwy tebygol o fod yn absennol o'u gwaith gyda mân anhwylderau er mwyn osgoi heintio'r rhai oedd o'r fath iechyd ac oed fel eu bod yn fwy agored i risg. Fodd bynnag cafodd y staff hyn gynnig brechiadau ffliw fel cam ymataliol. Pan ofynnodd yr aelodau os cafodd hyn ei fonitro i asesu os oedd y brechiadau wedi helpu i gadw staff wrth eu gwaith, cytunodd y swyddogion y byddai hyn yn ymarferiad defnyddiol.

Cyfeiriwyd hefyd at y camau gymerwyd i annog ymgeiswyr newydd i yrfa mewn gofal cymdeithasol a'r cysylltiadau ddatblygwyd gyda NEWI o safbwynt lleoliadau.

Yn dilyn trafodaeth bellach

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r datblygiadau o safbwynt recriwtio a dargadw ac ardystio'r blaenoriaethau ddynodwyd.*

Yma fe ohiriwyd y cyfarfod ar gyfer toriad am luniaeth ysgafn.

**121 ADRODDIADAU PERFFORMIAD CHWARTEROL – CHWARTER 4**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Craffu adroddiad, ddosbarthwyd eisoes, ynglŷn â pherfformiad unedau gwasanaeth unigol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn erbyn targedau a nodau a gytunwyd.

Cafodd y perfformiad cyffredinol ei grynhoi o fewn adrannau'r gwasanaeth ac fe'u nodir yn adran 4.2 yr adroddiad. Cafwyd gwelliannau arwyddocaol mewn Gwasanaethau Plant, yn benodol o safbwynt sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Nodwyd hefyd berfformiad cryf parhaol mewn trosglwyddiadau gofal gohiriedig.

O fewn y Gwasanaethau Tai, tra na roddwyd unrhyw deulu mewn llety gwely a brecwast ond mewn argyfwng, roedd cyfartaledd y dyddiau y bu teuluoedd digartref mewn llety dros dro wedi amrywio o isafrif o 71 diwrnod yn y trydydd chwarter i 141 diwrnod yn y chwarter olaf. Y rheswm am hyn oedd anargaeledd tai fforddiadwy parhaol er i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ddweud fod safon llety dros-dro erbyn hyn yn llawer uwch.

Yn wyneb pryderon am yr anallu i gyrraedd y targed o 45 diwrnod ar gyfer gosod tai, cytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ym mis Medi 2007 i ystyried materion cynnal a chadw a dyraniad.

Yn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J Chamberlain Jones ynglŷn â'r mesurwyr o safbwynt Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, dywedodd y swyddogion fod yr achosion o niwed yn cael eu monitro'n ofalus ac fe lynir yn gaeth at y drefn weithredu. Nododd y Gadair fod angen eglurder o fewn polisi'r Bwrdd Iechyd Lleol ac awgrymodd y dylid ymholi i ganfod lefel y rhyngweithio.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a*

*(i) bod adroddiad ar faterion cynnal a dyraniad ynglŷn â gosod tai yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Medi, ac*

*(ii) y dylid gwneud ymholiadau o safbwynt polisi cam-drin oedolion sy'n agored i niwed y Bwrdd Iechyd Lleol, a'i gydberthynas â'r polisi a fabwysiadwyd gan Sir Ddinbych.*

**122 ASESIAD A RHEOLAETH ACHOS**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth Gweithredol Plant adroddiad, ddosbarthwyd eisoes, ar y gwaith ymgymerwyd gan y timau gofal gweithredol plant o safbwynt asesiad a rheolaeth achos ddiffiniwyd fel un o risg uchel o fewn y Cydasesiad Risg. Fe nodwyd hefyd anghenion statudol ac argymhellion adroddiad yr Arglwydd Laming ar farwolaeth Victoria Climbié.

Er y cydnabuwyd fod yna risgiau'n gysylltiedig â chynlluniau gofal anaddas, oedi a methiant i gyflawni anghenion a diffyg cysondeb mewn safon gwasanaethau, esboniodd y swyddog fod yna ddatblygiadau arwyddocaol wedi eu cyflawni o safbwynt sefydlogrwydd staff, Cynlluniau Busnes ac ymroddiad i wella safonau. Erbyn hyn nid oedd yna unrhyw restrau aros na chyfeiriadau heb eu dyrannu.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion am y prosesau ynglŷn â chyfeiriadau a meini prawf cymhwyster ac yr oedd yn disgrifio'r drefn weithredu ar gyfer Asesiadau Cychwynnol a Chraidd. Darparwyd gwybodaeth hefyd am y systemau ar gyfer delio â chamdriniaeth yn y cartref ac achosion amddiffyn plant.

Yn ystod y drafodaeth cyfeiriodd yr Aelodau at safonau gwael magu plant a'r angen i ddarparu strwythur rheoli a chefnogi effeithiol. Gofynnodd y Cynghorydd D. Hannam os cafodd y deddfau trwyddedu newydd unrhyw effaith ar gynnydd achosion o gamdriniaeth yn y cartref. Dywedodd y Cynghorydd J A Smith y bu cynnydd o 2% yn nifer yr achosion o gamdriniaeth yn y cartref oherwydd alcohol. Cytunodd i wneud ymholiadau pellach i gael ffigurau penodol a'u hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cymeradwyodd yr Aelodau'r rheolwr a'r staff am y gwelliannau wnaethpwyd ers ymgymryd â'r Cyd-Asesiad Risg ac awgrymodd y Cynghorydd J Chamberlain Jones y dylid enwebu'r Tîm ar gyfer gwobr gwasanaeth da.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad ac y dylid llongyfarch y staff ar y gwelliannau wnaethpwyd.*

**123 RHAGLEN WAITH**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Craffu adroddiad, ddosbarthwyd eisoes, ar faterion i'w hystyried o safbwynt rhaglen waith i'r Pwyllgor ar gyfer y dyfodol. Atodwyd copi o'r Rhaglen Waith i'r adroddiad.

**Materion y Dyfodol**

Derbyniodd yr Aelodau yr adolygiadau awgrymwyd i'r rhaglen waith fel y'i gwelir o fewn yr adroddiad.

- Gan ymateb i gais am Aelod i wasanaethu ar y Grŵp Corfforaethol Magu Plant, cytunwyd mai'r Cynghorydd T.K. Hodgson fyddai cynrychiolydd y Pwyllgor.

- Cylchlythyrwyd adroddiad am y sefyllfa ddiweddara o safbwynt ail-leoliad dros dro canolfan SOVA yn y Rhyl. Roedd yr Aelodau'n bryderus am y derminoleg ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

- Cadarnhaodd Pennaeth Cefnogi a Datblygu Busnes fod y gwaith ym Meithrinfa Aberwheeler wedi ei gwblhau erbyn hyn a bod y feithrinfa'n awr yn gwbl weithredol. Cyfeiriodd y swyddog at gynlluniau i gynnal Diwrnod Agored ar Orffennaf 5ed 2007 ac y byddai gwahoddiadau'n cael eu hanfon at Aelodau gyda hyn.

- Yn dilyn trafodaethau cynharach ynglŷn â chyfathrebu gwybodaeth i Aelodau Lleol ar Grantiau Darpariaethau i'r Anabl, dywedodd y Swyddog Cefnogi Craffu y cafwyd trafodaethau rhwng Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd a Chlerc y Sir. Oherwydd rhesymau gwarchod data, cyngor Clerc y Sir oedd na fyddai'n briodol i gylchlythyru manylion am eiddo oedd yn cael eu haddasu. Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton sylw'r Aelodau at Gyfansoddiad y Sir oedd yn datgan y dylid ymgynghori ag Aelodau lleol ar faterion oedd yn berthnasol i'w wardiau lleol hwy. Mynegodd y Gadair ei siomedigaeth yn ymateb Clerc y Sir a nododd y byddai'n mynd â'r mater ymhellach.

- Dywedodd Pennaeth Cefnogi a Datblygu Busnes wrth y Pwyllgor fod yna ddau enwebiad am Wobr Gwasanaeth Da 2007:-

    1) Christine Moorcroft oherwydd ei bod yn hawdd mynd ati bob amser ac am iddi wella cyfathrebiadau, morâl a gwaith tîm yn gyson.

    2) Irene Burns am sicrhau fod preswylwyr oedd yn agored i niwed yn Rhuthun yn derbyn prydau poeth ar Fai 8fed pan nad oedd y gyrrwr arferol ar gael.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Rhaglen Waith, ac i'r gweithrediadau gytunwyd fynd rhagddynt fel y bo'n addas.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 p.m.

**********

## Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar 20 Mehefin 2007 am 09.30 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Chamberlain-Jones, J M Davies, M Ll Davies, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, M A German, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, T R Hughes, N Hugh-Jones, E R Jones, H Jones, G M Kensler, P W Owen, N P Roberts, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams a R Ll Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G.Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

**CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**

Y Cynghorwyr S A Davies, M M Jones, J Butterfield ac I M German

### 124 MATERION BRYS

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wrth y Pwyllgor am ganlyniad yr apeliadau diweddar ynghylch Fferm Wynt Wern Ddu. Caniatawyd y ddwy apêl gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd manylion y penderfyniad yn cael eu cylchredeg ac ar gael ar y Porth Mynediad Cyhoeddus.

### 125 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cafodd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (a gylchredwyd yn flaenorol) ei gyflwyno gan restri cynlluniau a gyflwynwyd ac yn mynnu penderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

a) *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y maent yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a chyhoeddi caniatâd neu wrthodiadau cynllunio yn ôl yr achos fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn destun yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 05/2006/0382/PR | Cymeradwyo manylion cysylltiedig â lleoliad anheddau a mynedfeydd, yn rhan o amod 1 sy'n amgaeedig i amlinellu cod caniatâd cynllunio rhif 5/2004/0541/PO<br>**Tir wrth ymyl Cwm Arddau, Glyndyfrdwy, Corwen**<br>**CANIATÁU**<br>Yn amodol ar Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd<br>Nodir bod deunydd wedi'i adael ar y safle ac mae'r Cyngor ac Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n ymchwilio i hyn. Gallai fod goblygiadau gan y deunydd hwn a adawyd mewn perthynas â chael caniatâd o dan y Rheoliadau Adeiladu. |
| 11/2006/1236/PF | Codi adeilad ystabl a storfa amaethyddol<br>**Brynhyfryd, Betws Gwerfyl Goch, Corwen** |

**CANIATÁU**
Yn destun amod newydd Rhif 2
2. Ni cheir torri, tocio na thorri unrhyw goed na llwyni ar y tir o dan reolaeth safle'r ymgeisydd heb gael caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. Caiff y rhai a waredir heb ganiatâd neu sy'n marw neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n ddifrifol o afiach ymhen pum mlynedd o gwblhau'r datblygiad eu disodli â choed neu blanhigion gwrych o'r math a'r rhywogaethau a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
*Rheswm*
I ddiogelu'r coed a'r llwyni sydd eisoes ar y safle, er lles amwynderau gweledol yr ardal.

15/2007/0271/PF

**Siaradwr Cyhoeddus o blaid: Mr A Povey**
Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol o gynrychiolaeth o'r Pwyllgor AHNE
Codi estyniad â tho ar ongl a dau lawr i ochr yr annedd
**1 Maes Llan, Llanarmon yn Iâl, yr Wyddgrug**
**CANIATÁU**
Yn destun amodau newydd 3 a 4
Amodau Ychwanegol:
3. Ni cheir unrhyw ddatblygiad hyd nes cyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a hyd nes cymeradwyir yn ysgrifenedig ganddo, gynllun manwl a fydd yn cynnwys manylion:
(a) pob coeden, clawdd, prysglwyn neu lystyfiant sydd eisoes ar y tir, manylion unrhyw rai i'w cadw, a chamau i'w diogelu yn ystod y datblygiad;
(b) Coed, cloddiau, prysglwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, gan gynnwys cadarnhau rhywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseru arfaethedig y plannu;
(c) Deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio ar y rhodfa/rhodfeydd, llwybrau ac ardaloedd eraill ag arwyneb caled;
(d) Gwrthgloddiau arfaethedig, graddio a thwmpathau tir a newidiadau mewn lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y twmpathau arfaethedig â llystyfiant presennol a thirffurf o amgylch;
(e) safleoedd, dyluniad, deunyddiau a math o driniaeth derfyn arfaethedig
*Rheswm*
I sicrhau, er lles amwynder gweledol, safon foddhaol o dirlunio ar y cyd â'r datblygiad.
4. Caiff yr holl waith plannu, hadu, tywarchu, ffensio, murio, neu driniaeth arall sy'n rhan o'r manylion tirlunio a gymeradwywyd, ei gynnal yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl dechrau'r datblygiad; os byddant yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael difrod neu ddolur difrifol, plannir eraill o faint a rhywogaethau tebyg yn eu lle yn y tymor plannu nesaf.
*Rheswm:*
I sicrhau safon ddatblygu foddhaol, er lles amwynder gweledol.

25/2007/0285/PF

**Siaradwr Cyhoeddus o Blaid: Mr Romas Aleknavicious**
Defnyddio tir yn ardd randir bersonol a chodi polytwnnel
**Tir cyferbyn â Thŷ Glyn, Nantglyn, Dinbych**
**CANIATÁU**
Yn destun amod newydd 3 Clawdd

3. Caiff y clawdd presennol i safle'r tu blaen gyda'r B5435 ei gadw'n 2 fetr o uchder o leiaf oni chymeradwyir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
*Rheswm:* Er lles amwynder gweledol.

42/2005/1150/PO

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol o gynrychiolaeth gan yr Ymgeisydd
Datblygu 0.14ha o dir drwy godi 2 annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr (cais amlinellol)
**Tir yn (rhan o ardd 97 Cwm Road) a elwir yn 93/95 Cwm Road, Dyserth, y Rhyl**
**CANIATÁU**

42/2007/0508/PC

Cadw tŷ haf yng nghefn yr annedd (cais adolygol)
**12 Glan Ffyddion, Dyserth**
**CANIATÁU**
Nodyn i'r Ymgeisydd
Dylech gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau ei bod yn fodlon nad yw'r tŷ haf yn torri ei gofynion mewn perthynas ag agosrwydd at brif afon, sef Afon Ffyddion.

45/2006/0236/PC

Ar ôl ystyried cywiriad i adroddiad.
**Cywiriad i Adroddiad**
Paragraff 2 – Cyhoeddwyd Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ym 1992 (gweler para 4). Mae'r dystysgrif yn cadarnhau bod y Defnydd Cyfreithlon o'r safle fel 12 fflat fach gyda dwy fflat perchennog i ffurfio 8 fflat hunangynhwysol.
**39/41 Aquarium Street, y Rhyl**
**CANIATÁU**
Penderfynwyd RHOI caniatâd cynllunio ond yn amodol ar geisio cyfraniad at y "gronfa adfywio" ar gyfer Gorllewin y Rhyl. Gallai hyn fod drwy daliad gwirfoddol neu drwy Rwymedigaeth Adran 106.

45/2007/0103/PS

**Siaradwr Cyhoeddus o blaid: Mr Bahattin Nas**
Ar ôl ystyried eglurhad o'r adroddiad. Mae'r safle'n gweithredu fel siop cludfwyd poeth (Dosbarth A3).
Amrywiad Amod Rhif 2 ar Ganiatâd Cynllunio Cyf. 45/2001/0632/PF i ganiatáu nodi oriau agor 0800 i 0300 ddydd Gwener a dydd Sadwrn, 0800 i 2330 ddydd Llun i ddydd Iau a 1000 i 2330 ddydd Sul.
**36-38 Vale Road, y Rhyl**
**CANIATÁU**
Amod Ychwanegol
2. Ymhen 3 mis o ddyddiad y caniatâd hwn, caiff system teledu cylch cyfyng i fonitro ymddygiad cwsmeriaid ei gosod i weithredu ar y safle drwy'r amser pan fydd y safle ar agor i gwsmeriaid.
*Rheswm:* Er lles amwynder a throsedd ac anrhefn.

(ii) Gwrthodiadau

01/2006/1098/PF

**34-36 Vale Street, Dinbych**
Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol o gynrychiolaeth gan y Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith
**GWRTHOD**
Penderfynwyd yn GROES i Argymhelliad y swyddog am y rheswm canlynol:
1. Nid yw'r cynnig yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir oddi ar y stryd na gwasanaethu ar gyfer yr unedau preswyl ac felly byddai'n debygol o achosi i fwy o

geir barcio ar y stryd, symud a gollwng pobl ar y priffyrdd wrth ymyl a gerllaw ar draul diogelwch a chyfleustra defnyddwyr eraill y priffyrdd ac mewn gwrthdaro â Pholisi TRA 9 yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol Rhif 21- Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd.

01/2007/0367/PF

Cadw 2 gysgodlen y gellir eu tynnu'n ôl i flaen y safle
**Hand Inn, Stryd Henllan, Dinbych**
**GWRTHOD**
Hefyd wedi awdurdodi camau gorfodi.

45/2007/0042/PF

Datganodd y Cynghorydd T K Hodgson fudd yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr pan ystyriwyd yr achos hwnnw.
Ar ôl ystyried eglurhad o'r adroddiad.
**Eglurhad i'r Adroddiad**
Polisïau a Chanllaw Cynllunio
Mae Polisi TSM 17 (Parth Adloniant y Rhyl) yn berthnasol hefyd gan ei fod yn darparu ardal ar gyfer arcedau diddanu a defnyddiau tebyg ar Rodfa'r Gorllewin. Nid yw'r polisi ei hun yn atal defnyddiau diddanu mewn mannau eraill er bod yr eglurhad i'r Polisi yn nodi "na fydd cynigion ar gyfer defnyddiau diddanu/adloniant yn cael eu caniatáu fel arfer y tu allan i'r ardaloedd diffiniedig".
Mewn apêl am ganolfan ddiddanu ar y Stryd Fawr yn 2004, cydnabu'r Arolygydd Bolisi TSM 17 ond ystyriodd nad oedd y polisi hwn yn atal defnyddiau diddanu y tu allan i'r parth adloniant.
Codi estyniad un llawr i'r cefn a newid defnydd i ffurfio lefel saethu targed (at ddibenion diddanu)
**30 Wellington Road, y Rhyl**
**GWRTHOD**
Penderfynwyd yn GROES i Argymhelliad y Swyddog am y rheswm canlynol:
1. Byddai'r cynnig yn arwain at fath o ddefnydd canolfan ddiddanu y tu allan i'r parth adloniant yn y Rhyl fel y diffinnir gan Bolisi TSM 17 yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. Byddai gwasgaru defnyddiau diddanu y tu hwnt i'r ardal ddynodedig ar draul swyddogaeth dwristiaeth cyrchfan y Rhyl ac yn effeithio'n andwyol ar yr amwynderau preswyl a defnyddiau eraill sy'n agos at safle'r cais. Yn benodol, byddai'r gweithgareddau cysylltiedig â'r defnydd, gan gynnwys pobl yn ymgynnull yn yr iard gefn, yn effeithio'n andwyol ar amwynderau preswyl eiddo gerllaw mewn gwrthdaro â maen prawf (v) ym Mholisi GEN 6 yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

45/2007/0302/PF

Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol o gynrychiolaeth gan Ann Jones (AC) (o blaid) a David Jackson (Cymydog) (yn erbyn)
Amrywiad Amod Rhif 2 ar Ganiatâd Cynllunio Cyf. 45/2006/0868/PF i ganiatáu cynyddu nifer y plant o 25 i 32
**37 Marine Drive, y Rhyl**
**GWRTHOD**
Penderfynwyd yn GROES i Argymhelliad y Swyddog am y rheswm canlynol
1. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn niferoedd y plant yn y safle yn golygu bod y feithrinfa ddydd yn cael ei defnyddio'n helaethach ac yn arwain at aflonyddwch ychwanegol yn yr ardal, gan gynnwys cerbydau'n mynd a dod i ollwng a

chasglu plant. Byddai hyn yn niweidiol i gymeriad preswyl yr ardal ac amwynderau'r preswylwyr cyfagos ac yn gwrthdaro â maen prawf (v) Polisi GEN 6 yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

(ii) Camau Gorfodi

ENF/2005/0084

Newid defnydd anawdurdodedig;
Ffens derfyn uwch na 2m;
Tir Anniben.
**Canolfan Arddio, Stryd yr Eglwys, Henllan**
**CAMAU GORFODI**
Penderfynwyd yn unol â'r argymhelliad diwygiedig canlynol:
(i) Rhoi rhybudd gorfodi i sicrhau y caiff y ffens anawdurdodedig ei gwaredu,
(ii) Rhoi rhybudd gorfodi i ddarfod defnydd cymysg cyfredol y safle fel canolfan arddio ac i storio deunyddiau adeiladu.
(v) Cyfnod ar gyfer cydymffurfio – un mis ar gyfer y ffens a chwe mis ar gyfer y defnydd cymysg.

ENF/2005/0015

Gosod ffenestri UPVC
**Yr Hen Far Llaeth Cenedlaethol, (Castle Café) 48-52 Stryd Fawr, Dinbych**
Penderfynwyd yn unol â'r argymhelliad diwygiedig canlynol:
(i) Rhoi rhybudd gorfodi i sicrhau y gwaredir y 2 ffenestr UPVC anawdurdodedig a rhoi yn eu lle ffenestri o fath a nodir yn y rhybudd.

ENF/2006/0029

Siop Fferm Anawdurdodedig
**Tir wrth Fynedfa Gwesty Abbey Grange, Llandysilio-yn-Iâl, Llangollen**
**TYNNWYD YN ÔL**
Cyflwynwyd cais

ENF/2007/0039

Codi adeilad anawdurdodedig
**Pysgodfa a Fferm Lakehill, Llandegla**
Wedi'i ddiwygio
(iv) Argymhelliad
Awdurdodi'r canlynol:
i) Rhoi rhybudd gorfodi i sicrhau y dymchwelir yr adeilad ac y gwaredir yr holl ddeunyddiau adeiladu ynghyd ag adfer unrhyw ardaloedd a ddifrodwyd yn y SoDdGa a'r ACA.
ii) Dechrau achos erlyn ac ati.
iii) Cyfnod 3 mis i gydymffurfio.

ENF/2007/0040

Codi Tŷ Gwydr; Codi Dec; Codi ardal seler i'w defnyddio'n llety i'r Rheolwr
**Pysgodfa a Fferm Lakehill, Llandegla**
(v) Argymhelliad
Awdurdodi'r canlynol:
i. Rhoi rhybudd gorfodi i sicrhau y dymchwelir a/neu y gwaredir y tŷ gwydr, y dec a'r ardal seler a ddefnyddir yn llety'r rheolwr, ac y gwaredir pob deunydd adeiladu o'r safle ynghyd ag adfer unrhyw ardaloedd o'r SoDdGA ac ACA a ddifrodwyd.
ii) Dechrau achos erlyn ac ati
iii) Cyfnod cydymffurfio o dri mis.

ENF/2007/0041

Lleoli a defnyddio uned symudol heb awdurdod
**Pysgodfa a Fferm Lakehill, Llandegla**
(vi) Argymhelliad
Awdurdodi'r canlynol:

i) Rhoi rhybudd gorfodi yn erbyn defnyddio'r tir ar gyfer lleoli'r uned symudol i'w defnyddio'n swyddfa/storfa a gwaredu'r uned symudol o'r safle.
ii) Cychwyn achos erlyn ac ati
iii) Cyfnod cydymffurfio o dri mis

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55 am

**********

**PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Iau 21 Mehefin 2007 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr N. Hugh-Jones (Cadeirydd), D. Cooper, H.H. Evans, S. Frobisher, M.M. Jones, G.J Pickering, N.P. Roberts ynghyd â'r aelodau cyfetholedig G. Greenland a D. Wilson.

**Arsyllwyr**: Cynghorwyr R.E. Barton, C.L. Hughes, G.C. Evans a D. Owens (Aelod Arweiniol y Cabinet, Ysgolion a Dysgu Gydol Oes)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant (P. Murphy), Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad a Hamdden (T. Hughes), Rheolwr Busnes a Pherfformiad (G.Yates), Uwch Gynghorwr Corfforaethol Iechyd a Diogelwch (G. Lapington), Swyddog Cefnogi Craffu (S. Price) a Swyddog Gweinyddu (K. Jones).

**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau cyfetholedig D. Hesketh, E. Jones, Parch. M. Parry a C. Thomas

**PWYNT HYSBYSU**

Dywedodd y Cadeirydd fod Mr. David Smith, Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd yn y broses o gael ei benodi i'r pwyllgor fel Cynrychiolydd Rhieni-Llywodraethwyr (Sector Uwchradd).Croesawodd yr aelodau'r penodiad.

**126 MATERION BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y materion canlynol oedd angen eu trafod fel mater o frys:-

**(i) Adolygiad Addysg Caergrawnt o'r Ddarpariaeth 16–19 yn Y Rhyl**

Cyfeiriodd y Cynghorydd H.H. Evans at adolygiad Addysg Caergrawnt o'r ddarpariaeth16 –19 yn Y Rhyl a mynegodd ei bryder nad oedd y pwyllgor craffu wedi'i gynnwys yn y broses cyn i gasgliadau'r adolygiad gael eu cyhoeddi. Mynegwyd pryderon pellach am nad oedd canlyniad yr adolygiad wedi'i rannu gyda Chynghorwyr ar y dechrau er mwyn sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa ac o'r goblygiadau i bawb oedd yn ymwneud â'r mater. Teimlad y Cynghorydd Evans oedd y dylai'r pwyllgor ystyried adroddiad Addysg Caergrawnt gynted â phosibl. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes i bryderon yr aelodau am gyhoeddi'r casgliadau a'r broses o ddosbarthu gwybodaeth i'r holl bartion. Cadarnhaodd fod ysgolion a Chynghorwyr Y Rhyl wedi bod mewn cysylltiad ar y dechrau, cyn cyhoeddi'r adroddiad. Byddai'r Cabinet yn trafod yr adroddiad yn eu cyfarfod ar 26 Mehefin a'r argymhellion i (1) nodi'r casgliadau yn yr adolygiad, (2) awdurdodi ymgynghori â'r cyhoedd tan ddiwedd Medi gan adrodd yn ôl ar ymatebion ac ar effaith yr argymhellion ac (3) adroddiad i'r Cyngor yng Ngorffennaf am yr adroddiad a'r camau a gymerwyd gan y Cabinet. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r holl bartion yn cael cyfle i roi adborth am yr argymhellion yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol.

Roedd yr aelodau'n awyddus i ystyried casgladau'r adolygiad yn fanwl; wrth ystyried amserlen yr ymgynghori a baich gwaith y pwyllgor :-

***PENDERFYNWYD*** *y byddai adroddiad Addysg Caergrawnt ar y ddarpariaeth 16 – 19 yn Y Rhyl yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor, i'w gynnal ar 18 Gorffennaf 2007.*

**(ii) Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones – Diweddariad**

Gofynnodd y Cynghorydd M.M. Jones am ddiweddariad llafar ar y sefyllfa yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes am yr arolwg diweddar a wnaed gan Estyn a oedd yn tynnu sylw at y gwaith mawr oedd eto i'w wneud yn yr ysgol. Cyfeiriodd hefyd at benodiad Pennaeth Dros Dro. Byddai Estyn yn ail ymweld â'r ysgol yn ddiweddarach yn y flwyddyn cyn penderfynu a ddylai'r ysgol barhau dan fesurau arbennig.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones a rhoddir diweddariad eto yn y cyfarfod nesaf.*

**(iii) Penodi Penaethiaid Gwasanaeth (Gwasanaethau Addysg) - Diweddariad**

Gofynnodd y Cynghorydd M.M. Jones am ddiweddariad llafar ar y sefyllfa o ran swyddi Penaethiaid Gwasanaethau mewn Addysg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes y byddai Mr. I. Ll. Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Addysg yn gadael yr awdurdod ar ddiwedd Awst. Ymgeisydd mewnol, Ms. Sylvia Jones fydd yn cymryd y swydd o Bennaeth Gwasanaethau Cynhwysiad a Phartneriaeth. Hysbyswyd yr aelodau am yr anawsterau i lenwi'r swydd o Bennaeth Gwasanaethau Dysgu a Gwella a'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer recriwtio. Gan ei fod yn annhebygol y byddai'r swydd wedi'i llenwi cyn Ionawr, rhoddir ystyriaeth i'r cyfle i gynnig lleoliad dros dro neu secondiad.

Gofynnodd y Cynghorydd M.M. Jones am i Mr. I. Ll. Roberts gael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn cydnabod yn swyddogol ei wasanaeth rhagorol a chyfleu diolch y pwyllgor iddo.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) nodi'r diweddariad llafar am benodi Penaethiaid Gwasanaethau a*

*(b) gwahodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Mr. I.Ll. Roberts, i gyfarfod nesaf y pwyllgor.*

**127 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2007 (dosbarthwyd yn flaenorol).

**Cywirdeb -**

Tud.5 – Eitem Rhif. 7: Amserlen Addysg Caergrawnt – Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes nad oedd wedi datgan ei bod yn debygol y byddai adroddiad Addysg Caergrawnt yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi. Gofynnodd i'r cyfeiriad hwnnw yn y cofnodion gael ei ddileu.

**Materion yn Codi-**

Tud. 4 – Eitem Rhif 7: Amserlen Addysg Caergrawnt – Cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at yr adroddiad ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg a fyddai'n cael ei drafod gan y Cabinet ar 26 Mehefin. Dywedodd y Cynghorydd Barton nad oedd unrhyw gyfeiriad at Bwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes yn yr amserlen honno ar gyfer ymgynghori ac ystyried. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes fod yr adroddiad wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y pwyllgor i'w ystyried mewn cyfarfod arbennig ym Medi/Hydref. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y trefniadau a'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi ac ymgynghori ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg a oedd yn caniatau cyfnod rhesymol o ymgynghori ac adborth i'r Cabinet ym mis Hydref a thrafodaeth gan y Cyngor llawn ym mis Tachwedd.

Tud. 7 – Eitem Rhif 8: Rhaglen Waith Craffu – Monitro Ysgolion . Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans am drafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes am sefydlu Gweithgor ac am y cynnydd hyd yma. Pan fyddai wedi'i sefydlu, disgwylir y bydd y Gweithgor Gwella Ysgolion yn adrodd yn ôl i'r Cabinet trwy Aelod Arweiniol y Cabinet ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2007 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir, yn amodol ar yr uchod.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD:*** *yn unol ag Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd bod y mater hwn yn debyg o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i* diffinnir *ym mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**128 BYSYS YSGOL MELYN**

(Derbyniwyd ymddiheuriadau gan awdur yr adroddiad, Rheolwr Adran Cludiant Teithwyr)

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd yn flaenorol) gan y Pennaeth Cludiant a'r Isadeiledd yn gofyn am farn y pwyllgor ar gyflwyno bysys ysgol melyn yn Sir Ddinbych. Roedd y Gweithgor Cludiant Ysgol wedi cefnogi'n frwd yr argymhellion cychwynnol am ymestyn y cynllun Bysys Ysgol Melyn a gofynnodd i'r pwyllgor hwn archwilio'r argymhellion yn ffurfiol.

Nododd yr aelodau'r rhesymau dros yr argymhellion i ddatblygu'r cynllun bysys melyn; trafodwyd rhinweddau'r argymhellion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys mathau o gynlluniau, opsiynau caffael a gweithredu ar y cyd a gwybodaeth ariannol, gan gynnwys costau mynegol. Ymatebodd Swyddogion i amrywiol gwestiynau am yr argymhellion, gan gynnwys cwestiynau am hirhoedledd potensial bysys melyn; telerau cytundebau, safonau'r cerbydau; adroddiad Creu Cysylltiadau; y defnydd o docynnwyr; opsiynau ariannu ar gyfer cyfarwyddiaethau newydd; newid i fysys un llawr a chostau hurio preifat. Trafododd y pwyllgor ofynion iechyd a diogelwch a chyfeiriwyd yn benodol at ddriliau dianc. Roedd yr aelodau'n siomedig i nodi absenoldeb rhaglen barhaol o hyfforddiant am ddulliau dianc i ddisgyblion– dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys. Cadarnhaodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y byddai'r Rheolwr Adran yn delio â'r mater hwn a thawelodd feddyliau'r aelodau – roedd yr holl allanfeydd tân ac allanfeydd brys ar fysys ysgol yn cael eu harchwilio.

O safbwynt yr oblygiadau ariannol a oedd yn codi o'r adroddiad, ategodd yr aelodau y syniad o baratoi achos busnes gan gynnwys gwerthusiad cyfalaf llawn, i'w gyflwyno i'r Gweithgor Cludiant Ysgol ac i'r Cabinet. Nododd y Cynghorydd R.E. Barton nad oedd unrhyw gymariaethau ariannol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad o ran newid o fysys deulawr i fysys un llawr â lle i lawer o ddisgyblion; cytunodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad i godi'r cwestiwn hwn gyda'r Rheolwr Adran ac i adrodd yn ôl i'r aelodau.

Wrth fynegi cefnogaeth i'r argymhellion, roedd y Cynghorydd H.H. Evans yn dymuno ychwanegu y dylai'r bysys melyn newydd ddefnyddio biodanwydd.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) cefnogi mewn egwyddor yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad;*

*(b) y dylid ffafrio'r defnydd o biodanwydd wrth ymestyn y defnydd o'r cynllun bysys melyn;*

*(c) y dylid gosod achos busnes llawn, gan gynnwys gwerthusiad cyfalaf llawn, gerbron y Gweithgor Cludiant Ysgol a'r Cabinet, ac*

*(ch) y dylid cyfleu pryderon y pwyllgor am ddiffyg rhaglen hyfforddiant dreigl i ddisgyblion am ddulliau dianc o'r bysys, i'r Adran Cludiant ac Isadeiledd*

**SESIWN AGORED**

Wedi cwblhau'r drafodaeth uchod, ail ddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

Ar yr adeg hon, (11.30 a.m.), gohiriwyd y cyfarfod am ddeng munud ar gyfer toriad lluniaeth.

**129 POLISI AR REOLAETH CLUDIANT GWEITHLE YSGOL O FEWN YR YSGOLION**

Cyflwynodd yr Uwch Gynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor craffu am y Cynllun Gwella Cludiant yn y Gweithle i Ysgolion, gan ofyn am gefnogaeth yr aelodau i'r cynllun pum mlynedd (atodwyd i'r adroddiad) a monitro cynnydd.

Hysbyswyd yr aelodau bod yr Awdurdod Gweithredol, Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi derbyn, mewn egwyddor, y cynllun arfaethedig i wella problemau cludiant yn y gweithle i ysgolion yn Sir Ddinbych ac roedd y cyngor ar hyn o bryd yn gweithredu'n unol ag amserlen y cynllun. Roedd arian wedi'i ddyrannu ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd ymhob safle ysgol a nodwyd fel rhai blaenoriaeth uchel; rhoddwyd diweddariad i aelodau am welliannau yn Ysgol Penmorfa ac Ysgolion Uwchradd Dinbych a'r Rhyl.

Bu'r aelodau'n trafod materion ariannol a chadarnhaodd yr Uwch Gynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch fod y cyllidebau presennol yn annigonol i ariannu'r holl fannau blaenoriaeth hysbys; byddai angen arian ychwanegol i dalu am y prosiectau Cludiant yn y Gweithle i Ysgolion. Pwysleisiodd y Cynghorydd M.M.Jones bwysigrwydd dyrannu arian digonol ar unwaith, gan gofio goblygiadau difrifol iechyd a diogelwch i ddisgyblion, a phwysigrwydd sicrhau bod ysgolion yn ddiogel. Gofynnodd y Cynghorydd G.J. Pickering a ellid disgrifio'r gwaith a fynnir gan y Cynllun Gweithredu fel gwaith adeiladu gan yr ysgol, a fyddai felly'n gymwys ar gyfer blaenoriaeth ariannu yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor. Roedd y Cynghorydd Pickering yn teimlo mai ar y sail honno y dylid dyrannu adnoddau – nid chwilio am ffynonellau arian o gyfeiriad arall. Dywedodd yr Uwch Gynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch fod y gwelliannau mewn Cludiant yn y Gweithle i Ysgolion yn cael eu hystyried yn fater o iechyd a diogelwch.

Pwysleisiodd y Cynghorydd N.P. Roberts yr angen am addysgu plant mewn mesurau diogelwch traffig ac ar y ffordd.

***PENDERFYNWYD:** cefnogi Cynllun Gweithredu Rheolaeth Cludiant Ysgolion Sir Ddinbych 2006 – 2012 a'r pwyllgor i barhau i fonitro cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu.*

**130 DATHLIADAU PRIFDDINAS DIWYLLIANT GOGLEDD CYMRU 08 – Y CYFLE I SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn amlygu cyfraniad ac arweiniad Cyngor Sir Ddinbych wrth gefnogi menter Gogledd Cymru. Byddai rhaglen weithgaredd Gogledd Cymru, (NW) 08, yn cyfannu cynnig Lerpwl – Prifddinas Diwylliant Ewrop 08, a galluogi Gogledd Cymru i greu etifeddiaeth sylweddol iddi hi ei hun.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y rhaglen Gogledd Cymru 08 wedi'i lansio ar 16 Mawrth 2007 gan bartneriaeth o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (TPNW) a Chyngor Celfyddydau Cymru (ACW). Roedd yr adroddiad yn rhestru'r lansiadau diwylliannol a’r digwyddiadau yn Sir Ddinbych a oedd wedi arwain ar ran awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac a fyddai mewn safle blaenllaw i lansio'r rhaglen lawn – Gogledd Cymru 08 – gerbron cynulleidfa genedlaethol yn achlysur Gwobrwyon Twristiaeth Croeso Cymru 2007 ar 4 Hydref 2007. Ar wahân i'r cynnydd yn ffigyrau ymwelwyr â'r sir, yn 2008 y brif wobr i Sir Ddinbych fyddai'r cyfle i fanteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r sylw enfawr gan y cyfryngau ar Lerpwl a'i phartneriaid. Pwysleisiwyd gwerth economaidd y sector diwylliannol a'r digwyddiadau i Sir Ddinbych ac i Gymru gyfan.

Cyfeiriwyd at gynnig Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (amgaewyd fel atodiad i'r adroddiad) am yr argymhelliad o gyfraniad unigryw o £20k oddi wrth bob un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru (ac ariannu cyfatebol gan ACW £20k a TPNW £40k a Llywodraeth Cynulliad Cymru) at gronfa farchnata Gogledd Cymru 08 ar y cyd. Dywedodd y Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant fod trafodaethau gyda'r chwe awdurdod arall yn parhau ond ei deimlad ef oedd ei bod yn annhebygol y byddai'r chwech i gyd yn ymrwymo i'r argymhelliad; roedd trafodaethau ychwanegol yn parhau gyda Chonwy a Sir y Fflint i geisio sicrhau eu cydweithrediad. Mewn ymateb i gwestiynau, ehangodd y Pennaeth Gwasanaeth ar effaith economaidd sylweddol posibl mwy o farchnata ar y rhaglen o ddigwyddiadau a chreu cysylltiadau penodol rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl.

Nododd yr aelodau’r potensial a'r cyfleoedd i Sir Ddinbych o greu cronfa farchnata. Y teimlad oedd ei bod yn bwysig bod yr awdurdod yn dilyn y trywydd hwn, p'un ai fyddai awdurdodau eraill Gogledd Cymru'n ymrwymo i'r fenter ai peidio. Teimlai'r pwyllgor hefyd y dylid marchnata'r digwyddiadau gynted â phosibl er mwyn creu'r ymateb mwyaf posibl. Bu'r aelodau'n trafod y cysylltiadau sefydledig rhwng Lerpwl a Sir Ddinbych a'r angen am hybu'r cysylltiadau hyn a 'Chymreictod' yr awdurdod, trwy gynnwys trefi a phentrefi ledled y Sir yn y fenter. Awgrymodd y Cynghorydd C.L. Hughes brosiectau hefyd i gysylltu ysgolion Sir Ddinbych ag ysgolion Lerpwl. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R.E. Barton, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad a Hamdden y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Tachwedd y pwyllgor yn ceisio cefnogaeth yr aelodau i'r cais am i Draphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen gael eu henwebu ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd. Dywedodd hefyd fod Gwasanaethau Cefn Gwlad yn cyhoeddi taflen newyddion a byddai'n dosbarthu copi i'r aelodau i gyd.

Estynnodd y Cynghorydd M.M. Jones wahoddiad i'r holl aelodau i fynychu agoriad Nant Clwyd y Dre, Rhuthun dydd Sadwrn 23 Mehefin, yn dilyn y rhaglen adnewyddu.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) cefnogi ymdrechion y gyfarwyddiaeth i ddatblygu a lansio'r fenter Gogledd Cymru 08 a dylid cadarnhau gwaith parhaol y Gwasanaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant yn arwain a chydlynu'r fenter ar ran Partneriaid Gogledd Cymru, a*

*(b) rhoi cefnogaeth lawn i greu cronfa farchnata ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych; dylid mynd i'r afael â hyn yn frwd ar unwaith.*

**131 ADRODDIADAU ADOLYGIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL – CHWARTER 4**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) am berfformiad yr unedau gwasanaeth unigol o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes yn erbyn targedau ac amcanion a gytunwyd. Roedd yr unedau gwasanaeth yn cynnwys Gwasanaethau Addysg, Diwylliant a Hamdden a Strategaeth ac Adnoddau. Cynhwyswyd data perfformiad hyd at ddiwedd y pedwerydd chwarter (Ebrill 2006 tan ddiwedd Mawrth 2007) gyda'r adroddiad.

Mae ciplun o'r perfformiad yn erbyn targedau 2006/07 wedi'i grynhoi yn yr adroddiad gan ddangos bod y perfformiad ar darged neu'n uwch na hynny yn 16 o ddangosyddion ac yn is na'r targed yn 14 o ddangosyddion. O gymharu'r perfformiad cyffredinol â blynyddoedd blaenorol, gwelir gwell canlyniadau mewn 8 o ddangosyddion, yr un perfformiad mewn 4 a pherfformiad is mewn 4 dangosydd. Gwnaed cyfeiriad hefyd at faterion Gwella Ysgolion ac Adolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg yng Ngorffennaf 2007. I gloi, rhoddwyd diweddariad i aelodau am y cynnydd a wnaed yn erbyn y gweithrediadau allweddol yng Nghynllun Gwella'r Cyngor.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn amrywiaeth o gwestiynau i'r swyddogion am bynciau perfformiad a thrafodwyd nifer o bynciau, gan gynnwys ffigyrau presenoldeb ysgol, maint dosbarthiadau a goblygiadau hynny, lefel dyraniad y Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (SBIG); uwchraddio larymau tân a threfniadau diogelwch tân; gwaredu ystafelloedd dosbarth symudol, a meini prawf mynediad i ysgolion.

Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y sylwadau canlynol gan yr aelodau:-

- EDU/S/002 – gofynnodd y Cadeirydd pam nad oedd dwy ysgol wedi anfon y papurau perthnasol am ddisgyblion yn gorffen eu haddysg heb gymhwyster ym mlwyddyn academaidd 2004/05, at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunodd y Swyddog Cefnogi Craffu i edrych i mewn i'r mater ac adrodd yn ôl i aelodau.

- Strategaeth Cymuned Targed 4.6: Buddsoddiad mewn Adeiladau Ysgolion – dywedodd yr aelod cyfetholedig D. Wilson nad oedd ysgolion wedi derbyn yr arian angenrheidiol ar gyfer addasiadau DDA; roedd e'n deall bod hyn wedi digwydd oherwydd anawsterau yn y broses o wneud cais am ariannu. Gan fod ceisiadau am arian yn fater corfforaethol, cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes i ymchwilio i'r mater ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor amdano.

- Llyfrgelloedd: Y canran o oriau cyfrifiadur ar gael a ddefnyddiwyd (48%) – Gofynnodd y Cynghorydd G.J. Pickering tybed a oedd y cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio'n effeithlon, yn ôl y ffigyrau perfformiad. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes am ymdrechion y gwasanaeth llyfrgell i hybu'r defnydd o gyfrifiaduron a dywedodd fod y galw'n fawr mewn rhai ardaloedd arbennig. Cytunodd i gysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Lyfrgellydd a rhoi eglurhad pellach am y dangosydd hwn yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) derbyn yr adroddiad a nodi perfformiad yr unedau gwasanaeth unigol o fewn y gyfarwyddiaeth, a*

*(b) bod swyddogion i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y pwyllgor am y materion y cyfeiriwyd atyn nhw uchod gan yr aelodau.*

**132 RHAGLEN WAITH CRAFFU AC ADOLYGU AELODAETH GYFETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Craffu adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio arolwg gan yr aelodau o raglen waith ymlaen y pwyllgor a rhoddodd ddiweddariad i'r pwyllgor ar y pynciau perthnasol a godwyd, yn ogystal ag ystyried aelodaeth gyfetholedig y pwyllgor.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol, gofynnodd y Swyddog Cefnogi Craffu am gymeradwyaeth yr aelodau i amryw o addasiadau yn y rhaglen waith (roedd copiau o'r rhaglen waith ddiweddaraf ar gael yn y cyfarfod) a rhoddodd ddiweddariad i aelodau am y Gweithgor Cyllid arfaethedig ac ar y dulliau o adolygu penderfyniad y Cabinet am Daliadau Cludiant Ysgol ôl 16 pe byddai angen. Cyfeiriwyd hefyd at yr adolygiad o aelodaeth gyfetholedig (heb bleidlais); dywedwyd wrth yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn dilyn dosbarthu'r adroddiad.

Yn ystod trafodaeth ar aelodaeth gyfetholedig y pwyllgor, dywedodd y Cynghorydd D. Cooper fod Mrs. Anne Horobin, Cynrychiolydd Anghenion Addysgol Arbennig, yn awyddus i ymddiswyddo o'r pwyllgor am na allai fynychu cyfarfodydd. Pwysleisiodd y Cynghorydd G.J. Pickering mor bwysig oedd bod cynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd, a'r angen am anfon ymddiheuriadau am absenoldeb; yn ei farn ef, dylid cwestiynu absenoldebau mynych. Nododd yr aelodau yr anawsterau i lenwi'r lleoedd gwag – Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a'r Sector Masnachol/Diwydiannol/Busnes – ac awgrymodd y Cynghorydd H.H. Evans na ddylid gwneud unrhyw ymdrech i lenwi'r swyddi hyn ar hyn o bryd ond dylid ailystyried y sefyllfa yn yr adolygiad blynyddol nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G.J. Pickering at y pwll padlo newydd yn Parc Drift Y Rhyl a oedd yn cau bob dydd am 4.00 p.m. Gofynnodd i'r pwyllgor adolygu amserlenni staff y gyfarwyddiaeth er mwyn mynd i'r afael ag oriau cau cynnar adnoddau hamdden ledled y sir. Gofynnodd y Cynghorydd H.H. Evans am wybodaeth ar sut y paratowyd ac y dosbarthwyd taflenni twristiaeth yr awdurdod.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) derbyn y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol a amlinellwyd yn Atodiad 1, yn amodol ar y gwelliannau y cyfeiriwyd atyn nhw uchod, a*

*(b) chadarnhau'r aelodaeth gyfetholedig (heb bleidlais) bresennol ond peidio â gwneud unrhyw ymdrech i lenwi'r ddwy sedd wag (Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a'r sector Masnachol/Diwydiannol/Busnes ar yr adeg hon a*

*(c) nodwyd ymddiswyddiad Mrs. Anne Horobin o'r pwyllgor .*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 p.m.

***********

## CABINET

Cofnodion y Cabinet a gynhaliwyd am 10.30 a.m. ar ddydd Mawrth, Mehefin 26, 2007 yn y Pafiliwn Chwaraeon, Parc Coffa'r Rhyfel, Green Lane, Corwen.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol Polisi Cyfathrebu a Gwelliant; P A Dobb, Aelod Arweiniol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; E C Edwards, Aelod Arweiniol Gofal y Cwsmer ac Ymrwymiad Dinasyddion; M A German, Aelod Arweiniol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; R W Hughes, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Ffyniant Economaidd a Rhaglenni Ewropeaidd; D Owens, Aelod Arweiniol Ysgolion a Dysgu Gydol Oes; G O Rowlands, Aelod Arweiniol Cyllid a Chaffaeliad; S Roberts, Aelod Arweiniol Hybu Sir Ddinbych, J Thompson Hill, Aelod Arweiniol Eiddo a Datblygiad Cynaliadwy ac E W Williams, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd.

Arsyllwyr: Y Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, M Ll Davies, G C Evans, H H Evans, K N Hawkins; T R Hughes; M M Jones, N P Roberts a C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr, Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol; Clerc y Sir a'r Rheolwr Cyllidol.

### YMDDIHEURIADAU

Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau.

### CYHOEDDIAD

Croesawodd y Cynghorydd R W Hughes y Cynghorydd Tudor, Cadeirydd Cyngor Cymuned Corwen a rhai o drigolion yr ardal i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am fynychu'r cyfarfod 1:1 blaenorol gydag Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion. Diolchodd y Cynghorydd Tudor i'r Aelodau am fynychu'r cyfarfod ac am y cyfle a gafwyd i'r cyhoedd drafod materion gyda'r Aelodau gan ddweud bod Corwen yn falch o fedru croesawu ei ail gyfarfod o'r Cabinet.

Diolchodd y Cynghorydd E C Edwards a'r Cynghorydd Councillor E W Williams i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol : Amgylchedd a holl aelodau ei dîm am eu gwaith caled mewn ymateb i lifogydd dirybudd y diwrnod cynt.

Roedd y Cynghorydd S Roberts yn falch o fedru cyhoeddi bod Sir Ddinbych wedi derbyn grant o £1.5 o Gronfa Treftadaeth y Loteri er mwyn iddo weithredu cam cychwynnol y Prosiect Grug a Bryngaerau. Llongyfarchwyd Archeolegydd y Sir, Swyddog y Prosiect Bryngaerau a'r Warden Cefn Gwlad gan yr Aelodau ar eu llwyddiant ac am eu gwaith caled.

Atgoffodd y Cynghorydd P A Dobb yr Aelodau a staff y byddai aseswyr yn ymweld â'r Awdurdod ac yn ei asesu ar 18/19 Gorffennaf mewn perthynas â'r Safon Iechyd Corfforaethol.

Adroddodd y Cynghorydd M M Jones bod Tŷ Nantclwyd, Rhuthun, wedi cael ei agor i'r cyhoedd ar 23.06.2007.

Adroddodd y Cynghorydd E W Williams bod y Sir wedi methu yn ei hapêl i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â fferm wynt Y Wern Ddu, Gwyddelwern. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn ystyried herio'r penderfyniad yn yr Uchel Lys.

**133 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**134 COFNODION Y CABINET**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mai 2007 eu cyflwyno.

Eitem 6 Strategaeth Parc Ailgylchu Sir Ddinbych - Tudalen 8, yr ail baragraff., y frawddeg olaf; ei diwygio fel ei bod yn darllen "..gellid gwaredu amrywiaeth helaeth o eitemau".

***PENDERFYNWYD***, *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2007 fel rhai cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi*

**135 STRATEGAETH TWF ECONOMAIDD I SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes adroddiad yn ceisio cytundeb yr Aelodau ar y Strategaeth Twf Economaidd i Sir Ddinbych.

Dywedodd y Cynghorydd Hughes bod ymgynghori helaeth wedi digwydd gyda rhanddalwyr allweddol a bod y Strategaeth yn greiddiol i'r dasg o geisio cyllid Ewropeaidd. Sir Ddinbych oedd yr ail uchaf o blith y siroedd a fu'n llwyddiannus wrth geisio Cyllid Amcan 1, a hynny dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd E C Edwards. Amlinellodd y 10 blaenoriaeth a fyddai'n cael eu gweithredu mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gyda'r gymuned, y sector gwirfoddol a busnesau preifat. Cytunodd yr Aelodau i ychwanegu "cymuned" i eitem (iii) ar dudalen 17 y Strategaeth.

Mewn perthynas â DEG 8 Gwell Cysylltiadau Cludiant, dywedodd y Cynghorydd S A Davies bod y Gweinidog Economi a Chludiant yn annhebygol o wella cysylltiadau ffyrdd rhwng De a Gogledd Cymru gan fod cysylltiadau digonol ar gael ar ffurf y rheilffordd. Dywedodd y Cynghorydd Davies y dylai'r Awdurdod a'r Cynghorau Cymuned ddwyn pwysau ar y Cynulliad i wella'r cysylltiadau.

Roedd y Cynghorydd P A Dobb yn falch o weld gofal cymdeithasol wedi ei gynnwys yn y Strategaeth a dywedodd y byddai gweithio gyda'r sector preifat yn bwysig yn yr ardaloedd gwledig a threfol.

Croesawyd y ddogfen gan y Cynghorydd E C Edwards. Cyfeiriodd at DEG 9, sef Adfywiad Cymunedau a phwysigrwydd y Gronfa Allweddol a diolchodd i'r Swyddog Cronfa Allweddol/Rhyl yn Mynd Ymlaen am ei holl waith. Pwysleisiodd yr angen i ystyried datblygiadau yn y trefi a'r cefn gwlad, gyda phob tref yn mabwysiadu ei chynllun datblygiad economaidd ei hun a'r ardaloedd gwledig cyfagos yn cael eu cysylltu gyda'r cynlluniau hynny. Roedd yn bwysig sicrhau cyfranogiad y gymuned yn y Strategaeth. Cytunodd y Cynghorydd Hughes, a dywedodd bod cynlluniau'r trefi yn mynd rhagddynt.

Roedd y Cynghorydd S Roberts yn falch bod diwylliant a thwristiaeth yn cael eu datblygu yn y Strategaeth a phwysleisiodd eu pwysigrwydd i'r economi. Cyfeiriodd y Cynghorydd D Owens at y diwydiannau Optoelectroneg a dywedodd bod parhau gyda'u hymwneud ag ysgolion y Sir yn bwysig. Wrth gyfeirio'n gyffredinol at gyflwr y ffyrdd, dywedodd y Cynghorydd E W Williams ei bod yn bwysig i bobl fedru teithio'n gyfforddus i'r Sir ac oddi mewn iddi gan y byddai hynny yn hybu cyfleoedd i fusnes a thwristiaeth.

**PENDERFYNWYD** *bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Strategaeth Twf Economaidd i Sir Ddinbych.*

**136 CYNLLUN GWEITHREDU RHAGLEN CYDGYFEIRIANT Y GYMUNED EWROPEAIDD I SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes adroddiad yn ceisio cydsyniad yr Aelodau i fatrics y prosiectau a ddatblygwyd gan Weithgor y Cyngor ar Gydgyfeiriant fel sail i ymdrechion y dyfodol i ddenu adnoddau o Raglen Cydgyfeiriant y Gymuned Ewropeaidd yn ystod 2007-2013.

Dywedodd y Cynghorydd Hughes bod CALLC wedi sefydlu swyddog a Grŵp Aelodau i fonitro cynnydd ac y byddai hi yn cynrychioli'r Grŵp Annibynnol.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd E W Williams, dywedodd y Cynghorydd Hughes bod Colegau Harlech a Menai wedi eu cynnwys fel esiamplau o weithio rhanbarthol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Williams bwysigrwydd cynnwys ardaloedd megis Bryneglwys a Llandegla, er enghraifft, tu hwnt i ffiniau Dyffryn Clwyd, nad ydynt, yn draddodiadol, wedi teimlo eu bod yn rhan o'r Dyffryn.

Croesawodd y Cynghorydd J Thompson Hill y ddogfen a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith caled.

Gan gyfeirio at Ddatblygiad Gwledig, gofynnodd y Cynghorydd H H Evans (Arsyllwr) pam na chafodd hynny ei gynnwys fel blaenoriaeth. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwyr Adfywiad y byddai datblygiad gwledig yn cael ei gynnwys.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod arenwi prosiectau yn bwysig, er enghraifft y prosiectau oedd yn gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd E C Edwards yr angen i swyddogion sicrhau eu bod yn ymgynghori gyda Grwpiau Ardal Aelodau Etholedig unwaith y byddai manylion rhaglenni wedi eu cadarnhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd ymwneud yr Aelodau Lleol yn holl gynlluniau yn y Sir yn hanfodol.

Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Datblygiad i Aelodau gysylltu gyda'i adran ef cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw brosiectau lleol da neu unrhyw brosiectau potensial ôl-weithredol. Dywedodd bod y rhaglen yn mynd rhagddi yn araf yn y gobaith y byddai'r gwaith yn symud ymlaen yn gyflymach yn yr hydref.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Ewropeaidd wrth yr Aelodau bod y matrics oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn rhan o Fatrics Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd, roedd 111 o brosiectau yn cael eu rhestru a byddai rhai ohonynt yn cael eu cyfuno i greu prosiectau mwy.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn cymeradwyo drafft Matrics Prosiect Rhaglen Gydgyfeiriant y GE ar gyfer 2007-2013 fel sail i ymdrechion yn y dyfodol i ddenu adnoddau o Raglen Cydgyfeiriant y GE.*

**137 STRATEGAETH ADFYWIAD GORLLEWIN Y RHYL - GWEITHREDIAD**

Cyflwynodd y Cynghorydd E W Williams adroddiad yn ceisio cydsyniad yr Aelodau i'r egwyddor y dylai unrhyw ddatblygiad i'r blociau o eiddo ar hyd Parêd Gorllewinol Y Rhyl, sef y rhai a arenwir yn y cynllun sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, fod, fel mater o bolisi, yn unol â'r Strategaeth a gymeradwywyd, yn unol â'r briffiau datblygu safleoedd a baratowyd ac yn ailddatblygiad cynhwysfawr - yn hytrach na darniog. Dywedodd bod Y Rhyl yn dod yn fwy adfywiol.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes bod llawer o'r eiddo mewn cyflwr strwythurol gwael a bod llawer yn fuddsoddiad preifat. Roedd hyn yn arwain at adfywiad Y Rhyl fel tref wyliau boblogaidd. Cyfeiriodd at y beirniadu a fu ar y cynnydd a wnaed gan rai o Gynghorwyr Y Rhyl, er eu bod wedi cyfrannu at y broses ymgynghori. Mynegodd y Cynghorydd S Roberts ei balchder ynghylch y Strategaeth a'i hannifyrrwch gydag agwedd rhai o'i chydweithwyr yn Y Rhyl. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa, gan y Cynghorydd S A Davies am y ffaith fod yr Awdurdod a'r Cynulliad wedi buddsoddi llawer o arian yn Y Rhyl ac nad oedd yn dderbyniol i gydweithwyr yn Y Rhyl wneud sylwadau negyddol.

Roedd Rhyl yn Mynd Ymlaen wedi cael sylw fel arfer da yn ystod Cynhadledd CALLC a gynhaliwyd yn ddiweddar a fynychwyd gan y Cynghorydd J Thompson Hill, a phwysleisiodd bwysigrwydd y buddsoddiad yn y dref a wneir gan y sector preifat.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams bod Sir Ddinbych wedi rhoi ffocws ar Y Rhyl ac wedi rhoi sylw i lawer o'r problemau a wynebir gan ei thrigolion. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd T R Hughes (Arsyllwr) bod llawer o'r problemau a welir yn Y Rhyl bellach i'w gweld mewn trefi fel Rhuthun a Llangollen.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r canllawiau ychwanegol canlynol i'r WRRS a gymeradwywyd yn flaenorol, yn arbennig, bod unrhyw ddatblygiad yn y blociau eiddo canlynol:*

*(a) Canol y Dref - Y Parêd Gorllewinol/Y Stryd Fawr/Stryd y Frenhines/Stryd Sussex*
*(b) 50 – 57 Y Parêd Gorllewinol (cynwysedig)*
*(c) Bloc y Parêd Gorllewinol o Rhodfa Sydenham – Rhodfa Sandringham*
*(ch) 85 – 90 Y Parêd Gorllewinol (cynwysedig)*

*yn unol â Strategaeth Adfywiad Gorllewin Y Rhyl, ail ddatblygiad cynhwysfawr yn unig – ac nid yn ddarniog ac yn unol â'r briffiau datblygiad safleoedd a baratowyd.*

Yn y fan yma (11.45 a.m.) cafodd y cyfarfod ei ohirio am 15 munud i ganiatáu i'r Aelodau gael 'paned.

**138 Y STRATEGAETH TAI LLEOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb adroddiad yn ceisio cael y Cabinet i argymell i'r Cyngor y dylai drafft Strategaeth Tai Lleol Sir Ddinbych [STLlSDd] ar gyfer 2007 - 2012 gael ei fabwysiadu. Byddai angen i'r Sir gyflwyno'r Strategaeth i'r Cynulliad erbyn 30.06.2007.

Roedd y Strategaeth yn ymwneud â sawl mater allweddol mewn perthynas â thai, gan gynnwys tai fforddiadwy, digartrefedd, cyflwr stoc tai'r Sir, y strategaeth tai lleol ar gyfer y rhai Du eu Croen a Lleiafrifol Ethnig [BME], gweithwyr ymfudol ac anghenion tai sipsiwn a theithwyr. Cafodd y Strategaeth dderbyniad da gan Bwyllgor Archwilio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

Adroddodd y Cynghorydd Dobb bod y Gweithgor Grŵp Tai Fforddiadwy a Chwblhad wedi cael ei sefydlu a'u bod wedi cynnal eu cyfarfod cyntaf yn ddiweddar. Byddai trafodaethau gyda chydweithwyr o'r Adran Gynllunio ynghylch y ffordd ymlaen yn cael eu cynnal a byddai gofyn i'r Swyddogion gyfathrebu gyda'r cyhoedd ynghylch yr hyn y gellid ei ystyried yn Dai Fforddiadwy neu dai lleol. Yn ogystal, bydd y Grŵp yn lobïo AC ac AS ynghylch yr hyn y mae'r Sir ei angen. Diolchodd i'r Swyddog Strategaeth Tai a'r Rheolwr Strategaeth Tai am ddogfen ragorol.

Diolchodd y Cynghorydd E C Edwards i'r Cynghorydd Dobb am gytuno i sefydlu'r Grŵp Gweithgor. Rywbryd yn y dyfodol, byddai'n bwysig cael cytundeb ar ystyr 'fforddiadwy'. Yn ogystal, yn y dyfodol, fe allai'r angen godi i ddarparu tai i sipsiwn a thrafaelwyr yn ystod misoedd y gaeaf. Pwysleisiodd yr angen i drin grwpiau BME yn gyfartal ac aeth ymlaen i awgrymu y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod yn ystyried Strategaethau Tai Lleol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai bod gobaith y gellir parhau gyda'r partneriaethau Prosiect Hyrwyddo Tai Gwledig.

Roedd rhai o'r costau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 4.6 eisoes wedi'u cynnwys yn y cylch cyllidol. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn gweithio gydag eraill ar asesiadau anghenion tai a bod angen symud ymlaen gyda materion eraill trwy gyfrwng y broses gyllido. Roedd yn bwysig buddsoddi adnoddau i roi hwb i'r gwelliant yn y stoc tai sy'n eiddo i landlordiaid preifat.

Wrth gyfeirio at y Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy ac effeithlonrwydd ynni, gwnaeth y Cynghorydd J Thompson Hill gais am gael ei gynnwys mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor y dylai'r Strategaeth Tai Lleol ar gyfer Sir Ddinbych ar gyfer 2007 -2012 gael ei mabwysiadu.*

**139 DIWEDDARIAD AR FODERNEIDDIO ADDYSG**

Cyflwynodd y Cynghorydd D Owens adroddiad yn ceisio cydsyniad yr Aelodau i'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi ac ymgynghori yn eang ynghylch Adroddiad Moderneiddio Addysg Cambridge fel y ceir amlinelliad ohono yn yr adroddiad ac i gytuno ar gostau ychwanegol cael Cambridge Education i gydlynu'r ymatebion i'r Adroddiad y cafwyd amlinelliad ohono.

Mynegodd yr Aelodau syndod wrth iddynt weld cais am gyllid i gwrdd â chostau ychwanegol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes y gallai'r Gyfarwyddiaeth gyllido'r costau ychwanegol a fyddai'n deillio o gydlynu'r ymatebion. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod y broses yn un deg a thryloyw ac mai'r ffordd orau ymlaen fyddai gofyn i Cambridge Education gydlynu'r ymatebion. Awgrymodd y Cynghorydd S A Davies y dylid gofyn i Cambridge Education wneud y gwaith heb dderbyn unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, cafodd ei atgoffa gan y Prif Weithredwr bod hwn yn waith

ychwanegol, yn llawer mwy na'r hyn y cytunwyd arno'n wreiddiol, ac mai'r Aelodau wnaeth gais am iddo gael ei wneud.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes ei bod yn bwysig i'r Aelodau gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am y broses a'i chanlyniadau. Roedd angen amserlen weithredu eglur ar yr holl randdalwyr a dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod ysgolion a'u staff yn gyfarwydd gyda'r broses a'r ymgynghoriad. Cytunodd i ddarparu'r amserlen ar fformat pwyntiau bwled.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno ar y trefniadau a wnaed i gyhoeddi ac ymgynghori'n eang ynghylch Adroddiad Moderneiddio Addysg Cambridge fel y cafodd hwnnw ei amlinellu. .*

## 140 CYNNIG I GYFLWYNO TÂL AM GLUDIANT I'R ÔL-16

Cyflwynodd y Cynghorydd D Owens adroddiad yn ceisio cydsyniad yr Aelodau i'r bwriad i godi tâl am gludiant ar yr ôl-16 ac i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer cludiant ôl-16 i gwrdd â'r diffyg, ac i geisio cefnogaeth CALIC a Chynghorau i'r ymgyrch hon.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owens at y gwall argraffyddol ym mharagraffau 2.6.2 a 10.1 yr adroddiad a dywedodd bod yr Awdurdod yn gyfrifol am gyllido addysg 6ed dosbarth neu addysg yn y coleg. Gofynnodd y Cynghorydd Owens i'r Aelodau gytuno i ddiwygio'r Argymhellion ym mharagraff 10.4 fel ei fod yn darllen "Yn cytuno i adolygu'r eithriad yn y dyfodol".

Yr oedd yr ohebiaeth gyda'r sawl oedd y pryd hynny yn Weinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi cadarnhau na fyddai unrhyw gyllid newydd ar gael, ond y byddai deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb ei bod yn cefnogi'r egwyddor y dylai cymaint â phosibl o ddisgyblion aros ymlaen yn yr ysgol neu'r coleg, ond awgrymodd y dylai cludiant fod yn gyfrifoldeb iddynt. Cyfeiriodd at y Gwasanaethau Cymdeithasol lle roedd ffioedd yn daladwy gan bobl hŷn neu bobl gydag anableddau. Dywedodd bod lefel Treth y Cyngor eisoes yn uchel ac y dylid cynnwys hyn fel rhan o'r arbedion effeithlonrwydd yn y cylch cyllidol.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod aros ymlaen yn yr ysgol neu'r coleg ar ôl 16 yn bolisi'r Llywodraeth. Cytunodd y Cynghorydd Owens a dywedodd bod aros ymlaen yn y gyfundrefn addysg yn rhoi sylfaen sgiliau uwch i'r wlad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Thompson Hill at y newid yn yr hinsawdd a dywedodd y byddai'n costio mwy na £200 i ddisgyblion gludo eu hunain i'r ysgol neu'r coleg. Awgrymodd bod angen graddfa amser osodedig i ddiben adolygu'r eithriad ac y dylai Argymhelliad 10.4 gael ei ddiwygio. Gellid adolygu'r eithriad yn y dyfodol.

Wrth ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Dobb, dywedodd y Cynghorydd E W Williams bod yr oedrannus yn cael trwydded i deithio am ddim ar fwsiau. Nid oedd yn cefnogi codi tâl ar ddisgyblion am gludiant ac awgrymodd y dylai'r Awdurdod barhau i lobio'r Cynulliad..

Cytunodd y Cynghorydd R W Hughes y dylid parhau i ofyn i'r Cynulliad ystyried y mater a gofynnodd i'r swyddogion holi ynghylch pa Aelodau oedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch cludiant ôl-16. Cyfeiriodd at yr Atodiad i'r Adroddiad a dywedodd na ddylai'r Pwyllgorau Archwilio fod yn bygwth y Cabinet ynghylch eu bwriad i herio unrhyw benderfyniad gan y Cabinet i gyflwyno newid.

Gofynnodd y Cynghorydd R E Barton (Arsyllwr) a oedd unrhyw asesiad wedi cael ei wneud am effaith negyddol ar y Prosiect Llwybrau Dysgu pe bai'r bwriad i godi tâl yn cael ei wireddu ac a oedd unrhyw ymgais wedi'i gwneud i fesur effaith hynny ar barodrwydd myfyrwyr gwledig i barhau gyda'u haddysg.

Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai'r Awdurdod fod wedi dadlau yn y gorffennol am i gyllido ôl-16 gael ei drosglwyddo i ELWa. Cytunodd i ohebu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac i bwyso am ragor o wybodaeth am y datganiadau a wnaed.

Mynegodd y Cynghorydd H H Evans (Arsyllwr) syndod at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Dobb a dywedodd y byddai codi tâl yn cael mwy o effaith ar wardiau gwledig yn Sir Ddinbych ac ar deuluoedd incwm isel - byddai'n debygol o achosi myfyrwyr i beidio mynd ymlaen i addysg bellach. Anogodd yr Aelodau i gadw hynny mewn cof wrth iddynt wneud penderfyniad.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb na allai hi gefnogi Argymhelliad 10.3.

Wedi iddo gael ei roi i bleidlais, cafodd gwelliant y Cynghorydd J Thompson Hill i adfer Argymhelliad 10.4 yn llawn ei golli.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet**:***

*1 Yn nodi mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am gyllido addysg 6ed dosbarth neu addysg coleg ond bod y cyllid a ddarparwyd i Gyngor Sir Ddinbych gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cludiant 6ed dosbarth a cholegau yn £140k yn llai na'r costau a gyllidwyd ar gyfer 2007-08, a bod hynny'n cynrychioli £127 ar gyfer pob disgybl dros 16 oed sy'n defnyddio'r cludiant hwnnw.*

*2 Yn unol â'r polisi corfforaethol ar godi tâl, yn gosod y gost ar gyfer cludiant ôl-16 fel £200 i bob myfyriwr a hynny i ddod yn weithredol o Fedi 2008 er mwyn sicrhau adennill y costau llawn ynghyd â 10% chwyddiant plws costau gweinyddol. £127 yw'r ffigwr hwn plws 10% costau chwyddiant plws costau gweinyddol o £28k ond gan ragdybio "colled" ar 20%.*

3 *Yn penderfynu eithrio pob disgybl o'r tâl a nodir yn 10.2 oherwydd y potensial sydd ynddo i gael effaith negyddol ar benderfyniad myfyrwyr i barhau gyda'u haddysg, yn enwedig yn achos myfyrwyr yr ardaloedd gwledig, ac oherwydd o ddeddfwriaeth botensial sydd yn yr arfaeth ar gludiant i ysgolion a cholegau Cymru.*

*4 Yn cytuno i adolygu'r eithriad yn y dyfodol.*

*5 Yn cytuno i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r AC lleol i ddarparu'r cyllid ychwanegol y mae ei angen er mwyn gwneud i ffwrdd â'r pwysedd annheg ar y rhai sy'n talu Treth y Cyngor i dalu costau cludiant addysg ôl 16 ac yn ceisio cefnogaeth gan Gymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru a chynghorau eraill gyda'r ymgyrch hon.*

## 141 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH 16-19 YN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd D Owens adroddiad yn ceisio ystyriaeth yr aelodau i adolygiad Cambridge Education o'r ddarpariaeth 16-19 yn Y Rhyl ac i nodi'r argymhellion a geir yn yr adolygiad hwnnw; i awdurdodi ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad yn y cyfnod cyn diwedd mis Medi, gydag adroddiad yn ôl i'r Cabinet ym mis Hydref ynghylch ymatebion ac effeithiau'r cynigion, gan gynnwys dadansoddiad o'r ffeithiau a manylion am gostau'r argymhellion ac arweiniad ynghylch y prosesau statudol. Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar i adroddiad ynghylch yr adolygiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor yng Ngorffennaf er mwyn i'r camau a gymerwyd gan y Cabinet gael eu nodi.

Croesawodd y Cynghorydd Owens Bennaeth mewn gofal Ysgol Uwchradd Y Rhyl i'r cyfarfod. Roedd rhai disgyblion 14 plws yn Y Rhyl yn anfodlon gyda'r ddarpariaeth bresennol. Dywedodd y Cynghorydd Owens mai Canolfan 6ed dosbarth newydd ar safle Coleg Y Rhyl oedd y ffordd ymlaen, gyda'r ddarpariaeth honno yn cael ei harwain gan DECWL yn hytrach na Choleg Y Rhyl. Byddai hyn yn cynnig y cyfleoedd dysgu gorau i'r disgyblion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Dysgu Gydol Oes y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Medi 2007. Byddai Mr Mark Edwards, pennaeth newydd Ysgol Uwchradd Y Rhyl yn ystyried y sefyllfa cyn gynted ag y byddai wedi cychwyn yn ei swydd a bod DECWL wedi cytuno i'r cyfnod ymgynghori gael ei ymestyn.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams y byddai'n bwysig sicrhau bod y Llwybrau Dysgu 14-19 yn addas ar gyfer y trefniadau newydd ac y byddai problemau yn codi oni ellid sicrhau bod cyswllt rhwng hynny a'r colegau.

Roedd y Cynghorydd S Roberts wedi cael ei wahodd i gyfarfod gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Y Rhyl, ond nid oedd wel llwyddo i fynychu'r cyfarfod hwnnw. Roedd yn bryderus, oherwydd pe byddai coleg 6ed dosbarth yn cael ei sefydlu yn Y Rhyl, y byddai'r disgyblion wedyn mewn 'senario coleg' ac y byddai llawer o'r arolygu sydd arnynt yn cael ei golli.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H H Evans (Arsyllwr) at y ddadl gan y Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes. Dywedodd y gallai'r momentwm o DECWL ar fater cyfalaf, gael effaith ar ysgolion eraill. Yr oedd yn gefnogol, mewn egwyddor, i'r ddarpariaeth ond yn bryderus ynghylch cyflymder y broses.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes y byddai cyfarfodydd arbennig yn cael eu cynnull ym Medi 2007 gan gynnwys un gyda Chyngor Tref Y Rhyl ac un cyfarfod cyhoeddus. Pwysleisiodd mai ystyriaethau polisi ac nid cymhellion cyllidol a fyddai'n gyrru'r broses yn ei blaen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r argymhellion a geir yn Adolygiad Cambridge Eucation o'r Ddarpariaeth 16-19 yn Y Rhyl; yn awdurdodi ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr adroddiad tan ddiwedd mis Medi gydag adroddiad yn ôl ar ymatebion c effeithiau'r cynigion, gan gynnwys dadansoddiad o'r ffeithiau a manylion am gostau'r argymhellion ac arweiniad ynghylch y prosesau statudol. Cytunodd y Cabinet i adroddiad gael ei ddarparu i'r Cyngor ym mis Gorffennaf ynghylch yr adroddiad a'r camau a ddilynwyd gan y Cabinet.*

**142 STRATEGAETH PARC AILGYLCHU SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd E W Williams adroddiad yn ceisio cydsyniad yr Aelodau i'r camau sydd i'w dilyn mewn perthynas â datblygiad parciau ailgylchu'r Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Williams i'r aelodau nodi'r gwall argraffyddol yn Argymhelliad 9.3, y dylid ei ddiwygio fel ei fod yn darllen ".....materion iechyd a diogelwch...." . Gofynnodd i'r Aelodau ychwanegu Argymhelliad arall yn 9.5, sef "Bydd y Cabinet yn cytuno i ymgynghoriad ddechrau gyda'r Grwpiau Aelodau Etholedig Lleol eraill".

Dywedodd y Cynghorydd M A German bod yr Awdurdod yn symud yn y cyfeiriad cywir mewn perthynas â gweithredu ei gyfrifoldebau am wastraff ac ailgylchu. Roedd yn bwysig i'r Cyngor fod â safle dynodedig. Cefnogodd y Cynghorydd S Roberts y farn a fynegwyd gan y Cynghorydd German.

Croesawodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad a dywedodd nad oedd yn teimlo bod y safle yn Llangollen yn gweddu i'w bwrpas. Awgrymodd bod angen rhagor o 'safleoedd dod' yn yr ardaloedd gwledig ac y dylai'r Cyngor beidio â chodi tâl am eitemau mawr er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r syniad.

Wrth gytuno ynghylch pwysigrwydd y cynnig, dywedodd y Cynghorydd P A Dobb na allai hi ei gefnogi mewn arwahaniad. Er enghraifft, byddai gorfodi pobl i deithio ymhellach i safleoedd yn golygu y gallai cemegolion peryglus gael eu gwaredu ar dir amaethyddol ac y byddai rhagor o deithio yn broblemus i bobl hŷn. Heb gynllun ar gyfer yr ardaloedd gwledig, ni allai hi gefnogi'r cynnig. Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill, er ei fod yn cefnogi safle pwrpasol, bod poblogaeth Prestatyn yn hŷn ac na ddylai'r Awdurdod ddisgwyl i'r henoed deithio i'r parc ailgylchu newydd yn Rhuddlan.

Dywedodd y Cynghorydd G O Rowlands ei fod yn llwyr gefnogi'r prosiect a phwysleisiodd yr angen i Sir Ddinbych gyrraedd ei thargedau ailgylchu neu fe fyddai'r Awdurdod yn wynebu cosbau ariannol llym. Yn ogystal, teimlai bod y safleoedd yn y Rhyl a Phrestatyn wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

Dywedodd y Cynghorydd R E Barton (Arsyllwr) bod y cyllid ar gyfer ail-gylchu a gafwyd gan y Llywodraeth yn annigonol ac awgrymodd y dylid gofyn i GALIC a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried rhoi arian i greu darpariaeth ailgylchu mewn ardaloedd gwledig.

Awgrymodd y Cynghorydd T R Hughes (Arsyllwr) y dylai cyfleusterau ailgylchu stryd ar gyfer eitemau megis tun, papur, gwastraff gwyrdd, plastig a threfn ar gyfer gwaredu gwastraff tai gael eu rhoi yn eu lle cyn i unrhyw safleoedd gael eu cau.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes ei bod yn bwysig i ddeialog barhau i gael ei chynnal gydag Aelodau ynghylch y cyfleusterau.

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Aelodau, pe byddai unrhyw faterion problemus ynghylch iechyd a diogelwch yn codi ar un o'r safleoedd presennol a'r safle hwnnw'n cael ei gau, y byddai hynny yn gorfod digwydd hyd yn oed pe na byddai trefniadau amgen wedi cael eu gwneud.

Dywedodd y Cynghorydd E C Edwards y dylai Grŵp Aelodau Etholedig Lleol drafod y mater ac awgrymodd y gellid, hwyrach, lunio trefniant partneriaeth gydag Awdurdodau cyfagos megis Wrecsam, ac y gallai hynny fod o fantais i rai ardaloedd yn y Sir.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi'r egwyddor o amnewid y safleoedd dinesig gwaredu presennol a sefydlu tri pharc ailgylchu amgenach yn eu lle gan gydnabod y bydd y strategaeth hon yn golygu cau sawl un o'r cyfleusterau presennol, a bod y drefn a fydd yn cael ei dilyn wrth wneud y newidiadau i gael ei phennu ar sail cost-effeithiolrwydd. Mae'r Cabinet yn cydnabod ac yn derbyn y gallai unrhyw achos o faterion iechyd a diogelwch nad oes modd eu datrys yn codi, y byddai hynny, hefyd, yn golygu cau cyfleusterau. Mae'r Cabinet yn cadarnhau ei fod yn cymeradwyo datblygiad parc ailgylchu newydd yn ardal Rhuddlan, ynghyd â chau'r safleoedd presennol CA yn Y Rhyl a Phrestatyn pan fydd y contract presennol yn dod i ben yn Ebrill 2009. Yn ogystal mae'r Cabinet yn cytuno i ymgynghoriad gychwyn gyda'r Grwpiau Aelodau Etholedig Lleol sy'n Weddill.*

Yn y fan yma (1.55 p.m.) cafwyd egwyl o 15 munud er mwyn i'r Aelodau gael lluniaeth ysgafn.

**143 Y BROSES HERIO ASEDAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am yr angen i Gynlluniau Rheolaeth Asedau'r Gwasanaethau [CRhAG] gael eu harchwilio a'u herio a cheisiodd gymeradwyaeth i'r cynigion am i broses herio asedau gael ei gweithredu yn unol â'r manylion a geir yn yr adroddiad. Gan mai Diwylliant a Dysgu Gydol Oes oedd y ddau wasanaeth a oedd wedi cwblhau eu CRhAGau, gofynnodd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddogion, cyn gynted â phosibl, mewn perthynas â'r CRhAGau nad oeddent wedi cael eu cwblhau.

Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson Hill fanylion am gasgliadau craidd y data Addaster, Cyflwr a Digonolrwydd a fyddai'r arenwi asedau sy'n perfformio'n wael o bob CRhAG. Byddai'r sgorio ar sail y matrics oedd ynghlwm wrth yr adroddiad gyda 18 yn bwynt torri i ffwrdd. Byddai'r 5 ased sydd â'r sgôr uchaf yn cael eu dwyn trwy'r broses.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R W Hughes ynghylch cymeradwyaeth gan Archwilio, dywedodd yr Uwch Reolwr Asedau bod cynlluniau Rheolaeth Asedau yn cael eu cymeradwyo gan yr Aelod Arweiniol. Atgoffodd y Cynghorydd Hughes ei chyd-aelodau ei bod yn hanfodol i Aelodau Arweiniol gael eu gwneud yn ymwybodol o ba eitemau oedd i'w hystyried gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud bod rhaid i bob Awdurdod gael proses rheolaeth a herio asedau, ond ni chafwyd gwybod sut y mae gwneud hynny. Y system a gynigiwyd oedd yr un decaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r angen i CRhA y Gwasanaethau gael eu harchwilio a'u herio ac yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer gweithredu proses herio asedau fel y ceir manylion amdani yn yr adroddiad..*

**144 MONITRO DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL YR AWDURDOD A'R CYNNYDD A WNAED YN ERBYN Y CAMAU ALLWEDDOL YN Y CYNLLUN GWELLIANT**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau ystyried yr adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarterol:
Perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol yr Awdurdod ar gyfer y 4dd gyfnod – Ionawr, Chwefror, Mawrth 2007 a'r data terfynol ar gyfer 2006-2007 (Atodiad 1)
Cynnydd yn erbyn Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod a'r camau allweddol a arenwyd yn y Cynllun Gwelliant 2006-2009 (Atodiad 2)
A bod y Cabinet yn ystyried unrhyw fater mewn mwy o ddyfnder yn ôl y gofyn.

Dywedodd y Cynghorydd S Roberts mai'r dyddiad terfynol ar gyfer y Strategaeth Twristiaeth oedd Mehefin 2008.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E C Edwards at y bartneriaeth gref a adeiladwyd gyda Heddlu Gogledd Cymru a chanmolodd y Prif Weithredwr am ei waith yn cynnal y bartneriaeth. Yn ogystal, cyfeiriodd at y gwaith rhagorol a wnaed mewn perthynas â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y bu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd, Rheolwr Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Swyddog Rheoleiddio a Gorfodaeth yn rhan ohono. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Amgylchedd at y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a oedd yn siomedig am fod y Cyngor yn ymddangos fel pe bai wedi methu gyda'r dangosydd er ei fod, mewn realiti, yn 7fed orau allan o 376 yn y DU. Roedd 1,000 yn llai o bobl wedi dioddef troseddau yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams y byddai'r targedau wedi cael eu cyrraedd pe bai'r casgliadau gwastraff gwyrdd wedi dechrau ynghynt.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb bod llawer o'r ceisiadau mewn perthynas â Thai Amlbreswyliaeth yn cael eu dychwelyd gydag arwyddion nad oeddent yn cwrdd â'r meini prawf trwyddedu.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r Adroddiad Perfformiad Chwarterol arfaethedig ac yn cytuno i roi sylw arbennig i'r materion y mae angen eu trafod ymhellach a/neu weithredu'n adferol mewn perthynas â nhw, yn arbennig y dangosyddion hynny nad ydynt ar y targed.*

**145 Y CYFRIFON REFENIW TERFYNOL 2006-2008**

Cyflwynodd y Rheolwr ariannol yr adroddiad ar ran Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol : Adnoddau gan ofyn i'r Aelodau ystyried y sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer 2006/07, i'w argymell i'r Cyngor a hefyd i argymell i'r Cyngor sut i drin y gronfa wrth gefn fel y ceir manylion amdani yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Rheolwr Ariannol at gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion a'r gwelliant sylweddol a fu ym malansau'r ysgolion y ceir manylion amdanynt yn Atodiad 2 yr adroddiad. Roedd y balansau cyffredinol bellach ar y lefel a gymeradwyir gan Swyddfa Archwilio Ariannol Cymru h.y. 5% o'r gyllideb refeniw net, heb gynnwys cyllidebau Dirprwyedig yr Ysgolion.

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau nodi'r cynnydd da a wnaed gan yr Awdurdod. Diolchodd y Cynghorydd G O Rowlands i'r staff a'r Aelodau Arweiniol am eu gwaith gan obeithio y gellid gweld rhagor o welliannau.

***PENDERFYNWYD** y dylai'r Aelodau nodi'r sefyllfa alldro refeniw terfynol am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth ac argymell ar sail hynny i'r Cyngor. Yn ogystal, cadarnhaodd yr Aelodau yr hyn a wnaed i sefydlu a symud y gronfa wrth gefn ac i gario balansau a glustnodwyd ymlaen yn unol â'r manylion yn 4.2 a 4.7 yr adroddiad i'r Cyngor llawn.*

## 146 CYLLIDEB Y CYNLLUN Y CYFRIF REFENIW TAI A'R ADRODDIAD CYNLLUN CYFALAF 2007-2008

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb adroddiad er mwyn i'r Aelodau fedru nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai [CRT] ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Yn ystod 2006-07 llwyddodd yr Awdurdod i sicrhau gwarged o £905k yn erbyn y gwarged o £333k a gyllidwyd; roedd peth o hyn oherwydd bod y taliad cymhorthdal terfynol i'r Cynulliad yn llai na'r swm a ragwelwyd. Roedd y Cynllun Busnes Stoc Tai wedi cael ei ddiweddaru i roi ystyriaeth i'r holl newidiadau a chyfanswm y gwariant ar gyfer 2006-2007 oedd £6.2m. Am y tro cyntaf, roedd elfen gyfwng wedi'i chynnwys yn y Cynllun Cyfalaf Refeniw Tai a fyddai, er enghraifft yn cwrdd ag unrhyw waith nad oedd modd ei ragweld.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Aelodau nodi'r sefyllfa ddiweddaraf a ragwelir yn y Cyfrif Refeniw Tai [CRT] ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.*

## 147 ALLDRO ARFAETHEDIG Y GYLLIDEB REFENIW 2007-2008 A CHRYNODEB O'R CYNLLUN CYFALAF 2007-2008 HYD 2009-2010

Cyflwynodd y Cynghorydd G O Rowlands yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau nodi ffigyrau perfformiad cyllidol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007/08 fel y ceir manylion am hynny yn Atodiadau 2 a 3. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r dadansoddiad yng nghyswllt gwariant cyfalaf sydd i'w weld yn Atodiad 4. Cyfeiriodd at y pwysedd potensial a allai ddeillio o'r difrod y gallai llwydni ei achosi i'r deunyddiau archif a gedwir yn Yr Hen Garchar.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn nodi'r ffigyrau perfformiad cyllidol ar gyfer 2007/08 fel y ceir manylion amdanynt yn Atodiad 1 a'r crynodeb o ffigyrau perfformiad y cynllun cyfalaf y ceir manylion amdanynt yn Atodiadau 2 a 3.*

## 148 ADRODD YN RHEOLAIDD AM BERSONÉL

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau nodi'r adroddiad ar gyfrif pennau staff. Dywedodd bod ffigyrau'r flwyddyn ddiwethaf wedi eu cynnwys i ddibenion cymhariaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd J Thompson Hill am ffigyrau Asiantaeth a dywedodd y Cynghorydd S A Davies y byddant yn cael eu darparu.

**PENDERFYNWYD** y *dylai'r Cabinet nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.*

## 149 BLAEN RAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies Flaen Raglen Waith y Cabinet.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Dysgu Gydol Oes y byddai adroddiad am Addysg ôl-16 yn Y Rhyl yn cael ei ddarparu ym Mis Hydref 2007.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi Blaen Raglen Waith y Cabinet.*

## 150 EITEMAU BRYS:

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai y byddai hynny'n debygol o arwain at ddatgeliad gwybodaeth eithriedig fel y caiff honno ei diffinio ym mharagraff 14 o Ran 4, Sgediwl 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**151 Y CYNLLUN CYFALAF**

Cyflwynodd y Cynghorydd G O Rowlands adroddiad er mwyn i'r Aelodau nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar elfen 2007/2008 y Cynllun Cyfalaf. Gofynnwyd i'r Aelodau argymell bod y Cyngor yn awdurdodi ei swyddogion i arwyddo'r contract gyda DECWL ar gyfer y Prosiect Canolfannau Dysgu Cymunedol yn unol â'r amodau yn adran 2.3 yr adroddiad. Gofynnodd sut y bydd costau ychwanegol prosiect Pen y Pigyn (Bryn Tyner) a'r costau ychwanegol sy'n deillio o gynllun Ysgol Emmanuel yn cael eu cyllido.

Diweddarwyd gwybodaeth yr Aelodau am y Canolfannau Dysgu cymunedol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Dysgu Gydol Oes. Gobeithir y bydd y contract terfynol yn cael ei arwyddo erbyn diwedd Gorffennaf 2007. Fodd bynnag, amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Dysgu Gydol Oes y risgiau pe byddai'r arian cyfatebol o Ewrop yn cael ei derfynu cyn i'r contract gael ei gwblhau. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd G O Rowlands, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Dysgu Gydol Oes a Phennaeth y Gwasanaethau Datblygu y byddai risgiau ychwanegol i'r Awdurdod pe byddai'r prosiectau yn cael eu hatal. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai DECWL yn gorfod talu'r grant unwaith y byddai'r contract wedi cael ei arwyddo.

Cyfeiriodd Clerc y Sir at Argymhelliad 9.2 a gofynnodd i'r Aelodau gytuno cyn belled â bod y Dirprwy Brif Weithredwr /Cyfarwyddwr Corfforaethol : Adnoddau a Chlerc y Sir yn fodlon bod yr amodau yn adran 2.3 yr adroddiad yn cael eu cyflawni.

Mewn perthynas â'r cynnydd yn y costau am Bryn Tyner dywedodd y Pennaeth Datblygu Gwasanaethau bod posibilrwydd y byddai peth cyllid ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer rhai agweddau amgylcheddol penodol ar y cynllun. Atgoffodd y Cynghorydd J Thompson Hill yr aelodau y byddai modd gwerthu'r eiddo unwaith yr oedd y gwaith wedi ei gwblhau ac y byddai hynny yn ychwanegu at y gyllideb Cyfalaf.

Mewn perthynas â'r cynnydd yng nghostau Ysgol Emmanuel, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol : Dysgu Gydol Oes bod y penderfyniad i gytuno ar eitemau ychwanegol wedi ei wneud gan swyddogion i fynd â'r cynllun yn ei flaen oherwydd maintioli'r prosiect. Dywedodd y Cynghorydd J Thompson Hill fod peth o'r gost gor-redeg oherwydd gwaith ychwanegol ar gais adran y client, a rhan ohono am waith tir oherwydd natur yr ardal lle gwneir y gwaith. Dywedodd Pennaeth Datblygiad Gwasanaethau y gallai cost prosiectau'r dyfodol fynd tu hwnt i'w cyllideb wreiddiol pe byddai problemau nas rhagwelwyd yn codi.

**PENDERFYNWYD** *bod yr Aelodau yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf yn elfen 2007/2008 y Cynllun Cyfalaf. Bod y Cyngor yn awdurdodi'r swyddogion i barhau i arwyddo'r contract gyda DECWL ar gyfer prosiect y Canolfannau Dysgu Cymunedol, yn amodol ar y gwelliant a awgrymir uchod mewn perthynas ag Argymhelliad 9.2 a'r amodau sydd yn adran 2.3 yr adroddiad. Bod yr Aelodau yn nodi'r cynnydd yng nghostau prosiect Pen y Pigyn (Bryn Tyner), sut y bydd yn cael ei ariannu ynghyd a'r cynnydd yng nghostau cynllun Ysgol Emmanuel a sut y bydd yn cael ei ariannu.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 p.m.

***********

## CYNGOR SIR DDINBYCH

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher, Mehefin 27 2007 am 10.00 a.m.

### PRESENNOL

Y Cynghorydd K N Hawkins (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain Jones, D Cooper, J M Davies, M Ll Davies, S A Davies, P A Dobb, E C Edwards, G C Evans, H H Evans, I M German, M A German, D Hannam, T K Hodgson, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, M M Jones, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, S Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, M A Webster, C H Williams, E W Williams ac R Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Clerc y Sir a Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

### GWEDDI

Offrymwyd gweddi gan y Canon Dr R Bayley ar ddechrau'r cyfarfod.

### PROFEDIGAETH

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth sydyn Mrs Diane Davies, oedd yn gweithio o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Safodd yr Aelodau, y Swyddogion a'r wasg a'r cyhoedd mewn tawelwch fel arwydd o'u parch.

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

Y Cynghorwyr S Frobisher, T R Hughes, D Jones, ER Jones, G A Jones, N Hugh Jones, G M Kensler a G Williams.

### SAFON IECHYD CORFFORAETHOL

Adroddodd yr Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles fod y Cyngor yn cael ei asesu ar gyfer Safon Iechyd Corfforaethol (Gwobr Aur) ar y 18fed a'r 19eg o Orffennaf. Anogodd y Cynghorydd P A Dobb yr holl Aelodau i gefnogi cyflwyniad y Cyngor ac i fod yn ymwybodol o'r gwahanol bolisïau oedd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Nododd y Cynghorydd Dobb mai'r Safon Iechyd Corfforaethol oedd y marc cenedlaethol o ansawdd ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dobb Mrs Jacquie Bryan, Rheolwr Tîm Gwasanaethau Oedolion, ac fe roddodd ymarferiad wedi ei seilio ar gadair i'r Aelodau cyn cychwyn y cyfarfod.

### 152 EITEMAU BRYS

Yn unol ag anghenion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol i'w drafod gan ei fod angen sylw brys:-

Penderfyniad Apêl Cynllunio – Fferm Wynt Wern Ddu.

### 153 COFNODION Y CYNGOR

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwy cofnodion cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 15 2007 (ddosbarthwyd eisoes).*

### 154 CYFROL COFNODION

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi Cyfrol Cofnodion gwahanol gyfarfodydd y Cyngor am y cyfnod Mawrth 1afi i Fai 17eg 2007.*

**155 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar ar ddyddiadur y digwyddiadau y bu ef a'r Is-gadeirydd yn eu cynnal/mynychu ers Mai 15 2007 (ddosbarthwyd yn y cyfarfod). Nododd fod digwyddiad Croesffordd Gogledd Cymru wedi digwydd yn Y Rhyl (nid Prestatyn) a chyfeiriodd hefyd at ddigwyddiad pellach a fynychodd yng Nghorwen ar Fehefin 23 (Cerddorfa Genedlaethol Cymru BBC)

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at ddyddiadur digwyddiadau'r Prif Weithredwr y bu'n eu mynychu am y cyfnod Mawrth 1 – Mehefin 23 2007 gafodd eu dosbarthu yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r adroddiad.*

**156 SWYDDOGAETH YR AELODAU I SICRHAU GWELLIANT**

Cyflwynodd Clerc y sir adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor nodi casgliadau'r astudiaeth ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Swyddogaeth Aelodau i Sicrhau Gwelliant ac i ystyried peirianwaith addas i sicrhau fod yr argymhellion a wneir yn cael eu gweithredu.

Adroddodd Clerc y Sir:-

- fod Swyddfa Archwilio Cymru, fel rhan o'r gwaith a gynlluniwyd o'r Cynllun Rheoli, wedi ymgymryd ag astudiaeth i asesu, drwy arsylwadau mewn gwahanol gyfarfodydd Pwyllgorau, swyddogaeth yr Aelodau i sicrhau gwelliant, ac

- fod casgliadau cychwynnol yr astudiaeth wedi eu rhannu â'r arweinydd, yr Is-arweinydd, Cadeiriau pob Pwyllgor Craffu a Chadair y Pwyllgor Trefn Lywodraethol Gorfforaethol ynghyd â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Trafodwyd y materion oedd yn codi mewn sesiynau adborth wedyn. Roedd hyn yn galluogi i'r casgliadau cyffredinol a'r gweithrediadau allweddol ar gyfer gwelliant gael eu ffurfio.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Rod Alcott a Mr Ian Mackinder o Swyddfa Archwilio Cymru gafodd eu gwahodd i'r cyfarfod i gyflwyno eu casgliadau o'r astudiaeth (copïau o'r sleidiau yn nodi casgliadau wedi eu dosbarthu eisoes – fersiwn Gymraeg wedi ei dosbarthu yn y cyfarfod).

Cyfeiriodd Mr Rod Alcott ar Gynllun Rheoli'r Cyngor a bwriad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i weithio gydag Aelodau yn Sir Ddinbych i edrych ar weithgareddau Cynghorwyr. Cyfeiriodd at waith SAC yn sylwi ar nifer o bwyllgorau'n gweithredu gyda chefnogaeth 7 o Aelodau gwirfoddol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a 16 o Gynghorwyr o Sir Ddinbych.

Nododd Mr Alcott fod ymglymiad Cynghorwyr o Gyngor arall yn wyriad sylweddol o'r astudiaethau arferol ac yr oedd casgliadau pwyllgorau unigol yn cael eu bwydo'n ôl yn ystod eu cyfarfodydd. Nododd fod y casgliadau cyffredinol yn cael eu coladu a'u blaenyrru at y Cyngor am arsylwadau ac yna eu trafod mewn cyfarfod gyda Chadeiriau Craffu ar Fehefin 14 2007.

Nododd Mr Alcott fod yr astudiaeth wedi canolbwyntio ar dri phrif faes:-

- oedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu mewn ffordd i uchafu eu heffeithiolrwydd;

- oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn ffordd effeithiol, ac

- a oedd y cyfarfodydd yn cyflawni canlyniadau effeithiol.

Cyfeiriodd Mr Alcott at y casgliad cyffredinol fod Aelodau'n cyfrannu tuag at sicrhau gwelliant mewn Gwasanaethau'r Cyngor ond yr oedd yna ffyrdd clir y gallai'r cyfraniad hwnnw fod yn fwy effeithiol. Yna cyfeiriodd at y rhesymau dros y casgliad cyffredinol ynglŷn â'r trefniant, ymddygiad a chanlyniadau'r cyfarfodydd.

Canolbwyntiodd Mr Ian Mackinder ar gasgliadau allweddol yr astudiaeth a'r ffordd ymlaen i sicrhau gwelliant.

Teimlai Arweinydd y Cyngor fod yr astudiaeth wedi bod yn ymarferiad defnyddiol iawn a bwriadau godi rhai o'r materion gyda'r Cabinet a'r Aelodau.

Teimlai'r Cynghorydd J Butterfield fod yr astudiaeth wedi bod o fudd i'r holl Gynghorwyr fu'n cymryd rhan ac fe anogodd yr Aelodau i ymweld â Chynghorau eraill i weld sut yr oeddynt yn gweithredu. Roedd yn syndod iddi nad oedd Aelodau wedi nodi hyfforddiant fel mater pwysig y dylid ymdrin ag o. Teimlai Mr.Mackinder fod hyfforddiant yn thema gyffredinol ond cytunodd ei fod yn fater pwysig iawn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P A Dobb at y datganiad y dylai cofnodion ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na thrafodaeth a mynegodd gair o rybudd y dylai cofnodion gynnwys sylwadau gan Aelodau. Ail-bwysleisiodd Mr. Rod Alcott y dylai'r cofnodion nodi byrdwn y drafodaeth yn hytrach na'r drafodaeth gyffredinol.

Cytunodd y Cynghorydd D Hannam â'r casgliad fod adroddiadau swyddogion yn rhy hir ac o'r herwydd nid oedd llawer o faterion yn cael eu trafod. Cytunodd y Cynghorydd R E Barton a chefnogai'r defnydd o grynodeb diannod mewn adroddiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniadau a:-

***PHENDERFYNWYD** that:-*

*(a) nodi casgliadau'r astudiaeth, a*

*(b) gofyn i Glerc y Sir gyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant wedi ei seilio ar gasgliadau'r astudiaeth i Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol erbyn mis Hydref 2007.*

**157 CYFRIFON REFENIW OLAF 2006/07**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor:-

- gytuno'r safle canlyniad olaf refeniw ar gyfer 2006/07;
- gytuno'r driniaeth o'r gronfa wrth gefn fel y'i ceir yn yr adroddiad, a
- chytuno Datganiad y Cyfrifon fel ar Fawrth 31ain 2007.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y raddfa amser ddiwygiedig osodwyd gan Reoliadau diwygiedig Cyfrifon ac Archwiliad oedd yn mynnu cytuno'r Cyfrifon Statudol am 2006/07 erbyn diwedd Mehefin 2007. Nododd fod y safle diwedd blwyddyn bron yr un â'r hyn adroddwyd ym Mawrth/Ebrill ac yr oedd pob Cyfarwyddiaeth yn is na'u cyllideb a dylid cydnabod hyn.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod balansau wedi eu cryfhau eto eleni. Fodd bynnag dylid tynnu sylw at rwymedigaethau amodol amlinellwyd yn y datganiad ariannol o safbwynt Cyflog Cyfartal.

Roedd balansau ysgolion wedi gwella hefyd yn 2006/07. Tynnwyd sylw at y ffaith y cydnabuwyd fod y diffyg ariannol yn uwchysgol Blessed Edward Jones yn anadferiadol. Argymhellwyd felly y dylai balansau'r Cyngor fod ar gael i ysgolion.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod swm y costau pensiwn o fewn yr adroddiad yn anghywir oherwydd gwybodaeth anghywir ddarparwyd i'r awdurdod. Yn gyffredinol roedd Perfformiad y Gronfa Bensiwn wedi gwella a gwneid cymwysiadau yn ystod amser archwilio'r cyfrifon. Nododd hefyd fod 7 Aelod wedi methu cwblhau datganiadau Trafodion Parti Perthnasol ac fe anogodd unrhyw Aelod oedd yn bresennol i lenwi'r ffurflen ar ôl y cyfarfod. I gloi adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y sefyllfa ariannol gyffredinol wedi gwella a diolchodd i'r holl dimau Cyfarwyddiaeth am eu gwaith caled i gyrraedd y safle hwnnw.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid a Chaffael hefyd i'r timau cyllid am eu gwaith rhagorol i gyrraedd y sefyllfa ariannol amgen. Er hynny, teimlai'r Cynghorydd G O Rowlands fod angen i'r

Cyfarwyddiaethau barhau i fod yn bwyllog gan fod angen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach ar gyfer 2007/08.

Croesawodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad a chyfeiriodd at y pwysau a roddwyd ar staff oherwydd y raddfa amser ddiwygiedig i gyflwyno'r cyfrifon. Er hynny, teimlai fod gwerth mewn cael y cyfrifon ynghynt fel y gallai Aelodau/swyddogion asesu os oedd angen gwella mewn rhai mannau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Gan gyfeirio at Gyfrif Refeniw Tai teimlai'r Cynghorydd Marfleet y dylai unrhyw asedau bach dderbyniwyd drwy werthiannau Hawl i Brynu fel garejis, llwybrau, etc. gael eu symud i'r Cyfrif Cyffredinol.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd R E Barton cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gellid cyflwyno adroddiad pellach ar Gronfa Bensiwn Clwyd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau.

Croesawodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad a chyfeiriodd at sefyllfa ariannol iach y Cyngor a'r datblygiad a wnaethpwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y Cynghorydd R W Hughes yn falch o nodi fod balansau ysgolion wedi gwella a chyfeiriodd at gynnydd yr ariannu ar gyfer y Cynllun Cyfalaf. Yn olaf rhoddodd deyrnged i'r gwaith ardderchog wnaed gan holl dimau cyllid y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J Chamberlain Jones adroddodd y Prif Weithredwr fod Uwchysgol Blessed Edward Jones wedi dioddef oherwydd y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer ariannu uwchysgolion. Nododd fod y mater yn cael ei drafod drwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion oedd yn adolygu'r fformiwla. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr argymhellion i ddiddymu'r ddyled ond pwysleisiodd fod disgwyl i'r ysgol aros o fewn y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y 7 Aelod oedd heb arwyddo ffurflen Trafodion Parti Perthnasol ac awgrymodd os byddai unrhyw Aelod heb arwyddo'r ffurflen erbyn Mehefin 30 yna dylai Clerc y Sir baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol yn rhoi enwau'r Aelodau hynny. Cynigiodd y Cynghorydd G O Rowlands ac eiliodd y Cynghorydd J Thompson-Hill fod yr argymhellion o fewn yr adroddiad yn cael eu cymeradwy ynghyd â'r awgrym gan y Prif Weithredwr.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cytuno sefyllfa'r canlyniad refeniw olaf ar gyfer y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain 2006;;*

*(b) cytuno sefydlu cronfeydd wrth gefn a symudiadau mewn cronfeydd a dwyn ymlaen falensau oedd wedi eu clustnodi fel y'u ceir ym mharagraffau 4.2 a 4.7 yr adroddiad;*

*(c) cymeradwyo Datganiad Cyfrifon fel ar Fawrth 31ain 2007, a*

*(ch) gofyn i Glerc y Sir baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol yn rhoi enwau unrhyw Aelodau nad oeddynt wedi cwblhau a dychwelyd datganiad ac i ddatgelu unrhyw drafodion trydydd parti erbyn Mehefin 30 2007.*

## 158 TAI FFORDDIADWY – POLISI CYNLLUNIO CYSYLLTIADAU LLEOL

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor gytuno Polisi Cynllunio Cysylltiadau Lleol (a set o feini prawf i gyd-fynd â nhw) mewn perthynas â'r cymwysterau angenrheidiol lleol sydd eu hangen i fyw mewn unedau tai fforddiadwy ddarperir drwy'r system gynllunio (atodir y polisi fel Atodiad 1 i'r adroddiad). Nododd y defnyddir y polisi (a'r meini prawf) fel 'ystyriaeth faterol' wrth bennu ceisiadau cynllunio ac apeliadau ac wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLl).

Fe aeth Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth (M Pender) â'r Aelodau drwy'r adroddiad a chyfeiriodd at y newidiadau allweddol ynglŷn â'r meini prawf cymhwyster preswyl yn dilyn trafodaethau yn y Cydbwyllgor Craffu ar Fai 1af 2007. Nododd fod Gwasanaethau Tai wedi darparu cyfiawnhad dros:-

- gymhwyster o 3 blynedd ar gyfer ardaloedd trefol yng Ngogledd y Sir, a
- chymhwyster o 5 mlynedd ar gyfer ardaloedd gwledig ym mhobman arall – fel y'u nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cododd yr Aelodau nifer o faterion ynglŷn â'r polisi yn enwedig o safbwynt:-

- y teulu cymwys yn y gymdogaeth;
- y diffiniad o'r gweithiwr allweddol;
- y diffiniad o ardal drefol/wledig, a'r
- meini prawf a'u diffyg cydnabyddiaeth o gysylltiad Cymreig.

Teimlai'r Cynghorydd S A Davies y dylai'r cymhwyster preswyl o 5 mlynedd fod ar gyfer pob rhan o'r Sir. Cefnogodd y Cynghorydd D A Thomas y safbwynt hwnnw a nododd fod y diffiniad o ardaloedd trefol a gwledig yn newid. Nododd hefyd nad oedd polisi cysylltiad lleol yn gymwys i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gofynnod os gallai amod cynllunio orfodi polisi o'r fath.

Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Tai'r rhesymeg dros y cais am gymhwyster preswyl o 3/5 mlynedd a'r drafferth i fenthycwyr i gael morgeisi mewn ardaloedd trefol, os mynnid cymhwyster o 5 mlynedd. Nododd Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth y gellid gosod Amod Adran 106 ar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i ystyried y polisi cysylltiadau lleol. Teimlai'r Prif Weithredwr mai'r prif fater oedd y cymhwyster preswyl 3/5 mlynedd a nododd fod y swyddogion wedi argymell fod y polisi'n cael ei adolygu mewn 12 mis. Adroddodd hefyd y dylid ychwanegu Henllan i restr y cymunedau yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd D A Thomas welliant, eiliwyd gan y Cynghorydd S A Davies fod y cymhwyster preswyl o 5 mlynedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol y Sir. O roi'r gwellant i bleidlais fe'i DERBYNIWYD. Nododd y Prif Weithredwr y byddai paragraff 2.5 yr Atodiad yn awr yn cael ei ddileu yn dilyn y gwelliant.

Nododd Clerc y Sir fod Cytundeb Adran 106 yn berthynol i ddaliadau tir.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cymeradwyo Polisi Cynllunio Cysylltiadau Lleol yn amodol ar osod meini prawf y cymwysterau yn 5 mlynedd ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd;*

*(b) defnyddio'r Polisi:-*

- *i asesu teuluoedd fforddiadwy cymwys sy'n hawlio fod ganddynt gysylltiadau lleol, ac*

- *fel ystyriaeth gynllunio faterol wrth bennu ceisiadau Cynllunio,*

*(c) adolygu'r polisi/meini prawf a'u gweithrediad mewn 12 mis ac unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w dychwelyd at y Cyngor i'w cymeradwyo.*

Gohiriwyd y cyfarfod (am11.50 a.m.) am 10 munud i ganiatáu i Aelodau ymgymryd â lluniaeth ysgafn.

**159 STRATEGAETH TAI LLEOL 2007 - 2012**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadau Strategaeth newydd Tai Lleol Sir Ddinbych (STLl) ar gyfer 2007 - 2012. Nododd y Cynghorydd P A Dobb :-

- fod gan yr awdurdod ddyletswydd statudol ar hyn o bryd i gynhyrchu STLl ar gyfer y sir hyd at ac yn cynnwys 2008. Wedi hynny, fel rhan o gynllun rhesymoliad, fe fyddai eto angen i'r awdurdod gynhyrchu STLl ond ni fyddai rheidrwydd ffurfiol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y dyfodol fe fyddai ceisiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru am Grant Tai Cymdeithasol (GTC), i ddatblygu cartrefi newydd fforddiadwy ar gyfer eu rhentu, hefyd yn ddibynnol ar i'r awdurdod fod â STLl gadarn.

- fod y STLl wedi gosod y sefyllfa dai lleol bresennol ar draws yr holl ddaliadaeth ac yr oedd yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Roedd yn ymdrin â llawer o faterion tai allweddol yn cynnwys tai fforddiadwy, digartrefedd a chyflwr stoc tai'r sir.

- roedd y STLl drafft yn cynnwys Cynllun Gweithredol lleol oedd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i adrodd i Bwyllgorau Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai ac Amgylchedd (crynodeb gweithredol STLl a gweithrediadau allweddol o'r Cynllun Gweithredu wedi eu hatodi yn Atodiad Un i'r adroddiad).

- y gallai rhai prosiectau arbennig o fewn y STLl fethu oni bai fod refeniw/arian cyfalaf ar gael.

Adroddodd y Cynghorydd Dobb fod y STLl drafft wedi ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar Fehefin 14 a chan y Cabinet y diwrnod cynt ac fe gafod dderbyniad da gan y ddau Bwyllgor. I gloi diolchodd y Cynghorydd Dobb i'r swyddogion am gynhyrchu strategaeth mor gynhwysfawr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Ll Davies at y diffyg adnoddau ar gyfer y strategaeth cartrefi gwag. Er hynny awgrymodd fod y gyfraith yn caniatáu i'r awdurdod gyd-drafod â pherchnogion eiddo gwag a theimlai y byddai cyflwyniad gan y Gwasanaethau Tai i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn ymarferiad defnyddiol. Croesawodd y Cynghorydd Dobb y syniad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton at gyd-benodiad Galluogwr Tai Gwledig gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gytundeb cyfnod penodol a phenderfyniad dilynol y sawl oedd yn y swydd i geisio swydd barhaol mewn man arall. Teimlai y dylid adolygu penderfyniadau ynghylch parhad ariannu ar gyfer prosiectau yn gynharach i osgoi colli arbenigedd gwerthfawr.

Gofynnodd y Cynghorydd P J Marfleet os gellid ariannu unrhyw weithgaredd geir yn yr adroddiad o gyllideb 2007/08. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith fod landlordiaid y sector breifat yn wyliadwrus o brydlesu eiddo i bobl oedd yn hawlio budd-daliadau etc. Teimlai'r Cynghorydd Marfleet y dylid hysbysebu manteision prydlesu eiddo preifat i'r tenantiaid hyn. Cyfeiriodd y Cynghorydd P A Dobb at y prosiectau ellid eu hariannu o gyllideb eleni.

Croesawodd y Cynghorydd J Thompson-Hill y strategaeth a phwysleisiodd y dylid ystyried datblygiad cynaliadwy wrth weithredu'r strategaeth. Croesawodd hefyd y cynnig i ddatblygu strategaeth wres fforddiadwy.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd I M German, nododd y Pennaeth Gwasanaethau Tai mai'r cyfnod ail-brydlesu ar gyfer eiddo'r Cyngor oedd 40+ diwrnod ond yr oedd yna achlysuron pan na ellid cyrraedd y targed hwnnw oherwydd ailwampio etc.

***PENDERFYNWYD*** *mabwysiadu Strategaeth Tai Lleol Sir Ddinbych ar gyfer 2007 - 2012 be adopted.*

**160 CYMERADWYAETH I GYNLLUN DATBLYGU CYNALIADWY'R CYNGOR**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Eiddo a Datblygiad Cynaliadwy adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Cynaladwyedd a Chynllun Gweithredu Cyngor Sir Ddinbych 2007 - 2009 (Atodiad 1 i'r adroddiad). Aeth y Cynghorydd J Thompson-Hill â'r Aelodau drwy'r adroddiad a chyfeiriodd at y pum amcan allweddol a'r cynllun gweithredu. Diolchodd i Gydlynydd y Prosiect Cynaladwyedd am ei waith ar y prosiect.

Teimlai'r Cynghorydd H H Evans fod cynaladwyedd ynni'n fater pwysig iawn ac y dylai'r awdurdod lleol osod esiampl. Nododd fod swyddogion yn awyddus i weithredu mentrau ailgylchu ym mhob un o adeiladau'r Cyngor. Teimlai'r Cynghorydd Evans y byddai'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn rhoi pwysau ar y Cynllun Cyfalaf ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu arian ar gyfer yr agenda effeithlonrwydd ynni.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet ei bod yn bwysig fod yr Awdurdod yn gweithredu Cynllun Gweithredu'r adroddiad. Anogodd yr Aelodau a'r swyddogion i drafod y defnydd ynni uchel yn Neuadd y Sir efo'r perchennog a dywedodd fod yr anghenion a'r safonau wedi newid ers i'r adeilad gael ei adeiladu. Fe awgrymodd hefyd y dylid ail-drafod y systemau gwresogi yn yr ysgol newydd a'r Ganolfan Grefftau ym Mhrestatyn gan y gellid eu hystyried ar gyfer systemau gwresogi amgen. Ar rai achlysuron, gellid defnyddio pympiau gwres sy'n tarddu o'r ddaear. Yn Iwerddon roedd y rhain wedi

derbyn arian allanol. Hysbysodd yr Aelodau fod LICC yn gosod boiler biomas peledi coed yn eu hadeilad newydd yn Llandudno.

Croesawodd y Cynghorydd T K Hodgson yr adroddiad ond nododd nad oedd yna unrhyw gyfeiriad at y Cynllun Datblygu Lleol yn y strategaeth. Teimlai fod angen i gynaladwyedd gael ei fewnosod yn y Cynllun.

Mynegodd y Cynghorydd C L Hughes bryderon nad oedd dyddiadau gweithredu ar gyfer rhai targedau yn y cynllun gweithredu.

Cododd yr Aelodau faterion pellach gyda'r Aelod Arweiniol ynglŷn â chynlluniau ailgylchu, defnydd o geir fflyd ar gyfer teithio i swyddogion ac aelodau, systemau gwresogi yn adeiladau'r Cyngor, cysylltiadau gydag ysgolion ynglŷn â chynaladwyedd. Cafwyd ymateb gan y Cynghorydd J Thompson-Hill i gwestiynau/sylwadau'r Aelodau a:-

***PHENDERFYNWYD**:-*

*(a) cymeradwyo Cynllun Cynaladwyedd Corfforaethol a Chynllun Gweithredu Cyngor Sir Ddinbych 2007 - 2009 a*

*(b) gofyn i'r swyddogion wneud cynrychioliadau priodol i Lywodraeth Cynulliad Gymru am arian i weithredu'r Cynllun.*

Gohiriwyd y cyfarfod am ginio am 1.20 p.m.

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a ailddechreuwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher, Mehefin 27 2007 am 1.45 p.m.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd K N Hawkins (Chairman), J R Bartley, R E Barton, J Butterfield, J Chamberlain Jones, D Cooper, M Ll Davies, S A Davies, P A Dobb, G C Evans, H H Evans, M A German, T K Hodgson, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, M M Jones, P J Marfleet, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, S Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, M A Webster, C H Williams, E W Williams ac R Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Clerc y Sir a Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**

Y Cynghorwyr J M Davies, E C Edwards, S Frobisher, T R Hughes, D Jones, E R Jones, G A Jones, N Hugh Jones, G M Kensler, P W Owen ac G Williams.

**161 CYMHARIAETH O GYLLIDEBAU GWASANAETHU GYDAG ASESIADAU GWARIANT SAFONOL 2007/08**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) oedd yn:-

- ceisio barn Aelodau ar y gymhariaeth fanwl rhwng Cyllidebau Refeniw Gwasanaeth, (gan ddefnyddio cost gyfrifyddol llawn) a data Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n adeiladu i mewn i gyfanswm Asesiad Gwariant Safonol (AGS) yr awdurdod, ac

- gofyn i Aelodau nodi cynnwys yr adenillion ar gyllideb Addysg am 2007/8 i LCC (atodiad 7 i'r adroddiad).

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan bwysleisio mai dim ond dangosydd oedd yr AGSA ar sut y dylai Cynghorau wario eu cyllidebau pridiannol a phenderfyniad pob Cyngor unigol yw sut y maent i wario'u harian yn seiliedig ar anghenion y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at gyfres o atodiadau i'r adroddiad oedd yn hysbysu Aelodau o'r cymariaethau manwl wnaethpwyd a gwahanol ddarnau o wybodaeth gefndir oedd yn help i esbonio amrywiadau.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr nad oedd yr AGSA yn cynrychioli targedau gwariant ar gyfer awdurdodau lleol. Dim ond modd i ddosbarthu grantiau oeddynt a theimlai y gallai defnyddio'r data ar gyfer dibenion cymharu fod yn ymrannol o bosibl. Cyfeiriodd at adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru fod arian LlCC ar gyfer addysg yn Sir Ddinbych yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Atodiad 6 yr adroddiad oedd yn dangos mai Sir Ddinbych oedd yr awdurdod ail uchaf yng Nghymru o safbwynt cyfanswm gwariant cyfalaf ar wasanaethau. Teimlai'r Cynghorydd P J Marfleet fod y tablau cynghrair yn gamarweiniol iawn gan fod adenillion i Lywodraeth y Cynulliad yn anghyson rhwng awdurdodau. Cyfeiriodd at drafodaethau cynharach gyda'r Cynulliad ynglŷn ag adenillion RA ac awgrymodd os na fydd y sefyllfa wedi gwella yna dylid gwneud cynrychioliadau pellach i'r Gweinidog newydd.

Awgrymodd y Cynghorydd T K Hodgson y byddai sesiwn hanner diwrnod o hyfforddiant ar y pwnc o fudd i Aelodau.

Teimlai Cyfarwyddwr Corfforaethol: Addysg Gydol Oes y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio ar anghenion addysg ac a oedd ysgolion yn cynnig addysg oedd yn werth yr arian. Nododd hefyd nad oedd y flwyddyn academig yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol a bod LlCC wedi ei lobïo ar y mater hwnnw. Ychwanegodd ymhellach fod angen i'r Cyngor flaenoriaethu ariannu yn enwedig mewn adrannau oedd wedi eu tanariannu a phwysleisiodd yr angen i Lywodraethwyr fod yn ymwybodol o faterion ariannu. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai at y gwariant o £3m dros yr AGS yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a theimlai ei fod yn fater cymhleth iawn. Teimlai fod ffactorau lleol wedi dylanwadu ar y gwariant yn enwedig yng ngwasanaethau plant ac iechyd meddwl.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y gwariant cyfalaf sylweddol ar addysg yn 2007/08 a'r Sir oedd yr uchaf yn y tabl o safbwynt gwariant y pen o'r boblogaeth.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at annhegwch y dosbarthiad poblogaeth/anheddau a nododd ei fod yn dilyn y mater ymhellach gyda'r Cynulliad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a'i nodi.*

**162 AELODAETH PWYLLGORAU**

Gofynnodd Clerc y Sir i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau canlynol i Aelodaeth Pwyllgorau:-

- **Pwyllgor Cynllunio** - Cynghorydd E C Edwards i gymryd lle'r Cynghorydd J R Bartley;
- P**wyllgor Apeliadau a Chwynion** - Cynghorydd N J Hughes i lenwi sedd wag Plaid;
- **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai** - Cynghorydd N H Jones i lenwi sedd wag Annibynnol;
- **Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol** - Cynghorydd CL Hughes i lenwi sedd wag Annibynnol a'r Cynghorydd P W Owen i lenwi sedd wag Ceidwadol, a
- **Phwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol** - Cynghorydd P J Marfleet i gymryd lle'r Cynghorydd I M German.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y'i nodir uchod;*

*(b) gofyn i'r Cynghorydd N J Hughes ystyried llenwi'r sedd wag ar y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol, a*

(c) *gofyn i grwpiau ystyried llenwi'r sedd wag ar CYSAG (adawyd gan Lafur).*

**163 RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Clerc y Sir Raglen Waith y Dyfodol y Cyngor Sir ar gyfer ystyriaeth. Cyfeiriodd at y trafodaethau a gynhaliwyd yn y Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ynglŷn ag ymgynghoriad oedd ei angen i ganiatáu cyflwyno Strategaeth Ffafriol y CDLl i'r Cyngor ar Fedi 18 2007.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn Rhaglen Waith y Cyngor Sir a'i nodi.*

**CYFLWYNIAD**

Yn y pwynt yma adroddodd yr Arweinydd fod Rheolwr Uned Polisi Strategaeth (Janette Williams) a Swyddog Polisi Strategaeth (Hannah Griffin) eu dwy wedi bod yn llwyddiannus i ennill MBA. Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes dusw o flodau i'r ddwy swyddog. Adroddodd yr Arweinydd hefyd fod gwraig y Cynghorydd H H Evans hefyd wedi ennill yr un radd a chyflwynodd dusw o flodau iddo ar gyfer ei wraig.

**164 PENDERFYNIAD APÊL CYNLLUNIO - APÊL FFERM WYNT WERN DDU**

(Fe ystyriwyd yr eitem hon yn eitem frys, fe hysbyswyd y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod).

Mynegodd y Cynghorydd P J Marfleet bryderon difrifol ynglŷn â phenderfyniad yr Arolygydd Cynllunio i ganiatâ'r apêl uchod ac yn benodol y datganiadau wnaed gan yr Arolygydd wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Fe anogodd y Cynghorwyr i gefnogi'r swyddogion os gwneid apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Croesawodd y Prif Weithredwr y sylwadau hynny ac adroddodd fod y swyddogion yn ystyried eu sefyllfa a byddant yn adrodd yn ôl i'r Aelodau cyn gynted ag sydd bosib. Nododd hefyd y cynhelir trafodaethau gydag awdurdodau eraill ynghylch costau ar y cyd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 tra'n ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir hi ym mharagraffau 14 a 15 Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.*

**165 STATWS SENGL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor nodi'r sefyllfa bresennol o safbwynt trafodaethau gyda'r undebau llafur ar statws sengl ac i nodi fod cynnig i gomisiynu adolygiad o gyflogau uwch i'w gyflwyno i'r Cyngor ar Orffennaf 31 2007.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad byr i'r Aelodau ar yr ymarferiad gwerthuso swyddi, y trafodaethau â'r undebau llafur a mater y ceisiadau am iawndal.

***PENDERFYNWYD****:-*

(a) *nodi sefyllfa bresennol y trafodaethau gyda'r undebau llafur, a*

(b) *nodi fod cynnig i gomisiynu adolygiad o gyflogau uwch i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar Orffennaf 31 2007.*

**166 CYNLLUN CYFALAF**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid a Chaffael adroddiad cyfrinachol (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf elfen 2007/08 y Cynllun Cyfalaf ac i gymeradwyo'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

Aeth y Cynghorydd G O Rowlands â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio'n benodol at y prif brosiectau perthnasol i'r Canolfannau Addysg Cymunedol, llithriant Bryn Tyner, Ysgol Emmanuel a'r Ganolfan Grefftau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rowlands yn fyr at y prosiectau newydd oedd wedi eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf am 2007/08 a'r cynigion ar gyfer prosiectau oedd yn cael eu datblygu.

Mewn ymateb i gwestiynau Aelodau, esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Addysg Gydol Oes y gwariant ychwanegol ar brosiect Ysgol Emmanuel a'r sefyllfa bresennol gyda Chanolfannau Addysg y Gymuned.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar elfen 2007/08 y Cynllun Cyfalaf;*

*(b) awdurdodi swyddogion i barhau i arwyddo'r cytundeb â DELLS ar gyfer prosiectau Canolfannau Addysg y Gymuned yn amodol ar i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau a Chlerc y Cyngor gael eu bodloni y gellir cyflawni'r amodau nodir yn 2.3 yr adroddiad;*

*(c) nodi'r cynnydd yng nghostau prosiect Pen y Pigyn (Bryn Tyner) a sut y cafodd ei ariannu, a*

*(ch) nodi'r cynnydd yng nghostau cynllun Ysgol Emmanuel a sut yr oeddid i'w ariannu.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 p.m.

*********

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Caledfryn, Dinbych, dydd Iau, 28 Mehefin, 2007 am 9.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr E.R. Jones (Cadeirydd), B. Blakeley, P.W. Owen, D.A.J. Thomas a C.H. Williams.
Roedd y Cynghorwyr R.E. Barton, M.Ll. Davies, G.C. Evans a E.W. Williams (Aelod Arweiniol) yn bresennol fel Arsyllwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd, Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith, Rheolwr Perfformiad a Gwybodaeth, Amgylchedd (T. Fleming), Prif Reolwr Adfywio (M. Dixon), Rheolwr Trafnidiaeth (G. Taylor), Arweinydd Tîm Diogelwch y Gymuned (R. Schwarz), Swyddog Gweinyddu Grantiau (A. Parry), Swyddog Cymorth Craffu (S. Price) a'r Swyddog Gweinyddu (C.I. Williams).

### YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr P.C. Duffy a S. Thomas.

### 167 MATERION BRYS

Ni chodwyd yr un eitem y dylid ei ystyried, ym marn y Cadeirydd, yn fater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 168 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd dydd Iau, 31 Mai, 2007.

***PENDERFYNWYD –** derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

### 169 ADRODDIAD PERFFORMIAD CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD 2006/2007

Dosbarthwyd copi o adroddiad y Rheolwr Perfformiad a Gwybodaeth gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn monitro perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad (PI) a gweithrediadau Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth.

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Gwybodaeth yr adroddiad a seiliwyd ar Ddangosyddion Perfformiad, gan gynnwys Dangosyddion Statudol Cenedlaethol a Dangosyddion Craidd, yn ogystal â dangosyddion lleol a gynhwyswyd yng Nghynllun Busnes 2006/2009 y Gyfarwyddiaeth, ynghyd â diweddariadau ar eitemau cynllun gweithredu o'r Cynllun.

Cadarnhawyd bod 55% o'r tasgau yng Nghynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth wedi'u cwblhau ar amser erbyn diwedd Mawrth, 2007. Crynhowyd y pwyntiau allweddol canlynol o bob Cyfarwyddiaeth gan y Rheolwr Perfformiad a Gwybodaeth, a chynhwyswyd sylwadau'r Aelodau:

(a) Gostwng y gyfran o wastraff trefol a waredir trwy dirlenwi

(b) Sefydlu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd.

(c) Defnyddio pwerau gorfodi i ddiogelu’r Amgylchedd naturiol a'r cyhoedd yn Sir Ddinbych – wrth ymateb i safbwyntiau a fynegwyd gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd fod manylion y gweithredu gorfodol a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod wedi cael cyhoeddusrwydd yn y wasg; esboniodd fod Sir Ddinbych wedi gweithredu mwy o achosion gorfodi nag awdurdodau cyfagos.

Wrth ymateb i geisiadau gan Aelodau, cytunwyd y byddai manylion am achosion gorfodi yn y dyfodol yn cael eu dosbarthu i Aelodau, eu cyhoeddi yn Llais y Sir a'u dosbarthu mewn taflen newyddion i staff.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol: Amgylchedd fod yr awdurdod wedi mabwysiadu agwedd ragweithiol iawn tuag at roi cyhoeddusrwydd i'r gweithredu gorfodi a welwyd, a phwysleisiodd fod nifer fawr o ddatganiadau i'r Wasg wedi'u hanfon allan.

(d) Cynnydd mewn cytundebau gyda phartneriaid yng Ngogledd Cymru i ddarparu model a chefnogaeth o ran gorfodi parcio.

(e) Denu buddsoddiad gan y sector preifat i hyrwyddo'r rhaglen - Y Rhyl Yn Symud Ymlaen.

(f) Codi'r derbyniadau cyfalaf trwy waredu tir ac adeiladau.

Tynnodd y Rheolwr Perfformiad a Gwybodaeth sylw at fanylion Strategaeth Gyfathrebu’r Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a fabwysiadwyd yn hydref 2006.

Cafwyd crynodeb o’r atodiadau i’r adroddiad gan y Rheolwr Perfformiad a Gwybodaeth a chodwyd y materion canlynol gan yr Aelodau; cynhwysir ymatebion y swyddogion hefyd:-

Atodiad A – Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth – diwedd y flwyddyn 2006/2007 ar eitemau Cynllun Gweithredu

Tudalen 3. Ed 4.05 – Esboniodd Arweinydd Tîm Diogelwch y Gymuned fod y gostyngiad mewn ffigyrau troseddu wedi digwydd oherwydd newid yn y dull o gofnodi troseddau gan Heddlu Gogledd Cymru. Hysbysodd yr Aelodau fod y partneriaid ym Mhartneriaeth Diogelwch y Gymuned Sir Ddinbych mewn gwirionedd wedi dangos canlyniadau trawiadol o dda ar drosedd ac anhrefn, gan osod Sir Ddinbych fel y bedwaredd bartneriaeth Diogelwch y Gymuned orau yng Nghymru a Lloegr.

Atodiad B – Dangosyddion Perfformiad Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth – diwedd y flwyddyn 2006/2007

Tudalen 5. Trafnidiaeth a Phriffyrdd, THS/S/001 (b) – wrth ymateb i bryderon a fynegwyd am gyflwr ffyrdd B Sir Ddinbych, cyfeiriodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith at yr Adolygiad Cymru Gyfan sy’n ymwneud â hyd ffyrdd cerbydau a gynhaliwyd gan gorff annibynnol y llynedd. Esboniodd fod y ffigyrau a gynhyrchwyd yn ddibynadwy iawn a chadarnhaodd fod Sir Ddinbych wedi derbyn £600k ychwanegol gan y Cynulliad i gynnal a chadw priffyrdd ac y byddai ffyrdd B yn cael eu targedu eleni.

Atodiad C – Dangosyddion Eraill – diwedd y flwyddyn 2006/2007

Tudalen 7. Iechyd Amgylcheddol, PPN/S/001 (a) – Gofynnodd y Cynghorydd C.H. Williams am i ffygurau perfformiad cyfartaledd Cymru Gyfan gael eu defnyddio yn hytrach na'r cyfansymiau a ddefnyddir yn awr yn yr adroddiad, fel bod modd gwneud gwell cymhariaeth rhwng perfformiad Sir Ddinbych ac awdurdodau eraill.

Tudalen 10. Rheoli Gwastraff, WMT/C/006 – Mewn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd C.H. Williams, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd fod yr awdurdod wedi ymatal rhag ehangu'r casgliadau ochr ffordd o ddeunyddiau ailgylchu er mwyn canolbwyntio ar wella ansawdd y gwasanaeth presennol .

Tudalen 11. Trafnidiaeth a Phriffyrdd THS/C/004 – Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd fod mapiau o'r ffyrdd a nodwyd gan yr awdurdod ar gael ar hyn o bryd ar y wefan.

***PENDERFYNWYD –*** *derbyn a nodi'r Adroddiad Perfformiad Chwarterol ar gyfer diwedd y flwyddyn 2006/2007 .*

**170 CYNLLUNIAU PROSIECTAU CYFALAF YN Y GYMUNED 2007/2008**

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu oedd yn ceisio barn Aelodau am y fethodoleg sgorio ddiwygiedig i ganfod ceisiadau am brosiectau cyfalaf yn y gymuned, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod,.

Cyflwynodd y Prif Reolwr Adfywio’r adroddiad ac esboniodd fod gwahoddiad wedi'i estyn am geisiadau am brosiectau cyfalaf yn y gymuned i'w cefnogi yn 2007/08. Roedd cyfanswm yr arian cymorth a geisiwyd tua £1miliwn a, gan mai £254,000 oedd ar gael ar hyn o bryd i ariannu ceisiadau newydd yn 2007/08, ni fyddai modd rhoi cefnogaeth i bob un o'r ceisiadau a dderbyniwyd. Nid oedd y fethodoleg sgorio a dderbyniwyd yn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf, 2006 wedi gwahaniaethu'n ddigonol rhwng ceisiadau i alluogi canfod y ceisiadau hynny y dylid argymell eu derbyn; felly, roedd angen methodoleg ddiwygiedig ac fe'i hamlinellwyd yn yr atodiad i'r adroddiad.

Hysbysodd yr Aelodau fod manylion y ceisiadau a dderbyniwyd mewn adroddiad gwybodaeth gyfrinachol wedi’u dosbarthu ar wahân, er mwyn galluogi Aelodau i 'alw i mewn' geisiadau unigol, i'w trafod cyn gwneud penderfyniad i gymeradwyo.

Wrth ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd R.E. Barton, cadarnhaodd y Prif Reolwr Adfywio - yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Cabinet yn y cyfarfod a gynhaliwyd yng Ngorffennaf, 2006, fod y swm o £330,000 a ddyrannwyd i'r Cynllun prosiectau cyfalaf yn y gymuned, wedi'i neilltuo'n benodol i'r pwrpas hwn. Fodd bynnag, roedd tipyn o'r arian eisoes wedi'i ddynodi i geisiadau a gytunwyd ynghynt, a'r swm oedd yn weddill, heb ei ddynodi, oedd ar gael ar gyfer ceisiadau newydd oedd £254,000. Esboniodd Aelod Arweiniol y Cabinet ar yr Amgylchedd y gellid mynd tu hwnt i'r swm o £330,000 os byddai arian a ddynodwyd ond heb ei wario, yn cael ei ddychwelyd.

Hysbysodd y Prif Reolwr Adfywio’r Pwyllgor fod ymgynghori wedi'i gynnal gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych am y Cynllun prosiectau cyfalaf yn y gymuned ac am y fethodoleg sgorio ddiwygiedig. Rhoddodd fanylion yr ymateb a gafwyd ac esboniodd ei fod yn cynnwys awgrym y dylid dynodi pwyntiau ychwanegol i geisiadau am gyfraniad ariannu cyfalaf yn y gymuned o rhwng 25% a 50% pan fyddai hyn yn fwy na £10,000. Cefnogodd y Cynghorydd R.E. Barton y farn y gallai cymunedau bychain fod dan anfantais oherwydd eu hanallu i godi arian yn annibynnol.

Wrth ymateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd M. Ll. Davies am leihau'r effaith ar y gyllideb refeniw, cadarnhaodd y Prif Reolwr Adfywio y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddileu unrhyw ymrwymiad cynnal a chadw.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, mynegodd Aelodau eu cefnogaeth i'r fethodoleg sgorio ddiwygiedig, fel y'i hamlinellir yn yr atodiad i'r adroddiad, a:-

***PHENDERFYNWYD** – y dylai’r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd roi cefnogaeth i'r fethodoleg sgorio ddiwygiedig, fel y'i hamlinellir yn yr atodiad i'r adroddiad.*

**171 GORCHMYNION GATIO**

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod,.

Gwahoddwyd Aelodau i ystyried ac i wneud sylwadau ar y Gorchmynion Gatio arfaethedig i'w gwneud dan Reoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2007 yn Y Rhyl, Dinbych a Phrestatyn mewn amrywiol leoliadau. Mae manylion y lleoliadau penodedig i'w gweld yn y papurau ymgynghori yn Atodiad 1 (Yr Atodiad Gorchymyn Gatio).

Eglurwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno fel rhan o broses ymgymghori i ganfod barn y Pwyllgor, a chyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet, ac yna i'r Cyngor Llawn, ar ôl gorffen y broses ymgynghori na ellir ei chwblhau cyn y dyddiad yng Ngorffennaf 2007 a nodwyd yn yr adroddiad. Hysbyswyd yr Aelodau gan Arweinydd y Tîm Diogelwch y Gymuned nad oedd yn ofynnol i'r ymgynghoriad fynd gerbron y Cabinet.

Rhoddodd Arweinydd y Tîm Diogelwch yn y Gymuned grynodeb manwl o'r adroddiad ac eglurodd fod gatiau aleau eisoes wedi'u sefydlu yn Sir Ddinbych fel arf effeithiol yn erbyn troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ac wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at lwyddiant Sir Ddinbych yn cyflawni'r gostyngiad mwyaf o ran lefelau troseddu yng Nghyrmu. Cadarnhaodd fod y llwybrau, y mynedfeydd a'r aleau a nodwyd yn dioddef gan ymddygiad gwrth-gymdeithasol, troseddu ac anhrefn, ac yn eu hanfod yn cynnig cyfle i droseddu neu'n hyrwyddo troseddu. Esboniwyd bod yr ardaloedd dan sylw yn dueddol o ddenu troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ac mae'r unig bobl oedd yn defnyddio'r mannau hyn oedd dihirod.

Hysbyswyd Aelodau y gallai Gorchmynion Gatio gael eu gwneud gan Gynghorau sy'n argyhoeddedig bod adeiladau sy'n cyffwrdd â phriffordd, neu'n agos ati, yn dioddef gan droseddu neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol; bod bodolaeth y briffordd yn hyrwyddo cyflawni gweithrediadau troseddol neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol; a'i bod, yn yr holl amgychiadau hyn, yn fuddiol i wneud y Gorchymyn er mwyn lleihau'r troseddu neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Diogelwch yn y Gymuned y gallai'r Cynghorau ddileu'r Gorchmynion Gatio pan fydden nhw'n argyhoeddedig bod y cyfyngiadau a achoswyd gan y Gorchymyn wedi peidio â bod yn fuddiol yn yr holl amgylchiadau i leihau troseddu neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Cafwyd cadarnhâd gan yr Aelodau y byddai arian ar gael oddi wrth y Grant Adfywio Ardaloedd Tai ar gyfer y cynlluniau yn Stryd Ernest a Stryd Gamlin.

Rhoddodd Arweinydd y Tîm Diogelwch yn y Gymuned grynodeb manwl o'r Rhaglen Gorchmynion Gatio, fel y'i gwelir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a dyma'r atebion i gwestiynau a godwyd gan Aelodau:-

(i) Llwybr troed rhwng Heol Parc Clifton a Heol Grange (Llwybr Marwor) – soniodd y Cynghorydd B. Blakeley am y llu o broblemau a brofwyd gan drigolion oherwydd bod yr ale yn lleoliad ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac yn cael ei defnyddio gan bobl â'r bwriad o droseddu. Awgrymodd y dylid ystyried cau'r llwybr troed dan sylw ac ymgorffori'r tir yng ngerddi cefn y tai cyfagos.

    Rhoddodd y swyddogion fanylion statws y gwahanol mathau o lwybrau gan esbonio bod perchnogaeth a statws y llwybrau a'r aleau yn dylanwadu'n fawr ar y dull o weithredu sydd ei angen i fynd i'r afael â'r problemau; roedd yn bwysig nodi na fyddai Gorchmynion yn rhyddhau'r awdurdod o'i gyfrifoldeb a'i ddyletswyddau parthed yr ardaloedd hyn.

(ii) Stryd Gamlin – Croesawodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas y Gorchymyn Gatio arfaethedig ar gyfer Stryd Gamlin a chefnogodd yr Aelodau ei gais am roi ystyriaeth i gynnwys Gorchymyn Gatio ar yr ale rhwng Stryd Sisson a Stryd Ernest yn y broses ymgynghori.

***PENDERFYNWYD** bod:-*

*(a) Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cefnogi'r argymhelliad a gyflwynwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch y Gymuned o ran y Gorchmynion Gatio a gynhwyswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

*(b) Angen rhoi ystyriaeth i gynnwys Gorchymyn Gatio ar yr ale rhwng Stryd Sisson a Stryd Ernest yn y broses ymgynghori, a bod*

*(c) y Tîm Diogelwch yn y Gymuned yn ymchwilio i ymarferoldeb cau'r 'Llwybr Marwor' ac ymgorffori'r tir yng ngerddi'r tai cyfagos,ac yn adrodd yn ôl am y casgliadau i'r Pwyllgor.*

## 172 PRAWF BIODANWYDD SIR DDINBYCH

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad gan y Rheolwr Fflyd, a oedd yn disgrifio'r prawf presennol a gynhelir o ddefnyddio biodanwydd yng ngherbydau'r Cyngor, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Wrth ymateb i gyfarwyddeb biodanwydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), a gyhoeddwyd yn Nhachwedd, 2005, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Rhwymedigaeth Tanwydd Trafnidiaeth [RTFO]. Erbyn 2010, dylai 5% o'r holl danwydd ffordd a werthir ar flaengyrtiau yn y DU ddod o ffynonellau adnewyddadwy.

Dosbarthwyd esiamplau o disel, biodanwydd wedi'i ffiltro 100% a biodisel mewn cymysgedd 25% / 75% yn y cyfarfod i Aelodau'r Pwyllgor eu hastudio. Dywedodd y Rheolwr Fflyd mai olew coginio wedi'i buro oedd y biodanwydd a ddefnyddiwyd a bod y broses ffiltro yn niwtral o ran carbon.

Hysbysodd y Rheolwr Fflyd yr Aelodau fod yr elfennau a ysgogodd y prawf yn seiliedig yn bennaf ar leihau effaith amgylcheddol fflyd Sir Ddinbych, hyrwyddo cynaladwyedd a'r angen am beidio â gwneud unrhyw addasiadau i gerbydau. Rhoddodd fanylion am Gam Cyntaf y prawf a chyfeiriodd at Atodiad 1 i'r adroddiad a oedd yn cynnwys y wybodaeth waelodol am y cerbydau a ddefnyddiwyd yn y prosiect.

Esboniodd fod y wybodaeth a gasglwyd o'r ymarfer cychwynnol, er yn addawol, wedi ysgogi cynnal ail gam i'r prawf, a ddechreuodd yn gynnar ym mis Ionawr 2007. Esboniwyd bod Atodiad 2 i'r adroddiad yn cynnwys y wybodaeth waelodol am y cerbydau a chyfartaledd y milltiroedd i'r galwyn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd cofnodion cynnal a chadw'r cerbydau wedi nodi unrhyw broblem yn codi o ganlyniad uniongyrchol i'r defnydd o biodisel ar y raddfa bresennol o 25%-75% yn unrhyw un o'r cerbydau a ddefnyddiwyd yn y profion. Cadarnhawyd hefyd bod profion a wnaed ar samplau olew o'r cerbydau dan sylw wedi canfod nad oedd unrhyw effaith niweidiol ar y peiriannau a dim gwahaniaeth yn y lefelau carbon. Hefyd roedd arwyddion pellach fod y cerbydau ysgafn a ddefnyddiwyd yn Ngham Cyntaf y profion, ar gyfartaledd, wedi dychwelyd ffigyrau defnydd tanwydd gwell na chyfartaledd y ffigyrau a gyhoeddwyd mewn amrywiaeth o gylchgronau'r 'fasnach'.

Darparwyd amlinelliad o gost y biodanwydd wedi'i gymysgu'n barod i'r Aelodau ac esboniwyd, o ran 'lleihau' allyriadau trwy ddefnyddio biodisel, ar hyn o bryd roedd Sir Ddinbych yn bartner mewn ymchwil a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd, [wedi'i noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru] (LlCC) ac, ar y cyd â'r Labordai Ymchwil i Drafnidiaeth, yn edrych yn fanwl ar allyriadau o bibellau cefn, ac yn arbennig yn nhermau biodisel ar raddfeydd uwch na 5%. Roedd Sir Ddinbych hefyd wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac Awdurdodau eraill Cymru, ddulliau o hyrwyddo'r defnydd o biodisel. Roedd LlCC wedi ariannu adroddiad annibynnol yn seiliedig yn llwyr ar brofion Sir Ddinbych.

Cyfeiriodd y Rheolwr Fflyd at broblemau posibl mewn materion caffael a phrynu cerbydau ar gyfer fflyd y Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, cadarnhaodd, ers dechrau'r profion, fod amryw o gynhyrchwyr wedi newid eu polisïau o ran y defnydd o biodisel. Hefyd, dywedwyd wrth yr Aelodau fod amryw o gyflenwyr biodanwydd wedi'u lleoli yng Nghymru a gallai swmp-brynu arwain at ostyngiad yn y pris fesul litr.

Yn ystod y drafodaeth yn dilyn, mynegodd Aelodau eu cefnogaeth i wneud mwy o waith i ymgorffori dulliau cadarnach o hel data ac i barhau â'r bartneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau eraill Cymru yng nghyswllt ymchwil pellach i'r defnydd o biodanwydd yn uwch na 5%.

***PENDERFYNWYD –*** *bod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd:-*

*(a)* *yn cefnogi ymestyn y prawf presennol i draws doriad ehangach o fflyd presennol y Cyngor;*

*(b)* *yn cefnogi gwneud mwy o waith i ymgorffori dulliau mwy cadarn o hel data;*

*(c)* *yn cefnogi, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau eraill Cymru, ymchwil pellach i'r defnydd o fiodanwydd â chymysgedd uwch na 5%, ac*

*(ch)* *yn derbyn adroddiad pellach rhywbryd yn y dyfodol.*

**173 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Swyddog Cymorth Craffu yn adolygu rhaglen waith y dyfodol i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Craffu grynodeb o'r adroddiad a nodwyd y gwelliannau canlynol i'r Rhaglen Waith i'r dyfodol:-

- Mannau i Gerddwyr yn Unig/Rhwystrau yn Y Rhyl – cytunodd Aelodau y byddai Grŵp Aelodau Etholedig Ardal Y Rhyl yn trafod Mannau i Gerddwyr yn Unig/Rhwystrau yn Y Rhyl; gosodir yr argymhellion am y modd y bydd y cynllun yn cael ei ariannu a'i reoli gerbron Aelodau'r Rhyl o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Wrth ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd D.A.J. Thomas am yr angen am weithredu i orfodi hyn fel mater o frys, cadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith y byddai angen archwilio'r posiblrwydd o well system rhwystrau gan, o bosibl, ddefnyddio system cardiau allwedd.

- Prosiect Resurgam – Hysbyswyd yr Aelodau bod Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn amlinellu syniadau am gynhyrchu ynni llanw oddi ar arfordir Y Rhyl (Prosiect Resurgam) ac roedd ef wedi awgrymu y gallai lladmerwyr dros y cynllun gyflwyno eu syniadau i'r Pwyllgor Craffu.

  Cytunodd y Pwyllgor â'r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd D.A.J. Thomas a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd y dylid cynnal trafodaeth ar y mater hwn mewn fforwm ehangach. Cytunodd yr Aelodau i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd estyn gwahoddiad i holl Aelodau'r Cyngor Sir, i Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac i ladmerwyr dros y cynllun a Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio Prosiect Resurgam ar yr ail o Awst 2007.

- Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus – cytunwyd y dylid cynnwys yr eitem hon yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer Awst 2007 ac y byddai'r adroddiad hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at amserlenni a staffio.

- Adolygiadau'r Cyfyngiadau ar Barcio ar y Stryd – dosbarthwyd adroddiad, er gwybodaeth, yn ceisio cefnogaeth gan yr Aelodau i welliant yn nhrefn blaenoriaeth yr adolygiadau o gyfyngiadau ar barcio mewn trefi. Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon barn yr Aelodau am yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad at y Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith erbyn y 6ed o Orffennaf 2007.

- Cynllun Gweithredu Geo-amrywiaeth – cytunodd yr Aelodau y dylid cynnwys eitem am y Cynllun Gweithredu Geo-amrywiaeth yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer Medi 2007.

- Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag– Cytunodd yr Aelodau y dyid cynnwys cais am wybodaeth am Orchmynion Rheoli Anheddau Gwag yn Rhaglen Waith y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD –***

*(a)* *yn amodol ar yr uchod, derbyn y Rhaglen Waith ar gyfer Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, fel y'i amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a bod*

*(b)* *Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio'r Prosiect Resurgam ar yr ail o Awst 2007.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25 p.m.

********

## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor, Tŷ Nant, Prestatyn ddydd Gwener, Mehefin 29, 2007 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), Cynghorwyr P. Glynn ac R.Ll. Williams, Mr G.F. Roberts a Mrs P. White.
Roedd y Cynghorydd R.E. Barton yn bresennol fel Sylwedydd.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Swyddog Monitro a Gweinyddiaeth (C.I. Williams).

## YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd P.A. Dobb.

### 174 MATERION BRYS

Nid oedd yna unrhyw eitemau a ddylid, ym marn y Cadeirydd, eu trafod yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 175 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ddydd Gwener, Mawrth 2, 2007.

Materion yn codi:-

3. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd. (a) CYSAG - Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr G.F. Roberts ynglŷn â hyfforddiant, cadarnhaodd y Swyddog Monitro er bod hyfforddiant i Aelodau ar gael ar hyn o bryd, ar gais, fe fyddai'n fwy manteisiol ac yn llai dryslyd i gynnig hyfforddiant pellach yn dilyn cyflwyniad y Cod Ymddygiad diwygiedig. Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y Swyddog Monitro i ddarparu manylion am y cynigion ar sut i ymdrin â'r mater o ddarparu hyfforddiant i'r Aelodau priodol.

4. Monitro'r Cod Ymddygiad - Esboniodd y Swyddog Monitro er nad oedd nodiadau canllawiau cynhwysfawr wedi eu cynhyrchu hyd yma fe fyddai, fel yr awgrymwyd gan y Cynghorydd R.Ll. Williams, yn darparu copïau o'r canllawiau a'r nodiadau ar brotocol a ddefnyddir yn bresennol gan Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

Ar gais Mr G.F. Roberts, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r agenda yn y dyfodol ar gyfer y Pwyllgor Safonau gynnwys Eitem ar Faterion yn Codi.

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, fod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

### 176 AELODAETH

Hysbyswyd aelodau fod Mr Ian Lawson, gwaetha'r modd, oherwydd ymrwymiadau gwaith, wedi ymddiswyddo fel cynrychiolydd annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y Cyngor Sir wedi cytuno'r peirianwaith i recriwtio Aelod Annibynnol yn ei le. Esboniodd fod y broses yma'n mynd rhagddi ac yr hysbysid Aelodau o'r Pwyllgor Safonau o unrhyw ddatblygiadau.

***PENDERFYNWYD** – nodi'r sefyllfa.*

### 177 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd yna unrhyw adroddiadau i'w cyflwyno am Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd o'r Cynghorau Sir, Tref na Chymuned.

*PENDERFYNWYD – nodi'r sefyllfa.*

**178 GODDEFEBAU**

Fe ddosbarthwyd copi o adroddiad gan y Swyddog Monitro, oedd yn ceisio goddefebau ar gyfer Cynghorwyr Sir o safbwynt materion addysg, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad a chyfeiriodd at gyfarfod y Pwyllgor ar Ebrill 15, 2005 pan roddwyd goddefebau oedd yn galluogi Aelodau Llywodraethol i bleidleisio ar faterion oedd yn berthnasol i reolaeth lleoedd ysgol.

Esboniodd nad oedd wedi dilyn y mater o'r posibilrwydd o ganiatáu goddefebau ehangach gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cychwyn ar adolygiad o'r Cod Ymddygiad ac fe ragwelwyd y byddai safle llywodraethwyr yn cael ei drafod mewn rhyw ffordd yn y Cod newydd. Fe ystyriwyd hefyd y byddai Cod newydd yn cael ei gyflwyno cyn y byddai'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau sylfaenol ynglŷn ag ysgolion. Cadarnhaodd fod hyn yn awr yn annhebygol ac y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth bellach i fater y goddefebau.

Cyfeiriwyd at Adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymdrin â datgelu a chofrestru diddordebau Aelodau ac sy'n gosod y fframwaith sylfaenol oedd yn mynnu fod cofrestrau diddordebau'n cael eu cynnal ac yn nodi sut y dylid delio â diddordebau.

Fe esboniodd y Swyddog Monitro ei fod wedi dosbarthu llythyr i Gynghorwyr yn amlinellu'r angen am i Aelodau Llywodraethol geisio goddefebau ar bleidleisiau ar faterion oedd yn berthnasol i reoli lleoedd ysgol. Cadarnhaodd nad oedd pob aelod wedi ymateb ac na chaniateir iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau os nad oeddynt wedi eu cynnwys ar restr yr Aelodau oedd wedi derbyn goddefebau. Rhoddodd y Swyddog Monitro sicrhad y byddai llythyr pellach yn cael ei ddosbarthu yn pwysleisio pwysigrwydd yr angen i Aelodau Llywodraethol geisio'r goddefebau angenrheidiol.

Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â hawliau Cynghorwyr i siarad a phleidleisio ar faterion fyddai'n cael effaith ar y cyrff yr oeddynt yn eu gwasanaethu, esboniodd y Swyddog Monitro yr ystyrid y Cynghorwyr oedd yn llywodraethwyr ysgolion neu gyrff addysgiadol pellach ac uwch, i fod â diddordeb yn rhinwedd paragraff 12 y Cod Ymddygiad. I alluogi Cynghorwyr i bleidleisio ar faterion fyddai'n cael effaith ar y gwahanol gyrff yr oeddynt yn eu gwasanaethu, fe fyddai goddefeb yn angenrheidiol dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001. Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad 1 i'r adroddiad oedd yn cynnwys y rheoliadau oedd yn gosod yr amgylchiadau lle y gellid caniatáu goddefebau.

Esboniodd y Swyddog Monitro fod amgylchiadau oedd wedi codi yn achos Aelodau Llywodraethol yn rhai a nodwyd yn Rheoliadau 2(a) a 2(i) a bod holl sbectrwm addysg a dysgu wedi bod ac yn parhau i fod yn llygad y cyhoedd. Cadarnhaodd y byddai caniatáu goddefebau'n galluogi Aelodau oedd wedi eu hethol yn ddemocrataidd i gymryd rhan lawn mewn gweithredu er lles ehangach y cyhoedd ac yn enwedig i ymgyrraedd â'r weledigaeth ar gyfer y Sir. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd, fel mewn enghreifftiau cynharach, y byddai goddefebau'n cael eu cymhwyso i eithrio'r diddordebau hynod bersonol ac ariannol fel y'u hamlinellir yn adroddiad y Swyddog Monitro.

Yn ystod y trafodaethau dilynol, cefnogodd yr Aelodau'r awgrym wnaed gan Mr G.F. Roberts fod nodyn esboniadol, yn amlinellu'r hawl i siarad, yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau priodol.

***PENDERFYNWYD** -*

*(a) caniatáu goddefebau i Aelodau o'r Cyngor Sir i bleidleisio ar faterion lle mae'r Aelodau hynny'n mynegi diddordeb fel Llywodraethwyr ysgolion neu gyrff addysgiadol pellach neu uwch lle maent mewn safle o reolaeth gyffredinol neu lle y maent wedi eu penodi neu eu henwebu gan y Cyngor fel cynrychiolydd cyn belled nad yw'r oddefeb yn gymwys lle gall y penderfyniad a gynigiwyd fod o fantais neu anfantais i'r Aelod, aelod o deulu'r Aelod neu ffrindiau neu unrhyw un y mae gan yr Aelod berthynas bersonol agos ag o.*

(b) *nodyn esboniadol, yn amlinellu ac yn manylu ar yr hawl i siarad, i'w ddosbarthu i'r Aelodau priodol.*

**179 PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2006**

Esboniodd y Swyddog Monitro fod detholiad o'r Pwyllgor ar Safonau Mewn Bywyd Cyhoeddus: Adroddiad Blynyddol 2006 yr oedd ef yn teimlo eu bod yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau wedi eu dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd ei fod wedi teimlo ei bod yn bwysig i ddarparu manylion ynglŷn â Saith Egwyddor Bywyd oedd yn cynnwys Anhunanoldeb, Unplygrwydd, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Didwylledd, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth, y Rhagair gan Syr Alistair Graham, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

Cyfeiriodd hefyd at Atodiad 1 i'r adroddiad oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r Pwyllgor ac a oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â:-

Amodau Gorchwyl
Statws
Dull Gweithio
Polisi ar Ddidwylledd
Ariannu a Gweinyddiaeth
Deddf Rhyddid Gwybodaeth
Manylion Cyswllt

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd R.Ll. Williams nad oedd Cynghorwyr ar lefel leol yn mwynhau'r rhyddid a roddid i Aelodau Seneddol ac Aelodau Llywodraeth y Cynulliad Cymreig, esboniodd y Swyddog Monitro y gwneir arolygon o bryd i'w gilydd ac y gallai'r mater hwn gael ei godi gan ddefnyddio'r broses yma.

***PENDERFYNWYD** – derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa*

**180 MONITRO'R COD YMDDYGIAD**

Hysbysodd y Swyddog Monitro'r Aelodau nad oedd dyddiad wedi ei nodi eto ar gyfer y rhifyn diwygiedig o'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, fe gynhaliwyd cyfarfod o Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Swyddogion Monitro i drafod y Cod Ymddygiad Diwygiedig ac fe gynhelir cyfarfod o Weithgor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Orffennaf 17, 2007 i ystyried y mater.

Esboniodd fod y swyddogion Monitro penodol wedi mynegi pryderon na fyddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei gyhoeddi cyn Etholiadau'r Cynghorau Sir yn 2008. Tanlinellwyd hefyd fod yna nifer o gymhlethdodau deddfwriaethol ac fe gyfeiriwyd at achos diweddar Maer Llundain, Ken Livingstone.

Pwysleisiodd y Swyddog Monitro fod yr oedi ynglŷn â mater y Cod Ymddygiad diwygiedig wedi bod yn llesteiriol iawn ac fe gytunodd i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Safonau o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD** – derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa.*

**181 CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Hysbysodd y Swyddog Monitro'r Aelodau fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu i'w gynnal, fel y cytunwyd eisoes, am 10.00 a.m. ddydd Gwener, Medi 14, 2007 gyda chyfarfodydd wedi hynny ar Dachwedd 2, 2007, Rhagfyr 14, 2007, Ionawr 25, 2008, Mawrth 7, 2008 ac Ebrill 18, 2008.

Gwahoddwyd yr Aelodau i hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw broblemau ynglŷn â'r dyddiadau a restrwyd yn yr amserlen.

***PENDERFYNWYD*** *– cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00 a.m. ddydd Gwener, Medi 14, 2007.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.

*********

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl ar ddydd Mawrth, 3ydd Gorffennaf 2007 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr G.C. Evans, G.A. Jones, M.M. Jones a G.J. Pickering

**Yn cynrychioli Cydbwyllgor Amodau Athrawon Sir Ddinbych**

M.B. Lloyd (Cadeirydd) a M. Bradshaw

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

R. Elms, H. Evans, B. Wyn Evans, S. Harris, M. Hatch, Parch. B.H. Jones a M. Ludenbach

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn (dirprwy dros y Parch. Athro L.J. Francis)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygydd/Ymgynghorydd AG (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

I. Barros Curtis, T. Bryer, L. Linaker a’r Cynghorydd D. Owens

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Kath Jones, Clerc i CYSAG yn ôl o’i seibiant mamolaeth a chyfleodd ddiolch y Cyngor Ymgynghorol i Wendy Harness a Robert Davies a fu’n gwasanaethu cyfarfodydd y pwyllgor yn ei habsenoldeb. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i aelod newydd o CYSAG, Mary Ludenbach, Pennaeth AG yn Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones.

**182 MATERION BRYS**

Nid oedd dim materion brys i’w hystyried gan y pwyllgor.

**183 COFNODION**

**(a) CYSAG Sir Ddinbych – 31ain Ionawr 2007**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr, 2007 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), fel y’u cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 17eg Ebrill, 2007.

**Materion Cyffredinol yn Codi -**

Tudalen 6 - Eitem Rhif 4 - Dadansoddi Adroddiadau Arolygu Estyn - Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y system bresennol o fonitro ysgolion gan roi gwybod ei fod wedi ymweld â saith o’r wyth consortiwm ysgolion er haf 2004, a oedd yn cyfateb i 83% o ysgolion yr

awdurdod. Byddid yn ymweld â'r ysgolion sydd ar ôl yn y man a byddai'r adroddiad monitro olaf ar Ysgol Glan Clwyd a'r ysgolion sy'n ei bwydo (ynghyd ag unrhyw ysgolion a oedd wedi'u methu er 2004) yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf CYSAG. Teimlai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG y bu'r broses gyfan yn brofiad buddiol dros ben i'r ysgolion ac i CYSAG. Roedd yn disgwyl y byddai'r Esgobaeth yn cyflwyno adroddiad i CYSAG ar Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych fel y cytunwyd yn flaenorol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.M. Jones ynghylch monitro yn y dyfodol cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai'r mater yn cael ei drafod gyda'r AALl a CYSAG yn eu cyfarfod nesaf, ar ôl ystyried yr adroddiad monitro terfynol.

Tudalen 8 – Eitem Rhif 5 – Canlyniadau Arholiadau 2006: Penderfyniad 5(c) – Yn dilyn cynigion o gymorth i ysgolion neilltuol wrth ennyn gwelliannau, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod cyfathrebiadau wedi'u derbyn yn ôl oddi wrth yr ysgolion dan sylw a sicrhaodd yr aelodau fod materion yn cael sylw priodol.

Tudalen 9 – Eitem Rhif 6(a) – Adroddiad Cynhadledd Arbennig CCYSAGC: Penderfyniad (c) – Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn estyn gwahoddiad i'r gymuned Foslemaidd i sylwedydd fynychu cyfarfod nesaf CYSAG.

Tudalen 10 - Eitem Rhif 7 - DELLS: Fframwaith Cyfnod Sylfaen 3 - 7 Arolwg Cwricwlwm Ysgolion: Penderfyniad 7(b) - Yn ogystal ag ymateb i'r ymgynghoriad roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi ysgrifennu at DELLS ar ran CYSAG yn amlinellu eu pryderon a rhoddodd wybod am ohebiaeth ddiweddarach oddi wrth Bennaeth Cwricwlaidd ac Asesu yn hysbysu y byddai barn CYSAG yn cael ei chymryd i ystyriaeth.

**(b) Materion yn Codi: Canlyniadau Arolwg Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon i Ysgolion**

Tudalen Rhif 2 - Eitem Rhif 2 Cofnodion (Materion yn Codi: Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon Prifysgol Hope - Adran AG) - Yn codi o drafodaeth o dan gofnodion y cyfarfod diwethaf cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ar ganlyniadau arolwg a anfonwyd at bob ysgol i werthuso hyfforddiant myfyrwyr AG mewn Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Ers i'r canlyniadau gael eu cydgasglu roedd mwy o ymatebion gan ysgolion wedi'u derbyn ond roedd y canfyddiadau cyffredinol yn aros yr un fath.
Tra oeddynt yn ystyried y canlyniadau roedd yr aelodau'n falch o nodi'r ymateb a'r gymeradwyaeth gadarnhaol gyffredinol, a oedd yn galonogol. Yn y sector gynradd roedd yr unig fater negyddol yn nodi nad oedd y coleg yn darparu adroddiad yn dilyn lleoliadau myfyrwyr. Roedd y darlun yn debyg yn yr ysgolion uwchradd ond nododd yr aelodau fod tair ysgol wedi cynhyrchu ymateb 'dim' gan nad oedd ganddynt unrhyw fyfyrwyr o ran AG. Derbyniwyd ymatebion llai cadarnhaol o ran y coleg yn darparu gwybodaeth dda ynghylch myfyrwyr a'u prosiectau a nifer yr ymweliadau rheolaidd gan y coleg yn ystod lleoliadau myfyrwyr. Hysbysodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau fod trefniadau'n cael eu gwneud i ymweld â Sefydliad Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon arall y tymor canlynol.

Awgrymodd y Cynghorydd G.J. Pickering y dylid cysylltu â'r colegau ynghylch y sylwadau negyddol gyda golwg ar sicrhau gwelliant. Cytunai'r Parch. B.H. Jones ond teimlai hefyd y dylid pwysleisio'r sylwadau cadarnhaol i ddangos canlyniadau cyffredinol yr arolwg.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi canlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon i ysgolion, a*

*(b) diweddaru canlyniadau'r arolwg i gynnwys yr ymatebion diweddaraf a dderbyniwyd oddi wrth ysgolion a'u cyflwyno i'r colegau dan sylw gan bwysleisio'r agweddau cadarnhaol a gofyn am eu hymateb ynghylch y pwyntiau negyddol.*

**(c) Cyfarfod ar y Cyd CYSAGau – 9fed Mawrth 2007**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Mawrth, 2007 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

**Cywirdeb -**

Fel pwynt o gywirdeb rhoddodd y Cadeirydd wybod bod dau gynghorydd Sir Ddinbych (a oedd yn bresennol fel sylwedyddion) wedi'u cofnodi'n anghywir fel swyddogion o fewn y cofnodion, sef y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a'r Cynghorydd Neville Hughes. Nodwyd hefyd fod y Cynghorydd M.M. Jones wedi'i chofnodi'n anghywir fel Mrs. M.L. Jones.

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar gyfarfod cadarnhaol y tri CYSAG a thynnodd sylw'r aelodau at y penderfyniad a'r argymhellion a gytunwyd gan CYSAGau Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r cofnodion.*

Yn y fan hon (10.25 a.m.) torrwyd y cyfarfod am bymtheg munud am egwyl lluniaeth.

**184 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU AR YSGOLION**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau'r arolygiadau diweddar ar dair ysgol rhwng mis Hydref 2006 a mis Ionawr 2007 o ran darparu Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD), ac Addysg Grefyddol, ble oedd yn rhan o'r arolygiad. Roedd arolygiadau wedi'u gwneud yn Ysgol Uwchradd Glan Clwyd, Llanelwy; Ysgol Bryn Hedydd, Y Rhyl ac Ysgol Glyndyfrdwy, ger Llangollen ac roedd hanes byr pob un o'r ysgolion wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad. Atgoffwyd yr aelodau na fu AG yn bwnc i'w arolygu yn Ysgol Bryn Hedydd.

Cyflenwodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau â chrynodeb byr o'r canfyddiadau'n ymwneud â phob ysgol, gan egluro a gwneud materion penodol yn glir mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ar hynny. Roedd yn siomedig nodi bod gan un ysgol fater allweddol o ran YMCD wrth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig ond roedd hyn yn cael sylw gan yr ysgol i sicrhau y byddai'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei amlygu'n gryfach ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. Roedd yn ddymunol nodi'r 39 sylw cadarnhaol ar gyfer YMCD ar draws y tair ysgol a arolygwyd a nodi nad oedd dim sylwadau negyddol. Roedd yr aelodau'n falch hefyd o nodi faint y clodydd i'r ysgolion gyda'r termau 'eithriadol' ac 'arbennig o dda' mewn nifer o feysydd. Mewn perthynas ag Addysg Grefyddol roedd y ddwy ysgol wedi derbyn 33 o sylwadau cadarnhaol rhyngddynt gyda dim ond pedwar sylw negyddol.

Talodd yr aelodau deyrnged i gyflawniadau'r ysgolion, yn arbennig Ysgol Glan Clwyd a bu iddynt estyn eu llongyfarchion i'r ysgolion hynny ar y canfyddiadau cadarnhaol.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad, a*

*(b) bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALl o ran rhoi sylw i unrhyw ddiffygion neu faterion allweddol.*

**185 GWEITHGOR MAES LLAFUR CYTÛN**

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad llafar ar y cynnydd o ran sefydlu Gweithgor Maes Llafur Cytûn i ddechrau paratoi Maes Llafur Cytûn newydd ar gyfer Sir Ddinbych yng ngoleuni'r penderfyniad i fabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer AG fel sylfaen Maes Llafur Cytûn Sir Ddinbych. Hysbysodd yr aelodau o ymateb cadarnhaol yr AALl i'r cais ac o natur gyfun y grŵp ar y cyd ag Awdurdodau Addysg Lleol Conwy a Sir y Fflint. Roedd aelodaeth y Gweithgor yn cynnwys pum cynrychiolydd o bob awdurdod, yn cynrychioli'r sectorau cynradd ac uwchradd ac enwadau crefyddol. Roedd aelodau CYSAG Maxine Bradshaw a Sylvia Harris ymhlith cynrychiolwyr Sir Ddinbych. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 4ydd Gorffennaf 2007.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai gwaith y Grŵp yn cael ei rannu gydag awdurdodau eraill ar draws Cymru ac fel arall. Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod newidiadau'n dal i gael eu gwneud i'r Fframwaith Cenedlaethol, y byddai'n rhaid iddynt gael eu cymryd i ystyriaeth gan y Gweithgor hefyd. Awgrymodd fod CYSAG yn derbyn adroddiad cynnydd ar waith y Grŵp yn ei gyfarfod yn Ionawr 2008. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mrs. Sylvia Harris, cadarnhaodd yr

Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod pob un o 22 awdurdod Cymru wedi cytuno i fabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Cenedlaethol i'w Maes Llafur Cytûn gyda nifer o'r awdurdodau hynny yn sefydlu Gweithgorau Maes Llafur Cytûn.

Roedd yr aelodau'n gefnogol i'r trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y tri awdurdod ac roeddynt yn cydnabod y manteision a'r cysondeb a fyddai'n dod yn sgîl y ffordd honno o fynd ati. Nodwyd cyfraniad CYSAG at y broses drwy'i ddau aelod ar y Gweithgor hefyd a dymunodd yr aelodau'n dda i'r Grŵp ar eu trafodaethau.

***PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad llafar gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG a chefnogi ac annog gwaith y Gweithgor Maes Llafur Cytûn.*

**186 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

**(a) Cofnodion y cyfarfod CCYSAGC diwethaf a gynhaliwyd yn Hwlffordd ar 23ain Mawrth 2007**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gofnodion y cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd yn Hwlffordd ar 23ain Mawrth 2007 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol). Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyflwyniad gan Denize Morris ar y Ffamwaith Enghreifftiol ar gyfer AG, a oedd wedi'i gyflwyno hefyd i'r cyfarfod CYSAG ar y Cyd a gynhaliwyd ar 9fed Mawrth 2007.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGC a gynhaliwyd ar 28ain Mehefin 2007 yn Llandrindod, ac a fynychwyd gan nifer dda. Rhoddodd hi grynodeb byr o'r cyfarfod, gan gyfeirio'n arbennig at gyflwyniad rhagorol gan ddisgyblion yn Ysgol Sant Cristoffer, Wrecsam ar eu gardd ffydd (yr anogodd hi'r aelodau i ymweld â hi) a chyflwyniad diddorol ar y Prosiect Croeso. Ymhelaethodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar y Prosiect Croeso, menter gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, a ariannwyd gan Gynulliad Cymru. Roedd y Prosiect Croeso yn canolbwyntio ar addysg dan arweiniad cyfoedion a chysylltwyd â CCYSAGC gan fod y Tîm Croeso yn dymuno cynnwys agweddau ar wahaniaethu o ran ffydd. Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod hefyd am ganlyniad yr etholiad i'r Pwyllgor Gwaith a nododd yr aelodau nad oedd y Cynghorydd M.M. Jones wedi'i hailethol ond bod Tania Ap Siôn wedi'i hethol i'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd y Cynghorydd M.M. Jones a'r Parch. B.H. Jones wedi mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd ac yn canmol y cyflwyniad gan ddisgyblion anghenion arbennig Ysgol Sant Cristoffer, a oedd wedi rhoi cipolwg ar y gwaith ardderchog a wneir yn yr ysgol honno. Rhoddodd Tania Ap Siôn wybod y byddai adroddiad ar y cyflwyniad yn cael ei gynnwys o fewn Adran Myfyrdodau rhifyn yr hydref o Newyddion AG.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 23ain Mawrth 2007, a*

*(b) derbyn yr adroddiad llafar gan aelodau a fynychodd gyfarfod CCYSAGC (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) a gynhaliwyd ar 28ain Mehefin 2007 yn Llandrindod.*

**(b) Materion i'w codi gyda'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y cyfarfod blynyddol rhwng y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes a dirprwyaeth CCYSAGC/PYCAG a rhoddodd restr o'r materion a godwyd er 2002 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol). Cynhaliwyd cyfarfodydd blaenorol gyda Jayne Davidson a'r gobaith oedd y byddai'r cyfarfod blynyddol yn parhau gyda'r Gweinidog newydd. Ymlaen llaw i'r cyfarfod nesaf roedd cais ar i CYSAGau glustnodi pynciau posibl i'w codi gyda'r Gweinidog newydd gan CCYSAGC. Roedd pynciau a godwyd yn barod yn cynnwys:-

1. Hyfforddiant Proffesiynol i Athrawon (roedd wedi'i godi o'r blaen)
2. Comisiynu deunyddiau dwyieithog newydd gan ACCAC a DELLS i barhau
3. Cydaddoli – adolygu'r ddeddfwriaeth a chefnogaeth i hyfforddiant athrawon

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd awgrymodd y Cynghorydd G.J. Pickering y gallai fod mwy o gydweithrediad gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid o ran materion ymddygiad a materion eraill fel y gallai AG gael ei ddarparu y tu allan i amser ysgol ond o fewn amgylcheddau'r ysgol gyda'r uned ymddygiad. Holodd hefyd a fyddai cylch gwaith CYSAG yn ymestyn i Unedau Troseddwyr Ifanc. Tybiai'r Cadeirydd y byddai cylch gwaith CYSAG ond yn cynnwys oriau ysgol ond awgrymodd y gall fod ffynonellau cyllid eraill y gellid eu defnyddio gan yr AALl at y diben hwnnw. Holodd Mr. M. Hatch ynghylch darpariaeth AG ar gyfer disgyblion a waharddwyd a rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad ar ofynion ar gyfer addysg arbennig ac unedau ymddygiad a chyfeiriodd at faterion a godwyd o'r blaen gydag Estyn o ran AG statudol i fyfyrwyr ar leoliadau dysgu gwaith y tu allan i'r ysgol. Awgrymodd Mrs. Sylvia Harris y gellid rhoi pwyslais ar yr angen am ddeunyddiau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mewn ymateb rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod bod prosiect ar droed yn barod 'AG yn y Cyfnod Sylfaen' yn cynnwys grŵp o athrawon yn paratoi deunyddiau a oedd ar y cam cyntaf yn ei ddatblygiad. Roedd y Grŵp Adnabod Anghenion wedi dweud bod angen cyllid pellach, felly roedd y mater yn cael sylw i ryw raddau. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnydd yn y cydweithrediad rhwng ysgolion, colegau a lleoliadau dysgu ac awgrymodd y dylid llunio cwestiwn ynghylch y gofynion statudol am Gydaddoli ac AG ble oedd disgyblion wedi'u cofrestru o fewn ysgolion ond yn cael eu haddysgu drwy ddulliau y tu allan i'r ysgol.

***PENDERFYNWYD**, gan gymryd y sylwadau y cyfeiriwyd atynt uchod i ystyriaeth, bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn llunio ymateb i CCYSAGC ar bynciau posibl i'w codi gyda'r Gweinidog newydd.*

## 187 DATBLYGIAD YSBRYDOL YN Y CWRICWLWM

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ddogfen (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) a baratowyd gan Weithgor CYSAG Conwy yn cynnig cyngor ar Ddatblygiad Ysbrydol ar draws y cwricwlwm a gofynnodd am farn yr aelodau ynghylch trefnu bod y ddogfen ar gael i ysgolion Sir Ddinbych.

Hysbyswyd yr aelodau fod AALl Conwy wedi cytuno i Sir Ddinbych gopïo a dosbarthu'r ddogfen i'w hysgolion. Roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi gwneud cais i AALl Sir Ddinbych ystyried y posibilrwydd hwnnw petai aelodau CYSAG yn cytuno y byddai'n werthfawr i'w hysgolion ei derbyn. Roedd Sir Ddinbych wedi cadarnhau y byddai'n dwyn y costau cyhoeddi a dosbarthu i holl athrawon Sir Ddinbych. Bu rhai mân newidiadau i'r ddogfen o ran (1) sicrhau nad oedd yr un ystyr yn cael ei golli yn y broses gyfieithu, a (2) cyfieithu dyfyniadau i'r Gymraeg, a chytunwyd i ymgorffori cymysgedd o ddyfyniadau Cymraeg a Saesneg, y naill a'r llall, yn y fersiwn derfynol. Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod hefyd [ac eithrio Addysg Grefyddol, Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaladwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol a restrwyd ar y diwedd] fod trefn pynciau yn y cwricwlwm wedi bod ar hap yn fwriadol er mwyn dangos bod cyfleoedd i ddarparu datblygiad ysbrydol ar draws y cwricwlwm cyfan.

Talodd yr aelodau deyrnged i'r gwaith caled a wnaed gan AALl Conwy wrth baratoi'r ddogfen, a fyddai, fe deimlent, yn ffynhonnell cyfarwyddyd a chyngor rhagorol i ysgolion ac athrawon ar ddatblygiad ysbrydol ar draws y cwricwlwm.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad, a*

*(b) gofyn i'r AALl drefnu bod copïau o'r ddogfen ar gael i'w holl ysgolion/athrawon gyda llythyr amgaeëdig yn atgoffa ysgolion o'u gofynion statudol i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol eu holl ddisgyblion ar draws y cwricwlwm.*

## 188 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn Uganda gyda Christian Relief Uganda ar y dyddiad y trefnwyd i CYSAG gyfarfod nesaf ar 3ydd Hydref 2007. Gan hynny cytunwyd bod y cyfarfod i'w aildrefnu ar gyfer 10.00 a.m. ar 12fed Tachwedd 2007 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau hefyd y byddai'r Is-gadeirydd, y Parch. B.H. Jones yn cael ei sefydlu yn y cyfarfod nesaf ac y byddai angen penodi Is-gadeirydd newydd o blith y cynrychiolwyr o Gynghorwyr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M.M. Jones at ymddeoliad agos Mr. Ieuan Lloyd Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Mr. Gwilym Luke Jones, Uwch Swyddog Addysg (Cynradd) a chytunwyd bod llythyr i'w anfon at y ddau swyddog yn diolch iddynt am eu gwasanaeth gwerthfawr ac yn estyn dymuniadau gorau CYSAG at y dyfodol.

Wrth gloi diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG, Cyfieithydd y Cyngor a'r Clerc i CYSAG am eu gwaith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.

********

## CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL LLEOL

Cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Ruthun ar ddydd Mawrth 3 Gorffennaf am 2.25 p.m.

### YN BRESENNOL

**Cynrychiolwyr cyflogwyr**
Cynghorwyr M. Ll. Davies, S. A. Davies, G.C. Evans, D. Jones, G.A. Jones, P.J. Marfleet,
Dirprwy Prif Weithredwr (A. Evans) a Phennaeth Personél (L. Atkin).

**Cynrychiolwyr gweithwyr**
UNSAIN – A. Rutherford ac E. Stephens
GMB – J. Drummond, K. Wiggans
TGWU –C. Edwards

### HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R. Davies) a Chlerc Pwyllgorau (Mrs J. V. Pring).

### YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:-
Ochr cyflogwyr - Y Prif Weithredwr.
Ochr Gweithwyr - G. Butler ac I. Ellison (Unsain) a D. Hughes (T.G.W.U.)
Eraill - M. Jones (Swyddog Rhanbarthol G.M.B.), G. Edkins (Swyddog Rhanbarthol UNSAIN) a P. McNaught (Swyddog Rhanbarthol T.G.W.U.).

### 189 PENODI CADEIRYDD

Cafodd y Pwyllgor eu hatgoffa gan y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol mai tro'r ochr Cyflogwr oedd cymryd Cadeiryddiaeth y flwyddyn drefol ddilynol. Cynigodd y Cynghorydd S. Davies bod y Cynghorydd M. Ll. Davies yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor, a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd G. Evans.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd M. Ll. Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddilynol.*

### 190 PENODI IS-GADEIRYDD

Yn unol â chyfansoddiad yr LJCC ac mewn ymateb i wahoddiad y Cadeirydd am enwebiadau oddi wrth yr ochr Gweithwyr, cafodd Mr A. Rutherford ei gynnig gan Mr C. Edwards a'i eilio gan Ms E. Stephens i gael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *penodi Mr A. Rutherford yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddilynol.*

### 191 EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

### 192 COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Ionawr ac 16 Chwefror 2007 eu cyflwyno.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2007 ac 16 Chwefror 2007.*

## 193 GWEITHDREFN CYD-GWYNO

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad, oedd wedi'i ddosbarthu o'r blaen, yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r weithdrefn cyd-gwyno newydd. Esboniodd yr adroddiad bod gweithdrefn gwyno bresennol yr Awdurdod yn cynnwys manylion y broses ar gyfer codi ac ymdrin â chwynion unigol yn unig. Felly, roedd rhaid cyflwyno proses ar gyfer codi ac ymdrin â chwynion a godir gan fwy nag un unigolyn. Yn dilyn ymgynghori helaeth ag Undebau Llafur ac Uwch Reolwyr, roedd polisi drafft wedi'i gynhyrchu ac roedd copi o hwn wedi'i atodi i'r adroddiad i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor. Roedd y Weithdrefn wedi'i seilio ar y weithdrefn gwyno unigol er bod y cyfraddau amser wedi'u haddasu i gymryd ystyriaeth o gymhlethdod posibl cyd-gwynion a nifer yr unigolion allai fod yn rhan ohonynt.

Mewn ymateb i awgrym gan Ms E. Stephens, cytunwyd y byddai cyflwyniad y ddogfen yn cael ei ddiwygio i egluro bod y weithdrefn cyd-gwyno'n ychwanegol at y weithdrefn gwyno unigol presennol.

***PENDERFYNWYD*** *mabwysiadu'r Weithdrefn Cyd-Gwyno newydd ar unwaith.*

## 194 NEWIDIADAU I GYNLLUNIAU PENSIWN

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad, a ddosbarthwyd o'r blaen, ar yr angen i gynnwys dau newid mewn polisi i Bolisi presennol y Cyngor. Roedd y newidiadau'n gysylltiedig â Diddymiad a Throsglwyddiadau i'r cronfeydd pensiwn, ac roedd manylion y rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Cafodd yr aelodau eu cynghori, yn groes i'r cyngor a roddwyd yn yr adroddiad, y byddai angen i'r Cyngor llawn gadarnhau'r newidiadau a wnaed i'r polisi pensiwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr A Rutherford (UNSAIN) mewn perthynas â sut y byddai'r rheoliadau trosglwyddo diwygiedig yn cael eu cyfleu i weithwyr, dywedodd y Pennaeth Personél y byddai'r rheiny oedd yn cael eu heffeithio'n cael eu hysbysebu'n unigol a byddai'r rheiny sy'n dechrau gweithio i'r Awdurdod yn cael eu cynghori o'r gyfradd amser fel rhan o'r broses ymsefydlu.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r cynllun pensiwn, a*

*(b) argymell i'r Cyngor Sir ei fod ond yn caniatáu ceisiadau trosglwyddo o fewn cyfnod 12 mis, oni roddwyd caniatâd penodol i archwilio'r cais y tu allan i'r cyfnod hwn.*

## 195 AROLWG CYFLOG STATWS UNIGOL A GRADDIO – DIWEDDARIAD

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad cyfrinachol, a ddosbarthwyd o'r blaen, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd yr adolygiad statws unigol. Amlinellodd yr adroddiad y safle diweddaraf o ran gwerthusiadau swyddi, dilysiadau, y broses o nodi unrhyw faterion amlwg a modelu cyflog. Roedd strwythur cyflog wedi'i gynnig oedd yn cynnwys 14 gradd gyda thri i chwe chynnydd ar draws y strwythur.

Roedd copi o Gytundeb Statws Sengl drafft wedi'i atodi yn atodiad 1 yr adroddiad oedd yn rhoi manylion y safle trafod diweddaraf gyda'r Undebau Llafur ac a oedd yn arddangos y cynnydd sylweddol a fu ers i'r drafft gael ei gynnig i'w drafod am y tro cyntaf. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai meysydd hanfodol yn bodoli lle nad oedd y ddwy ochr wedi cytuno arnynt o hyd. Roedd y rhain yn cynnwys materion fel taliadau estynedig, goramser, gwyliau cyhoeddus a chyfnod yr amddiffyn.

Rhoddodd aelodau G.M.B. a T.G.W.U. wybod i'r Pwyllgor am fater difrifol oedd wedi dod i'w sylw'n ddiweddar. Roedd wedi cynnwys gwybodaeth anghywir yn cael ei drosglwyddo o weithwyr gan rai rheolwyr adran yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Hefyd, cyfeiriodd Mr A. Rutherford at achlysuron lle'r oedd aelodau UNSAIN wedi cael eu hysbysu o rhai o'r materion cyfrinachol y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen drafft. Rhannodd Aelodau Etholedig bryderon yr Undebau Llafur a chytunasant fod gweithredoedd o'r fath yn tanseilio ymrwymiad a gwaith caled y ddau ochr yn ddifrifol wrth gynyddu'r adolygiad statws sengl. Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â dosbarthiad y ddogfen, cadarnhaodd y Dirprwy Prif Weithredwr ei fod wedi'i anfon i bob Pennaeth Gwasanaeth i'w ystyried a'i drafod yn y Gynhadledd Rheoli Misol ar 5 Gorffennaf.

Awgrymodd Ms E. Stephens y gall y defnydd o'r gair 'Agreement' yn nheitl y ddogfen fod yn gamarweiniol a theimlodd y gall fod yn well ei ddisgrifio fel dogfen gweithio barhaus. Cytunodd y Pwyllgor â'r farn hon a chytunodd swyddogion i addasu'r teitl i ddisgrifio'r cynnwys yn fwy cywir.
Ar ôl trafod ymhellach

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad;*

*(b) gofyn i'r Dirprwy Prif Weithredwr archwilio'r materion cyfrinachedd a godwyd gan yr Undebau Llafur, a*

*(c) bod Datganiad Rheolwyr/Undebau Llafur ar y Cyd yn cael ei gyhoeddi i bob gweithiwr yn amlinellu'r safle presennol o ran y ddogfen Statws Sengl drafft.*

**196 CYTUNDEB PARTNERIAETH GWASANAETH CYHOEDDUS A RHEOLI NEWID**

Roedd copi o 'Bartneriaeth a Rheoli Newid' Cynulliad Cymru wedi'i gynnwys gyda phapurau'r agenda er gwybodaeth yn unig a chafodd ei dderbyn a'i nodi gan aelodau'r Pwyllgor.

**197 GWIRIADAU'R SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL**

(Nid oedd yr eitem yma wedi'i gynnwys ar yr agenda ffurfiol ond cafodd ei ystyried gyda chaniatâd y Cadeirydd)

Cyfeiriodd cynrychiolwyr Undebau Llafur at gwynion a gafwyd oddi wrth rhai o'u haelodau ynglŷn â chamau eithafol rhai rheolwyr wedi iddynt gael gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Roedd nifer o weithwyr yn poeni eu bod wedi gorfod rhoi cyfrif am gamymddygiadau bach a ddigwyddodd dros 20 mlynedd yn ôl ac nad oedd yn berthnasol â'u dyletswyddau presennol. Dywedodd y Pennaeth Personél bod polisi Swyddfa Cofnodion Troseddol y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol ond roedd yn cydnabod bod angen cymryd ymagwedd gytbwys. Cytunwyd y byddai'r ddwy ochr yn trafod y mater ymhellach ac, os oedd rhaid, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cyffredinol nesaf y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 p.m.

*********

**PWYLLGOR ARCHWILIO ADNODDAU**

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Iau, 5ed Gorffennaf 2007 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr G C Evans (Cadeirydd), R E Barton, J M Davies, G M Kensler a J A Smith ynghyd â’r Aelod Arweiniol dros Gyllid (Y Cynghorydd G O Rowlands) ar Aelod Arweiniol dros Bolisi, Cysylltiadau a Gwella (Y Cynghorydd S A Davies).

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Pennaeth Gwasanaethau’r Trysorlys a Chyfrifeg Ariannol (C Foulkes), Uwch Swyddog Personnel (G Humphreys), Swyddog Cefnogi Archwilio (J Curran) a’r Swyddog Gweinyddol (W J Harness).

**198 MATERION BRYS**

Doedd dim materion brys i’r Pwyllgor eu hystyried.

**199 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2007 (a rannwyd o’r blaen).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio Adnoddau a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2007 fel cofnod cywir.*

**200 ADRODDIAD AR YSTADEGAU STAFF 2006 / 07**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Personél (G Humphreys) adroddiad gan Bennaeth Personnel (a rannwyd o’r blaen) yn rhoi nifer o Ystadegau Staff ar gyfer 2006 / 07 i’r Aelodau. Gofynnodd i'r Aelodau nodi y cafwyd yr holl ddata yn yr adroddiad o system Wybodaeth Adnoddau Dynol (Trent) ac nid o’r Rhestr Gyflog fel ag o’r blaen. Dywedodd efallai na ellid cymharu’r data y tro yma gyda’r data ar gyfer y flwyddyn 2005 / 06.

Roedd yr ystadegau a gyflwynwyd i’r Aelodau ynghylch – niferoedd staff, proffil oedran, hyd gwasanaeth, rhyw, rhesymau dros adael, monitro cyfleoedd cyfartal, absenoldeb, rhesymau dros absenoldeb, absenoldeb tymor hir a byr a chwnsela. Sicrhaodd yr Uwch Swyddog Personél yr Aelodau fod y data a ddaeth o system Wybodaeth Adnoddau Dynol (Trent) yn ystod y chwe mis diwethaf yn sylweddol fwy cywir.

Wrth ystyried yr adroddiad dywedodd yr Uwch Swyddog Personol wrth yr Aelodau y datblygwyd fframwaith ar wahân ar gyfer ysgolion i reoli absenoldeb salwch tebyg i’r un sydd wedi’i sefydlu eisoes ar gyfer staff y Cyngor Sir. Fodd bynnag, nid yw’r fframwaith wedi’i chymeradwyo i’w defnyddio gan ysgolion

Yna trafododd yr aelodau’r materion penodol canlynol -

- Y dylid monitro’r cynnydd yn nifer y swyddi fel rhan o broses y gyllideb
- O ystyried llwyddiant Cynllun presennol yr Awdurdod, a ellid cyflogi ychwaneg o Brentisiaid Modern
- Y dylid annog y defnydd o gyfweliadau gadael, yn enwedig yn ysgolion yr Awdurdod

- A ddylai Personél Canolog gynhyrchu adroddiad ynghylch staff yn gadael yr Awdurdod, er mwyn nodi, fel rhan o gynllunio gweithlu, unrhyw 'fannau poeth' yn y Cyfarwyddiaethau

- Yr adolygiad presennol o'r gwasanaethau cefnogi fel rhan o agenda effeithiolrwydd yr Awdurdod

Yna gofynnodd yr Aelodau am yr wybodaeth bellach ganlynol -

- dadansoddiad o ystadegau athrawon mewn sectorau cynradd ac uwchradd

- dadansoddiad o wybodaeth ynghylch staff mewn ysgolion h.y. staff sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan gyrff llywodraethol ysgolion.

- cymhariaeth o'r lefelau o absenoldeb salwch yn ysgolion yr Awdurdod a'r rhai mewn awdurdodau cyfagos

- gosod colofn ychwanegol yn y tabl yn dangos y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch ac yn nodi'r nifer o staff gyda 100% o bresenoldeb

***PENDERFYNWYD -***

*(a)* *derbyn yr adroddiad; a*

*(b)* *cyflwyno diweddariad o'r Ystadegau Staff i'r Aelodau i'w hystyried yn eu cyfarfod ar 1 Tachwedd 2007 ac y dylai'r adroddiad gynnwys cyfeiriad at y meysydd canlynol -*

*(i) gwybodaeth ynghylch staff mewn ysgolion gan gynnwys dadansoddiad o'r ystadegau rhwng cynradd ac uwchradd, gan wahaniaethu rhwng y staff yn cael eu cyflogi gan y Cyngor Sir a'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan yr ysgolion.*

*(ii) gwybodaeth bellach ynghylch Cynllun Prentisiaeth Fodern yr Awdurdod gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer o brentisiaid modern a gyflogir;*

*(iii) gwybodaeth ynghylch y defnydd o weithdrefnau newydd ar gyfer cyfweliadau gadael ac os yn berthnasol, dadansoddiad yn ôl Cyfarwyddiaethau i asesu'r nifer a gynhaliwyd;*

*(iv) cynnwys mwy o destun gan Adeiniau Adnoddau Dynol Adrannau i egluro newidiadau arwyddocaol mewn lefelau staffio; a*

*(c)* *dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r adrannau Adnoddau Dynol yn y Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai a Dysgu Gydol Oes i'r cyfarfod ar 1 Tachwedd 2007.*

**201 CRONFA BENSIWN CLWYD 2005 / 06**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o'r blaen) a oedd – (a) yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch perfformiad Cronfa Bensiwn Clwyd ar gyfer 2005 - 06; a (b) yn gofyn am eu sylwadau ynghylch a oedd unrhyw broblemau y dylid eu trafod ymhellach gyda'r Pennaeth Pensiynau / Cronfeydd.

Ynghlwm wrth yr adroddiad oedd adroddiad blynyddol Cronfa Bensiwn Clwyd am y cyfnod 2005 / 06, yn hytrach na 2006 / 07 fel y nodwyd yn yr adroddiad, gyda manylion ynghylch cyfrifon y gronfa, cefndir buddsoddiadau'r gronfa a materion ynghylch Rheolaeth Gorfforaethol a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd R E Barton ynghylch cynrychiolwyr Sir Ddinbych ar Banel Pensiwn Clwyd, dywedodd y Cynghorydd G O Rowlands, er nad oedd y Cynghorydd G Pickering, aelod dirprwy'r awdurdod lleol, bellach yn aelod o'r Pwyllgor hwn, roedd Panel Pensiynau Clwyd wedi nodi eu dymuniad iddo ddal i barhau'n gynrychiolydd.

Yna rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Clwyd a chael ateb gan y swyddogion i'w gwahanol gwestiynau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton at, a chanmolodd, Wefan Cronfa Bensiwn Clwyd. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau y dylid sefydlu cyswllt rhwng y safle honno a gwefan yr awdurdod lleol.

Yna cyflwynodd y Cynghorydd G O Rowlands, cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Banel Pensiynau Clwyd, nodyn briffio yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar berfformiad Cronfa Bensiwn Clwyd. Cyfeiriai'r nodyn at effaith Safon Adrodd Ariannol 17, Perfformiad Buddsoddiadau 2005 / 06, Diweddariad Lefel Cyllid, Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth 2007, Adolygiad Cronfa 2006, Cysylltiadau, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2008 newydd, y ffaith fod y Gronfa wedi derbyn adroddiadau da oddi wrth yr archwilwyr mewnol ac allanol ac at y sioeau ffordd peilot a gynhaliwyd yn Sir Ddinbych.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Trysorlys a Chyfrifeg Ariannol wrth yr Aelodau fod y lefel gyllido a amcangyfrifir wedi cynyddu o 65% i 79% yn seiliedig ar y gwireddir rhagdybiaethau prisiant 2004 ond y bydd rhagdybiaethau newydd ar gyfer prisiant 2007, yn enwedig ynghylch hirhoedledd a llogau bondiau yn effeithio ar y lefel gyllido gyffredinol. Ychwanegodd fod y perfformiad buddsoddiadau yn ystod y cyfnod o dair blynedd wedi bod yn dda iawn ac ar y blaen i'r rhagdybiaethau a wnaed yn 2004.

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau'r Trysorlys a Chyfrifeg Ariannol at bwysigrwydd y prisiant actiwaraidd a oedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a sut oedd yr asedau'n cymharu ar 31 Mawrth 2007 â rhwymedigaethau'r dyfodol. Byddai'r prisiant hwnnw'n penderfynu ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr o 1 Ebrill 2008. Dywedodd y darperir Datganiad Strategaeth Gyllido ddiwygiedig ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer ymgynghori a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisiant actiwaraidd 2007.

Yna arweiniodd y Pennaeth y Gwasanaethau Trysorlys a Chyfrifeg Ariannol yr Aelodau trwy'r tabl, o Atodiad A i'r nodyn briffio a gyflwynwyd gan y Cynghorydd G O Rowlands, yn dangos dyraniad yr asedau i'r gwahanol ddosbarthiadau o asedau.

Wrth gloi, cytunodd yr Aelodau nad oedd, ar hyn o bryd, unrhyw fater ynghylch perfformiad y Gronfa y dylai Pennaeth Pensiynau Sir y Fflint dalu sylw iddynt. Gofynnodd y Cynghorydd R E Barton am rybudd o flaen llaw ynghylch pryd y byddai Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir y Fflint yn ystyried adroddiadau dwy flynedd y Gronfa Bensiwn.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad.*

**202 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad (a rannwyd o'r blaen) ynghylch rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Archwilio Adnoddau gan gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf a oedd ar gael ynghylch materion a amlygwyd o'r blaen gan y Pwyllgor.

Wrth ystyried y Rhaglen Waith cytunodd yr Aelodau y dylid ystyried yr adroddiadau ynghylch Goblygiadau Cynllunio ac ynghylch gweithrediadau'n codi o Adroddiadau Archwilio Mewnol yn eu cyfarfod ym mis Medi 2007.

Mewn ymateb i sylw'r Cynghorydd R E Barton, cytunodd y Swyddog Cefnogi Archwilio i holi Pennaeth yr Uned Polisi Strategol ynghylch cynnydd yr arolwg o is bostfeistri.

Dywedodd y Swyddog Cefnogi Archwilio wrth yr Aelodau fod y Cynghorydd R E Barton wedi mynychu cyfarfod cyntaf y Grŵp Aelodau Etholedig Rhiantu Corfforaethol ar 4ydd Gorffennaf, ar ôl mynegi diddordeb yng nghyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor mewn gwasanaethu ar y Grŵp hwnnw. Aeth y Cynghorydd R E Barton ymlaen i roi trosolwg byr i'r Aelodau o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw. Mynegodd y Cynghorydd G M Kenlser hefyd ddiddordeb mewn cynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth fer, cytunodd yr Aelodau i gadarnhau'r Cynghorydd R E Barton fel eu cynrychiolydd ar y Grŵp Aelodau Etholedig Rhiantu Corfforaethol.

Wrth ymateb i bryder y Cynghorydd R E Barton ynghylch y Gwasanaeth Prydau Ysgol, dywedodd y Swyddog Cefnogi Archwilio y byddai'r Gweithgor Prydau Ysgol yn cyfarfod cyn bo hir a bod Archwilio Mewnol wedi dechrau ar eu harchwiliad o'r gwasanaeth. Cytunodd yr aelodau i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn eu cyfarfod nesaf ym mis Medi 2007.

Gofynnodd y Cynghorydd G M Kensler am gyfle i'r Pwyllgor ystyried y pwysau cyllidebol mewn adrannau fel rhan o'r broses gosod cyllideb naill ai yn eu cyfarfod mis Medi neu fis Hydref 2007.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd R E Barton, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, cyn belled ag y gwyddai, nad oedd yr un awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru'n dymuno codi tâl am addysg ôl 16.

Hawl i Fasnachu – cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau'n paratoi adroddiad i'r Aelodau ei ystyried yn eu cyfarfod ym mis Hydref 2007.

'Hyrwyddwyr' y Sir - cytunwyd y byddai'r Swyddog Cefnogi Archwilio, trwy'r Grŵp Cadeiryddion Archwilio, yn codi'r mater o atebolrwydd 'Hyrwyddwyr' gyda'r Arweinydd.

Wrth ymateb i gwestiwn y Cynghorydd G M Kensler ynghylch cadw staff, atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau'r Aelodau y byddai adroddiad gan y Prif Weithredwr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ynghylch cyflogau'r Penaethiaid Gwasanaeth, yn ogystal â mater Statws Sengl.

Atgoffodd y Cynghorydd G O Rowland yr Aelodau fod y Strategaeth Effeithiolrwydd wedi'i hail ysgrifennu ac efallai y dymunai'r Aelodau ystyried y ddogfen ar ôl ei chyflwyno i'r Cabinet,.

***PHENDERFYNWYD -***

*(a) derbyn yr adroddiad;*

*(b) Cadarnhau'r Cynghorydd R E Barton fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Rhiantu Corfforaethol Aelodau Etholedig.*

*(c) Y dylai'r Aelodau derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Gwasanaeth Prydau Ysgol yn eu cyfarfod ym mis Medi 2007; a*

*(ch) Y dylai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau baratoi adroddiad ynghylch yr Hawl i Fasnachu i'w ystyried gan yr Aelodau yn eu cyfarfod ym mis Hydref 2007.*

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.

*********

## PWYLLGOR Y DREFN LYWODRAETHOL GORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Drefn Lywodraethol Gorfforaethol a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Ffordd Tŷ Nant, Prestatyn, dydd Mawrth, 10 Gorffennaf, 2007 am 9.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J. Butterfield (Cadeirydd), M. Ll. Davies, C.L. Hughes, N.J. Hughes ac R. Ll. Williams

**Arsyllwr:** Roedd y Cynghorydd R.E. Barton yn mynychu'r cyfarfod fel arsyllwr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Clerc y Sir, Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Y Swyddog Polisi Corfforaethol Perfformiad (N. Gribben) a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

Croesawodd y Cadeirydd Elaine McCarthy, Swyddog Gwasanaeth Busnes TGCh i'r cyfarfod. Roedd hi yn dilyn cwrs Gradd Meistr mewn Trefn Lywodraethol Gorfforaethol ac yn mynychu'r cyfarfod fel arsyllwr.

### YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr G.A. Jones a P.J. Marfleet
Yn ogystal, roedd Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi anfon ei ymddiheuriad.

### 203 MATERION BRYS

Yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bwriadu cynnwys y mater canlynol yr oedd angen rhoi sylw ar fyrder iddo, er mwyn iddo gael ei drafod:-

Cymorth Ariannol – Pobl Ifanc gyda Galluoedd Arbennig mewn Chwaraeon

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr yr oedd wedi ei dderbyn gan gyd-gynghorydd a oedd yn tanlinellu'r angen i roi cymorth ariannol i athletwyr ifanc dawnus ac am yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth yr holl gynghorwyr am hyn. Cytunai hi bod hwn yn fater y dylid ei danlinellu. Awgrymodd y Cynghorydd C.L. Hughes y gellid penodi aelod i hyrwyddo chwaraeon. Awgrymodd Clerc y Sir y dylid cyfeirio'r mater i sylw'r Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc ac y gallai'r Pwyllgorau Dysgu Gydol Oes, Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Archwilio Tai hefyd fod â diddordeb.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai:-*

*(a) mater cynnig cymorth ariannol i bobl ifanc gyda galluoedd arbennig ym myd chwaraeon gael ei gyfeirio i sylw'r Cynghorydd M.A. German, Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, a*

*(b) gwneud y Pwyllgorau Dysgu Gydol Oes, Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Archwilio Tai yn ymwybodol o'r diffyg cefnogaeth ariannol yn y maes hwn.*

### 204 COFNODION

Cafodd cofnodion Pwyllgor y Drefn Lywodraethol Gorfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2007 [a ddosbarthwyd ymlaen llaw] eu cyflwyno:-

Materion yn Codi –

Tudalen 2 – Eitem Rhif 3 Materion Brys: Darpariaeth Chweched Dosbarth, Ysgol Uwchradd Y Rhyl – Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi wedi derbyn adroddiad Cambridge Education ynghyd â manylion am yr amserlen ymgynghori ac awgrymodd y dylai'r aelodau gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes os oeddent yn dymuno cael copi o'r dogfennau. Yn ogystal, eglurodd, yn groes i'r hyn a geid yn y cofnodion, nad oedd, hyd yn hyn, ymgynghori wedi bod gyda chynghorwyr Cyngor Tref Y Rhyl ynghylch y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Y Rhyl, ac mai cyfarfod cydgyswllt gyda chynghorwyr sir oedd yr un y cyfeiriwyd ato gan y Cynghorydd D. Owens.

Tudalen 3 - Eitem Rhif 5 : Adroddiad Perfformiad Archwiliad Ariannol 2006-07 - Wrth iddo nodi lefelau absenoldeb isel ar sail iechyd yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, adroddodd y Cadeirydd am y defnydd o ‘ddyddiau carthen’ fel ffordd o ddelio gydag absenoldeb ar sail iechyd, a bod y drefn honno wedi llwyddo mewn awdurdodau eraill trwy ganiatáu i’r amser gael ei dynnu o hawliant gwyliau blynyddol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2007 a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**205 MONITRO CANLYNIADAU’R CYNLLUN RHEOLEIDDIO**

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Corfforaethol Perfformiad adroddiad [a ddosbarthwyd ymlaen llaw] yn ceisio cael yr aelodau i adolygu’r cynnydd oedd yn cael ei wneud yn erbyn argymhellion yr archwiliad ariannol allanol. Roedd manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Rheoleiddio 2006/07 (Atodiad 1); Cynllun Rheoleiddio 2005/06 (Atodiad 2), a’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a ddeilliodd o archwiliadau ac arolygiadau ar Gynlluniau Rheoleiddio blaenorol (Atodiad 3) ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd yr aelodau wedi cytuno, yn ystod eu cyfarfod ar 29 Mawrth 2006, i fonitro’r argymhellion oedd yn codi o adroddiadau archwilio allanol.

Atgoffwyd yr aelodau bod y Cynllun Rheoleiddio yn seiliedig ar Gyd-Asesiad Risg, bod Swyddfa Archwilio a’r Awdurdod wedi cytuno arno a’i fod yn cynnwys manylion am yr arolygiadau allanol a’r archwiliadau oedd i’w cynnal yn ystod y flwyddyn ddilynol. Cyflwynodd y Swyddog Polisi Corfforaethol drosolwg byr o’r cynnydd a wnaed ers yr adroddiad diwethaf yn Ionawr 2007 gan dynnu sylw’r aelodau, y benodol, at swyddogaeth yr aelodau yn y dasg o sicrhau gwelliant yn y gwasanaethau. Dywedodd hefyd bod hyn wedi ei drafod gan y Cyngor Sir ar 27 Mehefin ac y byddai’r pwyllgor hwn yn ei drafod ymhellach ym mis Hydref. Yn ogystal, dywedodd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â Rheolaeth Gwastraff, Caffaeliad, ac Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach er mwyn sicrhau bod 100% o’r argymhellion yn cael eu gwireddu o fewn amser rhesymol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M. Ll. Davies, eglurodd y Swyddog Polisi Corfforaethol bod y Cynllun Rheoleiddio yn rhedeg o Ionawr i Ionawr ym mhob blwyddyn a chytunodd i ddiwygio adroddiadau’r dyfodol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r adroddiad a’r cynnydd a wnaed yn erbyn adroddiadau archwilio allanol a chodwyd y materion canlynol:-

**Atodiad 1 - Cynllun Rheoleiddio 2006/07**

Proses Asesiad Risg 2007/08 ar gyfer Arolygu ac Archwilio – Teimlai’r Cadeirydd bod y sesiwn hyfforddiant flaenorol ar Asesu Risg wedi bod yn dra gwerthfawr ac awgrymodd y dylid cael rhagor o hyfforddiant er mwyn i’r aelodau fod yn ymwneud mwy â’r broses. Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol am y cyfarfodydd asesiad risg oedd i’w cynnal yn ystod yr haf ac awgrymodd y dylid cynnal sesiwn ym Medi er mwyn sicrhau mewnbwn yr aelodau i’r broses gyfan. Yn ogystal, awgrymodd y gallai archwilwyr allanol fod yn rhan o’r drefn honno. Er mwyn annog yr aelodau i fod yn bresennol, awgrymodd y Cynghorydd R. Ll. Williams y dylid cynnal y sesiwn ar ôl cyfarfod o’r Cyngor Sir neu’r Pwyllgor Cynllunio.

Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru – Dywedodd y Swyddog Polisi Corfforaethol bod Rheolwr yr Uned Bolisi Strategol yn adrodd i’r Cabinet bob chwarter a chadarnhaodd bod y gwaith archwilio hwn i gychwyn ym Medi 2007 wedi i gytundeb rhwng pob un o’r chwech awdurdod yng Ngogledd Cymru gael ei sicrhau.

Tai, Digartrefedd ac effaith poblogaeth dros dro – Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod y cyfarfod dadansoddi’r mater wedi ei drefnu ar gyfer 21 Mehefin. Oherwydd y wasgfa ar amser, nid oedd canlyniadau’r dadansoddiad ar gael i’w cynnwys yn adroddiad heddiw. Teimlai’r pwyllgor bod effaith y boblogaeth dros dro yn fater o bwys a bod angen rhoi sylw digonol iddo fel rhan o’r gwaith archwilio. Gofynnodd y Cynghorydd C.L. Hughes am i effaith y boblogaeth dros dro gael ei gynnwys fel rhan o’r gwaith archwilio ac ychwanegodd y Cynghorydd R.E. Barton y dylai preswylwyr parciau carafannau hefyd gael eu hystyried. Gofynnodd y Cadeirydd am i ganlyniadau cyfarfod dadansoddi’r mater hwn gael eu hadrodd yn ôl i’r aelodau fel y gallant ystyried briff y prosiect.

Dilyniant i astudiaethau blaenorol - Mewn ymateb i gwestiwn o'r Gadair, dywedodd y Swyddog Polisi Corfforaethol y byddai'r pwyllgor yn derbyn adroddiad am ganlyniadau'r gwaith dilynol ac y byddai hwnnw'n cael ei rannu, hefyd, gyda Phwyllgor Archwilio'r Amgylchedd.

**Atodiad 2 – Pwyllgor Rheoleiddio 2005/06**

Y Cyfleustodau Ffocws Effeithlonrwydd - Pwysleisiodd y Pwyllgor bod rheolaeth ynni yn fater o bwys a chytunodd y Swyddog Polisi Corfforaethol i ddod â'r mater i sylw Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd. Cyfeiriodd y Cynghorydd R. Ll. Williams at yr angen i arbed ynni yn adeiladau'r Cyngor a dywedodd Clerc y Sir bod rhybudd wedi ei anfon i'r holl aelodau staff er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r mater hwn. Nododd y Cadeirydd mai dim ond yn rhannol y gweithredwyd ar chwech o'r argymhellion gan ddweud ei bod yn bwysig i'r pwyllgor barhau i fonitro ac arfarnu arbedion ynni yn eu hadroddiadau yn y dyfodol.

Monitro'r Cynnydd ar Ganolfan Alwadau Gwasanaethau Amgylcheddol – Teimlai'r Cadeirydd bod Canolfan Alwadau'r Cyngor yn gweithio'n arbennig o dda. Mynegodd y Cynghorydd R.E. Barton bryder am nad oedd cwynion, mewn rhai achosion, yn cael sylw oddi mewn i'r fframwaith amser a luniwyd ar gyfer delio gyda materion o'r fath. Dywedodd Clerc y Sir bod rhai agweddau y gellid gwella arnynt ond bod cynnydd yn cael ei fonitro ac yn cael sylw a'i fod yn dangos gwelliant parhaus. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Polisi Corfforaethol wirio bod y protocol ar gyfer delio gyda chwynion yn cael ei fonitro'n effeithiol mewn perthynas â'r graddfeydd amser dynodedig.

**Atodiad 3 – Gwaith Rheoleiddio Blaenorol**

Yr Agenda Rheolaeth Gwybodaeth a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Ymatebodd Clerc y Sir i gwestiynau'r aelodau mewn perthynas ag argymhellion archwiliadau gan gadarnhau bod yr awdurdod eisiau i'r holl wybodaeth sydd yn cael ei chadw gael ei harenwi, a bod gwneud hynny yn dasg enfawr. Adroddodd am yr anawsterau a wynebid wrth geisio paratoi cynllun dosbarthiad syml oherwydd ystod y gofynion am wahanol fathau o wybodaeth. Roedd cais wedi ei gyflwyno mewn perthynas ag Archwiliad Gwybodaeth a byddai hynny'n cael ei ystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill y Cyngor.

Archwiliad Estyn o'r Ddarpariaeth i Bobl Ifanc – mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd C.L. Hughes mai dim ond yn rhannol yr oedd argymhellion wedi eu cwblhau, dywedodd y Swyddog Polisi Corfforaethol y byddai Estyn yn mynd ar ôl yr argymhellion hynny.

Tai - Digartrefedd - R1.3 Datblygu Strategaeth Eiddo Gwag - Mynegodd y Cynghorydd R. L. Williams bryder ynghylch gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer delio gydag eiddo gwag, gan ddweud bod sawl eiddo wedi bod yn wag am flynyddoedd. Mynegodd aelodau eu cefnogaeth i'r pryderon a fynegwyd, gan gynnig enghreifftiau o'r eiddo gwag yn eu wardiau hwy eu hunain, gan gynnwys rhai oedd yn eiddo i'r Cyngor ac i berchnogion preifat. Teimlai'r Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol llunio adroddiad am yr eiddo gwag oedd yn perthyn i'r Cyngor ac adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda'r fath eiddo. Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol y dylai'r mater gael ei ystyried wrth i Gynllun Archwilio Blynyddol 2008/2009 gael ei lunio. Dywedodd y Cynghorydd M.Ll. Davies ei fod wedi codi mater eiddo gwag gyda Phwyllgor Archwilio'r Amgylchedd a'i fod ef yn teimlo y dylid cynnwys tai preifat yn ogystal.

Cytunodd y Swyddog Polisi Corfforaethol, hefyd, i wneud ymholiadau pellach mewn perthynas â:-

Cyd Adolygiad – Dilyniant i'r Cynllun Gweithredu – Sicrhau Gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol
Rheolaeth Gwastraff – R7 newidiadau yr oedd angen eu cwblhau yng ngogledd y Sir
Tai – Digartrefedd – R1.2 Sefydlu Aelodaeth y Gweithgor.

***PENDERFYNWYD** y dylid:-*

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) trefnu sesiwn Asesu Risg i'r holl aelodau ym Medi 2007 i sicrhau mewnbwn yr aelodau i'r broses asesu risg;*

*(c) adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am gasgliadau'r dadansoddiad a wnaed mewn perthynas â Thai, Digartrefedd ac Effaith Poblogaeth Dro, ac y dylid*

*(ch) ystyried cynnwys adroddiad am yr eiddo gwag sydd ym mherchnogaeth y Cyngor ac adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda'r eiddo hwnnw yn y Cynllun Archwilio Blynyddol nesaf yn 2008/09.*

**206 CYNNYDD GYDA'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL AR GYFER 2007/08**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn diweddaru gwybodaeth yr aelodau am gynnydd yr Adran Archwilio wrth iddi gwblhau ei rhaglen waith flynyddol. Roedd cytundeb am y Cynllun Archwilio Blynyddol wedi'i sicrhau yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym Mawrth 2007.

Adroddodd Pennaeth Y Gwasanaethau Archwilio Mewnol bod cynnydd hyd yma yn cadw at y sgediwl gyda 27% o'r cynllun wedi'i gwblhau yn erbyn targed o 80% erbyn 31 Mawrth 2008. Cyfeiriodd at y prif feysydd oedd i gael eu harchwilio yn ystod 2007/08 ac at statws y gwahanol aseiniadau fel roedd y sefyllfa'n bodoli ar 25 Mehefin 2007 (Mae Tabl 1 yr adroddiad yn cyfeirio at hwn).

Roedd yr aelodau yn falch o nodi'r cynnydd a wnaed a bod y Cynllun Archwilio Blynyddol ar y targed. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar eu gwaith gwerthfawr. Nodwyd y bydd Trwyddedu yn cael ei archwilio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oherwydd y trefniadau cydweithredu a sefydlwyd a thrafododd y pwyllgor y budd oedd yn deillio o weithio ar y cyd i ddibenion archwilio. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol y byddai'r awdurdod yn dechrau cydweithio ar brosiectau penodol gydag awdurdodau eraill yn y dyfodol agos. Yr oedd lle i amau a fyddai dynesiad o'r fath yn arwain at arbedion mewn costau.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn yr adroddiad ac y dylid nodi'r cynnydd da a wnaed hyd yma o safbwynt cwblhau'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2007/08.*

**207 GWEITHREDU ARGYMHELLIAD YR ARCHWILIAD MEWNOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad [a ddosbarthwyd ymlaen llaw] yn gofyn i'r aelodau adolygu lefel gweithrediad argymhellion gwelliant y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Roedd dilyniant i adolygiadau ar argymhellion allweddol yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu gweithredu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tabl [Atodiad 1] oedd yn dangos nifer yr argymhellion y gweithredwyd arnynt ym mhob maes gwasanaeth nad oedd eto wedi sicrhau cydymffurfiad 100%. Yn gyffredinol, roedd gwasanaethau wedi gweithredu 90.6% o'r argymhellion o'i gymharu â graddfa cydymffurfio o 90% ers yr adroddiad diwethaf yn Ebrill 2007, gan amlygu gwelliant bach mewn perfformiad. Yr amcan oedd sicrhau bod o leiaf 90% o'r argymhellion allweddol wedi eu gweithredu erbyn y dyddiad dan sylw ar unrhyw adeg. Bydd Archwilio Mewnol yn trefnu ymweliadau dilynol ychwanegol i'r gwasanaethau hynny a restrir yn yr adroddiad. Os na fydd argymhellion wedi eu gweithredu erbyn y trydydd ymweliad, bydd adroddiad am hynny yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y gwasanaethau hynny a oedd wedi llwyddo i sicrhau cydymffurfiad 100% gyda'r argymhellion archwilio ers yr adroddiad diwethaf.

Nododd yr aelodau bod cynnydd da, yn gyffredinol, wedi ei wneud gan y gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion yr archwilwyr. Mynegwyd pryderon mewn perthynas â'r archwiliad ar Deithio a Chynhaliaeth a oedd yn cael sylw mewn adroddiad ar wahân ymhellach ymlaen yn yr agenda er mwyn iddo gael sylw.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth am y cynnydd a wnaed ac y dylid nodi cynnydd yng ngweithrediad yr Archwilio Mewnol ar gyfer gwella'r gwasanaethau.*

**208 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2007/08**

Cyflwynodd Clerc y Sir adroddiad [a ddosbarthwyd ymlaen llaw] yn amlinellu rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer 2007/08. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod y rhaglen yn hyblyg ac y gellid ei diwygio pan ac os byddai angen am hynny.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo'r rhaglen waith fel y caiff ei chynnwys yn yr adroddiad.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem/au busnes canlynol ar y sail y byddai eu presenoldeb yn debygol o arwain at ddatgeliad gwybodaeth eithriedig fel y caiff honno ei diffinio ym Mharagraff 12, Rhan 4 Sgediwl 12 A y Ddeddf.*

**209 CRYNODEB O'R ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL A GYHOEDDWYD**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol [a ddosbarthwyd ymlaen llaw] yn crynhoi'r farn archwilio, y casgliadau allweddol a'r argymhellion oedd yn deillio o'r aseiniadau archwilio ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Roedd yr aelodau eisoes wedi derbyn adroddiadau archwilio cryno ac wedi cael cyfle i godi cwestiynau yn eu cylch. Roedd aseiniadau archwilio wedi eu cwblhau mewn perthynas â Theithio a Chynhaliaeth a Rheolaeth Gwastraff.

**3.1 Teithio a Chynhaliaeth**

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol grynodeb byr o'r prif gasgliadau ac roedd yr aelodau yn siomedig ac yn bryderus oherwydd bod yr un problemau ag a welwyd mewn archwiliadau blaenorol yn parhau i gael eu harenwi. Ar waethaf y ffaith bod nifer dda o staff wedi mynychu sesiynau hyfforddi, dim ond gwelliant bach a welwyd ers adolygiad llynedd. Yn ogystal, teimlai'r aelodau nad oedd y staff rheolaethol yn trin y mater yn ddigon trylwyr. Trafododd yr aelodau ddulliau o roi sylw i'r mater a chyfeiriwyd at system feddalwedd y gellid ei defnyddio fel dull hyfforddi i helpu'r staff i ddeall polisïau'r Cyngor ac y gydymffurfio gyda nhw. Wrth nodi y gallai mabwysiadu'r meddalwedd olygu cost arwyddocaol, pwysleisiodd yr aelodau yr angen am ddatrysiad i'r problemau cyfredol a theimlid bod angen rhagor o ymchwilio i'r mater hwn. Dywedodd Clerc y Sir bod y Pwyllgor Archwilio Adnoddau wedi gwneud cais am i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau roi ystyriaeth i ddulliau priodol o sicrhau bod cadw at bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ac awgrymwyd y gallai Teithio a Chynhaliaeth gael ei gynnwys yn y gwaith hwnnw. Mynegwyd pryder, hefyd, ynghylch y drefn godio ar gyfer TAW a dywedodd y Cynghorydd R.E. Barton bod y mater hwnnw wedi ei grybwyll yn y Pwyllgor Archwilio Adnoddau.

**3.2 Rheolaeth Gwastraff**

Dywedwyd wrth yr aelodau bod adolygiad wedi ei wneud gan Deloitte & Touché a oedd wedi dod i'r casgliad, er bod system gadarn o reolaeth fewnol yn bodoli, bod gwendid a diffyg cydymffurfio gyda rhai agweddau. Mewn ymateb i bryderon yr aelodau, sicrhaodd Clerc y Sir y pwyllgor y byddai ef, yn bersonol, yn edrych i mewn i'r mater mewn perthynas â'r contract a arwyddwyd. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol y byddai dilyniant i'r argymhellion ym Medi.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) y dylid derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn adrodd yn ôl i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol am y meddalwedd sydd ar gael i hyfforddi staff am faterion polisi, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, ac os yn bosibl yn trefnu i'r meddalwedd hwnnw gael ei arddangos;*

*(c) y dylid cyfleu pryderon y pwyllgor am y materion allweddol a'r diffygion a nodwyd yn yr adolygiad ar Deithio a Chynhaliaeth i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau [Swyddog S.151] gyda chais am iddo gynnwys, fel rhan o'i waith i'r Pwyllgor Archwilio Adnoddau, faterion yn ymwneud â Theithio a Chynhaliaeth, ac*

*(ch) y dylai casgliadau'r gwaith hwnnw a sut y maent i gael eu gwireddu gael eu cyflwyno i'r pwyllgor er mwyn iddynt gael eu hystyried.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 a.m.

******

## PWYLLGOR ARCHWILIO GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Nant, Prestatyn Ddydd Iau 12fed Gorffennaf 2007 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr T. K. Hodgson (Cadeirydd), J. Chamberlain Jones, N. Hugh Jones, T R Hughes ac M A Webster.

Roedd y Cynghorwyr R E Barton ac M. A. German hefyd yn bresennol fel arsyllwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Datblygu a Chefnogi Busnes, Swyddog Cefnogi Archwilio (J. Curran) a Chlerc y Pwyllgor (Mrs. J. V. Pring). Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Tai'n bresennol yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod.

### YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr D. Hannam a J. A. Smith

### CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd N. Hugh Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Hefyd croesawodd Kevin Hughes a Mr Alyn Edwards o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

### 210 MATERION BRYS

Doedd yna ddim materion brys.

### 211 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion a gynhaliwyd ar y 14eg Mehefin 2007 :-

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Mehefin 2007.*

<u>Materion yn codi</u>

Tudalen 7 (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) - Mewn ymateb i gais am eglurhad, cyflwynodd y Cadeirydd amlinelliad bras o'r trafodaethau a gafwyd rhwng Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd â Chlerc y Sir.

### 212 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU – MATERION LLEIHAU RISG

Diolchodd Mr Kevin Hughes, Uwch Reolwr Diogelwch Tân gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, i'r Aelodau am y gwahoddiad i annerch y Pwyllgor. Cyflwynodd drosolwg bras o'r gwasanaeth gan nodi mai'r amcan oedd cynnig gwasanaeth proffesiynol, effeithlon ac effeithiol i'r holl gymunedau led led Gogledd Cymru.

Er bod nifer y marwolaethau o ganlyniad i danau wedi gostwng yng Ngogledd Cymru dros nifer o flynyddoedd, roedd yna nifer annerbyniol o uchel wedi eu cofnodi ers Ebrill 2006. O'r herwydd lansiwyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac atal tân yn y cartref a mynegodd Mr Williams ei werthfawrogiad o'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan asiantaethau partner.

Roedd y canolbwynt wedi bod ar faterion yn ymwneud â ffordd o fyw ac roedd profion diogelwch yn cael eu cynnig i'r holl drigolion er mwyn asesu diogelwch tân yn eu cartrefi ac, os byddai angen, gosod larwm mwg am ddim. Roedd dros 30% o'r profion hyn wedi eu cyfeirio trwy asiantaethau.
Cyflwynodd Mr Alyn Edwards, Rheolwr Diogelwch y Sir yn Sir Ddinbych, gyflwyniad PowerPoint i egluro strwythur a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth ac i arddangos ffyrdd o weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i sicrhau amgylchedd mwy diogel i bawb. Yn benodol fe gyfeiriodd at bedwar maes lle gellid

gwella perfformiad a gweithio mewn partneriaeth i wneud Sir Ddinbych yn lle mwy diogel i fyw, hynny yw:-

- Holl gleientiaid y gwasanaethau cymdeithasol i gael Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref
- Holl Stoc Tai Cyngor Sir Ddinbych i gael ei gynnwys mewn rhaglen o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref
- Dylai unrhyw eiddo sydd i'w ddefnyddio i ddarparu llety parhaol neu dros dro gan Gyngor Sir Ddinbych gael Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref
- Cynnwys Ffurflen Asesiad Unedig yn rhan un.
- Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai y dylai pob ymgeisydd am wasanaethau 'lifeline' gael eu cyfeirio hefyd am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref. Cytunodd yr aelodau y dylid dal i geisio gwella gweithio mewn partneriaeth.

Cododd aelodau nifer o faterion gyda'r swyddogion Tân, gan gynnwys:-

- darparu systemau ysgeintio mewn Tai Gofal Ychwanegol,
- gweithio gydag ysgolion i addysgu disgyblion am ddiogelwch tân,
- parcio anaddas yn ei gwneud yn anodd cael mynediad,
- problemau mewn wardiau gwledig wrth geisio canfod eiddo trwy'r system côd post,
- diffyg ymgynghori gyda, a mewnbwn gan, y Gwasanaeth Tân wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Awgrymodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai na fyddai pob Defnyddiwr Gofal Cymdeithasol o reidrwydd eisiau prawf felly byddai angen penderfynu ynghylch dewis personol.

Wrth gau'r cyflwyniad diolchodd Mr Edwards i swyddogion am eu help a'u cefnogaeth gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD**:*

*(a) y dylai'r cyflwyniad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gael ei dderbyn a bod y Pwyllgor i adolygu'r cynnydd ar y pedwar maes lle dynodwyd yr angen am weithio gwell mewn partneriaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac*

*(b) ystyried ymhellach sylwadau'r Gwasanaeth Tân ynghylch ceisiadau Cynllunio.*

**213 AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion adroddiad, a rannwyd o'r blaen, yn hysbysu Aelodau o ganlyniad ymweliadau archwilio diweddar gan AGGCC â Gwasanaethau Preswyl a Chartref Sir Ddinbych.

<u>Cartrefi Preswyl</u>
Y Cartref cyntaf i gael ei archwilio yn y flwyddyn bresennol oedd Llys Nant ym Mhrestatyn ac mae copïau o'r cynllun gweithredu wedi ei atodi i'r prif adroddiad er gwybodaeth. Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gofal a'r gefnogaeth a gynigir i drigolion. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa, wrth baratoi ar gyfer y Datblygu Gofal Ychwanegol yn Llys Nant, nad oedd unrhyw un yn cael ei dderbyn yn barhaol erbyn hyn. Yn dilyn adolygiad diweddar, roedd wedi bod yn bosibl symud y trigolion oedd ar ôl i'r tri llawr, gan adael yr adain ychwanegol yn wag a thrwy hynny ostwng y lefelau staffio.

Roedd yna nifer o gyfeiriadau yn yr adroddiad at y datblygiad o Ofal Ychwanegol a dywedwyd wrth yr Aelodau bod y trigolion, eu teuluoedd a'r staff i gyd wedi cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd briffio er mwyn cyflwyno'r cysyniad ac i roi'r newyddion diweddaraf ynglŷn â'r datblygiad ym Mhrestatyn. Roedd dau o'r trigolion wedi dweud y bydden nhw'n ystyried symud i Gartref Gofal Ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J Chamberlain Jones, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion bod gwelyau'n dal i gael eu darparu ar gyfer gofal seibiant. Cadarnhaodd y swyddog hefyd y byddai'r cynnig i ddatblygu 61 o Unedau Gofal Ychwanegol ar y safle yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr Hydref. Yn dilyn cais gan Aelodau cytunwyd y trefnir i ymweld ag Uned Dai

Gofal Ychwanegol sydd eisoes yn bodoli. Wrth gyfeirio at ddyrannu'r Unedau, mynegodd y Cynghorydd J Chamberlain Jones bryder y byddai pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael blaenoriaeth dros rai â phroblemau iechyd llai difrifol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai rhai o'r rheiny fyddai'n cael lle yn yr unedau ag anghenion iechyd meddwl ond cytunodd y byddai angen sicrhau cydbwysedd. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio y byddai trafodaethau pellach ar y mater hwn yn cael eu croesawu.

Gofal Cartref

Cafodd Gofal Cartref ei archwilio rhwng 10fed Awst a'r 22ain Medi 2006 ac roedd copi o'r adroddiad dilynol a'r Cynllun Gweithredu cyfatebol wedi'i atodi er gwybodaeth i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o ymarfer da ac yn dangos meysydd lle gellir gwella. Roedd y meysydd oedd angen eu datblygu ymhellach yn cynnwys materion ynghylch hyfforddi a goruchwylio a byddai'r rhain yn cael sylw dyledus.

Roedd cynllun newydd ynghylch cefnogi oedolion bregus wedi ei gofrestru'n ffurfiol gyda AGGCC. Roedd yn cynnwys trefniant lle byddai oedolion ag anawsterau dysgu yn byw yng nghartref gofalwyr mewn oed, tebyg i drefniant gofal maeth i oedolion. Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth yn benodol berthnasol i'r pedwar trefniant sydd mewn bodolaeth ar hyn o bryd ond y bwriad yw ehangu'r cynllun yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd cadarnhawyd y byddai'r cynllun yn gost effeithiol ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol yn y tymor hirach.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad ac y dylid gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio drefnu ymweliad â datblygiad Tai Gofal Ychwanegol.*

## 214 GOFAL IECHYD PARHAUS

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddiweddariad llafar ynghylch y ddadl ynglŷn â Gofal Iechyd Parhaus. Eglurodd bod Gofal Iechyd Parhaus yn ddarpariaeth gofal iechyd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rhai ag anghenion dwys a chymhleth iawn y tu allan i ofal ysbyty.

Cytunwyd ar y meini prawf cymhwyster tua 10 mlynedd cyn hyn ond ers yr adeg hynny mae'r diffiniad o ofal iechyd wedi newid ac roedd yna bryder bod yr Awdurdodau Lleol yn ariannu gwasanaethau nyrsio y tu allan i'w pwerau. Roedd dedfrydau cyfreithiol wedi darganfod bod y meini prawf a ddefnyddiwyd yn cynnwys diffygion ac nad oedden nhw'n adlewyrchu'r ffaith y dylai'r rhai ag anghenion iechyd sylfaenol gael eu hariannu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r dehongliad a'r cymhwysiad led led Cymru o Ofal Iechyd Parhaus yn amrywio ac wedi arwain at anghytundebau rhwng Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac achosion o annhegwch. Cyflwynwyd copïau o nodiadau o gyfarfod rhwng Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â chopïau o'r Canllawiau ar gyfer dynodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol. Cafodd gwaith sylweddol ei wneud gan Benaethiaid y Gwasanaethau i gynhyrchu dogfen ganllaw ar gyfer staff a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion gan gyfeirio ar yr ymdrechion i gytuno ar y ffiniau rhwng nifer o gategorïau. Roedd rhaid delio gyda rhai materion anodd o ran y goblygiadau a'r risgiau sy'n cael eu rhoi ar gyllidebau iechyd a'r posibilrwydd o oblygiadau negyddol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

Trefnwyd cyfarfod ar gyfer Gorffennaf 18fed i gau pen y mwdwl ar Feini Prawf Cymhwyster Gogledd Cymru a byddai Canllaw'r Awdurdod Lleol yn cael ei weithredu ym Mis Hydref 2007. Cytunwyd y byddai adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y man.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r adroddiad llafar gael ei dderbyn ac y dylai'r eitem gael ei chynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor.*

## 215 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Swyddog Cefnogi Archwilio adroddiad, gafodd a rannwyd o'r blaen, ynghylch materion y dylid ystyried eu cynnwys ar raglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol. Roedd copi o'r Rhaglen Waith wedi ei atodi i'r adroddiad.

Nododd aelodau'r yr hyn yr awgrymir yn yr adroddiad ei ychwanegu at neu ei dynnu o'r rhaglen.
Roedd yr adroddiad ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi'i ohirio hyd nes ceir trafodaeth lawn gyda Thîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Sir Ddinbych. Roedd y strategaeth wedi cael ei

gynhyrchu mewn cydweithrediad gyda nifer o sefydliadau partner a'r strategaeth weithredol drafft wedi cael ei ddosbarthu i Aelodau er gwybodaeth ar yr adeg yma. Mynegodd y Gadair amheuon dybryd ynglŷn â'r gohirio gan ei fod yn teimlo y dylai'r pwnc gael gwell sylw. Gofynnodd i grynodeb y Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau gael ei ystyried gan y Tasglu a archwiliodd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn y lle cyntaf.

**Materion Cyfredol**

– Brighton Road

Roedd y gwaith ar amser i'w gwblhau erbyn diwedd Awst 2007 a byddai'n barod i'w ddefnyddio yn ystod Mis Medi. Dywedodd y Pennaeth Busnes a Datblygu yr ymdrechir i wneud y derbynfeydd cyhoeddus yn fannau dymunol ac addas ar gyfer darparu gwasanaethau da i'r cwsmer.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Gadair cadarnhaodd swyddogion bod yna 120 o lefydd parcio erbyn hyn gyda 50 yng nghefn safle St Winifred. Atgoffodd y Cynghorydd J Chamberlain Jones y swyddogion o'i phryderon bod y chwilio am safle amgen i St. Winifred wedi cael ei yrru gan yr angen am lefydd parcio yn Brighton Road ac roedd yn teimlo erbyn hyn bod y gofidiau hynny wedi cael eu cyfiawnhau. Roedd yn teimlo'n gryf na ddylai coed, llwyni a bywyd gwyllt gael eu lladd dim ond er mwyn darparu mannau parcio ychwanegol.

Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod rhaid dod o hyd i ateb i'r mater o barcio ceir ond nad oedd hynny wedi bod yn ffactor wrth adleoli'r gwasanaethau yn St Winifred i TocH. Ychwanegodd y Cadeirydd bod y penderfyniad i symud o St Winifred wedi'i seilio ar gyflwr gwael yr adeilad a'r angen i ddod o hyd i adeiladau addas eraill. Roedd adleoli'r gwasanaethau i Brighton Road wedi cynnig cyfle unigryw i ddod â staff at ei gilydd a byddai wedi bod yn ffôl i'w wrthod.

- Aberchwiler

Cynhaliwyd y prynhawn Agored ar y 5$^{ed}$ Gorffennaf a dangosodd yr adborth bod y staff a defnyddwyr y gwasanaeth yn fodlon iawn â'r gwelliannau. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r safle a'i fod wedi ei blesio'n arw. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod angen hyrwyddo'r cyfleusterau er mwyn denu mwy o fusnes.

Mynegodd y Cadeirydd ei bryderon nad oedd gwahoddiadau i fynychu'r Diwrnod Agored wedi eu hanfon at yr Aelodau hynny oedd yn wreiddiol wedi tynnu sylw ar y problemau yn Aberchwiler. Ymddiheurodd swyddogion gan nodi bod yr amryfusedd wedi digwydd o ganlyniad i gamddealltwriaeth. Cymeradwyodd y Cynghorydd J Chamberlain Jones lwyddiant yr Archwiliad presennol wrth gael ymateb positif i faterion y tynnwyd sylw atyn nhw gan Ymweliadau Rota'r Aelodau. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio ei fod wedi anfon e-bost at Aelodau'r bore hwnnw yn awgrymu aildrefnu ymweliad ar y 15$^{fed}$ neu'r 22$^{ain}$ Awst.

- Cofrestr Tai

Cofnodwyd bod yr adran wedi derbyn 127 cais newydd am dai yn ystod Mis Mehefin. Roedd y rhain i gyd bellach wedi eu cofnodi a'u harolygu er mwyn defnyddio llwybr carlam ar gyfer achosion difrifol, Ond roedd yr Uwch Gynorthwyydd Clerigol wedi gadael yr Awdurdod yn ddiweddar, felly, er bod staff asiantaeth wedi ymgymryd â'r gwaith, nid yw'r adain yn gallu troi cymaint o waith wrth ddisgwyl am benodi a hyfforddi olynydd parhaol.

- Dolwen

Yn dilyn y pryderon a leisiwyd yng nghyfarfod Mis Mai, roedd yr Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi talu ymweliad ag ardal Cartref Pobl Hŷn a Chanolfan Ddydd Dolwen yn Ninbych i asesu'r pryderon ynghylch y traffig ac anfonwyd argymhellion ar gyfer talu sylw i hyn i'w hystyried gan y Gwasanaethau Archwilio.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhaglen Waith yn cael ei chymeradwyo a bod y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau yn cael eu nodi.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.

*********

**CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL LLEOL**

Cofnodion cyfarfod arbennig o Gydbwyllgor Ymgynghorol Lleol Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Llun 16 Gorffennaf am 3.15 p.m.

**YN BRESENNOL**

**Cynrychiolwyr y cyflogwr**
Cynghorwyr M. Ll. Davies (Cadeirydd), S.A. Davies, G.C. Evans, D. Jones,
Prif Weithredwr a'r Pennaeth Personél.

**Cynrychiolwyr y cyflogeion**
UNSAIN – E.Stephens
GMB – K. Wiggans
T.G.W.U. – C. Edwards

**Yn arsylwi**
Cynghorydd R E Barton
G. Edkins (Swyddog Rhanbarth UNSAIN)
M. Jones (Swyddog Rhanbarth y GMB)

**HEFYD YN MYNYCHU**

Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R Davies) a Chlerc Pwyllgor (Mrs J V Pring)

**YMDDIHEIURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth :-
Ochr y cyflogwr – Cynghorwyr G A Jones a P.J. Marfleet
Ochr y cyflogeion – G. Butler, I. Ellison ac A. Rutherford (UNSAIN), J. Drummond (GMB) a D. Hughes (T.G.W.U.)
Eraill – P. McNaught (Swyddog Rhanbarth y T.G.W.U.)

**216 MATERION BRYS**

Dywedodd y Pennaeth Personél wrth y Pwyllgor am un eitem frys gai sylw o dan eitem rhif 2 ar yr agenda (gohirio cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl i'r Cyngor Llawn)

**217 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM STATWS SENGL**

Rhoddodd y Pennaeth Personél y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am yr adolygiad Statws Sengl. Eglurodd y cynhaliwyd cyfarfodydd pellach efo cynrychiolwyr Undebau Llafur ers y tro diwethaf roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod, a bod rhai rhannau yn parhau lle na ddaethpwyd i gytundeb hyd hynny. Roedd rhain yn ymwneud efo costau ychwanegol yn gysylltiedig efo ychwanegiadau a materion cyfreithiol o ran gweithredu'r cyfnod diogelwch. Bwriedid cynnal cyfarfod ar y cyd pellach, yn ddiweddarach yr wythnos honno.

O gofio faint o waith oedd yn parhau i gael ei wneud, roedd yr Undebau wedi gofyn am ohirio cyflwyno'r Cytundeb i'r Cyngor llawn, hyd y cyfarfod ar 18 Medi. Cadarnhaodd y Pennaeth Personél y cai'r cais hwn ei ganiatáu ar yr amod nad oedd yr Undebau Llafur yn codi unrhyw hawliadau am gyflog cyfartal yn ystod y cyfnod yn arwain at hynny.

Teimlai Mr M. Jones (GMB) a Mr G. Edkins (UNSAIN) na allent roi'r fath addewid gan fod ganddynt gyfrifoldeb i brosesu hawliadau unigol a gyflwynwyd gan eu haelodau a bod rholiadau statudol yn golygu y gallai hawliau unigolyn gael eu niweidio pe na fyddai hawliadau'n cael eu symud ymlaen o fewn amserlen benodol. Pwysleisiwyd ganddynt y byddai eu safiad ar faterion cyflog cyfartal yn parhau yr un fath, ond rhoesant addewid na fyddent yn bwrw ymlaen efo hawliadau efo'u haelodau tra roedd y negodi'n parhau i fynd ymlaen. Dywedodd ochr y Cyflogwr eu bod yn gwerthfawrogi'r ffordd hon o weithredu, ac yn cytuno y byddai ymddiriedaeth a pharch gan y ddwy ochr yn helpu i gynnal y berthynas waith dda rhwng y ddwy ochr.

Cytunwyd y cai cyfarfod ychwanegol pellach o'r Pwyllgor ei gynnal cyn cyfarfod y Cyngor llawn ar 18 Medi.

***PENDERFYNWYD** :-*

*(a) derbyn yr adroddiad llafar;*

*(b) cyflwyno'r Cytundeb terfynol i'r Cyngor llawn ar 18 Medi 2007, a hefyd*

*(c) trefnu i gynnal cyfarfod pellach o'r Pwyllgor cyn 18 Medi 2007*

**218 TELERAU AC AMODAU – DRAFFT ADOLYGEDIG**

Rhoddodd y Pennaeth Personél y wybodaeth ddiweddaraf yn gryno mewn perthynas â'r ddogfen Telerau ac Amodau ddrafft. Dywedodd fod y ddogfen wedi cael ei hystyried ymhellach yn y cyfarfod ers ychydig efo'r Undebau Llafur ac mai ychydig iawn oedd wedi newid ers yr ystyriwyd y ddogfen yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 3 Gorffennaf.

Dywedodd Mr M. Jones (GMB) fod rheolwyr mewn un Gyfarwyddiaeth wedi torri rheolau cyfrinachedd, a phwysleisiodd bryder yr Undebau a bod yr ymdrechion wnaethpwyd gan y ddwy ochr i negodi cytundeb wedi cael eu tanseilio.

Cyfeiriodd Mr K Wiggans a Mr C Edwards hefyd at gyfarfod adrannol a gynhaliwyd, gan roi rhybudd byr iawn, oedd yn cynnwys eitemau Statws Sengl ar y rhaglen nad oedd yn briodol i'w trafod ar yr adeg honno. Cadarnhaodd Mr Wiggans ei fod wedi gwneud ymholiadau ar ôl i'r mater gael ei godi mewn Pwyllgor ar 3 Gorffennaf, a'i fod wedi pasio gwybodaeth ymlaen i'r Prif Weithredwr er mwyn iddo fedru gwneud ymholiadau pellach.

Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Personél yn rhoi sylw i'r materion cyfrinachedd fel mater o frys.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gafwyd ar lafar, a hefyd*

*(b) gofyn i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Personél wneud ymholiadau pellach am y methiant i gadw at faterion yn ymwneud efo cyfrinachedd*

**219 POLISI AMSER I FFWRDD MEWN LIEU**

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad, oedd wedi cael ei gylchredeg yn gynharach, yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor i'r Polisi Amser i Ffwrdd Mewn Lieu newydd.

Roedd copi o'r Polisi wedi cael ei roi ynghlwm wrth yr adroddiad, ac eglurai'r adroddiad y byddai'r Polisi'n sicrhau bod agwedd deg a chyson tuag at Gyflogeion oedd wedi gweithio mwy na'r oriau yn eu cytundeb a lle nad oedd nag amser hyblyg na goramser yn briodol. Rhoddai'r Polisi enghreifftiau lle byddai amser i ffwrdd mewn lieu yn ffordd addas o ad-dalu oriau ychwanegol a weithiwyd a manylion o'r trefnau mewn perthynas ag awdurdodi, meini prawf ar gyfer cronni amser, setliad a sut dylid cymryd amser i ffwrdd mewn lieu.

Roedd ymgynghori wedi bod yn mynd ymlaen efo Undebau Llafur ac Uwch Reolwyr.

***PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Polisi Amser i Ffwrdd mewn Lieu i ddod i rym ar unwaith.*

**220 POLISI ATODIAD MARCHNAD**

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad, oedd wedi cael ei gylchredeg yn gynharach, yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Polisi Atodiad Marchnad newydd.

Eglurai'r adroddiad y digwyddai weithiau nad oedd y pecyn o daliadau a bennwyd gan system cyflog a graddfeydd y Cyngor yn gyson efo'r pecynnau gaent eu cynnig am swyddi cymharol yn y farchnad lafur ehangach, ac yr arweiniai hynny weithiau at anawsterau efo recriwtio a chadw pobl. O dan amgylchiadau lle roedd angen amlwg o ran busnes a data gwrthrychol ar gael am y farchnad, byddai'r Awdurdod yn ystyried cynnig taliad atodiad marchnad yn ogystal â'r tâl arferol ar gyfer y swydd.

Roedd copi o'r Polisi newydd hwn wedi cael ei roi ynghlwm wrth yr adroddiad, a'i nod oedd rhoi cyfarwyddyd eglur i gyflogeion a rheolwyr o ran yr amgylchiadau pan fyddai'r Awdurdod yn ystyried talu atodiad marchnad. Roedd hefyd yn rhoi'r gwahanol brosesau a threfnau i'w dilyn wrth ddelio efo achosion unigol.

Teimlai Mr M. Jones (GMB) y gallai'r Polisi efallai danseilio'r Cytundeb Statws Sengl. Pwysleisiodd fod angen cyfiawnhad iawn ac i atodiadau marchnad swyddi unigol gael eu hadolygu'n rheolaidd.

Croesawodd Mr G Edkins (UNSAIN) y penderfyniad mai'r Panel Arfarnu Swyddi fyddai'n gyfrifol am benderfynu a ddylid talu'r atodiadau ynte peidio, gan seilio hynny ar gyflwyno achosion busnes unigol.

***PENDERFYNWYD*** *mabwysiadu'r Polisi Atodiadau Marchnad newydd, i ddod i rym ar unwaith.*

## 221 POLISI TREFNIADAU MEDDYGOL DEWISOL

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad, oedd wedi cael ei gylchredeg yn gynharach, yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Polisi Trefniadau Meddygol Dewisol newydd.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddymuniad y Cyngor i gefnogi Cyflogeion oedd yn dewis mynd trwy driniaethau meddygol dewisol. Roedd copi o'r Polisi wedi cael ei roi ynghlwm wrth yr adroddiad, ai'i nod oedd sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Cai'r trefniadau meddygol dewisol a ganlyn eu cynnwys yn y Polisi:-

- Triniaeth ffrwythloni in vitro (IVF) – byddai Cyflogeion yn cael yr hyn oedd yn cyfateb i 3 diwrnod o amser o'r gwaith efo cyflog, a gellid ei estyn i 5 diwrnod os oedd angen llawer iawn o deithio.
- Gwelliannau cosmetig – byddai angen i gyflogeion ddefnyddio gwyliau blynyddol, oriau hyblyg neu absenoldeb salwch heb gyflog, heblaw am pe byddai angen y driniaeth am resymau iechyd neu seicolegol posibl, ac os hynny byddai amser i ffwrdd rhesymol yn cael ei ganiatáu o dan Gynllun Absenoldeb Salwch y Cyngor.
- Aildrefnu rhyw – byddai Cyflogeion yn cael amser i ffwrdd o dan Gynllun Absenoldeb Salwch y Cyngor.

Dywedai'r Polisi hefyd y cai Cyflogeion amser i ffwrdd o dan Gynllun Absenoldeb Salwch y Cyngor pe digwyddai cymhlethdodau meddygol neu sgil effeithiau yn deillio o bob un o'r tri chategori o driniaeth feddygol ddewisol.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai fod angen diffinio ymhellach y gair 'Elective' (yn y fersiwn Saesneg) gan y gellid diffinio llawer o driniaethau meddygol o dan y gair hwnnw.

Croesawodd Ms E. Stephens (UNSAIN) y Polisi newydd, ond gofynnodd am i amser i ffwrdd ar gyfer IVF gael ei estyn i gynnwys mathau eraill o driniaeth ffrwythlondeb. Dywedodd y Pennaeth Personél y byddai'n gofyn am gyngor ar y mater hwn oddi wrth Uned Iechyd Galwedigaethol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Polisi Trefniadau Meddygol Dewisol newydd yn amodol ar:-*

*(a) ystyried ymhellach y defnydd o'r term 'Elective', a hefyd*

*(b) cyngor a geid o ran y posibilrwydd o estyn y categori IVF i gynnwys mathau eraill o driniaeth ffrwythlondeb.*

222 **ADOLYGU'R CYNLLUN DEFNYDDWYR CEIR – DOGFEN I EDRYCH AR Y CWMPAS**

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad, oedd wedi cael ei gylchredeg yn gynharach, yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo dogfen i edrych ar y cwmpas oedd yn rhoi manylion adolygiad a fwriedid o'r cynllun defnyddwyr ceir.

Roedd yr adroddiad yn atgoffa'r Pwyllgor y cytunwyd, fel rhan o'r Cytundeb Statws Sengl, i gynnal adolygiad llawn ar y cyd o'r Cynllun Defnyddwyr Ceir. Rhoddwyd copi o'r ddogfen yn edrych ar gwmpas y gwaith hwnnw ynghlwm wrth yr adroddiad, ac yn honno darparwyd rhestr o faterion i'w hystyried. Byddai'r adolygiad yn dechrau mor fuan ag y bo modd ar ôl gweithredu Statws Sengl ond fan bellaf erbyn Ebrill 2008 a chai ei gwblhau o fewn cyfnod o 6 mis. Cai'r canlyniadau eu gweithredu yn ystod y 6 mis yn dilyn cwblhau'r adolygiad, yn amodol ar gyfnodau rhybudd ac fan bellaf erbyn 1 Ebrill 2009. Cai'r adolygiad ei gynnal gan gynrychiolwyr undebau llafur a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyflogau, Archwilio a Phersonél fyddent wedi cael eu henwebu ar gyfer hynny.

Dywedodd Mr G Edkins ei fod yn croesawu'r adolygiad ond awgrymodd y gallai fod angen ychwanegu at neu dynnu oddi wrth y rhestr o faterion i'w hystyried. Dywedodd Swyddogion nad oedd y rhestr yn un derfynol ac y byddent yn hapus i wneud newidiadau iddi er mwyn cael adolygiad mor eang ag y bo modd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adolygiad o'r Cynllun Defnyddwyr Ceir.*

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 p.m.

************

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd am 10.55 a.m. ddydd Mawrth Gorffennaf 17 yn y Guild Hall, Prestatyn.

## PRESENNOL

Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol dros Bolisi, Cysylltiadau a Gwelliant; P A Dobb, Aelod Arweiniol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; E C Edwards, Aelod Arweiniol dros Ofal Cwsmeriaid ac Ymrwymiad Dinasyddion; R W Hughes, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ffyniant Economaidd a Rhaglenni Ewropeaidd; D Owens, Aelod Arweiniol dros Ysgolion a Dysgu Gydol Oes; G O Rowlands, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Chaffael; S Roberts, Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych, J Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Eiddo a Datblygiad Cynaliadwy ac E W Williams, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd.

Sylwedyddion: Y Cynghorwyr R E Barton, G C Evans ac N Hugh Jones.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr; y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau; Clerc y Sir a'r Rheolwr Cyllid.

## YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd M A German, Aelod Arweiniol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.

## DATGANIAD

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes, wrth gyfeirio at yr 1:1 yn gynharach gydag Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion, ei bod yn galonogol gweld cymaint yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Gofynnodd i Aelodau restru'n fyr rai o'r eitemau a drafodwyd gan y cyhoedd –

Cynghorydd E W Williams – ailgylchu, cyflwr ffyrdd, cabanau aros bysiau, tipio anghyfreithlon
Cynghorydd J Thompson Hill – cynllunio arfaethedig, taliadau parcio ceir, cyflwr Stryd Fawr Prestatyn
Cynghorydd P A Dobb - bu trigolion Y Rhyl yn trafod busnesau cymdeithasol drwy Ogledd Cymru, hostel newydd a thai fforddiadwy yn Y Rhyl tra bu trigolion Prestatyn yn trafod yr unedau gofal ychwanegol hir-ddisgwyliedig ym Mhrestatyn a'r angen am fuddsoddiad i adfywio cartrefi preifat
Cynghorydd D Owens - dirprwyaeth o Bennaeth Dirprwyol a Llywodraethwyr gyda disgyblion o Uwchysgol Y Rhyl i drafod addysg 16-19
Cynghorydd G O Rowlands – materion ariannu tiriogaeth y cyhoedd
Cynghorydd S Roberts - Y Rhyl yn Symud Ymlaen, angen llwybr coetir o'r Rhyd i Ruddlan, Cymru yn ei Blodau, taliadau parcio ceir, tyrbin ecogyfeillgar ger y rhaeadr yn Nyserth
Cynghorydd S A Davies – dim ymholiadau
Cynghorydd E C Edwards – dim ymholiadau
Cynghorydd R W Hughes - trigolion Prestatyn ddim eisiau clociau parcio, mwy o erthyglau addysgiadol yn Llais y Sir, llifogydd.

Hysbysodd y Cynghorydd E C Edwards yr Aelodau am ei gyfarfod gyda Huw Irranca Davies AS, Gweinidog Y Swyddfa Gymreig / Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru'r diwrnod cynt, ynghyd â chynghorwyr terfysgaeth i'r Prif Weinidog a'r Cabinet. Pwysigrwydd diogelwch y gymuned oedd prif destun y drafodaeth. Roedd hefyd wedi hysbysu'r Gweinidog o'r cydweithio da rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Caer mewn ymgyrch newydd.

Dywedodd y Cynghorydd G O Rowlands fod yr Adran Gyllid oedd yr ail uchaf yng Nghymru a'r uchaf yng Ngogledd Cymru o safbwynt llwyddiant casglu Treth Cyngor, gyda chyfartaledd casglu o 97.9% y flwyddyn. Cyflwynodd ei longyfarchion i'r staff a dywedodd fod taliad prydlon gan Drethdalwyr y Cyngor o fudd mawr i'r Awdurdod i gadw rheolaeth ariannol mor effeithlon ag sydd bosib.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S Roberts at y Guardian y Sadwrn cynt a'i ganllawiau diffiniol ar lannau môr Prydain, lle y cafodd Prestatyn 2 gymeradwyaeth. Cyfeiriwyd hefyd at Landmark Wales a'r Postcard dros Afon Dyfrdwy fydd cystal i'r A550 â'r hyn oedd yr Angel i'r A1.

**223 MATERION BRYS**

Nid oedd yna unrhyw Faterion Brys.

**224 COFNODION Y CABINET**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Fehefin 26 2007.

Hefyd yn Bresennol: Dileer y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau oddi ar restr y rhai oedd yn bresennol. Fe dderbyniwyd ei ymddiheuriadau.

Eitem 4 Cynllun Gweithredu Rhaglen Cydgyfeiriad yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Sir Ddinbych - Ychwaneger "a nodi ariannu cyfatebol" i'r Penderfyniadau

Eitem 7 Diweddariad ar Foderneiddio Addysg – Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes fod adroddiad Addysg Caergrawnt i'w gyhoeddi fis Medi 2007 gan fod angen datblygu eu drafft rhagarweiniol ymhellach, gydag ymgynghori'n parhau hyd at ddiwedd Tachwedd 2007. Byddai hyn yn sicrhau amser digonol ar gyfer ymgynghori a chysylltu. Cadarnhaodd hefyd fod gan Gyfadran Dysgu Gydol Oes gyllideb ddigonol ar gyfer y gwaith ychwanegol hwn.

Eitem 8 Cynnig i Gyflwyno Tâl am Drafnidiaeth i Rai Dros 16 – diwygio Paragraff 6 i ddarllen "… effeithio ar Brosiect Llwybrau Dysgu 14-19 …"

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 26 2007 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan yr Arweinydd.*

**225 RHAGLEN CYDGYFEIRIAD – Y CAMAU NESAF**

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad yn ceisio cytundeb yr Aelodau ar flaenoriaethau cychwynnol ar gyfer gwaith ar y Rhaglen Cydgyfeiriad fel y'i nodir yn Atodiad 1. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y bydd angen tua 500 o brosiectau ar gyfer Cymru gyfan, tra bo gan Sir Ddinbych tua 100 o brosiectau. Roedd rhai o'r prosiectau'n gyffredinol ac fe'i gweithredir drwy'r Sir. Gobeithiai gynnal 2 neu 3 o ddigwyddiadau ar gyfer y sector busnes a'r sector wirfoddol yn ystod y flwyddyn i'w hysbysu ymhellach am y Rhaglen Cydgyfeiriad.

Gan gyfeirio ar Ddatganiad y Rheolwr Cyllid, pwysleisiodd y Cynghorydd G O Rowlands yr angen i wneud bid dyraniad bloc i'r Grŵp Strategaeth Cyfalaf erbyn diwedd Tachwedd 2007 fan bellaf.

O ran Blaenoriaeth 3 – Datblygu safleoedd ac adeiladau busnes strategol o safon uchel – pwysleisiodd y Cynghorydd E C Edwards yr angen i drafod y materion hyn yn fanwl yn y Grwpiau Adran Aelodau Etholedig. Roedd y Cynghorydd Hughes yn cytuno ac awgrymodd y gallai hyn fod yn eitem agenda safonol ar gyfer y Grwpiau Adran Aelodau Etholedig. Roedd y Cynghorydd S A Davies yn cytuno a dywedodd ei bod yn bwysig enwi'r ardaloedd gwledig yn yr un ffordd ag yr oedd yr ardaloedd trefol yn cael eu henwi yn yr atodiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at fywyd pentrefol a dywedodd nad oedd gan lawer o bentrefi siop. Roedd yn bwysig fod ariannu ar gyfer cyllid strwythurol ar gael gan fod yna gyfle i adfywio.

Hysbysodd y Prif Reolwr Adfywio'r Aelodau fod y Cynllun Datblygu Gwledig yn ffrwd ariannu wahanol i'r Rhaglen Cydgyfeiriad. Roedd hwn wedi mynd heibio'r cam cyntaf ac yr oedd yn awr yn cael ei ystyried ynghyd â 17 o ardaloedd cymwys eraill yng Nghymru. Nid oedd yr Atodiad i'r Adroddiad yn gwrthod cynnwys ardaloedd gwledig ac yr oedd y rhain yn gynwysedig yn y Rhaglen Cydgyfeiriad.

***PENDERFYNWYD*** *fod Aelodau'n cymeradwyo blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer gwaith fel y'u nodir yn Atodiad 1 i'r Adroddiad, ac yn eu datblygu ymhellach ar ddechrau'r Rhaglen Cydgyfeiriad.*

**226 GWEITHIO GYDA'N GILYDD YN WASANAETH CYHOEDDUS CYMREIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad i geisio ystyriaeth yr Aelodau o lwyddiant yr Awdurdod wrth geisio cyfarfod â strand cydgyfeiriad agenda "Gwneud y Cysylltiadau" a cheisio gwybodaeth bellach a/neu weithredu lle bo'r angen. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau nodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynhaliwyd ar Fehefin 15 2007 (yn Atodiad I) a safle presennol y prosiectau cydgyfeiriad rhanbarthol.

Gofynnodd y Cynghorydd E C Edwards os oedd Prosiect Cydgyfeiriad y Ganolfan Gysylltu yn gysylltiedig â'r Prosiect SNEN 101 oedd wedi ei gynnig gan y Swyddfa Gartref, mewn unrhyw ffordd. Dywedodd y Prif Weithredwr y gellid cysylltu'r ddau brosiect ac os deuai Prosiect SNEN 101 yn ddichonadwy. Dywedodd y Cynghorydd Edwards fod Gweinidog y Swyddfa Gymreig / Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyfeirio at hyn yn y cyfarfod y diwrnod cynt ond nid oes arian ar gael.

Wrth gyfeirio at ymholiad y Cynghorydd E W Williams am y rheswm pam na chynhwyswyd parcio ceir, dywedodd y Prif Weithredwr fod y prosiectau wedi eu cwblhau. Fodd bynnag, awgrymodd y Cynghorydd Williams y dylid cynnwys prosiectau gweithiol fel atgofiad o ymarfer da.

Yn ateb i ymholiad gan y Cynghorydd R E Barton (Sylwedydd) ar Arbed Ynni yn y Cartref, dywedodd y Cynghorydd P A Dobb ei bod am ymchwilio i'r posibilrwydd o gydweithio gyda Chyngor Sir Fflint ar y mater hwn.

***PENDERFYNWYD*** *fod Aelodau'n nodi'r ffordd y mae'r Awdurdod yn symud ymlaen i gyfarfod â strand cydgygyfeiriad agenda 'Gwneud y Cysylltiadau' a nodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 15.06.2007.*

**227 DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB GWARIO I ARBED £200k**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i Aelodau nodi'r sefyllfa hyd yma ar y prosiectau a gytunwyd i'w hariannu yn 2006/07 drwy gyllideb Gwario i Arbed, ynghyd â'r rhestr o brosiectau pellach gytunwyd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ar gyfer cefnogaeth yn 2007/08.

Cyfeiriodd y Cynghorydd P A Dobb at Fenter Keyring Initiative a dywedodd yr arbedid £8k y flwyddyn ganlynol. Dywedodd y bydd staff ffisiotherapi'n cael eu defnyddio o fis Medi. Dywedodd y Prif Weithredwr er y dylai'r fath wasanaethau gael eu darparu gan y GIG, roedd yn bwysig i'r Awdurdod sicrhau fod staff sy'n absennol oherwydd salwch yn dychwelyd i'w gwaith cyn gynted ag sydd bosib.

O ran defnyddio ynni, hysbysodd y Cynghorydd Thompson Hill y Cynghorydd N Hugh Jones (Sylwedydd) fod adolygiad defnyddio ynni ar wahân yn weithredol.

***PENDERFYNWYD*** *fod Aelodau'n nodi safle'r prosiectau a gytunwyd ar gyfer ariannu yn 2006-2007 fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a'r prosiectau a gytunwyd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ar gyfer cefnogaeth yn 2007-2008.*

**228 CYNLLUN CYDRADDOLDEB DRAFFT**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies Gynllun Cydraddoldeb Drafft Sir Ddinbych i'r Aelodau ei drafod a'i gadarnhau a'i gymeradwyo i'r Cyngor Llawn. Roedd y crynodeb corfforaethol atodedig yn ymdrin â'r pynciau allweddol i'w trafod (gellir cyrchu'r ddogfen ddrafft lawn via gwefan Sir Ddinbych, yn adran Cydraddoldeb). Bydd pob ymgynghoriad hyd yma yn gynwysedig yn yr adroddiad i'r Cyngor ar Orffennaf 31.

Roedd y Cynghorydd R W Hughes yn falch fod Crynodeb Gweithredol a manylion am sut y gellid cyrchu'r adroddiad llawn wedi eu cynnwys ac argymhellodd y dylid mabwysiadu'r arfer ar gyfer adroddiadau tebyg.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Drafft a'i Gynllun Gweithredu i'r Cyngor.*

**229 CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI & ADRODDIAD CYNLLUN CYFALAF 2007-2008**

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad i Aelodau nodi safle rhagolwg ariannol diweddaraf Cyfrif y Refeniw Tai (CRA) am y flwyddyn ariannol bresennol. Adroddodd y Cynghorydd Dobb fod gwaith cytundeb ffenestri i'w gwblhau ym mis Hydref a bod y gwaith gwresogi bron wedi ei gwblhau.

Gofynnodd y Cynghorydd R W Hughes i'r Cynghorydd Dobb i drosglwyddo negeseuon o glod gan y preswylwyr i'r cwmni ffenestri am eu gwaith a'u hymddygiad.

***PENDERFYNWYD*** *fod Aelodau yn nodi safle rhagolwg ariannol diweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol bresennol.*

**230 CANLYNIAD CYLLIDEB REFENIW ESTYNEDIG A CHYNLLUN CYFALAF DIANNOD 2007-2008 I 2009-2010**

Cyflwynodd y Cynghorydd G O Rowlands yr adroddiad i Aelodau nodi ffigurau perfformiad y gyllideb am y flwyddyn ariannol 2007/08 fel y'i nodir yn Atodiad 1 a nodi perfformiad y cynllun cyfalaf diannod am y flwyddyn ariannol 2007/08 fel y'i nodir yn Atodiadau 2 a 3.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd J Thompson Hill ynglŷn â phwysau Adolygiad Cyflog a Graddio, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau fod rhai cynion am gyflog cyfartal wedi eu derbyn a'u hateb.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes i drafod Cyllideb Ddirprwyedig Ysgol Brynhyfryd a ffigurau dechrau a diwedd blwyddyn gyda'r Cynghorydd E W Williams.

Diolchodd y Cynghorydd R W Hughes i'r Prif Gyfrifydd Rheolaeth ar gynhyrchu Atodiad 3 i'r adroddiad oedd yn gosod yn glir y gwariant gan Gyfarwyddiaeth, Blaenoriaeth y Cyngor a benthyciad cynghorus ychwanegol a dywedodd fod y ddogfen yn ddefnyddiol iawn.

***PENDERFYNWYD*** *fod Aelodau'n nodi ffigurau perfformiad y gyllideb am 2007/08 fel y'i nodir yn Atodiad 1 a pherfformiad diannod y cynllun cyfalaf am y flwyddyn ariannol 2007/08 fel y'i nodir yn Atodiadau 2 a 3.*

**231 ADRODD ARFEROL AR BERSONÉL**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies yr adroddiad i Aelodau nodi'r adroddiad ar nifer y staff. Dosbarthwyd Atodiad E diwygiedig yn y cyfarfod.

Darparwyd ffigurau asiant yn Atodiad E ac yr oedd yn bwysig i Aelodau weld y gwahaniaeth rhwng staff a staff asiant a gyflogwyd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y ffaith fod rhai ffigurau absenoldeb oherwydd salwch yn y Gyfarwyddiaeth yn uwch na'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol ac awgrymodd fod Aelodau, yng nghyfarfod nesaf y Cabinet, yn darparu manylion am unrhyw broblemau sy'n codi, gan fod pob diwrnod a gollir yn gost ariannol i'r Awdurdod.

Gwnaethpwyd cais gan y Cynghorydd R W Hughes am i ffigurau swyddi a ariennir gan Sir Ddinbych a rhai a ariennir gan grant gael eu cynnwys yn adran y rhai sy'n dechrau a'r rhai sy'n ymadael.

Dywedodd Cynghorydd P A Dobb, wrth gyfeirio at lefel y staff asiant a gyflogir gan Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, fod staff asiant yn cael eu cyflogi ar gyfer swyddi tymor byr.

Gan gyfeirio at Gyfadran yr Amgylchedd, dywedodd y Cynghorydd E W Williams y byddai rhestru staff sy'n absennol am dymor hir oherwydd salwch yn cwtogi'r ffigurau. Teimlai ei bod yn bwysig nad yw darparu ffigurau'n creu gormod o waith ychwanegol, er bod angen i Aelodau fod yn ymwybodol o'r tueddiadau.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y gellir cyflogi staff asiant ond am lai na blwyddyn yn ôl y gyfraith. Os cawsant eu cyflogi am fwy na blwyddyn, roeddynt yn rhan o staff yr Awdurdod ac yn rhwystro gweithwyr fod ar gytundebau tymor byr yn wastad. Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes ei bod yn bwysig i'r gweithlu gael sefydlogrwydd.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad ac yn cytuno i ddarparu manylion am broblemau oedd yn codi o safbwynt absenoldeb oherwydd gwaeledd.*

**232 BLAEN RAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies Flaen Raglen Waith y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi Blaen Raglen Waith y Cabinet.*

**233 EITEMAU BRYS:**

Nid oedd yna unrhyw Eitemau Brys.

Yn y pwynt yma (12 o'r gloch) gohiriwyd y cyfarfod am 15 munud i roi cyfle i'r Aelodau gael lluniaeth ysgafn.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**234 PROSIECTAU CYFALAF CYMUNEDOL 2007-2008**

Mynegodd Aelodau ddiddordeb mewn gwahanol brosiectau:

Cynghorydd E W Williams – Cymdeithas Siop Bentref Antur Cae Cymro, Prosiect Cae Chwarae Clocaenog, Neuadd Bentref Pwllglas
Cynghorydd J Thompson Hill – Clwb Pêl Droes Ieuenctid Prestatyn Athletic, Clwb Pêl Droed Tref Prestatyn, Clwb Tennis Prestatyn
Cynghorydd G O Rowlands – Cyngor Tref Rhuddlan
Cynghorydd S Roberts – Gardd Goffa'r Rhyfel Cyngor Tref Y Rhyl, Canolfan Gymunedol Cyngor Tref Y Rhyl
Cynghorydd S A Davies – Partneriaeth Llangollen, Cyngor Tref Llangollen, Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen Cyf., ECTARC, Clwb Chwaraeon Llangollen
Cynghorydd E C Edwards – Cymdeithas Cymuned Llanfwrog
Cynghorydd R W Hughes – Grŵp Gweithredu Trigolion Meliden, Clwb Pêl Droes Ieuenctid Prestatyn Athletic, Clwb Bowlio Meliden, ECTARC

Cyflwynodd y Prif Reolwr Adfywio'r adroddiad i geisio cymeradwyaeth Aelodau o'r ceisiadau am brosiectau cyfalaf cymunedol ac i ddigyflwyno cyfraniadau nad oeddynt wedi eu defnyddio lle nad oedd rhagolwg o'u cyflawni yn y dyfodol agos.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes fod pob un o'r prosiectau wedi eu sgorio drwy ddefnyddio'r meini prawf yn Atodiad A i'r adroddiad. Ni thrafodid prosiectau unigol ond yr oedd yn barod i dderbyn sylwadau ar y meini prawf.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd E W Williams, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai ariannu'n cael ei ddefnyddio i gyfnerthu drwy un ai gwblhau neu ymestyn prosiectau. Atgoffwyd Aelodau y gwneid adolygiad o ddatblygiad prosiectau mewn 6 mis.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cytuno:*

*(a)* *I dynnu'r cyfraniadau wnaed yn barod i Ganolfan Bro Gwerfyl ym Metws Gwerfyl Goch, Gwasg Gee yn Ninbych a Chanolfan Wellington yn Y Rhyl yn ôl.*

*(b)* *I gymeradwyo'r fethodoleg sgorio ddiwygiedig yn Atodiad A*

*(c)* *I gymeradwyo ceisiadau sy'n sgorio 18 ac uwch yn Atodiad B – manylion isod*

*(ch)* *I gymeradwyo ceisiadau sy'n sgorio 18 ac uwch yn Atodiad C yn amodol ar ddatrys unrhyw faterion sydd ar ôl erbyn Rhagfyr 31 2007, gydag unrhyw gronfeydd na ellir eu cael erbyn y dyddiad hwnnw i'w hail-ddosrannu i geisiadau sy'n sgorio llai na 18 a'r broses ail-ddosrannu i fod yn destun adroddiad bellach i'r Cabinet os bydd hyn yn codi, manylion isod, a*

*(d)* *I gymeradwyo cyfraniad ychwanegol o £2,000 i Ganolfan Addysg Bro Cinmeirch i ddarparu lle i chwarae*

*Clwb Pêl Droed Henllan – tuag at wella/datblygu Parc Top*
*Cymdeithas Cymuned Llanfwrog - tuag at gwblhau goleuo, gwresogi, peintio, llorio, llawr cyntaf a balconi*
*Cyngor Cymuned Llanferres - tuag at Ardal Chwarae Aml-ddefnydd Cymuned/Ysgol Llanferres*
*Cyngor Tref Y Rhyl - ar gyfer ailwampio'r Ardd Goffa*
*Grŵp Gweithredu Trigolion Meliden – ar gyfer gwelliannau amgylcheddol*
*Parc Coffa Corwen - ar gyfer offer maes chwarae newydd*
*Cymdeithas Siop Bentref Antur Cae Cymro - ar gyfer cegin symudol*
*Clwb Pêl Droed Ieuenctid Prestatyn Athletic – ar gyfer stafell newid a thoiled.*
*Gweithgor Canolfan Gymunedol Gwyddelwern – tuag at ganolfan gymunedol newydd (caniatâd amodol yn ddibynnol ar ariannu cyfatebol)*
*ECTARC, Llangollen – tuag at atgyweirio'r fynedfa ac addasu a thirlunio'r cae chwarae gynt (caniatâd amodol yn ddibynnol ar ariannu cyfatebol)*

**235 CYNLLUN CYFALAF**

Cyflwynodd y Cynghorydd G O Rowlands yr adroddiad i Aelodau nodi'r safle diweddaraf yn elfen 2007/2008 y Cynllun Cyfalaf ac i nodi'r safle terfynol am 2006-2007. Gofynwyd i Aelodau gytuno fod adolygiad 2006-2007 wedi ei gyflwyno fel adroddiad Rhan 1 ar wahân i'r Cyngor Llawn. Diolchodd y Cynghorydd Rowlands i'r adran Gyllid ac adrannau eraill am eu gwaith caled yn cyflawni nifer o brosiectau llwyddiannus.

O ran y prosiect Canolfannau Dysgu Cymunedol, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes fod y cytundeb drafft yn dal i gael ei adolygu gan gynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ond ni ragwelir unrhyw broblemau.

Gan gyfeirio at Sialens Golff y Cwpan Ryder, dywedodd y Cynghorydd G O Rowlands, fod y mater wedi ei drafod gan y Grŵp Strategaeth Cyfalaf. Mynegodd ei bryder am ansawdd y wybodaeth a dywedodd fod gwybodaeth bellach a manylion yn angenrheidiol cyn y gellid gwneud unrhyw argymhelliad ynglŷn â'r

cyfalaf a’r arian refeniw fyddai ei angen ar gyfer y prosiect. Gobeithir trafod y mater yn y Cyngor Llawn ar 31.07.2007.

Dywedodd y Cynghorydd R W Hughes nad oedd hi wedi ei hysbysu cyn y cyfarfod fod y prosiect i gael ei drafod, nid oedd wedi cyfarfod â’r meini prawf ar gyfer ariannu gan y Dyraniad Bloc Cymunedol ac mae’n debygol y byddai angen ariannu refeniw ar y prosiect. Roedd yn bwysig fod pob prosiect potensial yn dilyn y broses a gytunwyd i sicrhau cydraddoldeb drwyddi draw. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes â’r Arweinydd y dylid dilyn y broses.

Teimlai Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd ei bod yn bwysig fod newyddion da’n cael ei danlinellu yn y rhestr brosiectau a gyflawnwyd gan fod staff yn gweithio’n hynod o galed i gyflawni’r prosiectau wrth wneud eu dyletswyddau eraill yr un pryd. Roedd Aelodau’n falch o weld y pethau positif yn cael eu tanlinellu yn yr adroddiad a chytunwyd ei bod yn bwysig fod pob un o Aelodau Sir Ddinbych yn ymwybodol o lwyddiannau’r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R W Hughes at feirniadaeth ddiweddar yn y wasg gan rai Cynghorwyr a dywedodd nad oedd am weld swyddogion yn cael eu beirniadu fel hyn am broblemau cychwynnol ar ychydig o brosiectau oedd wedi cymryd cryn amser i ddatblygu.

***PENDERFYNWYD** fod Aelodau’n nodi’r sefyllfa ddiweddaraf ar yr elfen 2007/2008 yn y Cynllun Cyfalaf a nodi safle terfynol Cynllun Cyfalaf 2006-2007.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.

********

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher, Gorffennaf 18 2007 am 10.00 a.m.

### PRESENNOL

Y Cynghorwyr N. Hugh Jones (Cadair), D. Cooper, H. H Evans, S. Frobisher, M.M. Jones, G.J. Pickering ac N.P. Roberts ynghyd ag Aelodau Cyfetholedig G. Greenland, E. Jones, D. Smith, C.J. Thomas a D. Wilson

**Sylwedyddion:** Cynghorwyr R.E. Barton, M. Ll. Davies, G.C. Evans, D. Owens (Aelod Arweiniol y Cabinet dros Ddysgu Gydol Oes) ynghyd â Mrs. S.M. Bennett oedd yn bresennol fel sylwedydd ar ran y Parch. Manon Parry (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru).

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Rheolwr Busnes a Pherfformiad (G. Yates), Uwch Swyddog Addysg (J. Molloy), Swyddog Craffu Cynorthwyol (S. Price) a Swyddog Gweinyddiaeth (K.E. Jones).

### YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Parch. Manon Parry sy'n absennol oherwydd salwch ar hyn o bryd. Fe estynnwyd dymuniadau gorau'r Pwyllgor i'r Parch. Parry am adferiad buan.

### YMDDEOLIAD PENNAETH GWASANAETHAU ADDYSG

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ar ymddeoliad Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Mr Ieuan Lloyd Roberts ar Awst 31 2007 a thalodd deyrnged i'w gyfraniad gwerthfawr i addysg. Diolchodd i Mr Roberts am ei wasanaeth ardderchog i'r awdurdod a mynegodd ddymuniadau gorau'r pwyllgor iddo yn y dyfodol. Mynegodd y Cynghorydd M.M. Jones ddymuniadau da i bawb oedd yn ymddeol oedd ynghlwm ag addysg, yn cynnwys Mr Gwilym Luke Jones, ac yn enwedig Mr Ieuan Lloyd Roberts fu'n ymgymryd â'i ddyletswyddau'n bositif ac yn frwdfrydig. Rhoddodd deyrnged i broffesiynoldeb ac ymroddiad Ieuan, a diolchodd iddo am ei holl waith caled a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad. Cytunodd y pwyllgor â'r sylwadau hyn. Diolchodd Mr Roberts i'r Aelodau am eu geiriau caredig ac fe adlewyrchodd ar ei yrfa mewn addysg, yn cynnwys ei benodiad i'w safle presennol, a mynegodd ei ddyheadau am ddyfodol addysg. Diolchodd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes am ei gyfarwyddyd a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol. I gloi rhoddodd Mr Roberts deyrnged i nifer o staff allweddol mewn addysg oedd hefyd yn ymddeol yn cynnwys Marcia Davies (Cydlynydd ESL); Eirwen Jones (Athrawon Bro); Nerys Hughes (Blynyddoedd Cynnar) a Gwilym Luke Jones (Uwch Swyddog Addysg - Cynradd).

### 236 MATERION BRYS

Yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol ar gyfer trafodaeth gan ei fod angen sylw brys :-

**Cau Uwchysgol Prestatyn**

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar gau Uwchysgol Prestatyn oherwydd i law trwm achosi i lifddwr godi drwy'r system ddraenio. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes y bydd yr ysgol ar gau am dri diwrnod 18 - 20 Gorffennaf yn dilyn ymestyniad o lifddwr wedi'i halogi drwy ardaloedd eang o'r safle gan beri i nifer o flociau fod yn anhygyrch. Cafwyd adroddiad gan y prifathro fod gwacáu'r adeilad wedi ei reoli'n ardderchog gan y staff a bod y cymhwysydd colled yn ymweld â'r ysgol y diwrnod hwnnw. Fe fyddai staff yn cael eu hyfforddi mewn mannau nad oeddynt wedi eu heffeithio am y tri diwrnod ac fe fyddai'r prifathro yn ysgrifennu at rieni i esbonio'r sefyllfa ac yn hysbysu'r awdurdod o'r datblygiadau.

Dywedodd y Cynghorydd D. Cooper ei fod wedi gofyn am i'r draeniau o gwmpas yr ysgol gael eu glanhau am y ddwy flynedd diwethaf a gobeithiai y gellid delio â'r mater hwn yn derfynol yn awr.

*PENDERFYNWYD* *nodi'r sefyllfa ynglŷn ag Uwchysgol Prestatyn.*

## 237 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 21 2007 :-

**Materion yn Codi** –

Tudalen 1 - Eitem Rhif 2 - Cofnodion: Materion yn Codi (Amserlen Addysg Caergrawnt) - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.H. Evans, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai angen i'r Cabinet gadarnhau amserlen newydd ar gyfer ymgynghoriad oherwydd yr oedi wrth baratoi'r adroddiad ar gyfer ymgynghoriad ar Foderneiddio Addysg. Pwysleisiodd yr Aelodau fod angen i'r pwyllgor gael ei hysbysu o'r datblygiadau a mynegodd y Cynghorydd H.H. Evans ei siomedigaeth fod y graddfeydd amser wedi llithro gan y byddai hyn yn ymestyn y broses gyfan. Teimlai ei bod yn bwysig fod y pwyllgor yn archwilio'r adroddiad cyn gynted ag sydd bosib yn dilyn y cyhoeddiad. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes fod cyhoeddi'r adroddiad ym mis Ebrill wedi ei ddileu oherwydd cais y cynghorwyr am ymgynghoriad bellach. Byddai'r pwyllgor hwn yn derbyn yr adroddiad fel rhan o'r broses ymgynghori.

Tudalen 5 – Eitem Rhif 3 – Bysiau Ysgol Melyn – Yn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.J. Pickering dywedodd Rheolwr Busnes a Pherfformiad y cyflwynid achos busnes ar gyfer ystyriaeth y Gweithgor Trafnidiaeth Ysgol yn y lle cyntaf.

Tudalen 8 - Eitem Rhif. 6 - Adolygiad o Adroddiadau Perfformiad Chwarterol - Cafwyd adroddiadau gan Swyddogion mewn ymateb i'r ymholiadau a gafwyd yn y cofnodion fel a ganlyn:-

- EDU/S/002 - O safbwynt y rhesymau pam nad oedd dwy ysgol wedi cyflwyno'r dychweliadau perthnasol i LCC ynglŷn â disgyblion sy'n gadael addysg heb gymhwyster yn y flwyddyn academig 2004/2005, dywedodd y Swyddog Cefnogi Craffu nad oedd y ddwy ysgol dan sylw wedi sylweddol arwyddocâd y dangosydd. Mae Tîm Data'n awr yn monitro'r wybodaeth honno oedd yn cael ei hanfon yn uniongyrchol gan yr ysgolion i'r Cynulliad. Cytunodd y Swyddog Addysg Eilradd i ddarparu data cywir i'r aelodau oedd yn dangos gwelliant yn y dangosydd hwnnw.
- Targed Strategaeth Gymunedol 4.6 - Buddsoddiad mewn Adeiladau Ysgol - Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod wedi gofyn am adolygiad o'r ariannu ar gyfer addasiadau i DGA (Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) a byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Mynegodd Aelod Cyfetholedig D. Wilson bryder y byddai anactifedd ar ran yr awdurdod yn arwain at sialensiau cyfreithiol.
- Llyfrgelloedd: Canran yr oriau cyfrifiadurol sydd ar gael sy'n cael eu defnyddio – Cadarnhaodd y Cynghorydd G.J. Pickering ei fod wedi derbyn eglurhad ynglŷn â'r dangosydd hwn yn unol â'r cais.

*PENDERFYNWYD* *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 21 2007.*

## 238 ADOLYGIAD O 16 – 19 DARPARIAETH YN Y RHYL

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Addysg adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) ar argymhellion Adolygiad Addysg Caergrawnt o ddarpariaeth 16 – 19 yn Y Rhyl a'r broses ymgynghori. Atodwyd copi llawn o Adolygiad Addysg Caergrawnt o ddarpariaeth 16 – 19 yn Y Rhyl i'r adroddiad.

Fe ymgymerwyd ag Adolygiad Addysg Caergrawnt o fewn fframwaith darlun oedd yn datblygu o ddarpariaeth 14 - 19 yn Sir Ddinbych a Chymru yn ei chyfanrwydd ac yr oedd yn rhan o'r agenda cyfredol ar Foderneiddio Addysg. Roedd yr adolygiad wedi ystyried yr ystod o ddewisiadau ar gyfer pobl ifanc mewn meysydd academig a galwedigaethol ynghyd ag ansawdd yr addysg a ddarparwyd a gwerth am arian. Yn Y Rhyl, mynegwyd pryder am nifer y bobl ifanc oedd yn gadael yr ysgol heb gymwysterau; lefel cyraeddiadau isel myfyrwyr chweched dosbarth gyda dwy ysgol Y Rhyl (Uwchysgol Y Rhyl ac Ysgol Fendigaid Edward Jones) yn y chwartel isel; y cwricwlwm presennol ddim yn cyfarfod ag anghenion pob person ifanc sydd ag opsiynau cyfyngedig iawn, a darpariaeth chweched dosbarth isel gyda chyfanswm o 120 o ddisgyblion yn y ddwy ysgol [150 oedd y maint a dderbyniwyd fel yr isafswm argymelledig].

Roedd dogfen yr Adolygiad yn amlinellu nifer o opsiynau ac yn y diwedd fe argymhellodd ddatblygu gyfleuster dros 16 newydd ar safle Coleg Y Rhyl fyddai hefyd yn golygu cau'r chweched dosbarth yn y ddwy ysgol. Os cytunid â'r argymhelliad yma fe fyddai'n rhaid rheoli datblygiadau o fewn graddfeydd amser tyn i gymryd mantais o ariannu AADIG (Adran Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg) amcangyfrifir yn gyfanswm o £2m. Addysg bellach yng Ngholeg Llandrillo yw'r lle mwyaf poblogaidd ar gyfer y rhai 16 oed yn Y Rhyl gyda 180 o fyfyrwyr yn teithio yno. Roedd graddfeydd dargadwad o'r chweched dosbarth is i'r chweched dosbarth uwch yn isel iawn yn y ddwy ysgol yn Y Rhyl.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes y byddai unrhyw newid yn y ddarpariaeth bresennol yn gorfod cael cyfnod ymgynghori addas a bod gweithredu mewn partneriaeth yn hanfodol i'r holl ymwneud ag addysg a hyfforddiant i rai dros 16. Fe ymgymerid â rhaglen ymgynghori yn ystod y misoedd i ddod, a byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Cabinet yn eu cyfarfod ar Hydref 30.

Yn ystod yr ystyriaeth o'r adroddiad gofynnodd yr Aelod Cyfetholedig D. Wilson faint o ddosbarthiadau chwech yn Sir Ddinbych allai gyfarfod neu wella ar y targed o 150 ar gyfer chweched dosbarth. Dywedodd y byddai'r arian a roddir i ysgolion Y Rhyl, er eu bod â chyfanswm o 120 o fyfyrwyr chweched dosbarth, yn fwy na'r swm a roddid i chweched dosbarth mwy gan y byddid yn ystyried yr indecs amddifadiad yn y fformiwla ariannu. Fe anghytunodd y Swyddog Addysg Eilradd, gan ddweud fod arian tebyg yn cael ei ddyrannu i bob darparwr dros 16 gan fod ffactorau eraill yn cael eu hystyried ac yr oedd y ffigwr ddyroddir oherwydd amddifadiad yn finimal. O safbwynt maint y chweched dosbarth mewn ysgolion eraill cadarnhaodd hefyd nad oedd Uwchysgol Dinbych, Ysgol St. Brigid nac Ysgol Glan Clwyd yn cyfarfod â'r targed. Er hynny fe sefydlwyd Ysgol Glan Clwyd oherwydd ieithyddiaeth ac yr oedd y tair ysgol yn perfformio'n dda. Roedd y dosbarthiadau chwech yn Uwchysgolion Llangollen, Rhuthun a Phrestatyn â thros 150 o fyfyrwyr. Wrth gytuno fod Coleg Llandrillo'n cynnig ystod ehangach o opsiynau ar gyfer disgyblion, nid oedd yr Aelod Cydetholedig D. Wilson yn derbyn y datganiad o fewn yr adroddiad "Nid oes dadl o safbwynt dysgu i gadw'r status quo". Dywedodd fod Coleg Llandrillo wedi cael llwyddiant o 100% mewn 21 o 29 o bynciau Lefel A tra'r oedd Uwchysgol Y Rhyl wedi cael llwyddiant o 100% mewn 17 o 18 pwnc. Golyga hyn fod Uwchysgol Y Rhyl wedi cael llwyddiant o 90%+ oedd gryn dipyn yn uwch na'r Coleg. Dywedodd yr Aelod Cydetholedig fod dysgu lefel A wedi ei daenu ar draws yr holl staffio ac fe fyddai'n golygu oblygiadau arwyddocaol i athrawon.

Cafwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes ar gyfarfod ag athrawon a disgyblion y diwrnod cynt pan fynegodd y disgyblion eu barn yn dda iawn. Roedd wedi awgrymu y dylid gwneud cyflwyniad tebyg i'r Cabinet yn ogystal ag ymateb ffurfiol i'r argymhellion. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y Cyngor am i bobl ifanc gael ond y gorau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G.J. Pickering at y pedwar opsiwn geir o fewn yr adroddiad a theimlai, yn ogystal ag amserlen o weithrediadau ar gyfer yr opsiwn dewisedig, fe fyddai'n ddefnyddiol pe bai amserlenni'n cael eu paratoi ar gyfer yr opsiynau eraill fel rhan o'r broses ymgynghori. Teimlai y dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr effeithiau y byddai'r argymhellion yn eu cael ar ysgolion eraill. Gofynnodd y Cynghorydd Pickering hefyd os byddai'r argymhellion yn Y Rhyl yn rhagarweiniad i argymhellion tebyg ar gyfer gweddill y sir. Esboniodd y Swyddog Addysg Eilradd fod pryderon wedi eu mynegi am effeithiolrwydd a hyfywdra darpariaeth chweched dosbarth yn ysgolion eilradd Y Rhyl o safbwynt maint, dewis cyfyngedig, gwerth am arian a safonau. Nid oedd ysgolion eraill â'r un pryderon ond fe fyddai angen adolygiad yn y dyfodol.

Teimlai'r Cynghorydd H.H. Evans y dylai'r pwyllgor ystyried yr argymhellion eto yn dilyn y cyfnod ymgynghori ac y byddai'n fuddiol trefnu ymweliad â lleoliad Coleg Y Rhyl. Teimlai hefyd fod yna beryg i'r Cyngor ddod dan bwysau i wneud penderfyniad brysion yn wyneb y graddfeydd amser tyn sy'n gysylltiedig ag ariannu'r cynnig. Gofynnodd y Cynghorydd Evans hefyd os dylai'r awdurdod fod yn gyfrifol am ei goleg chweched dosbarth ei hun yn Y Rhyl yn hytrach na Chonwy. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes mai prosiect Coleg Llandrillo fyddai hwn os caiff ei gymeradwyo gan nad yw Sir Ddinbych yn rhoi prosiect ger bron. Cytunodd y Cynghorydd M.M. Jones y byddai ymweliad â safle Coleg Y Rhyl yn fuddiol yn ogystal ag ymweliad â'r ddwy ysgol yn Y Rhyl. Mynegodd bryder am yr oblygiadau oedd yn deillio o'r argymhellion i athrawon a'r effeithiau posib ar ysgolion eraill. Gofynnodd am i ddata ychwanegol fod ar gael ar y cyrchfannau i rai 16 oed yn y cyffiniau. Ychwanegodd y Cynghorydd S. Frobisher fod gwybodaeth am nifer y myfyrwyr a'r pynciau

a ddewisir hefyd yn cael eu darparu. Teimlai hefyd y byddai Uwchysgol Prestatyn yn cael ei heffeithio os cymeradwyir argymhellion yr ymgynghoriad.

Cyfeiriodd yr Aelod Cydetholedig D. Smith at yr ansicrwydd y byddai hyn yn ei olygu i bawb, yn enwedig myfyrwyr blwyddyn 10 a sut yr effeithir arnyn nhw wrth ddewis eu haddysg wedi 16. Mewn ymateb i'w gwestiwn ynglŷn â'r llithriad yn amserlen yr ymgynghoriad, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, os mabwysiedid yr argymhellion, yna fe fyddai'n rhaid cyfarfod â dyddiad cau sef Medi 2008.

Wrth derfynu nododd y Swyddog Addysg Eilradd fod y rhagolygon ar gyfer y ddwy ysgol yn Y Rhyl yn addawol iawn gyda phenodiad Prifathro newydd yn Uwchysgol Y Rhyl a'r effaith bositif ar y Prifathro Gweithredol yn Ysgol Fendigaid Edward Jones.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) trefnu i'r pwyllgor ymweld ag Uwchysgol Y Rhyl, Uwchysgol Gatholig Fendigaid Edward Jones a safle Coleg Y Rhyl;*

*(b) dosbarthu gwybodaeth ar gyrchfannau allweddol i rai 16 oed gyda'r pynciau dewisedig i aelodau'r pwyllgor; a*

*(c) chyflwyno Adolygiad Addysg Caergrawnt a chanlyniadau'r ymgynghoriad i gyfarfod y pwyllgor i'w hystyried ar Hydref 17.*

Gohiriwyd y pwyllgor yma (11.20 a.m.) am 10 munud ar gyfer toriad am luniaeth.

**239 14 – 19 LLWYBRAU DYSGU**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Addysg – Eilradd adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) ar Gynllun Rhwydwaith 14 – 19 Sir Ddinbych yn gefnogol i amcanion addysg allweddol. Atodwyd crynodeb o'r Cynllun Rhwydwaith i'r adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Sir Ddinbych yn cydweithio'n agos â Dolen Dysg Ddinbych (y Consortiwm Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant) a Phartneriaeth Pobl Ifanc i nodi blaenoriaethau ar gyfer y cynllun datblygu blynyddol. Fe gynhyrchwyd y Cynllun Rhwydwaith gydag argymhellion i weithredu ar elfennau allweddol y fenter. Nodwyd y gellid defnyddio'r arian ar gyfer y Rhwydwaith 14 - 19 ond ar gyfer prosiectau arloesol newydd sy'n cyfarfod ag amcanion Llwybrau Dysgu 14 - 19. Cynlluniwyd agenda'r Llwybrau Dysgu i godi safonau drwy ddarparu mwy o ddewis a chefnogaeth ar gyfer dysgu. Roedd hefyd yn hyrwyddo lefelau presenoldeb mewn ysgolion eilradd a lleihau nifer y disgyblion oedd yn gadael heb gymhwyster.

Darparwyd golwg cyffredinol cryno o'r Cynllun Rhwydwaith gan yr Uwch Swyddog Addysg ac fe nododd fod y flaenoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 4. Roedd ysgolion yn gweithredu mewn clystyrau yng Ngogledd Sir Ddinbych, Gogledd Dyffryn Clwyd, De Dyffryn Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Roedd Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol gydag awdurdodau Sir Y Fflint a Wrecsam o safbwynt nifer y cyrsiau a ddarparwyd ac yr oedd hyn yn adlewyrchu'r cydweithio llwyddiannus rhwng ysgolion a cholegau. Cyfeiriwyd hefyd at ddyraniad cyllideb a dyraniad gwariant arfaethedig i wahanol elfennau o fewn y Cynllun Rhwydwaith.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a gofynnodd y Cynghorydd N.P. Roberts am y cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr yn Ne Sir Ddinbych ynghyd ag addysg traws-sirol a chostau trafnidiaeth. Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Addysg at y cynllun peilot ar-lein oedd yn caniatáu i fyfyrwyr ddewis y pynciau yr oeddynt am eu dilyn yn y lle cyntaf cyn dewis darparwr y gwasanaeth fyddai ag oblygiadau anferth i ysgolion. Croesawodd yr Aelod Cydetholedig E. Jones y fenter o safbwynt amcanion addysgol ond dywedodd fod anawsterau wedi codi wrth geisio amserlennu pynciau i gymhwyso sesiynau coleg fyddai hefyd yn cael effaith ar grwpiau blynyddoedd eraill, yn enwedig Cyfnod Allweddol 3. Dywedodd Aelod Cydetholedig D. Smith ei fod yn ymwybodol, drwy ei waith blaenorol gyda'r Grŵp 14 - 19, fod mater yr amserlennu cyffredinol yn cael ei drin. Croesawodd yr Aelod Cydetholedig D. Wilson hefyd ddarpariaeth addas ar gyfer pobl ifanc a bod yn rhaid ymdrin â chyffredinedd amserlennu ynghyd â materion trafnidiaeth ar gyfer y daflen amser integredig.

O safbwynt materion ariannu dywedodd yr Uwch Swyddog Addysg fod y Cynulliad Cymreig wedi darparu arian grant ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mynegodd y Cynghorydd H.H. Evans bryder fod yna bosibilrwydd y byddai disgwyl i'r awdurdod ariannu'r fenter unwaith y bydd y cyfnod ariannu o dair blynedd drosodd a theimlai y dylid ceisio ymrwymiad gan y Cynulliad Cymreig ynglŷn ag ariannu yn y dyfodol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes fod angen delio ag ariannu yn y dyfodol a sut y caiff ei brif-ffrydio i ysgolion. Cytunodd y Cynghorydd G.J. Pickering y dylid ceisio sicrwydd gan y Cynulliad Cymreig am ddarpariaeth ariannu yn y dyfodol ac awgrymodd y dylid ceisio barn Aelod Arweiniol y Cabinet dros Gyllid o safbwynt yr oblygiadau ar gyfer cyllidebau'r dyfodol. Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Addysg fod y mater wedi ei godi gyda'r Cynulliad Cymreig a oedd wedi nodi fod Llwybrau Dysgu 14 - 19 yn flaenoriaeth uchel ond mai ymrwymiad tair blynedd yn unig ydoedd gan fod eu cyllidebau wedi eu paratoi ar y sail honno. Fe dybiwyd y byddai ariannu'n parhau yn y tymor hir.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn yr adroddiad a'i nodi;*

*(b) mynegi pryderon o safbwynt y ddarpariaeth ariannol ar gyfer menter Llwybrau Dysgu 14 – 19 i Lywodraeth Cynulliad Cymru a cheisio sicrwydd am ariannu i'r dyfodol yn dilyn diwedd y cyfnod ariannu o dair blynedd, a*

*(c) bod pryderon y pwyllgor ynglŷn â'r ddarpariaeth ariannol ar gyfer Menter Llwybrau Dysgu 14 – 19 yn cael eu mynegi hefyd i Aelod Arweiniol y Cabinet dros Gyllid yn wyneb oblygiadau posib ar gyllidebau'r dyfodol.*

## 240 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd Swyddog Cefnogi Craffu adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) i geisio adolygiad yr aelodau ar flaenraglen waith y pwyllgor a darparu diweddariad ar faterion perthnasol. Fe atodwyd copi o'r flaenralgen waith fel atodiad i'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog Cefnogi Craffu at y flaenraglen waith adolygedig ar gyfer cymeradwyaeth yr aelodau yn cynnwys materion ynglŷn â Meini Prawf Mynediad i Ysgolion; Cynllun Gweithredu Geo-amrywiaeth AHNE Lleol; Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy AHNE; Adolygiad o Ddarpariaeth 16 - 19 yn Y Rhyl; Cynllun Gweithredu Uwchysgol Fendigaid Edward Jones, ac Is-ddeddf Cyflogi Plant. Yn ogystal â'r adolygiadau hyn, hysbysodd fod Adroddiadau Perfformiad Chwarterol wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfodydd ym mis Medi, Rhagfyr, Mawrth a Mehefin a bod y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol wedi ei awgrymu ar gyfer Medi 2007. O safbwynt Meini Prawf Mynediad i Ysgolion, cytunodd yr aelodau i aros cyhoeddi adroddiad Addysg Caergrawnt ar Agenda Moderneiddio Addysg cyn penderfynu pryd i ffitio'r agenda honno i mewn i'r rhaglen waith.

Yn dilyn cais y Cynghorydd G.J. Pickering yn y cyfarfod diwethaf fe ddosbarthwyd adroddiad o wybodaeth ar gyfleuster y Drift Park ac fe gytunwyd y dylid cyflwyno'r wybodaeth Sirol ar drefniadau staffio y tu allan i oriau swyddfa cyffredin i'r pwyllgor i'w ystyried yn ffurfiol yn dilyn tymor yr ymwelwyr haf. Gofynnodd y Cynghorydd Pickering am i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Medi neu fis Hydref. Cyfeiriodd hefyd at yr angen am i'r Gweithgor gyfarfod i ystyried argymhellion y gyllideb am 2008/09. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes bwysigrwydd mewnbwn y pwyllgor i'r broses ac yr oedd yn awyddus i gyfarfod ag aelodau o fis Medi i drafod papurau cyllideb rhagarweiniol.

Cyfeiriodd Aelod Cydetholedig C. Thomas at Archwiliad Estyn ar Addysg a'r angen am i'r pwyllgor ystyried y canlyniadau cyn gynted ag sydd bosib. Nododd fod yr archwiliad wedi ymdrin â thri maes ac y byddai'n addas i ystyried pob elfen yn unigol gan ddechrau gyda Gwelliannau Ysgolion.

I gloi hysbysodd y Swyddog Cefnogi Craffu'r pwyllgor am drwyddedau ar gyfer materion addysg a dysgu, yn cynnwys y Rhaglen Foderneiddio Addysg, ac fe anogwyd aelodau i geisio trwyddedau drwy hysbysu'r Swyddog Monitro o'u diddordeb fel rheolwr ysgol neu o gyrff addysg bellach neu uwch.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) yn amodol ar y diwygiadau a gyfeiriwyd atynt uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y'i ceir yn Atodiad 1,*

*(b) trefnu cyfarfod o Weithgor Cyllid y Pwyllgor ar gyfer mis Medi i ystyried argymhellion rhagarweiniol y gyllideb ar gyfer 2008/09.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.

Yn dilyn y cyfarfod rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg gyflwyniad i'r aelodau ar Raglen Ddatrysiad Cyfeiriedig Ysgolion.

******

## PWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH A LLES CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Rhyl ar ddydd Iau 19 Gorffennaf 2007 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

**Cynrychioli'r Cyflogwyr**

Cynghorwyr D. Cooper, S. Frobisher, C.L. Hughes a P.W. Owen

**Cynrychioli'r Gweithwyr**

UNSAIN Cemlyn Foulkes (dirprwyo dros Andy Rutherford)

Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Athrawon Sir Ddinbych *(DTJNC)*
Emlyn Davies (dirprwyo dros Dave Wilson)

UGCC Geoff Lunt (dirprwyo dros Clive Edwards)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol (R. Davies), Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch (G. Lapington), Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch (C. Hughes and D. Roberts), Cynghorwr Cynorthwyol Corfforaethol: Perygl Ffordd (K. Roberts), Rheolwr Cyfleusterau (N. Highfield) a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones).

**Arsyllwyr:** Cynghorydd R.E. Barton a M.Ll. Davies

**CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorydd P.J. Marfleet, M. Bradshaw a D. Wilson (*DTJNC*), a Andy Rutherford (UNSAIN). Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Bennaeth Personél.

**241 PENODI CADEIRYDD**

Cynigodd y Cynghorydd S. Frobisher ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd D. Cooper eu bod yn ethol y Cynghorydd C.L. Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn ddilynol. Yn absenoldeb enwebiadau eraill, fe:-

***BENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd C.L. Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn ddilynol.*

**242 PENODI IS-GADEIRYDD**

Oherwydd bod y tri chynrychiolydd oedd yn bresennol yn aelodau dirprwyedig, fe:-

***BENDERFYNWYD** gohirio penodi Is-gadeirydd hyd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.*

**243 MATERION BRYS**

Nid oedd materion brys i'w hystyried gan y pwyllgor.

**244 COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2007 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er ystyriaeth.

**Materion yn Codi -**

Sylwodd yr Aelodau nad oedd ddim cworwm yng nghyfarfod blaenorol o'r pwyllgor oherwydd nad oedd nifer digonol o gynrychiolwyr y cyflogwyr yn bresennol. Ymddiheurodd y Cynghorydd D. Cooper

nad oedd y pwyllgor wedi derbyn ei ymddiheuriadau, a oedd wedi ei gyflwyno trwy gyd-aelod o'r pwyllgor, am fod yn absennol o'r cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y byddai, yn y dyfodol, yn cyflwyno ei ymddiheuriadau trwy Glerc y Pwyllgor. Sylwodd y Cynghorydd Cooper hefyd bod Aelod Annibynnol wedi methu a mynychu unrhyw un o gyfarfodydd y pwyllgor. Gofynnodd am lythyr i gael ei anfon at y Grŵp Annibynnol i holi a ddymunai'r aelod hwnnw barhau'n aelod o'r pwyllgor.

Tudalen 3 - Eitem Rhif 3: Cofnodion Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch - Yn codi o bryderon a fynegwyd yn y cyfarfod diwethaf, cytunodd Clerc y Sir i ganfod y rhesymau pam nad oedd y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes wedi cynnal pwyllgor iechyd a diogelwch ers 20 Medi 2006. Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol bod pwyllgor a oedd i'w gynnal ar 20 Rhagfyr wedi ei ganslo oherwydd nifer yr ymddiheuriadau. Roedd cyfarfod hefyd i'w gynnal ar 6 Chwefror wedi ei ganslo oherwydd y storm eira a'r problemau dilynol. Dywedodd bod y cyfarfod cyffredin nesaf wedi'i gynnal ar 27 Ebrill, a bod cofnodion y cyfarfod hwnnw ar yr agenda heddiw. Cynhelir cyfarfod pellach cyn diwedd y tymor a bwriedir gosod dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academaidd llawn yn 2007/08.

Tudalen 6 - Eitem Rhif 5: Y diweddaraf ar Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol - Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol at y ddadl fanwl yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r digwyddiad yn ymwneud â chontractwr anghymeradwy'n ymdrin ag asbestos yn Ysgol Dinas Bran. Cadarnhaodd bod Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes wedi rhoi cyfarwyddeb i holl ysgolion yn pwysleisio'r ffaith bod yn rhaid defnyddio adeiladwyr cymeradwy'r Cyngor ar gyfer yr holl weithiau ac yn manylu ar y peryglon o ddewis contractwyr eu hunain. Gofynnodd y Cynghorydd M. Ll. Davies a oedd llythyr wedi ei anfon at Gynulliad Cymru ynglŷn ag iechyd a diogelwch yn yr ysgolion. Ychwanegodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch ei fod wedi cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Pwyllgor Archwilio Dysgu Gydol Oes, ond nad oedd wedi derbyn ymateb eto.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Ebrill.*

## 245 COFNODION PWYLLGORAU IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i'w hystyried.

(i) Adran Clerc y Sir – 11 Mehefin 2007 – dim materion yn codi

(ii) Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes – 27 Ebrill 2007 – dim materion yn codi

(iii) Gwasanaethau Cymdeithasol – 4 Mehefin 2007 – dim materion yn codi

(iv) Cyfarwyddiaeth Adnoddau – 12 Mehefin 2007 – dim materion yn codi

(v) Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd – 3rd July 2007 – dim materion yn codi

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Iechyd a Lles Corfforaethol.*

## 246 DIWEDDARIAD AR UNED IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Uwch Gynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am y gwaith a ymgymerir gan yr Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel a ganlyn:-

(i) **Hyfforddiant** – Roedd Gweithio'n Ddiogel a chyrsiau allanol eraill a gyflwynwyd yn mynd rhagddo, ac fe ychwanegwyd sesiwn o'r cyrsiau canlynol i'r rhaglen: Rheoli Diogelwch, Gweithio'n Ddiogel a Diogelwch Gweithredol. Roedd presenoldeb da yn y rhaglen o gyrsiau cyfredol a gyflwynid yn fewnol yn ymwneud ag asesiad risg, warden tân, trafod â llaw a gyrru. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant yn Ysgol Plas Brondyffryn i ganolbwyntio ar adroddiadau o gynnydd yn lefel trais ac absenoldeb a welwyd ar ffurflenni adroddiadau damweiniau/digwyddiadau'r Cyngor.

(ii) **Ymchwiliadau i Ddamweiniau/Digwyddiadau -** Canolfan Hamdden Corwen - Bu cyfres o ddamweiniau llithro a arweiniodd at anafiadau yn cynnwys torri coes a chyfergyd. Yn dilyn ymchwiliad, canfuwyd bod y lloriau yn ardaloedd cawodydd/newid dynion a merched yn llithrig

iawn yn enwedig pan yn wlyb. Felly, roedd angen cau'r cyfleuster yn ddiymdroi er mwyn atal rhagor o anafiadau, tra'r oedd y llawr yn cael ei ailosod. Bydd y llawr yng Nghanolfan Hamdden Dinbych hefyd yn cael ei adolygu oherwydd y pryderon ei fod hefyd yn anaddas.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S. Frobisher, dywedodd Cynghorwr Iechyd a Diogelwch (C. Hughes) y bydd Canolfan Hamdden
Corwen ar gau am o leiaf 6/8 wythnos eto.

Tymereddau a lleithder adeiladau – Oherwydd y tywydd poeth diweddar, roedd nifer fawr o staff wedi cwyno am yr amodau tymheredd a lleithder yn eu gweithleoedd. Y mwyaf arwyddocaol oedd y sefyllfa bresennol yn y bloc newydd yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun. Canlyniad hyn oedd bod aelod o staff yn absennol gyda salwch oherwydd cyfuniad o dymereddau, lleithder a diffyg symudiad aer. Archwiliwyd opsiynau i ddelio â chanlyniadau posibl tymereddau uchel a lleithder yn y misoedd sydd i ddod.

Cwestiynodd y Cynghorydd M. Ll. Davies a oedd uchafbwynt tymheredd penodol yn ôl y ddeddf ar gyfer y gweithle. Dywedodd Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch bod yr argymhellion yn Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle yn datgan y dylai'r tymheredd a'r lleithder fod yn rhesymol. Roedd argymhellion cadarn am isafbwynt tymheredd ar gyfer gwahanol fath o waith.

(iii) **Rhaglen Asesiad Perygl Tân (*FRA*)** - Roedd y rhaglen *FRA* yn parhau ac fe wnaed asesiadau yn: Pafiliwn/Heulfan Rhyl; Ysgol Uwchradd Santes Ffraid, Dinbych; Pafiliwn Corwen; Canolfan Byw'n Iach Corwen; Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy a Thŷ Nant Clwyd, Rhuthun. Roedd pob asesiad wedi nodi camau i'w gweithredu gan reolwyr lleol a/neu Wasanaethau Adeiladu. Roedd y Gwasanaeth Tân wedi cadarnhau bod yr archwiliad ym Mhafiliwn Rhyngwladol Brenhinol yn foddhaol ac felly'n rhoi hyder bod gwaith y Cyngor yn unol â'r disgwyliadau.

(iv) **Cefnogi disgyblion ysgol sy'n paratoi am brofiad gwaith** - Bu tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ynghlwm â chyflwyno sesiynau Iechyd a Diogelwch pellach ar gyfer Gyrfa Cymru. Cynhaliwyd y sesiynau diweddaraf yn Ysgol Uwchradd Prestatyn yn gynnar yng Ngorffennaf dros ddau ddiwrnod gyda deg sesiwn o drideg o ddisgyblion ym mhob sesiwn. Rhoddwyd cyngor i'r disgyblion a fyddai'n gymorth iddynt gadw'n ddiogel yn ystod eu cyfnod profiad gwaith. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch bod sesiynau wedi eu cynnig i ysgolion uwchradd drwy Yrfa Cymru ond bod neb wedi ymateb hyd yn hyn.

(v) **Cydweithio gydag Awdurdod Gweithredol, Iechyd a Diogelwch (*HSE*)** - Roedd y cyfathrebu diweddaraf o'r *HSE* yn cynnwys (1) llythyr a anfonwyd at Holl Brif Weithredwyr yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyfeirio at archwiliad rheoli straen *HSE* yn 2007 (roedd gan y Cyngor systemau uwch yn eu lle i reoli straen yn gysylltiedig â gwaith), a (2) atgoffa'r Cyngor o'r gofynion i reoli'n ddigonol a monitro gwaith o'r fath yn dilyn symud ffliw gwres yn ystod adnewyddu tai yn ddiweddar. Nid oedd perygl arwyddocaol ond fe hysbyswyd *HSE* o'r digwyddiad.

(vi) **Cynnydd yn y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** – Mae manylion y cynnydd i'w gweld yn atodiad yr adroddiad. Eglurodd Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol bod adroddiad ar reoli cludiant gweithle ysgol y tu mewn i ysgolion wedi ei gynnwys hefyd ar gyfer gwybodaeth yn deillio o eitem rhif 2 yn y Cynllun.

(vii) **Cyfarwyddyd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** - Roedd y dogfennau cyfarwyddyd canlynol ar gronfa ddata ymgynghori: Trin gwrthrychau â llaw; Cyfarwyddyd diogelwch personol; Cyfarwyddyd syndrom dirgryniad braich llaw (*HAV*); Rheoli Sŵn yn y Gwaith; Cyfarwyddyd a Rhestr Wirio Diogelwch Tân. Roedd Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn disgrifio amcanion y Cyngor i gydymffurfio a deddfwriaeth I a D a dyletswydd gofal yn ychwanegol at y trefniadau a'r gyfundrefn oedd y Cyngor wedi ei roi at ei gilydd i gyflawni'r amcanion hynny. Nid oedd y nodiadau cyfarwyddyd a gweithdrefnau a ddatblygwyd gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn addasu'r polisi ond yn disgrifio'r dulliau o gyflawni amcanion y rheoliadau penodol. Teimlai'r tîm nad oedd angen creu polisi ar gyfer pob set o reoliadau Iechyd a Diogelwch a gofynnwyd i'r dull hwn gael ei dderbyn gan y pwyllgor. Roedd

yn dal yn fwriad i gofnodi unrhyw gyfarwyddyd newydd neu weithdrefnau yn y ffolder ymgynghori ar y *DINC* am gyfnod o chwe mis cyn ei roi allan. Cytunodd yr aelodau i'r cynnig hwnnw.

(viii) **Ystadegau digwyddiadau** - Dosbarthwyd ystadegau digwyddiadau yn y cyfarfod er mwyn i'r aelodau eu hadolygu. Cafwyd crynodeb o'r ystadegau gan y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch (D. Roberts). Yn gyffredinol roedd ychydig o ostyngiad yn nifer y damweiniau anaf a gofnodwyd ers y chwarter olaf, o 478 i 455, a chynnydd yn y digwyddiadau dianaf o 241 i 320. Cafwyd yr adroddiad mwyaf arwyddocaol gan Addysg Dysgu Gydol Oes, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, lle cafwyd cynnydd mewn nifer yr adroddiadau yn ymwneud â materion meddygol mân. Fodd bynnag, nid oedd angen i rai o'r digwyddiadau hynny fod wedi eu cofnodi mewn ffurflen anaf gan eu bod yn ddigwyddiadau dibwys iawn. Byddai wedi bod yn well eu cofnodi yn llyfr cymorth cyntaf yr ysgol. Roedd angen adroddiad cytbwys gan fod yr ysgolion wedi cael eu hannog yn flaenorol i adrodd am yr holl ddigwyddiadau. Roedd cyfanswm y Digwyddiadau Adroddadwy Riddor o 13 digwyddiad yn isel iawn gyda 2 dros 3 digwyddiadau diwrnod. O fewn Addysg Dysgu Gydol Oes, roedd 7 digwyddiad adroddadwy yn ymwneud â disgyblion â thoresgyrn, o ganlyniad i anaf buarth chwarae neu chwaraeon gan amlaf. Roedd set gynhwysfawr o ddigwyddiadau yn Addysg Dysgu Gydol Oes wedi eu hanfon at Bwyllgor Iechyd a Diogelwch eu Cyfarwyddiaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd S. Frobisher ynglŷn â'r cynnydd wnaed wrth gyflwyno ffurflen adroddiad newydd ar gyfer anafiadau, cadarnhaodd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch bod angen cyfieithu'r ffurflen newydd a'i haddasu rhywfaint cyn ei phrintio. Roedd y ffurflen newydd yn cydweddu'n agosach gyda system *HSE* fyddai'n symleiddio'r broses gan fod y ffurflen flaenorol yn anoddach i'w chwblhau. Cyfeiriodd yr aelodau at y trafodaethau blaenorol, gan nodi bod ysgolion wedi eu hannog i adrodd am yr holl ddigwyddiadau, a dywedodd Emlyn Davies (*DTJNC*) bod pwyslais arbennig wedi ei roi ar ysgolion uwchradd i'w hannog i adrodd yn ôl. Dywedodd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch bod gwelliant dramatig yn adroddiad yn ôl yr ysgolion uwchradd. Ei fwriad oedd ailgyhoeddi'r cyfarwyddyd ar sut i gwblhau'r ffurflenni damwain unwaith y bydd y ffurflenni newydd yn barod i'w dosbarthu ynghyd ag eglurhad ar sut i gofnodi digwyddiadau mân yn naill ai'r llyfr cymorth cyntaf neu'r ffurflen anafiadau. Holodd y Cynghorydd D. Cooper am y ddau anaf oedd yn ymwneud ag anifeiliaid yn yr ysgolion a chytunodd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch i adrodd yn ôl gyda manylion am y digwyddiadau hynny. Dywedodd y Cadeirydd bod rhai ysgolion yn pryderu am faw cŵn ar feysydd chwarae a phwysleisiodd bod hwn yn fater oedd angen sylw.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) derbyn y dull o symud i ffwrdd o bolisi ar gyfer pob rhan o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, a*

*(c) derbyn a nodi'r ystadegau digwyddiadau (dosbarthwyd yn y cyfarfod) am y cyfnod 1 Ebrill – 30 Mehefin 2007).*

**247 POLISÏAU IECHYD A LLES**

Yn absenoldeb Pennaeth Personél, cyflwynodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch adroddiad (a gylchlythyrwyd ynghynt) oedd yn cyflwyno dau Bolisi Iechyd a Lles fyddai'n hybu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu amgylchedd gweithio iach i bob gweithiwr. Atodwyd y Polisi Maethol a'r Polisi Gweithgaredd Corfforol i'r adroddiad.

Eglurwyd i'r aelodau bod Sir Ddinbych wedi derbyn Gwobr Efydd Safon Iechyd Corfforaethol yn 2003, a'u bod ar hyn o bryd yn gweithio tuag at y Wobr Aur. Roedd y polisïau newydd yn amlinellu ymrwymiad parhaus yr awdurdod i hybu ffordd iach o fyw ymhlith y gweithwyr, fel a ganlyn:-

- Polisi Maethol – wedi ei anelu at sicrhau bod gweithwyr yn cael cyfle i wella'u ffordd o fyw drwy fwyta diet iachach, a'r

- Polisi Gweithgaredd Corfforol – ei bwrpas oedd addysgu'r gweithwyr am fanteision gweithgareddau corfforol a'u hannog i gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgaredd corfforol cymedrol.

Roedd yr adroddiad yn argymell mabwysiadu'r Polisi Maethol a'r Polisi Gweithgaredd Corfforol

Eglurodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch bod y Cyngor ar hyn o bryd yn cael ei asesu ar gyfer Safon Iechyd Corfforaethol - marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer lles yn y gweithle. Golygai'r Safon Iechyd Corfforaethol daith barhaus o ddangos ymarfer da a gwelliant a dyfernid y safonau ar wahanol lefelau. Roedd aseswyr yn ymchwilio i systemau'r Cyngor ac yn edrych yn fanwl ar bob agwedd o iechyd galwedigaethol, iechyd a diogelwch, polisïau corfforaethol yn gyffredinol, a sut roedd y Cyngor yn sicrhau iechyd a lles ei staff. Roedd y Cyngor yn gobeithio cael y Safon Aur ar ôl yr arolygaeth ddiweddaraf hon, ond byddai'n dair wythnos bron cyn iddynt wybod canlyniadau'r arolygaeth.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y polisïau Maethol a Gweithgaredd Corfforol.*

**248 MATERION BYW**

Cyflwynodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch adroddiad (a gylchlythyrwyd ynghynt) yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â materion yn ymwneud â: Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch; Asesiadau Risg Tân; Ymosodiadau Corfforol; Ystadegau anafiadau; Hawliadau Yswiriant yn erbyn y Cyngor; Staff y Ganolfan Alwadau, a Ffurflen Adrodd am Ddamwain/Digwyddiad.

Atgoffwyd yr aelodau bod yr adroddiad yn cyfeirio at y materion hynny a godwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ac roedd yn amlinellu'r cynnydd wnaed wrth fynd i'r afael â'r materion hynny.

***PENDERFYNWYD*** *nodi a derbyn yr adroddiad*

**249 CAU YSGOL UWCHRADD PRESTATYN - LLIFDDWR WEDI'I HALOGI**

(Codwyd yr eitem hon fel mater brys ar ddiwedd y cyfarfod)

Gofynnodd y Cynghorydd S. Frobisher am y diweddaraf ynglŷn â chau Ysgol Uwchradd Prestatyn oherwydd glaw trwm oedd wedi achosi llifogydd i godi drwy'r system ddraeniad. Eglurodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch y byddai'r ysgol ar gau am y tri diwrnod olaf o'r tymor (Gorffennaf 18-20), a bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y Grŵp Gwasanaethau Adeiladau yn gweithredu'n uniongyrchol yn y gwaith o lanhau. Holodd y Cynghorydd Frobisher hefyd ynglŷn ag addasiadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn yr ysgol i fedru derbyn cadair olwyn disgybl. Eglurodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch beth oedd y datblygiadau diweddaraf - roeddynt yn derbyn tendrau am y gwaith oedd angen ei wneud.

Dywedodd y Cynghorydd R.E. Barton bod rhybudd ar y lifft yn Nhŷ Russell yn egluro nad oedd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, a holodd beth fyddai arwyddocâd hyn yng ngoleuni'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Cyfleusterau ei bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd, ac roedd angen hyfforddi aelodau arbennig am y Gweithdrefnau Gwacau os byddai tân. Ychwanegodd y Cynghorwr Corfforaethol: Iechyd a Diogelwch y byddai'r mater yn cael ei amlygu fel rhan o'r asesiad risg tân, a bod ysgolion hefyd yn cael eu harchwilio fel rhan o'r rhaglen.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa bresennol.*

Cyn diweddu'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol bod y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch y Cyngor, Carol Hughes yn gadael yr awdurdod yn fuan i ddechrau swydd gyda Chyngor Sir Fflint. Talodd deyrnged i waith caled Carol a'i chyfraniad gwerthfawr ym myd iechyd a diogelwch. Dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol ar ran y pwyllgor a chyd-swyddogion. Eiliodd y Cadeirydd y dymuniadau hynny a diolchodd i Carol am ei gwaith ardderchog i'r awdurdod.

Diweddodd y cyfarfod am 10.50 a.m.

******

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cofnodion y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mawrth Gorffennaf 31 2007 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorydd K N Hawkins (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, D Cooper, M Ll Davies, S A Davies, P A Dobb, G C Evans, I M German, M A German, D Hannam, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, N Hugh-Jones, E R Jones, H Jones, M M Jones, G M Kensler, P J Marfleet, P W Owen, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, S Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, E W Williams ac R Ll Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Clerc y Sir a Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

**GWEDDI**

Offrymodd y Cynghorydd G C Evans y weddi ar gychwyn y cyfarfod.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**

Cynghorwyr J M Davies, P C Duffy, E C Edwards, H H Evans, S Frobisher, T K Hodgson, T R Hughes, D Jones, G A Jones ac G Williams.

**DEISEBAU**

(i) Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran trigolion Prestatyn yn gofyn i'r Cyngor ailfeddiannu'r hen sied nwyddau rheilffordd sy'n cydredeg â Llwybr Prestatyn/Dyserth.

(ii) Cyflwynodd y Cynghorydd D Hannam ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran trigolion Y Rhyl yn gofyn i'r Cyngor adfer y seddi oedd wedi eu lleoli gynt ar Bromenâd Dwyreiniol Y Rhyl.

***PENDERFYNWYD** gofyn i Glerc y Sir gydnabod y ddwy ddeiseb a'u blaenyrru i'r adrannau perthnasol i'w hystyried.*

**250 EITEMAU BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fe ddatganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol ar gyfer trafodaeth gan ei fod yn mynnu sylw brys:-

Rhybudd o Gwestiynau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd R E Barton.

**251 COFNODION Y CYNGOR**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar Fehefin 27 2007 (ddosbarthwyd eisoes).

Manylder:-

(i) Tudalen 4 (Eitem 6) paragraff olaf ond un, ail linell i ddarllen "y diffyg ariannol perthnasol i Uwchysgol Fendigaid Edward Jones …..", a

(ii) Tudalen 6 (Eitem 7) yn dilyn yr ail baragraff - nodyn bwled i ddarllen:-

- Cymhwyster o 3 blynedd i ardaloedd trefol yn y Sir (dileer "Gogledd y")

Materion yn codi:-

(i) Tudalen 1 - Safon Iechyd Corfforaethol - Adroddodd y Cynghorydd P A Dobbs fod y Cyngor wedi derbyn Gwobr Arian yn amodol ar gwblhau'r cynllun gweithredu.

(ii) Tudalen 4 – Trafodion Parti Perthynol – adroddodd Clerc y Sir ei fod wedi cysylltu â'r aelodau perthnasol ac y caiff y mater ei ddatrys.

(iii) Teimlai'r Cynghorydd R W Hughes y dylai gweithrediadau a gytunwyd gan Aelodau yng nghorff y cofnodion gael eu cofnodi yn y penderfyniad. Cytunodd yr aelodau â'r ffordd yma o weithredu.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar y diwygiadau uchod dderbyn cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fehefin 27 2007 fel cofnod cywir.*

**252 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Adroddodd y Cadeirydd ar lafar ar ddyddiadur y digwyddiadau y bu ef a'r Dirprwy Gadeirydd yn eu cynnal/mynychu yn ystod Gorffennaf 2007 (ddosbarthwyd yn y cyfarfod). Cyfeiriodd yn benodol at:-

- Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, a

- gêm bêl droed rhwng Rhyl F.C. a Haka, Ffindir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R E Barton at ddigwyddiad ychwanegol y bu ef a'r Cadeirydd yn ei fynychu ar Orffennaf 7 oedd yn berthynol i lansio'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moel Famau.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a'i nodi.*

**253 TRAFODAETH CYFLWR Y SIR**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr arddangosiadau yn Ystafell Gynhadledd 1 oedd yn dangos tystiolaeth ffotograffig o brosiectau/cynlluniau llwyddiannus yr awdurdod dros y 12/18 mis diwethaf. Croesawodd y Cynghorydd R W Hughes wahanol swyddogion i'r Siambr a diolchodd iddynt a'u Hadrannau am eu cyfraniadau i'r arddangosiad. Hysbysodd yr aelodau y byddai'r cyfarfod yn gohirio am doriad o 20 munud, gyda chydsyniad y Cadeirydd, pan fyddai gwahoddiad i aelodau weld y wybodaeth oedd yn cael ei arddangos ac i ofyn cwestiynau i'r swyddogion perthnasol.

Gyda chymorth cyflwyniad 'power point' cyflwynodd Arweinydd y Cyngor y drafodaeth ar Gyflwr y Sir a theimlai fod y 12 mis diwethaf wedi bod yn amser diddorol, llwyddiannus a heriol i'r Cyngor. Nododd y Cynghorydd Hughes y byddai'r Cyngor yn parhau i wynebu gofynion cynyddol ar ei wasanaethau yn enwedig mewn gwasanaethau cymdeithasol, gwastraff a gwella ysgolion. Tanlinellodd yr Arweinydd faterion amrywiol fel rhan o'r adolygiad blynyddol yn enwedig o ran cyllideb, cymunedau cynaliadwy, yr amgylchedd, moderneiddio addysg a gweithio mewn partneriaeth.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y safle ariannol cryfach yr oedd y Cyngor wedi ei gyflawni drwy reolaeth ariannol gref a rheolaeth gyllidebol. Mynegodd y Cynghorydd Hughes ei balchder o gwblhau ailddatblygiad Draft Park yn Y Rhyl ond roedd yn siomedig oherwydd yr adroddiadau negyddol am y Cynllun oedd wedi ymddangos yn y wasg. Teimlai fod negyddiaeth o'r fath yn cael effaith lygredig ar staff oedd wedi gweithio mor galed ar y prosiect.

Yn dilyn ei chrynodeb manwl o'r materion yn y drafodaeth ar Gyflwr y Sir diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am eu holl waith caled a'u hymroddiad i Sir Ddinbych i drosgludo gwasanaethau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei bresenoldeb mewn digwyddiad Comisiwn Dyluniad i Gymru a'r sylwadau canmoliaethus wnaed am Gynllun Drift Park.

Cyfeiriodd Aelodau'r Rhyl yn fyr at y materion negyddol ynglŷn â Chynllun Drift Park ond cyflwynodd longyfarchion i'r holl swyddogion am y gwaith ardderchog a wnaed i adfywio'r dref yn ystod yr ychydig

flynyddoedd diwethaf. Teimlent fod rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn brosiect cyffrous a bod ailddatblygu Harbwr y Foryd yn anhepgor i ddatblygiad y dref yn y dyfodol.

Cododd aelodau nifer o faterion gyda'r Arweinydd yn enwedig o ran tiriogaeth y cyhoedd; draeniad; cyswllt cwsmeriaid; tai fforddiadwy a gwariant cyfalaf mewn ardaloedd gwledig. Rhoddodd yr holl aelodau deyrnged i'r gwaith ardderchog ymgymerwyd gan y staff i gyflawni gwasanaethau'r Cyngor. Cyfeiriwyd hefyd at y swyddogion hynny oedd yn ymadael â'r awdurdod dros gyfnod yr haf a diolchodd yr aelodau iddyn nhw am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r awdurdod.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r aelodau am eu sylwadau positif am y staff yn cynnwys y rhai oedd yn gadael yr awdurdod. Ond fe fynegodd bryder am y sylwadau negatif wnaethpwyd gan aelodau am brosiectau arbennig gan eu bod yn cael effaith ar y staff ac fe allai effeithio ar berfformiad.

***PENDERFYNWYD** derbyn y cyflwyniad ar Gyflwr y Sir a'i nodi.*

**254 ADOLYGIAD O LWYDDIANNAU'R CYNLLUN CYFALAF 2006/2007**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid a Chaffael adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i aelodau nodi safle terfynol Cynllun Cyfalaf 2006/07 ac i nodi'r prosiectau llwyddiannus gyflawnwyd yn y flwyddyn. Adroddodd y Cynghorydd G O Rowlands fod y Cyngor wedi gwario £31.5m ar Gynllun Cyfalaf Cronfa'r Sir gyda £6.2m pellach ar brosiectau cyfalaf Cyfrif Refeniw Tai. Cyfeiriodd at Atodiad 1 i'r Adroddiad oedd yn rhoi crynodeb o'r prosiectau cyfalaf a drawsgludwyd yn y flwyddyn.

Teimlai'r Cynghorydd P J Marfleet fod y cynllun cyfalaf yn cael ei reoli'n dda ond mynegodd bryder am y gwariant cyfalaf ar wella isadeiledd y priffyrdd yn y Sir. Awgrymodd fod angen buddsoddiad sylweddol yn y maes yma a bod angen lobïo Aelodau'r Cynulliad/Aelodau Seneddol i ddarparu mwy o arian ar gyfer gwella ffyrdd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E W Williams at y gwahaniaeth mawr rhwng y gwariant ar briffyrdd gan y Cynulliad a'r arian a ddosrennir i'w wario ar ffyrdd y sir gan awdurdod priffyrdd yn y Sir. Teimlai fod cyflwr ffyrdd yn Sir Ddinbych yn gwella a chyfeiriodd at y gwelliannau sylweddol oedd i gychwyn yn fuan.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) nodi safle terfynol Cynllun Cyfalaf 2006/2007, a*

*(b) nodi'r prosiectau llwyddiannus drosgludwyd yn y flwyddyn fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

Yn y pwynt yma, 11.35 a.m., gohiriwyd y cyfarfod am 20 munud i ganiatáu i'r aelodau gael lluniaeth ysgafn ac i weld yr arddangosiad o'r prosiectau llwyddiannus yn Ystafell Gynhadledd 1

**DATGANIAD**

Amlinellodd Swyddog Datblygu Strategaeth Pobl Hŷn (Sandra Carroll) yn fyr i'r aelodau Strategaeth Pobl Hŷn y Sir oedd wedi ei datblygu yn dilyn menter Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfeiriodd at amcanion allweddol y strategaeth a'r llwyddiant yn Sir Ddinbych. Cyfeiriwyd at ddigwyddiad "grey matters" oedd i'w gynnal ar Fedi 20 oedd yn ceisio annog pobl hŷn i ddefnyddio'u hymennydd ac ymdrin â stereoteipiau negyddol o bobl hŷn. Anogodd Ms Carroll yr aelodau i gefnogi'r digwyddiad oedd i'w gynnal yng Ngholeg Y Rhyl.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 a 15, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 255 CYNLLUN CYFALAF 2007/08 - 2010/11

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid a Chaffael adroddiad cyfrinachol (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor nodi safle diweddaraf elfen 2007/08 y Cynllun Cyfalaf ac i gymeradwyo'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

Fe aeth y Cynghorydd G O Rowlands â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio'n benodol at y safle gyda phrosiectau cyfredol o ran y prosiect Grug a Bryniau a'r prosiect newydd o ffensio Gerddi'r Coroni yn Y Rhyl. Cyfeiriodd hefyd at brosiect Golff Cwpan Ryder oedd yn cael ei ddatblygu yn Y Rhyl oedd yng nghyfnod dyluniad amlinellol ar hyn o bryd a barn y Grŵp Strategaeth Cyfalaf ynglŷn ag ariannu'r prosiect hwnnw. Teimlai'r Cynghorydd Rowlands fod angen cyfarfod buan gyda Sefydliad Golff Cwpan Ryder i drafod y cynnig hwnnw. Mynegodd aelodau bryder am oblygiadau refeniw'r fath gynllun.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i gwestiynau aelodau ar y gwahanol brosiectau a nodwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *nodi'r safle diweddaraf ar elfen 2007/08 y Cynllun Cyfalaf;*

*(b)* *cymeradwyo'r ariannu ychwanegol o £6k ar gyfer prosiect Gerddi'r Coroni, a*

*(c)* *chyfarfod buan i'w drefnu gyda Sefydliad Golff Cwpan Ryder i ystyried y prosiect yn y Rhyl ac unrhyw gynigion eraill i'w nodi.*

## 256 STATWS SENGL - DIWEDDARIAD AR DRAFODAETHAU A THALIADAU IAWNDAL - ADOLYGIAD O GYFLOGAU UWCH

(Mynegodd y Cynghorwyr M Ll Davies, S A Davies, M M Jones, N Roberts ac S Roberts ddiddordeb yn yr eitem Statws Sengl ac fe aethant allan o'r siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais).

Cyflwynodd Pennaeth Personél adroddiad cyfrinachol (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor:-

- nodi safle presennol y trafodaethau gyda'r undebau llafur ac i gytuno'r trefniadau ariannu i gyfarfod â chostau'r adolygiad Statws Sengl a nodir ym mharagraff 8 ac Atodiad A i'r adroddiad;
- nodi lle'r oedd trafodaethau'n parhau a chymeradwyo'r paramedrau yr oedd tîm trafod y Cyngor yn gweithio ynddyn nhw, fel y'i nodir ym mharagraffau 4 a 5 yr adroddiad, a
- chytuno i gomisiynu adolygiad o gyflogau uwch.

(i) <u>Statws Sengl</u>

Aeth y Pennaeth Personél â'r aelodau drwy'r adroddiad a rhoddodd ddiweddariad ar y broses werthuso swyddi a thrafodaethau gyda'r undebau llafur ar y strwythur gyflogau, codiadau a diogelu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau at Atodiad 1 i'r adroddiad ynglŷn â'r adolygiad cyflog a graddio ac amcangyfrif yr effaith ariannol dros y 6 blynedd nesaf.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau i'r swyddogion ynglŷn â'r trafodaethau gyda'r undebau llafur a safle'r Cyngor.

(Yn y pwynt yma ac yn dilyn y bleidlais ar argymhellion y Statws Sengl, fe ddychwelodd yr aelodau oedd wedi mynegi diddordeb yn ôl i'r Siambr).

(ii) Adolygiad o Gyflogau Uwch

Aeth y Prif Weithredwr â'r aelodau drwy'r adroddiad ac esboniodd y rhesymwaith dros fod angen adolygiad. Cyfeiriodd at yr anawsterau'r oedd Cynghorau Gogledd Cymru yn eu cael i gadw a recriwtio pobl i swyddi uwch o fewn y strwythur gyflogau cyfredol.

Cytunodd y Cynghorydd P J Marfleet y dylai'r Cyngor fod yn talu'r raddfa gywir ar gyfer uwch swyddogion a dangosodd fod rhai awdurdodau'n edrych ar gyflog oedd yn ddibynnol ar berfformiad ar gyfer staff uwch. Roedd yn amau'r angen i ddefnyddio ymgynghorwyr allanol i ymgymryd ag adolygiad yn enwedig gan fod y Cyngor yn defnyddio ymgynghorwyr yn barod ar gyfer recriwtio uwch swyddogion. Teimlai'r Cynghorydd Marfleet y dylai'r Cyngor gydweithio â Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru ar yr adolygiad neu drafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal adolygiad.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y rhesymau pam mai defnyddio ymgynghorwr allanol oedd y ffordd orau ymlaen. Nododd y gellid cynnwys system gyflogaeth yn ôl perfformiad yn yr adolygiad. Cynigiodd y Cynghorydd P J Marfleet, eiliwyd gan y Cynghorydd P A Dobb fod elfen gyflogaeth yn ôl perfformiad i'w gynnwys yn yr adolygiad.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) nodi'r safle cyfredol ar drafodaethau gyda'r undebau llafur;*

*(b) cymeradwyo'r trefniadau ariannu i gyfarfod â chostau adolygiad y Statws Sengl fel y'i nodir ym mharagraff 8 ac Atodiad A i'r adroddiad;*

*(c) nodi lle'r oedd trafodaethau'n parhau a chymeradwyo'r paramedrau yr oedd tîm trafod y Cyngor yn gweithredu ynddyn nhw, fel y'i nodir ym mharagraffau 4 a 5 yr adroddiad, a*

*(ch) chymeradwyo adolygiad o gyflogau uwch a'r adolygiad i gynnwys y posibilrwydd o system gyflog yn ôl perfformiad a beth ddylai'r sustem honno fod.*

Yn y pwynt yma (1.30 p.m.) fe ohiriwyd y cyfarfod ar gyfer cinio.

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a ailddechreuwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mawrth Gorffennaf 31 2007 am 2.00 p.m.

**PRESENNOL**

Cynghorydd K N Hawkins (Cadeirydd), J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, D Cooper, M Ll Davies, S A Davies, G C Evans, I M German, M A German, D Hannam, C L Hughes, N J Hughes, R W Hughes, N Hugh-Jones, G M Kensler, P J Marfleet, D Owens, G J Pickering, N P Roberts, S Roberts, G O Rowlands, J A Smith, D A J Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams ac E W Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Clerc y Sir a Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**

Y Cynghorwyr J M Davies, P A Dobb, P C Duffy, E C Edwards, H H Evans, S Frobisher, T K Hodgson, T R Hughes, D Jones, E R Jones, G A Jones, H Jones, P W Owen, S Thomas, G Williams ac R Ll Williams.

**SESIWN AGORED**

O gwblhau'r sesiwn flaenorol fe ailddechreuwyd y cyfarfod mewn sesiwn agored

**257 NEWIDIADAU I GYNLLUNIAU PENSIWN**

Cyflwynodd Pennaeth Personél adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor:-

- dderbyn y newidiadau angenrheidiol i'r polisi pensiwn ar leihad, a
- chytuno mai dim ond o fewn y cyfnod o 12 mis y bydd yr awdurdod yn caniatáu ceisiadau am drosglwyddiad.

Fe aeth y Pennaeth Personél â'r aelodau drwy'r adroddiad ac esboniodd y rhesymau dros y newidiadau oedd i'w gwneud i'r polisi pensiwn.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn y newidiadau angenrheidiol i'r polisi pensiwn ar leihad, a*

*(b) dim ond o fewn y cyfnod o 12 mis y bydd yr awdurdod yn caniatáu ceisiadau trosglwyddiad i'r cynllun pensiwn a hynny'n amodol ar y trefniadau trosiannol fel y'i nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.*

**258 POLISÏAU PERSONÉL**

Cyflwynodd y Pennaeth Personél adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r polisïau canlynol:-

- Polisi Amser i Ffwrdd "in Lieu"
- Polisi Atodiad y Farchnad
- Polisi Gweithrediadau Meddygol Dewisol

Fe aeth y Pennaeth Personél â'r aelodau drwy'r polisïau'n fyr a nododd eu bod wedi eu datblygu gyda'r undebau llafur yn ystod trafodaethau Statws Sengl.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) mabwysiadu'r Polisi Amser i Ffwrdd "in Lieu" a'i weithredu'n syth (Atodiad 1);*

*(b) mabwysiadu Polisi Atodiad y Farchnad a'i weithredu'n syth (Atodiad 2), a*

*(c) mabwysiadu'r Polisi Gweithrediadau Meddygol Dewisol a'i weithredu'n syth (Atodiad 3).*

**259 CYNLLUN CYDRADDOLDEB DRAFFT**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bolisi, Cysylltiadau a Gwelliant adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb drafft am 2007/2009. Adroddodd y Cynghorydd S A Davies fod yna ddau gynrychioliad hwyr gan Gomisiwn Cydraddoldeb Hiliol fyddai'n gofyn am fân addasiadau i'r Cynllun. Diolchodd i'r swyddogion am gynhyrchu'r Cynllun.

Fe atgoffaodd y Cynghorydd C H Williams y swyddogion i beidio esgeuluso Cynllun yr Iaith Gymraeg er iddo gydnabod nad oedd angen ei ymgorffori yn y Cynllun.

Mewn ymateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd D Hannam cyfeiriodd y Prif Weithredwr at adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau ar niferoedd ethnig oedd yn dangos fod amrywiaeth y gweithlu'n newid.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb am 2007-2009.*

**260 ADOLYGIAD O DDARPARIAETH 16-19 YN Y RHYL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Ysgolion a Dysgu Gydol Oes adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor:-

- ystyried argymhellion Adolygiad Addysg Caergrawnt o Ddarpariaeth 16-19 yn Y Rhyl, a

- nodi barn y Cabinet yn ystod ei ystyriaeth o'r adroddiad ar Fehefin 26 ac, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ffurfiol, fe fyddai'n angenrheidiol i'r Cyngor gychwyn ymgynghoriad statudol ar y mater a diwygio'r Cynllun Addysg Sengl, os byddid i weithredu'r opsiwn a argymhellwyd.

Aeth y Cynghorydd D Owens â'r aelodau drwy'r adroddiad a chyfeiriodd at yr opsiynau ar gyfer darpariaeth y dyfodol yn Y Rhyl. Teimlai nad oedd y status quo yn opsiwn a chyfeiriodd at y broses ymgynghori eang fyddai'n digwydd. Dywedodd y Cynghorydd Owens y cynhelid yr ymgynghoriad mewn partneriaeth â'r ysgolion yn yr ardal.

Mewn ymateb i wahanol gwestiynau gan aelodau adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes:-

- y byddai adolygiad darpariaeth 16-19 yn Y Rhyl yn ffurfio rhan o adroddiad llawn Addysg Caergrawnt;

- na fyddai adroddiad Estyn ar addysg yn Sir Ddinbych yn effeithio ar yr adolygiad cyfredol hwn;

- na fydd rhannau eraill o'r Sir yn cael ei heffeithio gan yr adolygiad hwn;

- y bydd ymgynghoriad statudol ar unrhyw gynigion i gau'r chweched dosbarth mewn ysgol;

- y byddai'r ymgynghoriad â'r ysgolion a effeithir yn dechrau ym mis Medi ac fe gynhelir cyfarfod arall gyda Chyngor Tref Y Rhyl;

- y cynhelir ymgynghoriad hefyd gyda Llywodraethwyr yr Ysgolion;

- y gwneir dadansoddiad llawn o'r atebolrwydd, d

- fe fydd dewis i rieni yn dal ar gael yn 2009.

I gloi dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cefnogi'r rhaglen addysg 14 – 19 yn llawn a'r galw am gyrsiau galwedigaethol.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) nodi argymhellion Adolygiad Addysg Caergrawnt ar Ddarpariaeth 16-19 yn Y Rhyl, a*

*(b) nodi barn y Cabinet yn ystod ei ystyriaeth o'r adroddiad ar Fehefin 26 ac, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad anffurfiol, byddai'n angenrheidiol i'r Cyngor gychwyn ymgynghoriad statudol ffurfiol i'r mater a diwygio'r Cynllun Addysg Sengl, os byddid i weithredu'r opsiwn a argymhellir.*

**261 SIR DDINBYCH – SIR DIWYLLIANT 2008**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor gytuno dosraniad o £35k o Gronfa Digwyddiadau Mawr i raglen "Sir Ddinbych – Sir Diwylliant '08" a nawdd y Sir yn Sioe'r Royal Welsh 2008.

Esboniodd yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Diwylliant a Threftadaeth y byddai nawdd Sioe'r Royal Welsh yn cael ei rannu gyda Chynghorau Wrecsam a Chonwy. Nododd y Prif Weithredwr mai digwyddiad Clwyd oedd hwn i fod ond bod Cyngor Sir Fflint wedi penderfynu peidio cyfrannu tuag at y digwyddiad.

Cyfeiriodd Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant at raglen Sir Ddinbych, Sir Diwylliant 2008 fyddai'n cydgysylltu â lansio agoriad llawn y 3 menter eiconig a ariennir gan Gyfalaf Cyngor ac Ewrop:-

- Nantclwyd y Dre - Ebrill 2008

- Canolfan Grefftau newydd Rhuthun - Gwanwyn 2008

- Sinema Ddigidol a Chanolfan Gelfyddyd Scala - Awst 2008

Nododd fod y Cyngor wedi bod yn gyfrannol mewn datblygu a chefnogi esblygiad rhaglen Prifddinas Diwylliant Gogledd Cymru 2008 mewn partneriaeth â Dinas Lerpwl sy'n Brifddinas Diwylliant Ewropeaidd 2008 ddynodedig.

Nododd Arweinydd y Cyngor nad oedd y Cynulliad Cymreig wedi darparu unrhyw arian ar gyfer digwyddiad 2008. Teimlai fod y digwyddiad yn bwysig iawn i Ogledd Cymru a'i fod yn darparu cysylltiadau cyffrous â Chyngor Dinas Lerpwl. Adroddodd y Cynghorydd N Roberts fod Corwen hefyd yn noddi Eisteddfod Powys yn 2008.

Teimlai'r Cynghorydd E W Williams y dylid lobïo'r Gweinidog Diwylliant newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer ariannu digwyddiad 2008.

Mewn ymateb i sylwadau aelodau adroddodd Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant:-

- nad oedd angen ariannu pellach i ddigwyddiadau 2008;

- y byddai'n bosib tynnu arian i lawr oddi wrth sefydliadau eraill, a

- fod rhaglen Sir Ddinbych yn awr yn ei le a bod angen yn awr i'r swyddogion farchnata'r digwyddiadau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo gweithredu dyraniad o £35k o gronfa Digwyddiadau Mawr i'r Gwasanaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant i weithredu rhaglen "Sir Ddinbych - Sir Diwylliant '08" a nawdd rhanedig y Sir Sioe'r Royal Welsh.*

(Fe ymatalodd y Cynghorydd E W Williams rhag pleidleisio ar y penderfyniad).

**262 APÊL CYNLLUNIO - WERN DDU, GWYDDELWERN**

Cyflwynodd Clerc y Sir adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i aelodau nodi mai'r cyngor a dderbyniodd y Cyngor gan Gwnsler oedd nad oedd yna unrhyw sail i herio yn yr Uchel Lys lythyr penderfyniad yr arolygwr oedd yn caniatáu'r apêl ynglŷn â Fferm Wynt Wern Ddu.

Nododd y Cynghorydd P J Marfleet ei fod yn derbyn cyngor y Cwnsler ac adroddodd ei fod wedi derbyn 93 e-bost yn gwrthwynebu datblygiadau'r fferm wynt. Teimlai'r Cynghorydd E W Williams y gallai'r Cynulliad alw i gof NCT8 ac adolygu'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r cyngor yr oedd y Cyngor wedi ei dderbyn gan y Cwnsler nad oedd yna unrhyw sail i herio yn yr Uchel Lys lythyr penderfyniad yr arolygwr oedd yn caniatáu'r apêl ynglŷn â Fferm Wynt Wern Ddu.*

**263 CANIATÂD I FOD YN ABSENNOL AR GYFER DYLETSWYDDAU ETHOLIAD**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad (ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor roi caniatâd i fod yn absennol i staff sy'n prosesu dyraniad a derbyniad pleidleisiau post ar gyfer pob etholiad (yn cynnwys isetholiadau a refferenda).

***PENDERFYNWYD*** *yn unol â hynny.*

Yn y pwynt yma roedd y cyfarfod yn ddigworwm ac nid ystyriwyd yr eitemau canlynol:-

Eitem 15 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd R E Barton.
Eitem 16 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd R E Barton.
Eitem 17 - Aelodaeth Pwyllgorau.
Eitem 18 - Blaen raglen Waith y Cyngor.
Eitem 19 - Eitemau Brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25 p.m.

*********